J
461
333
3719
872
.1
ROBA

UNIVERSITY OF TORONTO
VELUT ARBOR ÆVO

*From the Library*

*of*

PÁDRAIG Ó BROIN

2

Digitized by the Internet Archive
in 2009 with funding from
Ontario Council of University Libraries

http://www.archive.org/details/adolygiadarymchw00tapp

# ADOLYGIAD

AR

# "YMCHWILIAD EDWARDS

I

# Ryddid yr Ewyllys:"

YN CYNNWYS

I. ADRODDEB O GYFUNDREFN EDWARDS.
II. CANLYNIADAU CYFREITHLAWN Y GYFUNDREFN HON.
III. ARCHWILIAD GWRTHDDADLEUON.

GAN

## HENRY PHILIP TAPPAN, D.D., LL.D.

CYFIEITHIEDIG O'R AIL ARGRAFFIAD GAN

## JOHN EVANS, EGLWYS BACH.

GYDA RHAGDRAITH

## GAN Y PARCH. JOHN JONES (VULCAN).

---

"Yr wyf yn ofni fod llyfr Edwards (pa mor dda bynag ydoedd amcan yr awdwr) wedi gwneuthur llawer o niwaid yn Lloegr, yn gymaint a'i fod wedi sicrhau gwrandawiad ffafriol i'r athrawiaethau, pa rai ar ol amser (Samuel) Clarke, a restrir yn gyffredin yn mhlith cyfeiliornadau mwyaf peryglus Hobbes a'i ddysgyblion."—*Dugald Stewart.*

---

BLAENAU FFESTINIOG:
ARGRAFFWYD GAN JONES AC EVANS, FOURCROSSES
1872.

LIBRARY
14
JUL
1976
UNIVERSITY OF TORONTO

## CYNNWYSIAD.

# Adolygiad ar Ymchwiliad Edwards i Ryddid yr Ewyllys.


| | Tudal. |
|---|---|
| At y cyhoedd ... ... ... ... ... | 3 |
| Rhagdraith .. ... ... ... ... | 5 |
| Rhagarweiniad ... ... ... ... ... | 21 |


### I.

ADRODDEB O GYFUNDREFN EDWARDS.


| | | |
|---|---|---|
| Adran I. | Yn nghylch natur yr Ewyllys ... ... | 29 |
| | Darnodiad o'r Ewyllys ... ... | 29 |
| | Gwrthddrych Ewyllys ... ... ... | 30 |
| | Ewyllys a Dymuniad ... ... ... | 30 |
| II. | Yn nghylch Penderfyniad yr Ewyllys ... ... | 32 |
| | Ystyr yr Ymadrodd ... ... ... | 32 |
| | Cymhelliad ... ... ... ... | 32 |
| | Beth sydd yn cyfansoddi nerth y Cymhelliad? | 33 |
| | Beth yw yr ansawdd sydd yn gwneud i fyny y Duedd flaenorol? ... ... ... | 33 |
| | Yr ystyr yn mha un yr arferir yr ymadrodd DA ... | 34 |
| | Defnydd priodol y term MWYAF DYMUNOL gyda golwg ar Ewyllys ... ... .. ... | 35 |
| | Achos dewisiad yn y Syniad o'r mwyaf Dymunol | 36 |
| | Yn mha ystyr y dilyna yr Ewyllys Ddatganiad olaf y Deall ... ... ... ... | 40 |
| III. | Yn nghylch ystyr y termau Angenrheidrwydd, Anmhosibl, &c., a Damweiniaeth ... | 41 |
| IV. | Am y gwahaniaeth rhwng Angenrheidrwydd ac Anallu moesol a naturiol ... ... ... | 45 |
| | Anallu Naturiol a Moesol ... .. .. | 47 |
| | Anallu Cyffredinol ac Arferiadol, Neillduol ac Achlysurol ... ... ... ... | 50 |
| | Arfer gyffredin gyda golwg ar yr ymadrodd DIFFYG GALLU, neu ANALLU i weithredu mewn ffordd neillduol ... ... ... | 53 |
| V. | Yn nghylch y syniad o Ryddid a Gweithrediant Moesol | 55 |
| | Am ba beth y gall y briodoledd o Ryddid gael ei dal | 56 |
| | Gweithredydd Moesol ... ... ... | 56 |

| | Tudal |
|---|---|
| Crynodeb o Gyfundrefn Feddylegol Edwards ... | 58 |
| Edwards a Locke ... ... ... | 65 |

## II.

### CANLYNIADAU CYFREITHLAWN CYFUNDREFN EDWARDS.

*Canlyniadau a dynwyd gan Edwards ei hun.*

Adran I. Nad oes gallu hunan-benderfynol gan yr Ewyllys ... 69
II. Llywodraeth foesol Duw, trwy Gymhellion ... 70
III. Gall Bodau Moesol ddylanwi ar eu gilydd trwy gymhellion ... ... ... 70
IV. Cyfrifoldeb yn seiliedig ar y ffaith o Ewyllysiad ... 70
Y Gyfundrefn y'i golygu o barth Duw a Dyn ... 71

*Canlyniadau pellach wedi eu tynu oddiwrth Gyfundrefn Edwards.*

Adran I. Y Gyfundrefn yn arwain i Reidrwydd hollol a diammodol, neillduol a chyffredinol ... ... 72
II. Fod pob dygwyddiad y goreu yn bosibl yn ei le a'i berthynasau ... ... ... 75
III. Fod gwreiddyn drwg yn y Ddoethineb Anfeidrol ... 75
IV. Nas gall fod beiusrwydd ... ... 75
V. Nas gall fod dim yn ddrwg ynddo ei hun ... 76
VI. Utiliteriaeth ... .. ... 76
VII. Hunan-ddysgyblaeth yn annhosibl ... ... 77
VIII. Dysgwyliadau yn annog dynion i egnïo eu hunain, yn anghyson ac afresymol ... ... 79
IX. Ufudd-dod ac anufudd-dod i orchymynion, rhybuddion, a cheryddon Dwyfol, yn gyfartal reidiol ... 80
X. Y teimlad o euogrwydd a chywilydd, ac ofn atdaledigaeth, yn ddim ond effeithiau addysg ... ... 81
XI. Natur ac Ysbryd heb wahaniaeth rhyngddynt 82
XII. Cyfrifoldeb, os ydyw yn bod, yn perthyn yn gyfartal i bob gweithrediad meddyliol ... ... 83
XIII. Cyfundrefn o gosb yn ddim ond cyfundrefn mympwy 84
XIV. Trychineb yn unig mewn enw ... ... 84
XV. Twyll-ddadleuaeth ac ynfydrwydd heb fodolaeth wirioneddol ... ... ... 85
XVI. Tyngedfen ... ... ... ... 86
XVII. Pantheistiaeth, neu Oll-dduwiaeth ... 92
XVIII. Atheistiaeth, neu Ddi-dduwiaeth ... ... 94

---

Paham y mae dynion doethion a da wedi dal yr athrawiaeth o Ewyllys Reidiol, &c. ... ... 102
Moddau derbyniedig pregethu yn anghyson a'r Gyfundrefn hon ... ... .. 107
Egwyddorion sylfaenol Cyfundrefn Edwards yn cael eu hadolygu yn fyr .. ... .. 108

## III.

### ARCHWILIAD Y DADLEUON YN ERBYN EWYLLYS HUNAN-BENDERFYNOL A DAMWEINIOL.

Tudal.

Dadl Edwards, fod Ewyllys hunan-benderfynol yn cynnwys cyfres annherfynol o ddewisiadau ... 115
Y Ddadl hon yn seiliedig ar dybiaeth ... 115
Tybiaeth pe yn gywir, a ddinystriai bob Achosaeth... 116
Detholiad a phenderfyniad neillduol yn gyffredin i bob Achosaeth ... ... ... 117
Dadl y Gyfres Anfeidrol yn cael ei chyfarfod .. 118
Edwards mewn effaith yn caniatâu hunan-benderfyniad 122
Y pwnc o benderfyniad rheidiol y gwir bwynt mewn dadl ... ... ... ... 124
Edwards, yn ei ddadl yn erbyn Damweiniaeth, yn camgymeryd yn gystal ac yn cardota y cwestiwn .. 125
Darnodiant o Reidrwydd wedi ei sefydlu ar dir Edwards ei hun ... ... ... 127
Damweiniaeth, y'i darnodi ... ... 129
Damweiniaeth, yr unig feddylddrych gwrthgyferbyniol i reidrwydd ... ... ... 131
Pa fodd y gellir meddwl am yr Ewyllys dan y meddylddrych hwn ... ... ... 132
Yn mha le y gorwedd rheidrwydd achos, mewn gwrthgyferbyniad i achos damweiniol ... 133
Canlyniad gwneuthur Ewyllys yn achos damweiniol... 134
Ewyllys fel achos cyntaf ac effeithiol ... 135
Pa fodd y dichon Ewyllys ddifater ymarfer dewisiad 136
Yr Ewyllys a'r Rheswm ... ... 137
Actau yr Ewyllys yn debyg i wirioneddau cyntaf ... 139
Nad yw damcaniaeth Edwards yn rhyddhau penderfyniadau yr Ewyllys o'r un o'i hanhawsderau tybiedig 140
Y ddwy ddamcaniaeth wrthwynebol y'u cymharu yn neillduol ... ... ... ... 143
Difaterwch yr Ewyllys y'i egluro ... ... 146

## IV.

### DADL ODDIWRTH Y RHAGWYBODAETH DDWYFOL.

Yn y ddadl hon, cymerir Rhagwybodaeth i brofi rheidrwydd dygwyddiadau ... ... 153
Rhan Gyntaf y ddadl yn cael ei hystyried ... 154
Yr Ail Ran o honi yn cael ei hystyried... ... 156
Sicrwydd o dri math ... ... 158
Sylwadau, y'u symio i fyny ... ... 163
Trydydd Ran y ddadl yn cael ei hystyried ... 164
Graddfa Sicrwydd ... ... ... 167
Y geiriau Rhagwybodaeth a Chynwybod ... 176
Diweddglo ... ... ... ... 177

# AT Y CYHOEDD.

Dyma yr ymgais gyntaf a wnaed erioed i osod dim o weithiau yr awdwr galluog Dr. Tappan yn nghyrhaedd y Cymro uniaith. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'i Adolygiad yn y flwyddyn 1839; ac ymddangosodd dwy gyfrol arall o'i eiddo ar "*Athrawiaeth yr Ewyllys*" yn ystod y ddwy flynedd ganlynol. Ac y mae yn syn meddwl fod dros ddeng mlynedd ar hugain wedi cael myned heibio heb i ryw gyhoeddwr anturiaethus neu gilydd roddi rhyw gyfran o'r fath waith uwchraddol allan i'r byd mewn diwyg Gymreig. Ond ysywaeth dyna y ffaith. Heddyw, ar ol cymaint o amser, wele gais yn cael ei wneud i gyflenwi y diffyg. Dichon y bernir nad ydyw ond un egwan ac aflwyddiannus; ond modd bynag am hyny, gwnaed *cais* teg, a rhaid cymeryd y canlyniadau.

Cydnabyddir yn gyffredin mai un o nodweddau "yr oes hon" ydyw y sylw a delir ganddi i Athroniaeth yn ei gwahanol ganghenau. A diau nad oes yr un gangen o honi mor bwysig ag athroniaeth y meddwl dynol, yn enwedig yn ei gysylltiad ag egwyddorion sylfaenol Moeseg. A hyfryd yw meddwl fod rhai llyfrau a ddygwyd trwy y wasg Gymreig yn ddiweddar,—cymeriad rhai o brif erthyglau cyfnodolion y genedl,—ac arddull bresenol y pulpud—prif sefydliad ein gwlad,—yn effeithiol i gynnyrchu awydd am ymchwiliadau meddylegol yn mryd y Cymry. Ac oblegid hyn yr wyf yn ymwenieithio i mi fy hun fod pob llyfr o'r cyfryw natur yn amserol yn y Dywysogaeth yn y dyddiau hyn. Ac felly yr Adolygiad.

Er fy mod yn cael fy hunan yn mhlith y rhai sydd yn teimlo fod y ddadl rhwng Calfiniaid ac Arminiaid oddiar yr hen safle wedi myned yn ddiflas a diamcan, ac yn llawer mwy priodol i gymeryd ei lle yn hanes y pethau a fu, nag i gael ei hymladd drosodd drachefn; etto yr wyf yn ystyried fod y ddadl yn ei safle bresenol—meddyleg—yn nodedig o bwysig a dyddorol, ac fod yn anmhosib i neb, yn enwedig dynion ieuainc, feddu syniadau rhy glir a phendant ar y pynciau y dadleuir yn eu cylch. Tuag at gyrhaedd hyny, manteisiol iawn yw cael gafael ar waith y prif awdwyr ar y ddwy ochr i'r ddadl. Cafwyd y gwaith galluocaf sydd mewn bod ar un ochr i'r ddadl hon yn nghyhoddiaed "Ymchwiliad" Dr. Jonathan Edwards; a chynnysgaeddu y Cymry uniaith â moddion i weled yr ochr arall iddi ydyw yr unig esgusawd a wnaf finnau dros ymgymeryd a'r anturiaeth hyf a thrafferthus o gyhoddi Adolygiad Tappan mewn gwisg Gymreig. Ac i bob dyn call a theg, myfi a wn fod y cyfryw esgusawd yn ddigonol. Pa ochr bynag sydd yn iawn, mae yn deg i'r *ddwy* ochr gael dweyd eu llên.

O barth y cyfieithiad, goddefer i mi wneud dau sylw fel hyn,—hwn yw y cais cyntaf o eiddo y Cyfieithydd yn y maes yma o lafur, ac nid yw ar y goreu ond ieuanc ac anghyfarwydd. A pheth mwy a ddywedaf, mae cyfieithu gwaith athronyddol, dwfn, a beirniadol fel hwn, sydd yn ymdrin â'r pynciau mwyaf dyrys, a hyny yn y modd mwyaf llymresymegol a manwl, yn un o'r goruchwylion mwyaf anhawdd y gallasai cyfieithydd dibrofiad wynebu arno. Yr hyn yr amcanwyd atynt yn benaf ganddo, ydoedd *eglurder* a *ffyddlondeb*. Gwneuthur meddwl yr

awdwr yn eglur, a hyny hyd y gellid yn ei ddull neillduol ef ei hun, a gofalu beth bynag am beidio pylu dim ar fin, na gwanychu dim ar nerth ei resymiadau. Er y dymunaswn iddo fod yn bertfeithiach nag ydyw yn y naill a'r llall o'r pethau a nodwyd, ac o bosibl y gallaswn ei wneuthur yn fwy felly, pe na buasai genyf gynnifer o bethau eraill yn galw am danaf; ond dan yr amgylchiadau trafferthus yr oeddwn ynddynt ar y pryd, gwnaethum fy ngoreu. Os bydd i ryw un mwy galluog a hamddenol ddwyn allan well cyfieithiad o hono i afael fy nghyd-genedl, byddaf fi yn un o'r rhai mwyaf parod i ddiolch iddo am ei wasanaeth, ac i'w gefnogi yn ei ymgymeriad. Ac i aros peth felly, diolched rhyw un am hwn fel y mae.

Goddefer i mi hefyd i ddefnyddio y cyfleusdra hwn i gyflwyno fy niolchgarwch mwyaf diffuant i'r Parchn. John Jones *(Vulcan)*, a Thomas J. Humphreys, am y cymhorth gwerthfawr a gyfranasant yn yr achos;—y cyntaf trwy gyfansoddi ei Ragdraith campus pan yn llafurio dan gystudd personol nychlyd; a'r olaf trwy wasanaethu tua chymydogaeth Swyddfa yr Argraffwyr, pan yn nghanol trallodion teuluol dirfawr. Diamheu genyf y darllenir cyfansoddiad y cyntaf gan filoedd gyda blas ac er eu mantais a'u budd neillduol; ond cofied pob un o'r cyfryw nad ydyw yn debyg y buasai Vulcan wedi morthwylio y "bollt" hwn o'i eiddo, oni b'ai yr ymgymeriad hwn. Ac os felly, pa ryfedd fy mod yn teimlo mor hyderus yn eich cefnogaeth chwi. Feallai na chymer y brawd olaf a nodais yn angharedig arnaf am chwanegu fy mod yn golygu y gyfrol fechan hon i fod yn gofgolofn oesol am y chwe' blynedd dedwydd a manteisiol a dreuliais yn olynol yn ei gymdeithas. Derbynied fy niolchiadau cywiraf am yr holl arwyddion o ymddiried, a gofal, a pharch a amlygodd tuag ataf; ac am bob cyfleusdra a symbyliad i feddylgarwch a hunan-ddiwylliant a roddodd i mi yn ystod y blynyddau a nodwyd. Ac at y cwbl, diolch lawer iddo am y Rhagdraith.

Chwi a welwch fod yr Argraffwyr wedi gwneud eu gwaith yn dra rhagorol. Diangodd rhai gwallau bychain trwy ein dwylaw, ond gan nad ydynt yn bwysig, bydded i bob darllenydd eu cywiro drosto ei hun. Y rheswm paham fod y llythyren mor fechan ydyw awydd am allu gwerthu y gwaith yn rhad. Math o "argraffiad y bobl" ydyw. Ac y mae yn cael ei fwriadu yn benaf i bobl ieuainc, yn y rhai y teimla y Cyfieithydd ddyddordeb neillduol.

Yr wyf yn diolch hefyd i'r cyfeillion sydd yn dangos wyneb ffafriol i'm hanturiaeth, ac eisoes rai o honynt yn ddiarwybod i mi wedi sicrhau enwau llaweroedd o dderbynwyr.

Gan gyflwyno y llyfr hwn yn ei ffurf bresenol i ofal "Duw y gwirionedd," a dymuno ar iddo brofi yn effeithiol i ddeffroi meddylgarwch, cadarnhau annibyniaeth barn a myfyrdod, a chynnorthwyo fy nghyd-genedl anwyl i ffurfio syniad cywir o barth un o byncian dyfnaf a phwysicaf uwchanianaeth yn ei pherthynasau goruchaf, Y gorphwys

Yr eiddoch, &c.,

*Bethesda, Mai 23, 1872.* Y CYHOEDDWR.

# RHAGDRAITH.

I RAI personau ymddengys yr ymofyniad pa un ai rhydd ai caeth yw yr ewyllys ddynol yn ddibwys ac annyddorol. Edrychant ar y sawl a chwiliant i mewn i'r fath bynciau fel rhai yn "curo yr awyr," a synant fwy nag ychydig fod dynion call yn ymgymeryd â gwaith mor ddifudd a ffol. Llawer iawn mwy pwysig yn ngolwg llawer o honynt hwy yw chwilio i mewn i achau y bendefigaeth, neu awduriaeth ffugchwedlau, a phethau o'r fath. Eithr gyda phob dyledus barch iddynt hwy, ymddengys i ni eu bod yn camgymeryd yn fawr yn y peth hwn, ac fod ymchwiliad i gyflwr yr ewyllys yn ymchwiliad i un o'r testunau mwyaf pwysig a dyddorol a wnaed gan ddyn erioed.

Goddefer i wneud rhai nodiadau er ceisio dangos fod ein cred yn iawn yn y mater hwn.

1. *Mae dyn yn wrthddrych teilwng o efrydiaeth dyn.*

Os yw moroedd ac afonydd, mynyddoedd a dyffrynoedd, coedwigoedd ac anialdiroedd, llysiau ac anifeiliaid, yn teilyngu sylw yr efrydydd ac ysgrifell yr awdwr, pa faint mwy teilwng y rhaid fod *dyn*, arglwydd y greadigaeth isod? Am dano ef y dywed ysbrydoliaeth, "Canys gwnaethost ef ychydig îs na'r angylion, ac a'i coronaist â gogoniant ac â harddwch. Gwnaethost iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwylaw: gosodaist bob peth dan ei draed ef. Defaid ac ychain oll, ac anifeiliaid y maes hefyd, ehediaid y nefoedd, a physgod y môr ac sydd yn tramwyo llwybrau y moroedd." Yn awr, gan fod y pethau sydd wedi eu gosod o dan draed dyn, ac wedi eu gwneuthur er ei fwyn ef, yn destunau priodol ei fyfyrdodau, oni raid ei fod ef ei hun yn destun priodol iddo ei hun? Gofyn peth fel hyn yw ei ateb.

2. *Mae y meddwl dynol yn destun priodol efrydiaeth dyn.*

Erioed ni ddywedodd Dr. Watts well gwir na phan y dywedodd, "Y meddwl yw y dyn;" ac nid ydym yn gwybod fod neb erioed wedi ammheu cywirdeb y dywediad. A pha

Dosberthir galluoedd y meddwl dynol i dri phrif ddosbarth, —*Dealltwriaeth*, *Teimladrwydd*, ac *Ewyllys*. Ymddengys fod meddiant o bob un o'r galluoedd hyn yn anhebgorol angenrheidiol i bob goruchwylydd moesol yn llywodraeth fawr Duw. Bod heb allu i *wybod* ei ddyledswydd, nis gall fod yn gyfrifol, mwy na'r anifail distadlaf. Bod heb allu i *deimlo*, nis gall fod yn ddeilydd deddf foesol, mwy na'r gareg yn y mur. Bod heb allu i *ddewis* a *gwrthod*, nis gall fod yn gyfrifol am ei weithredoedd, mwy na'r olwyn am droi dan bwys y dwfr.

Ymddengys i ni fod pob un o'r galluoedd hyn yn deler cyfrifoldeb a gweinyddiadau moesol. Pa fodd y gellir dangos beth sydd dda neu pa beth sydd ddrwg i fôd heb allu i wybod gwahaniaeth rhwng drwg a da? A pha ddyben bygwth *cosbi* nac addaw *gwobrwyo* bôd nas gall fwynhau y wobr, na dyoddef y gosb? Ac er gwybod da a drwg, ac er meddu gallu i deimlo, ar ba dir y gellir ei wobrwyo na'i gosbi os nad yw ei *ewyllys yn rhydd?*

Er mor ardderchog a phwysig yw y gallu i *wybod* sydd gan ddyn, ymddengys fod y gallu i *ewyllysio* mor angenrheidiol iddo fel bôd moesol.

Yn awr, gan hyny, os yw y meddiant o ewyllys yn anhebgorol angenrheidiol i ddyn fel bôd moesol, oni raid fod y gallu hwn yn annhraethol bwysig; ac os felly, yn hawlio ei sylw dwysaf? Ar y tir hwn y mae prif alluoedd y meddwl yn ymddangos yn gyfartal bwysig. Ond ar rai cyfrifon y mae y gallu i ewyllysio sydd yn perthyn i'r meddwl yn hawlio sylw neillduol. Mae y dadleuon pwysig a *fu*, ac sydd, mewn perthynas i gyflwr yr ewyllys, ar unwaith yn crëu dyddordeb yn y mater. Mae yn ddiddadl fod llawer iawn mwy o ddadleu wedi bod rhwng duwinyddion a'u gilydd gyda golwg ar y gallu hwn sydd yn perthyn i'r meddwl dynol nag a fu o barthed i unrhyw allu arall perthynol iddo.

Addefwn yn rhwydd fod dadleuon lawer wedi bod rhwng athronwyr a'u gilydd mewn perthynas i'r rhanbarth y dealltwriaeth yn y meddwl dynol. Er fod Plato ac Aristotle wedi meirw er's canrifoedd lawer, y mae neillduolion gwahaniaethol eu hathroniaeth yn fyw o hyd, ac y mae y ddadl rhwng synwyrolwyr a chyngreddfwyr yn parhau yn ei holl rym. Addefwn hefyd fod y dadleuon hyn yn wir bwysig, o herwydd fod y prif bwnc mewn dadl yn gorwedd o dan seiliau cred a

gwybodaeth. Canfyddir y naill gyfundrefn athronyddol wedi ei chario allan i eithafion arswydus gan Hegel yn yr Almaen, a'r gyfundrefn arall wrthwynebol gan Auguste Comte yn Ffrainc. Gan yr olaf ceir materoliaeth Annuwiaidd, a chan y blaenaf ddelfrydiaeth Holldduwiaidd. Eithafnod y naill yw *Didduwiaeth;* eithafnod y llall yw *Holldduwiaeth.* Os credwn un, nid oes yr un Duw; os credwn y llall, y mae pob peth yn Dduw. Eithr terfyna y naill a'r llall yn yr un man —hollol anffyddiaeth. Nid yw y syniad mai Duw yw pob peth ond yr un mewn gwirionedd a'r syniad nad oes yr un Duw. Mae y *Pantheist* mor amddifad o Dduw ag yw yr *Atheist.*

Gwelir, ynte, fod y ddadl mewn perthynas i'r dealltwriaeth dynol yn wir bwysig. Eithr nid yw y ddadl mewn perthynas i'r *ewyllys ddynol* nemawr llai pwysig, a diau ei bod yn llawer mwy dyddorol i'r lluaws.

Mae y golygiad a goleddir am gyflwr yr ewyllys yn rhwym o ddwyn perthynas â'r pethau mwyaf cysegredig y gall dyn feddwl am danynt. Nid rhyw bwnc i'w olrhain er mwyn boddio chwilfrydedd yn unig yw hwn. Nid pwnc i'w olrhain o herwydd fod y meddwl dynol mor ardderchog yn unig yw chwaith. Mae ganddo hawliau llawer iawn uwch. Daw hyny i'r golwg fel y symudwn yn mlaen i alw sylw at y ddadl sydd rhwng duwinyddion a'u gilydd mewn perthynas i gyflwr yr ewyllys ddynol. Myn un dosbarth fod yr ewyllys yn gaeth, tra myn y dosbarth arall ei bod yn hollol rydd. Yn ol y golygiad olaf, y mae yr ewyllys yn *allu;* yn ol y golygiad blaenaf, nid yw ond *goddefydd* hollol. Y mae gan ddyn, yn ol y naill, nid yn unig ryddid i ddewis fel y gwna, ond hefyd i wneud *dewisiad hollol wahanol i'r hwn a wna;* eithr nid oes gan ddyn, yn ol y llall, ond yn unig ryddid *i wneud fel y gwna.* Yn ol golygiad y Rheidiolwyr, y mae dyn mor rhwym o ddewis yn ol y daioni ymddangosiadol fwyaf ar y pryd ag yw y dwfr i redeg tua'r môr. Unig ryddid y dyn, yn ol y golygiad hwn, yw rhyddid y dwfr, pan yn rhedeg tua'r môr, heb ddim i'w attal. Nis gall ddewis yn wahanol i'r modd y gwna, mwy nag y gall y dwfr redeg i fyny ar hyd yr afon yn lle rhedeg i lawr. Eithr yn ol y golygiad arall, y mae gan ddyn fodd i wneuthur dewisiadau hollol wahanol i'r rhai a wna, ac y mae achos ei ddewisiadau ynddo ef ei hun.

Nid dadl ddibwys yw hon. Mae y sel gyda pha un y mae

athronwyr a duwinyddion wedi cymeryd y mater i fyny o oes i oes yn dangos hyny. Ac heblaw hyny, y mae natur y dadleuon o blaid ac yn erbyn y gwahanol olygiadau ar y pwnc yn dangos ei fod yn un pwysig. Ar y naill law, dywedir nas gellir credu rhagwybodaeth na phenarglwyddiaeth Duw, os yw yr ewyllys yn rhydd. Ar y llaw arall, dadleuir nas gellir credu cyfrifoldeb dyn, na meddwl am weinyddiadau moesol o gwbl, os nad yw yr ewyllys yn rhydd.

Cyhudda y Rheidiolwyr eu gwrthwynebwyr o goleddu golygiad am gyflwr yr ewyllys ddynol ag sydd mewn effaith yn diorseddu Duw, a dymchwelyd ei orsedd yn deilchion i'r llawr. Cyhudda eu gwrthwynebwyr hwythau drachefn o goleddu golygiad ar y mater hwn ag sydd yn gwneud Duw yn ormesdeyrn creulon, a chwbl annheilwng o'i safle. Yn awr, pan y mae egwyddorion fel hyn yn dyfod i gwestiwn, rhaid fod y ddadl yn wirioneddol bwysig a dyddorol.

Mae llenyddiaeth Saesneg yn gyfoethog o lyfrau ar y pwnc hwn. Ceir llyfrau galluog ar y ddwy ochr i'r ddadl. Eithr y mae gweithiau ar y testun hwn yn yr iaith Gymraeg yn hynod o brinion. Gwir fod amrai erthyglau galluog ar y testun hwn wedi ymddangos yn awr a phryd arall yn ein cyfnodolion misol a chwarterol. Eithr hyd yn ddiweddar nid oedd cymaint ag un *llyfr* ar y pwnc yn ein hiaith.

Yn ddiweddar ymddangosodd traethawd galluog y Parch. Owen Williams ar "Rhyddid yr Ewyllys." Teilynga y llyfr hwn ddarlleniad pob Cymro sydd yn teimlo dyddordeb mewn duwinyddiaeth ac athroniaeth, a diau genym y teimla miloedd yn ddiolchgar iddo am ei wasanaeth gwerthfawr i'r gwirionedd. Yn ddiweddarach fyth, ymddangosodd yn ein hiaith un o'r traethodau goreu a gyhoeddwyd erioed ar y pwnc mewn unrhyw iaith. Yr ydym yn cyfeirio at draethawd Jonathan Edwards ar "Ryddid yr Ewyllys." Diau fod yn hysbys i bawb a allant ddarllen y nodiadau hyn, mai amcan mawr yr awdwr galluog yn y traethawd hwn yw profi *nad yw yr ewyllys yn rhydd.* Credwn y buasai "*Caethiwed yr ewyllys*" yn llawer gwell penawd iddo na'r un a ddewiswyd. Eithr, modd bynag am hyny, dywedwn yn hyf fod yn dda genym ei weled yn ein hiaith, a gobeithiwn y caiff ddarlleniad helaeth a meddylgar gan ieuenctyd ein gwlad. Credwn fod darllen y fath lyfrau yn rhwym o fod yn fanteisiol i ddynion ieuainc ddysgu meddwl. Eithr, wrth wneuthur y sylwadau

canmoliaethol hyn, ni fynem i neb dybio ein bod yn cymeradwyo golygiadau yr awdwr ar bwnc mawr ei draethawd. Meiddiwn ddweyd ein bod yn credu fod y golygiad a amddiffynir mor fedrus a selog gan yr awdwr talentog hwn, yn y traethawd o dan sylw, yn *hollol gyfeiliornus.* Eithr credwn, er hyny, y gwna wasanaeth i'n llenyddiaeth, ac y gall symbylu ein meddylwyr ieuainc i ymchwil pellach ar y pwnc pwysig hwn. Y mae un canlyniad gwerthfawr i gyhoeddiad y gwaith hwn yn ein hiaith mewn golwg genym yn bresenol. Gwel y darllenydd ein bod yn cyfeirio at gyfieithiad a chyhoeddiad "*Adolygiad ar Edwards*," gan Dr. Tappan.

Wedi y cwbl, rhaid i ni gyfaddef ein bod yn credu fod ymddangosiad traethawd Dr. Edwards yn ein plith fel cenedl yn gwneud fod eisieu i rywbeth arall hefyd ymddangos fel *antidote* iddo. Wel, ceir hwnw yn adolygiad Dr. Tappan. Os o wlad machlud haul y daeth yr ymosodydd ar ryddid yr ewyllys, o wlad machlud haul hefyd y daeth yr amddiffynydd. Do, caed yr *antidote* yn yr un lle a'r gwenwyn.

Credwn y bydd cyhoeddiad y gwaith rhagorol hwn o fantais fawr i'r gwirionedd. Bydd yn fanteisiol iawn er cynnorthwyo yr efrydydd ieuanc i *ddeall* Edwards, yn ogystal ag i ddangos iddo ganlyniadau rhesymegol ei syniad am gyflwr yr ewyllys.

Er fod yn dda genym weled meddyliau mawrion a gwreiddiol Edwards mewn gwisg Gymreig, y mae yn rhaid i ni addef fod yn well genym weled meddyliau dyfnion Tappan yn y wisg hòno. Ni bydd i ni amcanu rhyngu bodd neb trwy uno gyda y rhai sydd yn pentyru *gorganmoliaeth* ar ben traethawd Edwards ar yr ewyllys; oblegid yr ydym ni yn credu fod gweithiau Dr. Tappan ar yr ewyllys yn *llawn cystal* ag yntau, a dweyd y lleiaf. Dichon y bydd ambell i un yn barod i ddweyd ein bod yn arwynebol, bas, os nad hunanol, am feiddio gwneud datganiad fel hyn. Wel, os felly y gwneir, nid oes dim help. Gwell dyoddef hyny na ffol-ragrithio er mwyn cael ein tybio yn feddylwyr galluog gan ambell un sydd yn meddwl ei fod ef felly, o herwydd ei fod yn alluog i organmol rhai personau. Wrth gwrs, credwn fod Edwards yn feddyliwr o'r dosbarth cyntaf, ond credwn fod Tappan felly hefyd. Yn yr achos hwn, nid oes eisieu yspeilio Esau er mwyn i Jacob gael braint. Gellir fforddio i

*ganmol* y ddau awdwr galluog. Sieryd bywgraffydd Edwards, yn yr argraffiad Cymraeg o'r traethawd ar yr ewyllys, yn gryf am deilyngdod y gwaith o dan sylw. Bydd i ni ddyfynu ychydig frawddegau:—"Hyd yn hyn, o leiaf, ac y mae bellach gant ac unarddeg o flynyddoedd er pan gyhoeddwyd ef, saif fel craig yn ddiysgog yn nghanol pob tymhestl; ac yn ol dim a ymddengys yn awr, fe barha i sefyll yn ddiysgog felly hyd y diwedd. Mae gwrthddadleuon y rhan fwyaf o'i wrthwynebwyr yn chwalu oddiwrth eu gilydd pan gyffyrddont ag ef, ac yn diflanu o'r golwg yn ei bresenoldeb...Bydd y byd, ond odid, ganrif etto cyn y caiff lyfr cyffelyb iddo ar Ryddid."

Yr ydym ni yn cael ein tueddu i feddwl fod y bywgraffydd yn siarad braidd yn rhy gryf yn y brawddegau hyn. Ai tybed fod y bywgraffydd parchedig wedi darllen tipyn ar weithiau gwrthwynebwyr Edwards? Ai tybed y gwyddai y bywgraffydd parchedig am "Bledsoe's Theodicy," "Whedon on the Will," "Tappan on the Will," &c., pan yn gwneuthur y datganiadau *dogmatic* a ddyfynwyd? Credwn yn sicr na wyddai, canys y mae pob un o'r gweithiau hyn yn llawn mor alluog a gwaith Edwards ar yr ewyllys, er mor alluog ydyw hwnw. Mae mor sicr a bod yr haul yn ganolbwynt y gyfundrefn heulog fod pob un o'r awduron hyn wedi dwyn gwrthddadleuon yn erbyn golygiad Edwards am gyflwr yr ewyllys na feddyliodd y dyn mawr hwnw erioed ddim am danynt. Ac nid yw hyn yn y mesur lleiaf yn bychanu Edwards; oblegid er craffed ydoedd, yr oedd terfyn i'w graffder yntau fel marwolion eraill. Nis gall yr un dyn wybod y cwbl, a ffolineb yw awgrymu hyny am wybodaeth unrhyw ddyn ar unrhyw bwnc.

Ymddengys i ni fod y traethawd a orfolir wedi ei ddryllio yn arswydus gan yr awduron a enwyd, yn nghydag amrai eraill yn y wlad hon ac yn America. Oni ddangosodd Bledsoe fod cyfundrefn Edwards yn gwneuthur Duw yn awdwr pechod, ac yn gefnogydd egwyddorion moesol llawn mor isel ag eiddo y Jesuitiaid? Ac oni ddangosodd Whedon fod Edwards yn cymeryd yn ganiatâol y pwnc mewn dadl yn ei brif resymiad yn y traethawd dan sylw, ac fod ei olygiad am gyflwr yr ewyllys yn arwain i'r canlyniadau mwyaf arswydus?—megys gwneuthur Duw yn awdwr gwirioneddol pob drwg naturiol a moesol, a'i osod allan fel bôd creulon a

diegwyddor. A dyma Dr. Tappan etto. Onid yw yntau wedi profi gyda rhesymau mor sicr a'r eiddo Euclid fod cyfundrefn Edwards yn arwain yn anocheladwy i'r anghysonderau mwyaf arswydus ag y gellir meddwl am danynt? Credwn ei fod, a theimlem yn ddiolchgar i'r neb a allai ddangos yn amgen. Nodwn rai o'r cyfeiliornadau hyny.

(1.) Rheidrwydd haiarnaidd, diammodol, a hollol.

(2.) Nas gellir yn gyfiawn feio dyn am ddim a wna.

(3). Nas gall yr un dyn wneuthur drwg na da ond er mwyn boddio ei deimlad ei hunan.

(4.) Nad yw teimlad o euogrwydd ond effaith camaddysg a rhagfarn.

(5.) Fod pob drwg wedi deillio o anfeidrol ddoethineb.

(6.) Fod dyn mor gyfrifol am ei feddyliau a'i deimladau ag ydyw am ei ewyllysiadau.

(7.) Fod tyngedfan haiarnaidd yn teyrnasu trwy'r cydfyd.

(8.) Fod Holldduwiaeth, neu Bantheistiaeth, yn wirionedd.

(9.) Fod Atheistiaeth yn wirionedd.

Wel, dyma ddigon ar hyn o bryd. Ceir y gweddill, yn nghyda'r rhesymau, yn nghorff yr Adolygiad ag y bwriedir i'r llinellau hyn wasanaethu fel math o Ragdraith iddo.

Yn awr, carem wybod yn mha le yn nhraethawd Edwards y ceir atebion i'r gwrthddadleuon a nodwyd. Pwy a all ddangos i ni y lle y ceir hyd i'r *swyn* sydd yn "chwalu y gwrthddadleuon" hyn, neu yn gwneuthur iddynt "ddiflanu o'r golwg yn ei bresenoldeb?" Neu, a all rhywun ddangos fod yn bosibl i gyfundrefn sydd wedi ei chylchynu gyda y fath ganlyniadau marwol "barhau i sefyll yn ddiysgog hyd y diwedd?" Ein cred ni yw fod hyn mor anmhosibl a chrëu byd. Na, saif y golygiad dan sylw am gyflwr yr ewyllys dan lwyth o anghysonderau anhawddach eu symud na'r Wyddfa fawr yn Arfon. Gwyddom fod yr anfarwol Edwards wedi gwneud ymdrechion cawraidd i geisio rhyddhau ei gyfundrefn oddiwrth *rai* o'r anghysonderau a nodwyd; ond gwyddom hefyd fod ei ymdrech yn hollol aflwyddiannus. Er enghraifft, ceisiodd ryddhau ei *system* oddiwrth y cyhuddiad o wneuthur Duw yn awdwr pechod, ac o ddinystrio cyfrifoldeb dyn. Eithr yn lle gwneud hyny, ni wnaeth ond profi fod y *gwirionedd* yn drech nag athrylith a nerth meddwl. Os methodd *Edwards* a rhyddhau ei hoff gyfundrefn oddiwrth y canlyniadau erchyll hyn, nid oes ond

gobaith gwan y gwna neb ar ei ol ef. Nid gwendid yr awdwr oedd yr achos iddo fethu, ond gwendid y pwnc.

Cyn sychu ein hysgrifell, goddefer i ni gymeryd trem ar draethawd Edwards yn nghanol rhai o'r anghysonderau marwol a'i cylchynant ar bob llaw. Cyhuddir ef o gymeryd yn ganiatâol, yn ei brif resymiad, y pwnc mewn dadl, sef fod dyn bob amser yn rhwym o ddewis y daioni ymddangosiadol mwyaf ar y pryd. Dichon y gallem ddangos ein meddwl yn eglurach mewn enghraifft neu ddwy. Dacw ddyn ieuanc mewn swydd o ymddiried yn canfod cyfle manteisiol i gymeryd peth o eiddo ei feistr. Mae ymrysonfa yn ei feddwl beth i'w wneud. Cymhellir ef gan awyddfryd at hunan-fwyniant i ddefnyddio y cyfleusdra, a mwynhau ei hun ar draul yspeilio ei feistr; ond dywed cydwybod wrtho am beidio a gwneud y mawr ddrwg hwn, ac mai adyn annheilwng fydd os gwna y fath beth. Y mae y dyn ieuanc yn penderfynu gwrando ar lais cydwybod, ac, mewn canlyniad, y mae yn ymddwyn yn onest. Os gofynir paham y gwnaeth hyn, dywed Edwards mai yr unig ateb rhesymol a ellir ei roi i'r gofyniad yw, fod cymhellion cydwybod y cryfaf ar y pryd ar feddwl y dyn. Os gofynir, sut y gwyddys mai cymhellion cydwybod oedd y cryfaf ar y pryd? Atebir, fod y ffaith fod y dyn wedi dewis gweithredu fel y gwnaeth yn profi hyny; oblegid, meddir, pe buasai y cymhellion eraill y cryfaf, fel arall y buasai yn gweithredu. Hyny yw, cymerir y pwnc mewn dadl yn ganiatâol er mwyn ei brofi!

Mae yn anhawdd meddwl am enghraifft fwy tarawiadol o resymu mewn cylch, neu o gardota y pwnc mewn dadl na hon. Eithr yn mha le y mae y prawf nad yw dynion yn aml yn dewis y cymhellion gwaelaf yn mhob ystyr? Onid yw pob dewisiad ffol yn wrthodiad y cymhellion cryfaf, ac yn ddewisiad y rhai gwanaf? Oni wyr miloedd o bechaduriaid ein gwlad eu bod yn gwrthod y cymhellion cryfaf tra yn byw heb grefydd?

Ond symudwn yn mlaen i gymeryd golwg ar y modd y ceisia Edwards ateb yr wrthddadl fod ei olygiad am gyflwr yr ewyllys yn dinystrio cyfrifoldeb dyn. Dywed fod y dyn yn cael *gwneud fel y myno,* ac nad oes un lywodraeth wladol nad yw yn golygu fod yn eithaf teg i ddal y deiliaid yn gyfrifol os byddant yn cael *gwneud fel y mynont.* Gofynir pa ryddid mwy na hwn sydd eisieu? Ar y mater hwn

gwnawn ddau sylw. Y cyntaf yw hwn. Mae llywodraethau gwladol yn cymeryd rhyddid ewyllys dyn yn ganiatâol bob amser pan yn cosbi y troseddwr. Mae y barnwr pan yn collfarnu dyn i'w roddi i farwolaeth am lofruddio dyn arall yn cymeryd yn *ganiatâol*, gan nad oedd neb yn ei orfodi i wneud y weithred, y *gallasai* ac y *dylasai* beidio ei gwneud. Pe credasai nad oedd gan y troseddwr fodd i *ewyllysio* yn wahanol i'r modd y gwnaeth, ni buasai yr un barnwr goleuedig yn ei *feio o gwbl.* Ond yr ydym yn sylwi, yn yr ail le, ar y mater hwn, mai ag *ymddygiadau allanol* dynion yn unig mae a fyno llywodraethau gwladol, fel y cyfryw, tra y mae llywodraeth foesol Duw yn ymwneud ag *ewyddorion* neu *amcanion* dynion. *Amcan* y dyn yw y peth mawr sydd yn rhoddi cymeriad iddo yn ngolwg llywodraeth Duw; ond ei *ymddygiadau allanol* yw pobpeth llywodraethau gwladol. Gan fod y llywodraeth flaenaf a nodwyd yn dal ei deiliaid yn gyfrifol am eu *hamcanion*, ac mai enw arall ar ewyllysiadau yw amcanion, rhaid fod *ewyllysiadau* deiliaid y llywodraeth hon ar yr un tir ag *ymddygiadau allanol* yn eu perthynas â llywodraethau gwladol. Yn awr, fel nas gellir meddwl y gwna un lywodraeth wladol oleuedig gosbi ei deiliaid am wneuthur yr hyn ag yr oedd gallu allanol cryfach na hwy wedi eu gorfodi i'w wneuthur, felly hefyd nis gellir meddwl y gwna llywodraeth Duw gosbi dyn am *ewyllysio* yr hyn nas gallasai beidio ei ewyllysio. Gwelir, ynte, nad yw appeliad Edwards at opiniynau ac arferion llywodraethau gwladol yn gwasanaethu dim ar ei achos. Erys ei gyfundrefn o dan y cyhuddiad difrifol o fod yn hollol anghyson gyda chyfrifoldeb dyn.

Cyn rhoddi heibio, cymerwn olwg ar un wrthddadl arall yn erbyn cyfundrefn Edwards. Yr wrthddadl hòno yw fod ei olygiad am gyflwr yr ewyllys yn gwneud Duw yn awdwr pechod. Dichon y bydd rhywun yn barod i ofyn, ar ba dir y cyhuddir y gyfundrefn dan sylw o wneud Duw yn awdwr pechod? Mae yr atebiad yn hawdd ac eglur. Dywed Edwards fod yn rhaid i bob dewisiad feddu *achos*, ac mai yr achos bob amser yw y cymhellion cryfaf ar y pryd gerbron y meddwl. Gan fod ewyllysiadau dyn yn ol y cymhellion hyn, fel eu heffaith angenrheidiol, mae yn eglur nad oes gan y dyn ddim modd i ymyraeth a'r cymhellion o gwbl. Fel nas gall y môr symud atdyniad y lleuad, ond ufuddhau iddo, felly hefyd, yn ol y

golygiad dan sylw, nis gall dyn feddu llywodraeth yn y byd dros y cymhellion cryfaf fydd gerbron ei feddwl, ond ufudd-hau iddynt o angenrheidrwydd. Pwy gan hyny sydd yn llywodraethu y cymhellion hyn? Pwy hefyd ond Duw? Nis gellir meddwl am neb arall heb wadu goruwchlywodraeth Duw dros y byd. Llywydd mawr y byd yw yr achos o honynt oll. Gall fod nifer o is-achosion o'r achos cyntaf hyd at y dewisiad, ond y maent mor angenrheidiol a llanw y môr. Heb yr achos cyntaf, nis gallasai yr olaf fod. Fel hyn y mae cyfundrefn Edwards yn cynnwys fod Duw yn achos pob drwg.

Ond pa fodd y ceisia Edwards osgoi y cyhuddiad ofnadwy hwn? Ai trwy geisio dangos nad oes gysylltiad angenrheid-iol rhwng ewyllysiad dyn a'r cymhellion a drefnwyd gan Dduw? Na, dim o'r fath beth. Yr oedd Edwards yn rhesymwr rhy dda ac yn feddyliwr rhy graff i feddwl amcanu gwneud hyny. Gwyddai nas gallai wneud hyny ond trwy ymwrthod yn llwyr a'i hoff gyfundrefn. Beth a wna ynte? Wel, ceisia wneud tri neu bedwar o bethau. Ceisia osgoi y cyhuddiad trwy ddweyd fod gwahaniaeth mawr rhwng tybio fod a fyno Duw a pheth trwy ei *oddefiad*, a bod a fyno a pheth trwy ei *gynnyrchu*. Ond y mae efe trwy ei draethawd yn dweyd fod yn rhaid mai y cymhellion sydd yn *cynnyrchu* pob ewyllysiad, da a drwg. Eithr, os felly, i ba ddyben y sonir am *oddefiad?* Cyn y gall efe son am *oddefiad* yn yr achos hwn, rhaid iddo ymwrthod a'i holl system, a newid plaid.

Ceisia ein hawdwr osgoi y cyhuddiad dan sylw hefyd trwy ddweyd fod amcanion Duw, pan yn cynnyrchu yr ewyllys-iadau, yn santaidd a da. Mewn geiriau eglur, dywedir fod amcan da yn gwneud pechod yn dda! Os yw yr esboniad hwn yn iawn, y mae egwyddorion moesol y Jesuitiaid yn iawn hefyd! Os yw yr esboniad hwn yn iawn, y mae pechod yn cael ei achosi gan Dduw i gyrhaeddyd amcanion santaidd. Os gwir hyn, y mae y pechadur gwaethaf yn gwneud ewyllys Duw yn mhob peth! Os gwir hyn, y mae Duw yn achos llofruddiaeth, er ei fod yn dweyd, "Na ladd!" Gallasem fyned yn mlaen y ffordd hon ——; ond digon bellach ar y fath *apology*. Mae yn drueni fod dyn o alluoedd a duwioldeb Edwards wedi bod mor anffodus a derbyn cyfundrefn mor farwol i brif athrawiaethau crefydd. Mewn

gwirionedd, nid ydym yn synu at y ffaith fod Atheistiaid yn ddieithriad yn Rheidiolwyr hefyd.* Iddynt *hwy*, gwna Rheidiolaeth y tro yn eithaf da. Yn wir, nis gallant hwy, yn gyson, dderbyn y gyfundrefn gyferbyniol am gyflwr yr ewyllys. Mae hòno yn farwol i anffyddiaeth, ac y mae anffyddiaeth yn farwol i hòno.

Yr ydym yn awr yn cyflwyno gweithiau Edwards a Tappan i sylw y darllenydd, gan obeithio y darllenir y naill a'r llall yn bwyllog a diragfarn.

*Tregarth, Hydref 28, 1871.* J. JONES, *(C.)*

---

* Gwel yr Attodiad.

# ADOLYGIAD

AR

"YMCHWILIAD EDWARDS

I

# RYDDID YR EWYLLYS."

GAN

HENRY P. TAPPAN, D.D., LL.D.

# RHAGARWEINIAD.

Y MAE ymdriniaethau yn nghylch yr ewyllys yn anffodus wedi cael eu cymysgu gyda mympwyon duwinyddol, a thrwy hyny wedi arwain i ddadleuon duwinyddol, pryd y bydd casgliadau athroniaeth yn cael eu penderfynu yn gyffredin yn mlaen llaw, gan ragdueddion personau at ysgol neu sect neillduol. Fel rhan o gyfansoddiad y meddwl, rhaid darostwng yr ewyllys i drefn gyfreithlawn ymchwiliad meddylegol, a sefyll at y canlyniad. Os ydym yn wynebu ar faes ymwybodaeth ddynol yn ysbryd rhydd, diofn, a gonest sylwadaeth Bacon, mewn trefn i ymgyrhaedd at ddeddfau y rheswm neu y dychymyg, beth ddylai ein lluddias rhag dilyn yr unrhyw gwrs goleuedig gyda golwg ar yr ewyllys?

Ai o herwydd fod cyfrifoldeb a dyledswyddau moes a chrefydd yn fwy uniongyrchol gysylltiedig gyda yr ewyllys? Teifl hyn yn wir ddifrifwch o amgylch ein hymchwiliadau, a rhybuddia ni i arfer gofal; ond ar yr un pryd y mae mor bell oddiwrth lesteirio ymchwiliad, fel mae yn rhoddi y rheswm uchaf paham y dylem ei wasgu hyd at derfyn eithaf ymwybodaeth. Nis gall dim yn ddiau wasanaethu mwy er sefydlu ein hargraffiadau o rwymedigaeth foesol, neu agor ein llygaid ar wirionedd ac ardderchogrwydd anninystradwy crefydd, na gwybodaeth glir ac addfed o'r hyn sydd yn ein gwneuthur yn ddeiliaid dyledswydd. Fel un sydd yn credu mewn athroniaeth, yr wyf yn hawlio rhyddid meddwl annherfynol, a thrwy feddwl yr wyf yn gobeithio cyrhaedd at y gwirionedd. Fel un sydd yn credu yn y Beibl, yr wyf bob amser yn rhag-ddyfalu y gwna gwirioneddau at ba rai y'm harweinir gan athroniaeth gytuno gyda ei ffeithiau a'i athrawiaethau. Os ymddengys fod yn y canlyniad wrthdarawiad, gesyd arnaf y ddyledswydd o chwilio fy athroniaeth a'm deongliad o'r ysgrythyr drosodd drachefn. Trwy y ffordd hon, gallaf yn y diwedd symud yr anhawsder, ac nid hyny yn unig, ond hyd yn nod ennill oddiwrth y gwrthdarawiad ymddangosiadol olygiad dyfnach i'r naill a'r llall—athroniaeth a chrefydd. Os na ellir symud yr anhawsder, yna erys yn bwnc poenus. Ond nid yw yn canlyn, modd bynag, fod yn rhaid i mi oblegid hyn naill ai ymwrthod â'r casgliad athronyddol, neu ynte symud y testun Beiblaidd.

Pe buasai yr oll o athroniaeth, neu ei gwirioneddau arweiniol, mewn gwrthwynebiad i'r oll o ddatguddiad, neu i'w brif wirioneddau, yna y mae yn amlwg y'n gosodid dan yr angenrheidrwydd o wadu y naill neu

y llall; ond gan y byddai gwadu athroniaeth yn ddinystr ar reswm, yna ni byddai yn ein bodaeth mwyach unrhyw egwyddorion ar ba rai y gallai datguddiad gael ei dderbyn. Gan hyny, gwnai y fath wrthdarawiad wrthbrofi hawliau unrhyw gyfundrefn ei bod o'r nef. Ond gadewch i ni dybio, ar y llaw arall, fod ffeithiau y Beibl yn cael eu cynnal i fyny, ac fod eu hawdurdod ddwyfol a'u gwirionedd yn cael eu gwneud yn fwy amlwg gyda phob cynnydd o eiddo athroniaeth, onid oes genym ni reswm i fendithio yr ymchwiliadau a'n galluogodd i ddirnad yn fwy clir y goleuni o'r nef? Nid yw olrheiniad athronyddol yn cael ei ofni, ond yn hytrach ei hoffi, gan gyfundrefn o wirionedd. Pan gaffo y profiad mwyaf tanllyd o feddwl y llewyrcha ei hardderchogrwydd yn fwyaf dysglaer. Ni wnai dim wanychu fy ffydd yn y Beibl yn ogymaint a'r ffaith o fod dan orfod arswydo am ei ddiogelwch pryd bynag yr hawliwyf ac yr ymarferwyf uchfraint rheswm uwch ei ben. A'r hyn wyf yn ei ddweyd am y Beibl, yn yr oll o hono, wyf yn ei ddweyd am athrawiaethau yr honir eu bod wedi eu tynu allan o hono.

Pan y mae duwinyddion yn rhesymu oddiwrth wirioneddau y Beibl at wirioneddau eu hathroniaeth, y maent yn rhwym o wneud hyny dan un o ddau olygiad; naill ai dan y golygiad fod yr olaf yn gasgladwy oddiwrth y cyntaf, neu ynte eu bod yn gwasanaethu i gyfrif am, a chadarnhau y cyntaf. Mor fynych y mae eu hathroniaeth wedi ei thynu o ryw ffynnonell arall, neu ei throsglwyddo i lawr trwy hen awdurdod, a'i gwneuthur yn barchus trwy gysylltiadau bwriadol a damweiniol; ac yn hytrach na sefyll at symlrwydd y Beibl, efallai y bwrir yr athrawiaeth yn *mold* yr athroniaeth.

Gwireb a ganmolir gan reswm, ac a sefydlir gan brofiad yw, fod i ni wrth wneuthur ymchwiliad i ryw wyddor benodol, gyfyngu ein hunain yn llwyr at byngciau a dulliau y wyddor hòno, heb geisio nac ofni d'od i wrthdarawiad gydag unrhyw wyddor arall. Gallwn deimlo yn hyderus y ceir, yn y pen draw, fod gwyddor yn cydio wrth wyddor, gan ffurfio cyfundrefn gyffredinol a chyson o wirionedd; ond etto nis gall hyn mewn un modd ffurfio egwyddor ein hymchwiliadau neillduol. Nid yw y cymhwysiad o'r wireb grybwylledig yn llai cywir ac angenrheidiol pan mae athroniaeth neu wyddor yn dal perthynas â datguddiad. Y mae yn bwnc o'r dyddordeb uchaf os, yn nadblygiadau y cyfryw athroniaeth neu wyddor, y canfyddir eu bod yn cydgordio gyda datguddiad; ond er hyny nis gellir derbyn hyn fel yr egwyddor ar ba un y dylem ni amcanu ei ddadblygu. Os oes yna gydgordiad, rhaid iddo gael ei ddadlenu; nis gall gael ei ddyfeisio a'i wneuthur.

Penderfynodd y Cardinaliaid ar awdurdod yr ysgrythyr, fel y tybient, beth oedd raid i wyddor seryddiaeth fod, ac a orfodasant yr hen Galileo i roi celwydd i'w reswm; ac ar ol hyny, trwy yr un ffordd, gwnaed cais, os nad at sefydlu, o leiaf at gyfyngu, olrheiniadau y wyddor o

ddaeareg. Y mae gwyddor, modd bynag, wedi dilyn ei gyrfa ddiysgog yn anwrthwynebol, gan benderfynu ei therfynau a'i dulliau ei hun, dethol ei meusydd ei hun, a rhoddi i'r byd ei darganfyddiadau ei hunan. Ac a ydyw gwirionedd y Beibl wedi ei ansefydlu? Nac ydyw. Y mae coffadwriaeth *Galileo* a *Cuvier* yn cael ei fendithio gan yr un gwefusau ag sydd yn enwi enw Crist.

Yn awr yr ydym yn gofyn am yr un annibyniaeth ymchwiliad gydag athroniaeth y meddwl dynol, ac yn ogymaint felly gyda golwg ar yr ewyllys a'r un gynneddf arall. Yr ydym yn ewyllysio gwneud hwn yn ymholiad meddylegol hollol. Na fydded i ni ofyn pa athroniaeth a hawlir gan Galfiniaeth mewn gwrthwynebiad i Forganiaeth ac Arminiaeth, neu a hawlir gan yr olaf mewn gwrthwynebiad i Galfiniaeth; ond ymofynwn yn syml am ddeddfau ein bodaeth. Efallai y gallwn bresenoli yn y diwedd enghraifft arall o wirionedd a geisiwyd yn onest a diofn trwy ymarferiad cyfreithlawn ein rheswm naturiol, sydd yn gyson gyda gwirioneddau datguddiedig.

Un peth sydd sicr; nid yw y Beibl yn proffesu bod yn gyfundrefn ffurfiol o athroniaeth feddyliol, mwy nag yr hona fod yn cynnwys gwyddorau seryddiaeth a daeareg. Os ydyw athroniaeth feddyliol yn cael ei rhoddi ynddo, rhoddir hi mewn ffeithiau hanesiol, unigol a chenedlaethol, mewn barddoniaeth, prophwydoliaeth, deddf, a moesddysg; ac fel peth a roddir felly, rhaid iddi gael ei chasglu yn gyfundrefn trwy olrheiniad a beirniadaeth athronyddol.

Ond nis gellid gwneud olrheiniadau ar y ffeithiau allanol hyn yn annibynol ar olrheiniadau ar ffeithiau mewnol—ffeithiau ymwybodaeth; a thrwy yr un ffordd yn unig y gellir caffael egwyddorion beirniadaeth athronyddol hefyd. Iddo ef, yr hwn nad yw yn edrych i mewn iddo ei hun, byddai barddoniaeth, hanesiaeth, deddf, moesddysg, a gwahaniaethau cymeriad ac ymddygiad, o angenrheidrwydd yn annealladwy. Gan hyny, nis gall neb olrhain y Beibl am ei athroniaeth os nad yw eisoes wedi darllen athroniaeth yn ei fodaeth ei hun. Cawn weled fod hyn wedi ei brofi yn helaeth trwy holl hanes barnau duwinyddol. Y mae pob esboniwr ar y Beibl, pob awdwr credo, pob sylfiaenydd sect, yn amlwg ddigon yn datguddio egwyddorion ei athroniaeth, yn nghyda'u dylanwad arno ef ei hunan. Y mae pob dyn sydd yn ymsynio ac yn amcanu egluro, o angenrheidrwydd yn athronydd, a chanddo ei athroniaeth. Yn hytrach, gan hyny, na phroffesu gwrthwynebu y Beibl i athroniaeth, neu yn lle yr ymhoniad o fod yn tynu ein hathroniaeth yn unig ac yn uniongyrchol o'r Beibl, bydded i ni ddatgan yn agored nad ydym yn diarddel athroniaeth, ond yn ei cheisio yn ei meusydd brodorol ei hun; ac yn gymaint ag fod iddi fodolaeth a gwasanaeth, a'i bod yn perthyn i'r oll a wyddom ac a wnawn, ein bod, gan hyny, yn benderfynol o'i herlyn mewn ysbryd gwir awyddus am gael y gwirionedd.

Yr wyf yn gwybod yn dda fod athrawiaeth yr ewyllys wedi ei chysylltu mor agos gydag enwau mawrion a pharchedig, ac wedi gwisgo mor faith nodwedd dduwinyddol, fel mae bron yn anmhosibl ei dattod oddiwrthynt, a'i gosod wrthi ei hun. Y mae awdurdod dynion mawr a da, a buddiannau duwinyddol, yn fynych yn dylanwadu yn anymwybyddol ar ein rhesymiadau, hyd yn nod pan fyddom yn amcanu bod yn deg, anmhleidiol, ac annibynol.

Oddiar barch i'r hen gysylltiadau a'r rhagfarnau hyn, ac oddiar yr awydd i osgoi pob dyeithrwch afreidiol yn y modd o drafod hen bwnc, a mwy na'r cwbl i gyfarfod yr hyn a ystyrir gan lawer yr ymresymiadau trymaf a mwyaf cloadol ar y pwnc hwn, yr ydwyf yn agor y ddadl hon trwy ddwyn allan ADOLYGIAD ar "YMCHWILIAD EDWARDS I RYDDID YR EWYLLYS." Nid oes yr un gwaith o awdurdod uwch na'r eiddo ef yn mhlith y rhai sydd yn gwadu gallu hunan-benderfynol yr ewyllys; na'r un ar y pwnc hwn sydd wedi galw allan edmygedd mwy cyffredinol am graffder meddwl a chywreinrwydd mewn rhesymeg. Credwyf fod yna argraff yn ffynu y rhaid i Edwards gael ei gyfarfod yn deg mewn trefn i wneud unrhyw symudiad yn mlaen yr ochr arall i'r ddadl. A'r ymgais hon, a dim llai, wyf fi yn ei chynnyg yn awr, yr hon, er y gallai ymddangos yn feiddgar, etto sydd onest, ac a wneir er mwyn y gwirionedd. Y mae gwirionedd yn fwy a pharchedicach nag enwau dynion mawr a pharchedig, neu sectau cryfion a pharchus; ac nis gallaf gredu fy mod yn ceisio y gwir gyda chariad a pharch priodol, os nad ydwyf yn ei geisio, gan hyderu ynddo ei hun yn unig, heb ymofyn awdurdod dynion i'w gynnal, nac ofni d'od i wrthdarawiad gyda hwy, pa mor fawr bynag y dichon eu hawdurdod fod. Nid yw yn llai pwysig i mi feddwl a chredu yn iawn, nag ydyw i mi weithredu yn iawn; ac fel y mae iawn weithrediad yn rhinweddol pan yn rhydd ac yn cael ei gwneud oddiar amgyffrediad ac argyhoeddiad o egwyddorion iawn, ac nid pan yn orfodol neu ddamweiniol, felly hefyd y mae iawn feddwl ac iawn gredu yn rhinweddol, pa un bynag ai o bwynt deallol neu foesol yr edrychir ar bethau, pan y mae meddwl a chredu yn rhywbeth mwy na thraflynciad golygiadau penodol oblegid fod Awstin, neu Calvin, neu Arminus, yn cyflwyno y cwpan.

Gellid derbyn ffeithiau hanesiaeth neu yr eiddo desgrifiad ar dystiolaeth gyda phriodoldeb, ond am wirioneddau ein natur foesol ac ysbrydol nis gellir eu derbyn hwy ond ar brawf ymwybodaeth, oddieithr fod y dystiolaeth yn eu cylch yn dyfod oddiwrth Dduw ei hun; ac hyd yn nod er bod felly, dysgwyliwn nad yw y dystiolaeth, er efallai uwchlaw, etto yn groes i ymwybodaeth. Y mae prawf mewnol y Beibl yn gorwedd yn hyn, a chymeryd y safle uchaf i edrych ar bethau: sef, er fod ynddo ddatguddiadau o'r hyn sydd uwchlaw ymwybodaeth, etto pa bryd bynag y daw y gwirioneddau tu fewn i gylch ymwybodaeth,

fod yna gysondeb perffaith yn bod rhwng penderfyniadau rheswm dadblygedig a'r datguddiad.

Yn awr, yn y cymhwysiad o'r egwyddorion hyn, y mae genym fodd i wybod a roddodd Edwards i ni feddyleg gywir o barth yr ewyllys. Yn yr ymwybodaeth, ac yn yr ymwybodaeth yn unig, y gall athrawiaeth yr ewyllys gael ei phrofi yn llawn a therfynol. Ac ni ddylem arswydo rhag gwneuthur y cyfryw brawf gan yr ymhoniad a wneir weithiau mai damcaniaeth Edwards yn unig sydd yn cynnal cyfrifoldeb moesol a chrefydd efengylaidd. Os cynnelir ac yr eglurir cyfrifoldeb moesol a chrefydd efengylaidd trwy athroniaeth, rhaid iddynt wneud hyny trwy gymeryd athroniaeth a brofodd ei hun eisoes ar ei thir ei hun ei bod yn athroniaeth gywir. Nis gall cyfrifoldeb moesol na chrefydd efengylaidd dderbyn dim cynnaliaeth oddiwrth athroniaeth yr hon y cymerir hwy yn gyntaf i'w phrofi.

Ond er fy mod yn bwriadu arwain fy rhesymiad ar egwyddorion meddylegol, a hyny yn fanwl hefyd, etto ymdrechaf yn y diwedd i ddangos fod cyfrifoldeb moesol yn cael ei chynnal mewn gwirionedd gan yr eglurhadaeth yma ar yr ewyllys; ac nad ydwyf, a dweyd y lleiaf, yn gwanychu yr un o attegion crefydd efengylaidd, nac yn ei hyspeilio o'r un o'i rhagoriaethau.

Y mae cynllun fy ymgymeriad yn cynnwys y neillduolion canlynol:—

I. Cyfundrefn Edwards yn cael ei gosod gerbron.

II. Y gyfundrefn hon yn cael ei gweithio allan i'w chanlyniadau cyfreithlawn.

III. Y gwrthddadleuon yn erbyn ewyllys hunan-benderfynol yn cael eu chwilio.

IV.* Athrawiaeth yr ewyllys yn cael ei phenderfynu trwy appêl at ymwybodaeth.

V. Yr athrawiaeth hon yn cael edrych arni yn ei pherthynas gyda gweithrediant a chyfrifoldeb moesol.

VI. Yr athrawiaeth hon yn cael edrych arni yn ei pherthynas gyda gwirioneddau a gorchymynion y Beibl.

---

* Y tri chyntaf yn unig a gymerir i fyny yn Adolygiad yr awdwr ar Edwards. Ymdrinir a'r rhelyw o honynt mewn dwy gyfrol arall yn yr argraffiad Americanaidd. Buan y dyger y cyfan o'i waith ar "Athrawiaeth yr Ewyllys" trwy y wasg Gymreig.—(Cyf.)

# I.

## CYFUNDREFN EDWARDS

YN CAEL

## EI GOSOD GERBRON.

# I.

## CYFUNDREFN EDWARDS YN CAEL EI GOSOD GERBRON.

CYNNWYSIR Cyfundrefn Edwards, neu mewn geiriau eraill, ei Athroniaeth o'r Ewyllys, yn rhan I., ei "Ymchwiliad yn nghylch Rhyddid yr Ewyllys." Cynnwysa y rhan hon bump o adranau, pa rai a roddaf gerbron, gyda'u teitlau, yn ei drefn ef ei hun. Ymgyrhaedd at y gwir ydyw fy unig amcan. Gan hyny, arferaf fy ymegnïon goreu i wneuthur yr adroddeb *(statement)* hon gyda'r eglurder a'r tegwch mwyaf. Fy mhryder penaf yn y rhan yma o'r gwaith yw cael Edwards yn berffaith ddealledig. Gwneir fy nyfynebion o'r argraffiad a gyhoeddwyd gan S. Converse, New York, 1829.*

### Adran I.

#### "AM NATUR YR EWYLLYS."

O dan y penawd hwn dyry Edwards ei ddarnodiant o'r ewyllys. "Yr ewyllys ydyw *yr hyn trwy ba un y mae y meddwl yn dewis unrhyw beth.* Cynneddf yr ewyllys ydyw y gallu, neu yr egwyddor o eiddo y meddwl, trwy ba un y mae yn alluog i ddewis. Gweithred o eiddo yr ewyllys sydd yr un a gweithred o ddewis, neu ddewisiad." (tudal. 1.)

Yna, y mae yn gwneyd "dewis" a "gwrthod" yr un peth: "Yn mhob gweithred o wrthodiad, y mae y meddwl yn dewis absenoldeb y peth a wrthodir." (tudal. 1.)

Felly *cynneddf dewisiad* ydyw yr ewyllys. Amlyga dewisiad ei hun mewn perthynas i un neu fwy nag un o wrthddrychau. Pan nad oes ond un, y mae ei feddianniad neu anfeddianniad—ei bresenoldeb neu ei absenoldeb—yn cael ei ddewis. Pan y mae amryw wrthddrychau, a'r rhai hyny mor anghydsafol a'u gilydd, fel y mae y meddianniad, mwynhad, neu bresenoldeb un o honynt, yn cynnwys y gwrthodiad o'r lleill,

* Er rhoi pob mantais i'r Cymry uwchben y ddadl bwysig hon, cymer y cyfieithydd ei hyfdra i ddyfynu o'r argraffiad Cymraeg gyhoeddwyd yn Nghaernarfon, 1865, a hyny yn *ngeiriau* cyfieithydd Edwards, er na buasai yn defnyddio *pob* un o honynt dan amgylchiadau eraill.

yna amlyga dewisiad ei hun mewn sefydlu ar y gwrthddrych penodol sydd i gael ei sicrhau, ac ar y gwrthddrychau sydd i gael eu gosod o'r neilldu.

Rhoddir y darnodiant hwn ar y tir y gall unrhyw wrthddrych a ystyrir yn gadarnhaol gael ei gyferbynu gyda ei negedydd; ac felly fod gwrthod y nacâol yn gydwerth a dewis y cadarnhaol; a dewis y nacâol yn gydwerth a gwrthod y cadarnhaol, ac yn y gwrthwyneb. Fel hyn os cymerir presenoldeb gwrthddrych fel y cadarnhaol, ei absenoldeb ydyw y nacâol. Gan hyny y mae gwrthod y presenoldeb yn ddewis yr absenoldeb, a dewis y presenoldeb yn wrthod yr absenoldeb: fel y mae pob gweithred o ddewis yn cynnwys gwrthod, a phob gweithred o wrthod yn cynnwys dewis; mewn geiriau eraill, maent yn cynnwys eu gilydd.

*Gwrthddrych yr Ewyllys.*

Y mae y gwrthddrych gyda golwg ar ba un yr amlygir egni dewisiad, gan gymhell gweithrediad oddiallan, neu weithrediad unrhyw gynneddf arall o eiddo y meddwl, bob amser yn *wrthddrych uniongyrchol.* Er y gallai gwrthddrychau eraill efallai ymddangos yn ddymunol, ond yr hyn sydd yn achlysur gweithrediad presenol yn unig ydyw gwrthddrych dewisiad—yr hyn ar ba un yr wyf yn myfyrio ar y pryd yn unig a ddewisir fel testun myfyrdod—a'r hyn ag y mae ymegnïad cyhyrol yn cael ei wneud arno ydyw yr hyn a ddewisir fel gwrthddrych ymegnïad cyhyrol. Hyny ydyw, y mae pob gweithred o ddewisiad yn amlygu ei hun trwy gynnyrchu rhyw gyfnewidiad neu effaith mewn rhyw ran arall o'n bodaeth. "Y peth a ddewisir nesaf, pan mae y dyn yn ewyllysio cerdded, ydyw, nid ei symud i'r lle y dymuna fod, ond y fath ymegnïad ac ysgogiad o eiddo ei goesau a'i draed, &c., er cyrhaeddyd hyny." (tudal. 2.) Y mae yr un egwyddor yn gymhwysiadwy at unrhyw ymegnïad meddyliol.

*Ewyllys a Dymuniad.*

Nid yw Edwards byth yn gosod ewyllys mewn gwrthwynebiad i ddymuniad. Yr unig wahaniaeth sydd bosibl i'w wneuthur rhyngddynt (yn ol Edwards) ydyw yr eiddo rhyw *(genus)* ac adryw *(species)*. Y maent yr un mewn *math.* "Nid wyf yn meddwl fod *ewyllys* a *dymuniad* yn eiriau hollol gyfystyr: ymddengys fod *ewyllys* yn air o ystyr eangach, yn cymmeryd i mewn y presenol a'r absenol. Y mae *dymuniad* yn golygu peth absenol. Gallwn ddewis yn hytrach fy sefyllfa a'm hagwedd bresenol, tybiwch eistedd yn llonydd, neu gadw fy llygaid yn agored, ac felly *ewyllysio* hyny. Ond etto ni allaf feddwl eu bod mor hollol ar wahan, fel ag y gellir dweyd yn briodol eu bod un amser yn myned yn groes i'w gilydd. Nid ydyw dyn un amser, mewn unrhyw amgylchiad, yn ewyllysio dim yn groes i'w ddymuniadau, neu yn

dymuno unrhyw beth yn groes i'w ewyllys. * * Y peth a ewyllysia yw y peth a ddymuna; ac nid yw yn ewyllysio peth, ac yn dymuno yr hyn sydd groes iddo, mewn unrhyw amgylchiad." (tudal. 3.) Gwrthddrych uniongyrchol ewyllys,—y gwrthddrych, yn mherthynas i'r hwn y mae dewisiad yn amlygu ei hun trwy gynnyrchu effeithiau,—ydyw gwrthddrych y dymuniad hefyd; hyny ydyw, y dymuniad goruchaf ar y pryd: fel mai y gwrthddrych a ddewisir ydyw y gwrthddrych sydd yn ymddangos yn fwyaf dymunol; a'r gwrthddrych sydd yn ymddangos yn fwyaf dymunol ydyw y gwrthddrych a ddewisir bob amser. Tuag at gynnyrchu gweithred o ddewisiad, nid oes genym, gan hyny, ond yn unig i ddeffroi dymuniad gorbwysol. Yn awr, mae yn amlwg nas gall dymuniad gael ei wahaniaethu oddiwrth nwyd. Yr hyn ydym yn ei garu, yr ydym yn dymuno iddo fod yn bresenol, cael ei feddiannu a'i fwynhau; a'r hyn ydym yn ei gasâu, yr ydym yn dymuno iddo fod yn absenol, neu gael ei niweidio trwy ryw ffordd. Y mae caru gwrthddrych, a dymuno ei fwynhau, yr un: ei gasâu, a dymuno ei absenoldeb neu ei ddinystr, neu ryw niwaid cyffelyb iddo, hefyd yr un. Gan hyny, nid yw yr ewyllys i'w gwahaniaethu, o leiaf mewn *math*, oddiwrth y serchiadau a'r nwydau: ymddengys hyn yn helaeth fel yr awn rhagom. Efe a'i gwna yr un peth mewn gweithiau eraill o'i eiddo: "Yr wyf yn barnu yn ostyngedig nad ydyw serchiadau yr enaid yn wahaniaethol oddiwrth yr ewyllys, fel pe byddent *ddwy* gynneddf o eiddo yr enaid." (*Edwards's Revival of Religion in New England,* part I.)

"Y mae yr Arglwydd wedi cynnysgaeddu yr enaid â dwy gynneddf: un o honynt ydyw yr hon sydd yn amgyffred, dirnad, neu yn canfod, yn gweled, ac yn barnu pethau; yr hon a elwir deall. Y gynneddf arall ydyw yr hon y mae yr enaid trwyddi, nid yn unig yn canfod ac yn dirnad pethau, ond hefyd yn tueddu mewn rhyw fodd i ystyried y pethau a fyddo dan sylw; ac y mae naill ai yn tueddu tuag atynt ai oddiwrthynt, yn cyduno neu yn anghyduno a hwy; neu y gynneddf trwy yr hon y mae yr enaid, nid yn unig yn edrych ar bethau yn ddiddiwedd heb dderbyn un effaith oddiwrth yr olwg arnynt, ond naill ai yn dewis ai yn gwrthod y gwrthddrychau, eu profi ac ymhyfrydu ynddynt, neu eu gwrthod a'u hanghymeradwyo. Y mae y gynneddf hon yn cael ei galw dan amrywiol enwau: hi a elwir weithiau tueddfryd; ac fel y mae yn dwyn perthynas â'r gweithredoedd a benderfynir ac a lywodraethir ganddi, hi a elwir yn ewyllys. * * Nid ydyw yr ewyllys a serchiadau yr enaid yn ddwy gynneddf, ac nid ydyw y serchiadau yn hanfodol ddosbarthedig oddiwrth yr ewyllys, ac nid ydynt yn gwahaniaethu oddiwrth unigol weithrediadau yr ewyllys a thueddiadau yr enaid, ond yn unig o ran y bywiogrwydd a theimladrwydd y gweithrediad." (*Natur y serchiadau,* rhan I., tudal. 5, 6, *yr argraffiad Cymraeg, cyhoeddedig yn 1833).* Nad ydyw Edwards yn gwneud

allan fod mwy na dwy gynneddf o eiddo yr enaid, sef y deall a'r ewyllys, a'i fod hefyd yn gwneud yr ewyllys a'r teimladau yr un peth, a sefydlir yn ddiymwad yn y ddyfyneb uchod.

## Adran II.

### "YN NGHYLCH PENDERFYNIAD YR EWYLLYS."

"Wrth *benderfynu* yr ewyllys, os defnyddir y gair gydag unrhyw ystyr, y rhaid meddwl, *peri* fod gweithred yr ewyllys neu y dewisiad fel hyn, ac nid fel arall: a dywedir fod yr ewyllys yn cael ei *phenderfynu*, pan mewn canlyniad i ryw weithrediad neu ddylanwad, y mae y dewisiad yn cael ei gyfeirio at, a'i sefydlu ar wrthddrych neillduol. Fel pan lefarwn am benderfyniad ysgogiad, yr ydym yn golygu peri fod ysgogiad corff yn y fath gyfeiriad yn hytrach nag mewn un arall." (tudal. 5.)

Yn awr, nid yw achosiad dewisiad a phenderfyniad yr ewyllys yn cael eu bwriadu yma fel pethau i'w gwahaniaethu, mwy nag achosiad ysgogiad a phenderfyniad y corff a ysgogwyd. Y mae yr achos sydd yn gosod corff mewn ysgogiad, yn rhoddi iddo yr un modd gyfeiriad; a lle mae amryw achosion yn bod, y mae cyd-doddiad y galluoedd yn cymeryd lle, ac yn penderfynu terfynau a chyfeiriad yr ysgogiad. Felly hefyd y mae yr achos-yn gweithredu ar yr ewyllys neu gynneddf dewisiad, a thrwy gynnyrchu dewisiad yn penderfynu ei chyfeiriad; yn wir, nis gellir meddwl am ddewisiad, heb feddwl am rywbeth yn cael ei ddewis, a phan y mae rhywbeth yn cael ei ddewis, mae cyfeiriad y dewisiad yn cael ei benderfynu, hyny yw, y mae yr ewyllys yn cael ei phenderfynu. A phan fyddo amryw achosion yn gweithredu ar yr ewyllys, y mae yma yr un modd gyd-doddiad y galluoedd meddyliol yn cymeryd lle, a'r dewisiad neu benderfyniad yr ewyllys yn cymeryd lle yn ol hyny. Gan mai effaith ydyw yr ewyllysiad neu y dewisiad a wneir, rhaid fod iddo achos. Beth yw yr achos hwn?

#### *Cymhelliad.*

Achos dewisiad neu ewyllysiad a elwir yn *gymhelliad*. Achos a esyd gorff mewn ysgogiad a elwid yn briodol yn cymhelliad y corff hwnw; yna yn gyfatebiaethol, gelwir achos cynhyrfiol yr ewyllys i wneud dewisiad yn gymhelliad yr ewyllys. Trwy hir arferiad, y mae ystyr briodol cymhelliad yn cael ei osod o'r neilldu, a'r gair yn cael ei ddefnyddio yn awr yn unig i ddynodi achos neu reswm dewisiad. "Wrth *gymhelliad* yr wyf yn deall yr oll o'r hyn sydd yn ysgogi, cynhyrfu, neu wahodd y meddwl i ewyllysiad, pa un bynag a yw hwnw yn un peth ar ei ben ei hun, ai yn llawer o bethau mewn cysylltiad a'u

gilydd." (tudal. 5). Ac "*Mai y cymhelliad hwnw, yr hwn, fel y mae yn sefyll yn ngolwg y meddwl, yw y cryfaf, sydd yn penderfynu yr ewyllys.*" (ibid.) Y mae hyn yn gyffredin, ac yn golygu dim mwy na,—(1.) fod achos cwyllysiad yn cael ei alw yn gymhelliad; (2.) pryd bynag y mae amryw achosion neu gymhellion ewyllysiad, y cymhelliad cryfaf o honynt sydd yn tycio; (3.) y mae yr achos neu y cymhelliad yn aml yn amrywiog; (4.) wrth ddyfalu nerth yr achos, os bydd yn amrywiog, rhaid ystyried yr holl neillduolion yn eu cydweithrediad; ac yn (5.) y mae nerth y cymhelliad "yn sefyll yn ngolwg y meddwl," hyny yw, y mae yn rhywbeth ag y mae y meddwl yn gwybod am dano, neu yn deimladwy o hono.

*Beth sydd yn cyfansoddi nerth cymhelliad?*

"Pobpeth a elwir yn briodol yn cymhelliad, cynhyrfiad, neu annogaeth i weithredydd sydd yn dirnad ac yn ewyllysio, yn meddu rhyw radd o *duedd*, neu *fantais* i ysgogi neu cynhyrfu yr ewyllys, yn rhagflaenol i'r effaith, neu weithred yr ewyllys wedi ei chynhyrfu. Y duedd ragflaenol yma o eiddo y cymhelliad yw yr hwn a alwaf fi yn *nerth* y cymhelliad." (tudal. 6.) Pan bresenolir gwrthddrychau gwahanol i'r meddwl, cynnyrchant cyffroadau penodol, ac ymddangosant yn fwy neu yn llai "deniadol." Yn yr argraff a gynnyrchir fel hyn ar unwaith, yr ydym yn dirnad "eu tuedd neu eu mantais i ysgogi neu gynhyrfu yr ewyllys." Tueddiad neu ddewisiad ydyw a ragolygir, dirnadaeth ddiattreg o ansawdd yn y gwrthddrych y teimlwn a wnai benderfynu ein dewisiad, os gelwid arnom i wneud dewisiad. Y mae y gwrthddrych yn cael ei deimlo i fod yn gyfaddas i ansawdd y meddwl, ac ansawdd y meddwl i'r gwrthddrych. Teimlir hwynt eu bod yn gyfaddas i'w gilydd o'r ddwy ochr.

*Beth yw yr ansawdd hwn sydd yn gwneud i fyny y duedd ragflaenol?*

"Pa beth bynag sydd yn cael ei ddirnad gan greadur sydd yn meddu deall ac ewyllys, sydd o natur a dylanwad cymhelliad i ewyllysio neu ddewis, yn cael ei ystyried neu edrych arno fel *daioni;* ac nid oes iddo yr un duedd i ennill dewisiad yr enaid yn mhellach nag yr ymddengys felly." (tudal. 7.) Yn awr, gan fod yr ewyllys yn cael ei phenderfynu gan y cymhelliad cryfaf; ac fod nerth cymhelliad yn gorwedd yn y "duedd ragflaenol" (tudal. 6); a chan fod y duedd ragflaenol yn cael ei gwneud i fyny o'r ansawdd o "ddaioni;" a chan fod y radd uchaf o'r ansawdd hwn, yn mhob amgylchiad, yn ffurfio y cymhelliad cryfaf; gan hyny, y mae yn canlyn "*fod yr ewyllys bob amser yn ol fel y mae y daioni ymddangosiadol mwyaf.*"

*Yr ystyr yn mha un y defnyddir yr ymadrodd* "DA."

"Rhaid sylwi yn mha ystyr yr wyf yn defnyddio y gair 'da,' sef o'r un arwyddocâd a 'hyfryd.' Ymddangos yn *dda* i'r meddwl, fel yr wyf fi yn defnyddio y gair, sydd yr un peth ag *ymddangos yn hyfryd*, neu *foddhaol* i'r meddwl." * * "Os ydyw yn tueddu i dynu y dewisiad, ac ysgogi yr ewyllys, rhaid i hyny fod dan y syniad ei fod yn *gyfaddas* i'r meddwl. A chan hyny, rhaid mai dyna sydd yn meddu y duedd gryfaf i'w dynu a'i ennill, yr hyn, fel y saif yn ngolwg y meddwl, sydd yn fwyaf cyfaddas iddo, ac yn ei foddhau fwyaf; ac yn yr ystyr yna, ydyw y daioni ymddangosiadol mwyaf." * * "Mae y gair '*daioni*,' yn yr ystyr yma, yn cynnwys ynddo symud ymaith neu ochelyd pob drwg, neu yr hyn sydd anhyfryd neu anesmwyth." (tudal. 7.) Yna y mae yn canlyn fod yr ewyllys yn cael ei phenderfynu bob amser gan yr hyn *sydd yn ymddangos yn fwyaf boddhaol, neu yn ymddangos yn fwyaf dymunol i'r meddwl.*

Y mae y casgliad hwn mewn cydgordiad perffaith gyda'r sefyllfa yr hon a gymerodd Edwards ar ei gychwyniad: fod yr ewyllys bob amser fel y mae y dymuniad cryfaf: yn wir, fod yr ewyllys yr un mewn math a'r dymuniad, neu y serchiadau; ac nad ydyw gweithred o eiddo yr ewyllys neu ddewisiad yn ddim mwy na'r dymuniad cryfaf gyda golwg ar wrthddrych uniongyrchol, a dymuniad yn cynnyrchu effaith yn ein bodaeth feddyliol neu anianyddol. Cynhyrfiad cryfaf y teimlad ydyw penderfyniad yr ewyllys. Yr hyn sydd yn penderfynu yr ewyllys ydyw achosydd teimlad. Y mae nerth yr achosydd yn gorwedd yn y duedd a welir ynddo i gynhyrfu y teimladau a chynnyrchu mwynhad. Fel y mae yn meddu y duedd hon, gelwir ef yn *dda*, neu *foddhaol*, neu *ddymunol;* hyny ydyw, yn gyfaddas i ansawdd y meddwl neu gyflwr y serchiadau.

Y mae y "*da*" sydd yn ffurfio nodwedd achos neu gymhelliad yn ddaioni uniongyrchol, neu yn "ddaioni yn ngolwg bresenol y meddwl." (tudal. 6.) Dyna feddwyn, gellir tybio ei fod cyn yfed yn pwyso y pleser presenol o yfed a chanlyniadau poenus yr yfed sydd yn mhell yn erbyn eu gilydd; ac y gall y canlyniadau poenus ymddangos yn fwy iddo na'r pleser presenol. Ond etto y cwestiwn sydd mewn gwirionedd yn ei feddwl, pan ddaw i yfed, yw o berthynas i'r weithred bresenol o yfed yn unig; ac os ymddengys hyn yn fwyaf boddhaol iddo, yna y mae yn yfed. "Os ewyllysia yfed, yna *yfed* yw gwrthddrych priodol gweithred ei ewyllys; ac y mae yfed, ar ryw reswm na'u gilydd, yn awr yn ymddangos iddo yn fwyaf hyfryd, ac yn fwyaf cyfaddas iddo. Os dewisa ymattal, yna *ymattal* yw gwrthddrych uniongyrchol ei ewyllys, ac sydd fwyaf boddhaol iddo." (tudal. 8.) Y rhesymiad yw, pan yfo y meddwyn, nad ydym i gasglu ei fod wedi dewis trueni dyfodol yn

hytrach na daioni dyfodol, ond mai y weithred o yfed, ynddi ei hun, ydyw gwrthddrych dewisiad; fel yn ol yr olwg a gymerodd arno, y mae iddo ef y daioni ymddangosiadol mwyaf. Yn y cyffredin gallwn ddweyd, yn ol yr egwyddor hon, mai pryd bynag y cymer dewisiad le, fod gwrthddrych y weithred hòno yn d'od o flaen y meddwl yn y fath fodd fel ag i ymddangos yn fwyaf boddhaol i'r meddwl; ar y foment ac yn y berthynas hòno, ei fod y da ymddangosiadol mwyaf. Felly nid yw dyn un amser yn dewis yr hyn sydd annymunol, ond bob amser yr hyn sydd ddymunol iddo.

*Defnydd priodol yr ymadrodd* MWYAF DYMUNOL *yn ei berthynas â'r ewyllys.*

"Dewisais yn hytrach amlygu fy hun fel hyn, fod yr ewyllys bob amser fel y mae y daioni ymddangosiadol mwyaf, neu fel yr hyn a ymddengys fwyaf boddhaol, na dweyd fod yr ewyllys yn *cael ei phenderfynu gan* y daioni ymddangosiadol mwyaf, neu gan yr hyn a ymddengys fwyaf boddhaol; oblegid prin yr ymddengys fod gwahaniaeth rhwng peth yn ymddangos yn fwyaf boddhaol i'r meddwl, a'r meddwl yn dewis. Os pwysir am briodoldeb ymadrodd manwl, gellid yn fwy priodol ddweyd, fod y *weithred wirfoddol*, sydd yn *ganlyniad* uniongyrchol dewisiad y meddwl, yn cael ei *phenderfynu* gan yr hyn sydd yn ymddangos yn fwyaf boddhaol, na dweyd fod y dewisiad ei hunan felly." Gwelir fod y *ddirnadaeth neu y syniad o'r mwyaf dymunol* yn cael ei wneud yr un yma ag *ewyllysiad neu ddewisiad.* "Y mae yr ewyllys fel y mae y mwyaf dymunol,"—hyny ydyw, y mae *penderfyniad yr ewyllys*, yr hyn a olyga ei *dewisiad gweithredol*, fel ffaith ymwybodol yn cael ei gynnwys yn y *syniad o'r mwyaf dymunol;* ac fel y mae y weithred wirfoddol, neu y weithred, y cyfnewidiad, neu yr effaith sydd yn canlyn ewyllysiad yn unrhyw ran o'n bodaeth,—megys cerdded, siarad, darllen, neu feddwl,—a'i achos yn yr ewyllysiad, neu "ddewisiad y meddwl,"—felly y mae yn berffaith briodol dweyd, naill ai fod y weithred wirfoddol yma yn cael ei phenderfynu gan yr ewyllysiad, neu ynte gan y syniad o'r mwyaf dymunol. Meddwl Edwards yn amlwg yw, fod yr ymadroddion yn droadwy: y gellir galw ewyllysiad yn achosydd gweithred wirfoddol, neu y gellir galw y syniad o'r mwyaf dymuuol yr achosydd. Nid yw hyn etto ond gweithiad allan y golygiad *fod yr ewyllys fel y mae y dymuniad.* Gan fod "y da ymddangosiadol mwyaf" yr un peth a'r "mwyaf dymunol," a hyny drachefn yr un a'r "mwyaf boddhaol," rhaid fod yn canlyn, gyda golwg ar unrhyw wrthddrych, mai pryd bynag yr effeithia ar y meddwl gyda'r *syniad o'r mwyaf dymunol*, ei fod yn presenoli yr agweddiad "o ewyllysiad neu ddewisiad;" ac yn mhellach etto, mai yr

hyn a ddewisir ydyw y gwrthddrych mwyaf dymunol, ac fod hyny yn cael ei wybod trwy y ffaith syml ei fod yn cael ei ddewis; oblegid nid yw ei fod yn cael ei ddewis yn golygu dim mwy na'i fod yn effeithio ar y meddwl gyda y syniad o'r mwyaf dymunol,—a'r mwyaf dymunol ydyw yr hyn a ddewiswyd, ac nis gall beidio cael ei ddewis; oblegid nid yw ei fod y mwyaf dymunol yn golygu dim mwy na'i fod yn wrthddrych dewisiad y meddwl, neu syniad o'r mwyaf dymunol. Y mae y gwrthddrych, a'r meddwl fel y mae yn allu teimladwy neu ewyllysiol, yn gyd-berthynasau, a'r dewisiad yw unoliant y ddau: fel os golygwn ddewisiad yn nodweddu y gwrthddrych, yna sicrheir fod y gwrthddrych y mwyaf dymunol; ac ar y llaw arall, os golygwn ddewisiad fel yn nodweddu y meddwl, yna sicrheir fod y meddwl yn cael effeithio arno gan y mwyaf dymunol.

*Achosydd dewisiad, neu y syniad o'r mwyaf dymunol.*

"Fod *ewyllysiad* ei hunan bob amser yn cael ei benderfynu gan yr hyn, yn neu o amgylch golwg y meddwl ar y gwrthddrych, *sydd yn peri iddo ymddangos* yn fwyaf boddhaol. Yr wyf yn dweyd, yn neu o amgylch golwg y meddwl ar y gwrthddrych; oblegid am yr hyn sydd yn meddu dylanwad i beri i'r gwrthddrych mewn golwg ymddangos yn foddhaol, nid yn unig yr hyn sydd yn ymddangos *yn* y gwrthddrych a olygir ydyw, ond hefyd *dull* yr olygfa, ac *ansawdd ac amgylchiadau* y meddwl sydd yn golygu." (tudal. 9.) Trwy fod dewisiad yn unoliant teimladrwydd y meddwl a'i wrthddrych,—hyny yw, gan ei fod yn hoffder o eiddo y teimladrwydd ar gyfrif ei gytundeb a'i gyd-berthynas perffaith gyda y gwrthddrych, ac wrth gwrs o gytundeb a chyd-berthynas y gwrthddrych gyda'r teimladrwydd,—wrth benderfynu achosydd dewisiad, rhaid i ni o angenrheidrwydd edrych i'r ddau—y meddwl a'r gwrthddrych. Yn ol hyn dyry Edwards amryw neillduolion gyda golwg ar bob un.

I. Gyda golwg ar y gwrthddrych, sylwa fod y syniad o'r mwyaf dymunol, neu ddewisiad, yn dibynu ar—

1. Brydferthwch y gwrthddrych, "a'i olygu fel y mae *ynddo ei hun*," yn annibynol ar amgylchiadau.

2. "Y radd ymddangosiadol o bleser neu flinder sydd yn *dilyn* y gwrthddrych, neu y *canlyniad* o hono," neu y gwrthddrych o'i gymeryd gyda ei "gymdeithion" a'i ganlyniadau.

3. *Ystad ymddangosiadol* y pleser neu y blinder sydd yn ymddangos gyda golwg ar *bellder amser*. Y mae ynddo ei hun yn beth hyfryd i'r meddwl, i gael pleser yn fuan; ac yn beth anhyfryd ei oedi." (tudal. 9.)

II. Gyda golwg ar y meddwl, dibyna y syniad o'r mwyaf dymunol, yn gyntaf ar *ddull* golygfa y meddwl; yn ail ar *ansawdd* y meddwl.

Dan y cyntaf sieryd Edwards am y gwrthddrych fel yn gysylltiedig gyda phleser dyfodol. Yn y fan hyn caiff *dull* golygfa y meddwl ddylanwad mewn dwy ffordd:

1. Y sicrwydd neu yr ansicrwydd a farna y meddwl sydd yn perthynu i'r pleser;

2. Bywiogrwydd y syniad, neu y dychymyg, sydd gan y meddwl o hono.

Yn awr, gall y pethau hyn fod ar raddau gwahanol, yn gymysgedig gyda graddau gwahanol o bleser, a'i ystyried ynddo ei hun; ac "fe fydd dymunoldeb gwrthddrych dewisiad mewn gradd rywfodd wedi ei wneud i fyny o'r radd o ddaioni a dybir gan y farn, y radd o debygolrwydd ymddangosiadol neu sicrwydd y daioni hwnw, a'r radd o fywiogrwydd y drychfeddwl sydd yn y meddwl o'r cyfryw ddaioni." (tudal. 11.)

Eilwaith: O berthynas i wrthddrychau yn gyffredin; pa un bynag ai yn gysylltiedig gyda phleser presenol neu ddyfodol, bydd i'r syniad o ddymunoldeb ddibynu hefyd ar "*ansawdd y meddwl* sydd yn edrych ar wrthddrych sydd o'i flaen er dewisiad." (ibid.) Yma mae genym i ystyried "y dymher neillduol sydd gan y meddwl wrth natur, neu sydd wedi ei ddwyn i mewn a'i sefydlu trwy addysg, esiampl, arferiad, neu ryw foddion arall; neu ansawdd neu ystad y meddwl ar amgylchiad neillduol." (ibid.)

Y mae Edwards yn awgrymu yma, y gallai fod yn ddiangenrhaid ystyried *ansawdd* y meddwl fel sail dymunoldeb ar wahan i'r ddau beth grybwyllwyd o'r blaen: noder—*natur ac amgylchiadau y gwrthddrych*, yn nghyda *dull yr olygfa.* "Efallai, os ystyriwn y peth yn fanwl, nad yw gwahaniaeth tymher ac ansawdd meddwl yn gwneud dim gwahaniaeth gyda golwg ar ddymunoldeb gwrthddrychau, ond yn unig fel y gwna i'r gwrthddrychau eu hunain ymddangos yn wahanol o ran *prydferthwch* neu *wrthuni*, fel y maent yn cael eu dilyn gan bleser neu boen ymddangosiadol; ac fel yr achlysura i *ddull* yr olygfa fod yn wahanol, pâr i'r drychfeddwl am brydferthwch neu wrthuni, pleser neu anesmwythdra, i fod yn fwy neu lai bywiog." (tudal. 12.) Yn y sylw hwn, dengys Edwards yn eglur mor gyflawn y gwna efe i feddwl a gwrthddrych gydredeg mewn dewisiad, neu mor berffaith y gwna ddewisiad yn unoliant o'r ddau. Gyda golwg ar *natur ac amgylchiadau y gwrthddrych* yn unig y mae *ansawdd* y meddwl yn cael ei amlygu; a chan fod y syniad o ddymunoldeb mewn cyd-berthynas â'r ddau, y mae y syniad o'r mwyaf boddhaol neu ddewisiad yn unoliant perffaith o'r ddau, yr hwn, ar ol dysgrifio y gwrthddrych yn ei natur a'i amgylchiadau yn ei berthynas a'r *mwyaf boddhaol*, yr ydym wedi amgyffred yn hyn *ansawdd y meddwl.* Ar y llaw arall, natur ac amgylchiadau y gwrthddrych, yn ei berthynas a'r mwyaf boddhaol, a ellir eu gwybod trwy yr ansawdd meddwl a gynnyrchir gan bresenoldeb

ac amgylchiadau y gwrthddrych. I roddi enghraifft,—bydded y gwrthddrych yn rhosyn. Pan wyf fi yn dysgrifio prydferthwch a dymunoldeb y gwrthddrych hwn, yr ydwyf yn dysgrifio yr *ansawdd meddwl* gyda golwg arno; oblegid mae ei brydferthwch a'i ddymunoldeb yr un peth a'r syniadau a'r cyffroadau a brofir genyf fi,—y rhai a elwir mewn iaith athronyddol yn *ansoddau cilraddol* y gwrthddrych: ac felly, ar y llaw arall, os wyf yn dysgrifio fy syniadau a'm cyffroadau fy hun yn mhresenoldeb y rhosyn, yr ydwyf mewn ffaith yn dysgrifio ei brydferthwch a'i ddymunoldeb ef. Y mae y meddwl a'r gwrthddrych fel hyn yn cael eu hunoli yn y syniad o ddymunoldeb. Nis gallwn i gael y syniad hwn o ddymunoldeb heb wrthddrych; ond pan fyddo y gwrthddrych yn cael ei bresenoli i fy meddwl, y maent wedi eu haddasu i'w gilydd yn y fath fodd, fel y maent yn ymddangos fel pe yn cyd-doddi yn y cyffroad pleserus. Gellid egluro y syniad o'r mwyaf dymunol neu ddewisiad yn hollol yn yr un ffordd. Yr unig wahaniaeth rhwng y dymunol yn unig, a'r mwyaf dymunol ydyw hyn: cyfeiria y dymunol yn unig at gyffroad a ddeffroir gan bresenoliad uniongyrchol gwrthddrych, pryd na byddo unrhyw gymhariaeth neu gystadleuaeth; a'r mwyaf dymunol pan fyddo cymhariaeth a chystadleuaeth. Fel hyn, dewis rhosyn o flaen meillionen sydd syniad o'r mwyaf dymunol o'r ddau wrthddrych. Mewn rhai achosion, modd bynag, y mae yr hyn a wrthodir yn bendant annymunol. Fel y mae yn mhob enghraifft o ddewis, fod dau *derm* yn cael eu ffurfio wrth edrych ar y weithred o ddewis ei hunan yn y cyferbyniad o gadarnhaol a nacâol, y mae yr ymadrodd *mwyaf dymunol* neu *ddaioni ymddangosiadol mwyaf* yn gyfleus at wasanaeth gyffredin, ac yn ddigon croyw i ddynodi pob achos a gyfodir.

Byddai yn burion sylwi yma, fod yn y gyfundrefn yr ydym fel hyn yn ymdrechu i'w gosod gerbron a'i hegluro, ddefnydd digon priodol yn cael ei wneud o'r gair *dewisiad* i ddynodi gweithred yr ewyllys pan olygir y weithred hòno yn ei pherthynas â'i heffeithiau uniongyrchol,—megys pan ddywedwyf, yr ydwyf yn dewis cerdded. Y mae y *syniad o'r mwyaf boddhaol* yn cael ei arfer yn briodol i ddynodi yr unrhyw weithred, pan olygir y weithred hòno yn ei perthynas â'i hachosydd. Dewisiad ac ewyllysiad ydyw y geiriau sydd mewn arferiad gyffredin, oblegid fod dynion ar y cyfan yn edrych ac yn meddwl am ddewisiad ac ewyllysiad yn eu perthynas â'u heffeithiau yn unig. Ond pan y mae achosydd dewisiad yn cael ei olrhain gan feddwl athronyddol, ac yn cael ei dybio i fod yn gorwedd yn natur ac amgylchiadau y meddwl a'r gwrthddrych, yna daw y *syniad o'r mwyaf boddhaol* y ffurf fwyaf priodol o ymadroddi.

Terfyna Edwards ei ymdriniaeth ag achosydd y mwyaf boddhaol, trwy sylwi: "Pa fodd bynag, yr wyf yn meddwl fod cymaint a hyny

yn sicr, nad ydyw ewyllysiad, mewn unrhyw amgylchiad a ellir meddwl am dano, yn wahanol i'r hyn ydyw y daioni ymddangosiadol mwyaf, fel yr ydym wedi egluro." (tudal. 12.) Hyn yw egwyddor fawr ei gyfundrefn; ac mewn ychydig frawddegau ar ol hyn, gesyd i lawr fel gwireb *(axiom)*, neu fel gwirionedd a gydnabyddir yn gyffredinol: "Nid oes nemawr ddim sydd, yn marn a phrofiad dynolryw, yn fwy eglur a chyffredinol nag fod dynion pan yn gweithredu o honynt eu hunain, ac yn gwneud fel y mynont, yn gwneud y peth sydd yn ymddangos fwyaf cymhwys iddynt, neu yr hyn sydd *fwyaf dymunol* ganddynt." (ibid.) Yn wir, nis gellir dweyd fod Edwards wedi ceisio profi hyn; yn unig eglurodd ef, a chan hyny *eglurhad* ar wireb dybiedig ydyw y cwbl y buom ni yn ei erlyn allan.

Crybwyllir y wireb dybiedig hon yn yr adran gyntaf: "Nid yw yr ewyllys a'r dymuniad yn myned yn groes i'w gilydd o gwbl: a peth a ewyllysia yw y peth a ddymuna;" hyny yw, y mae dyn yn dewis fel y mae yn dymuno, ac wrth gwrs yn ewyllysio yr hyn sydd fwyaf boddhaol iddo. Y mae i sylwi arno hefyd fod penawd y rhan I. yn rhedeg fel hyn: "Lle yr *eglurir* ac y gosodir gerbron wahanol dermau a phethau," &c. (tudal. 1.) Gan hyny, os derbynir ef fel gwirionedd a gydnabyddir yn gyffredin, "fod dewisiad neu ewyllysiad bob amser fel y mae y mwyaf dymunol," ac nad ydyw ond yn unig ond y syniad o'r mwyaf dymunol, beth yw yr eglurhad a roddir?

1. Nad ydyw yr ewyllys, neu gynneddf dewisiad, yn gynneddf wahanol i'r serchiadau neu y teimladau, neu y rhan hyny o'n bodaeth a elwir weithiau gan athronwyr yn deimladrwydd.

2. Fod ewyllysiad neu ddewisiad, os bydd ar unrhyw amrantiad a than unrhyw amgylchiad, y duedd, neu yr hoffder a'r dymuniad cryfaf gyda golwg ar wrthddrych uniongyrchol, yn ymddangos yn nghyfansoddiad ein bodaeth fel rhagflaenorydd effeithiau yn y meddwl ei hun, neu yn y corff; yr hyn effeithiau a elwir yn weithrediadau gwirfoddol,—megys gweithrediadau o sylwi, siarad, cerdded.

3. Fod dweyd fod ewyllysiad fel y mae y dymuniad, cystal a dweyd fod ewyllysiad fel y mae y daioni ymddangosiadol mwyaf, yr hyn etto sydd yn golygu yn unig y mwyaf boddhaol,—fel y mae yr ewyllysiad yn d'od etto y *syniad neu y teimlad o'r daioni ymddangosiadol mwyaf.* Yn hyn oll nid oes yma ddim ond amrywiaeth o ymadroddion am yr unrhyw agweddiad o eiddo y teimladrwydd.

4. Penderfyniad yr ewyllys sydd ddewisiad gweithredol neu gynnyrchiad yn y meddwl o ewyllysiad neu o ddewisiad, neu yr hoffder cryfaf, neu y syniad o'r mwyaf dymunol, neu y daioni ymddangosiadol mwyaf. Gan hyny y mae yn effaith, ac fel effaith y mae yn rhaid iddo wrth achos neu benderfynydd.

5. Gelwir y penderfynydd neu y achos hwn yn gymhelliad. Wrth

egluro beth sydd yn cyfansoddi cymhelliad, rhaid i ni gymeryd mewn golwg *feddwl* a *gwrthddrych*. Rhaid i'r gwrthddrych gael ei ddirnad gan y meddwl fel rhywbeth sydd yn bod. Nid yw y ddirnadaeth hon ond yn unig rhywbeth ragflaenol, neu gyflwyniad o'r gwrthddrych i'r meddwl. Yn awr, mewn trefn i'r syniad o'r mwyaf dymunol, neu ddewisiad, gymeryd lle, rhaid i'r meddwl a'r gwrthddrych gael eu cyfaddasu i'w gilydd. Rhaid i'r gwrthddrych feddu ansoddau o brydferthwch a dymunoldeb i'r meddwl; a'r meddwl feddu derbyngarwch addas i ansoddau y gwrthddrych. Ond dweyd fod y gwrthddrych yn meddu ansoddau o brydferthwch a dymunoldeb i'r meddwl, sydd mewn ffaith yn ddweyd fod y derbyngarwch gofynol gan y meddwl; oblegid yn eu perthynas â'r meddwl yn unig y bodola ansoddau crybwylledig y gwrthddrych, ac y maent iddo yr hyn ydynt. Gan hyny, gellir galw dewisiad, neu y syniad o'r mwyaf dymunol, yn unoliant o'r teimladrwydd a'r gwrthddrych. Fel hyn, y mae dewisiad, fel unrhyw ffurf o gyffroad neu deimlad, yn ffaith sydd yn ymddangos yn barhaus ar faes ymwybodaeth; ac fel cyffroad neu deimlad,—yn wir, *ffurf* o honynt ydyw,—a raid roddi cyfrif am dano yn y pen draw trwy ei gyfeirio at gyfansoddiad ein bodaeth. Ond yn gymaint ag fod cyfansoddiad ein bodaeth yn amlygu ei hun mewn perthynas i wrthddrychau ac amgylchiadau, yr ydym yn gyffredin yn cyfrif am ei hamlygiadau trwy eu cyfeirio at y gwrthddrychau a'r amgylchiadau mewn cysylltiad â pha rai y cymerant le, ac heb y rhai ni buasent yn cymeryd lle: ac felly, fel y dywedwn mai achosydd teimlad ydyw gwrthddrych teimlad, felly y dywedwn hefyd mewn siarad cyffredin, achosydd dewisiad ydyw gwrthddrych dewisiad; ac os trosir y serchiadau a gyfodant yn y meddwl yn mhresenoldeb y gwrthddrych, i'r gwrthddrych fel yn ddysgrifiadol o'i ansoddau, dywedwn fod dewisiad bob amser fel y mae y mwyaf prydferth a'r dymunol; hyny yw, fel y mae y da ymddangosiadol mwyaf. A'r da ymddangosiadol mwyaf hwn, o'i olygu fel hyn yn *wrthddrychol*, ydyw cymhelliad, neu benderfynydd, neu achosydd ewyllysiad.

*Yn mha ystyr y mae yr ewyllys yn dilyn datganiad olaf y deall.*

"Ymddengys oddiwrth y pethau hyn, fod yr ewyllys, mewn rhyw ystyr, *bob amser yn dilyn datganiad olaf y deall.* Ond rhaid cymeryd y *deall* mewn ystyr eang, fel yn cynnwys holl gynneddf yr amgyffrediad, ac nid yn unig yr hyn a elwir *rheswm* neu *farn*. Os wrth ddatganiad y deall y meddylir yr hyn a ddywed rheswm sydd oreu, neu fwyaf er dedwyddwch y dyn, gan gymeryd i fewn yr oll o'i barhad, nid yw yn wir fod yr ewyllys bob amser yn dilyn datganiad olaf y deall. Y mae y fath ddatganiad o eiddo rheswm yn fater hollol

wahanol i bethau ymddangos yn awr yn fwyaf *dymunol*, a rhoddi at eu gilydd yr oll sydd yn perthyn i ganfyddiad y meddwl ar y pryd mewn unrhyw beth." (tudal. 12.) Y mae yr ystyr eang yn mha un y cymer Edwards y deall, yn cymeryd i fewn yr holl fodaeth ddeallol a theimladol. Yn y cynnyrchiad o ddewisiad, neu y syniad o'r mwyaf dymunol, fe all awgrymau y rheswm gael eu dylanwad, a gweithio i mewn gyda neillduolion eraill er dwyn yr effaith oddiamgylch; ond etto y maent yn ddarostyngedig fel y neillduolion eraill i'r un ammod,—rhaid iddynt ar y pryd ac yn yr amgylchiadau uniongyrchol hyny, i ymddangos i'r meddwl y mwyaf dymunol. Nid digon yw eu bod yn cyfodi o'r rheswm, ac felly yn ddiffuant a chywir; rhaid iddynt hefyd fod yn *gyfaddas i ansawdd y meddwl*,—oblegid fel mai dewisiad yw y syniad o'r mwyaf dymunol, nis gall hwnw dueddu i ddeffroi y syniad hwn sydd yn briodol ac yn foddhaol i deimladau y deilydd, ond yn unig fel gwrthddrych. A lle mae awgrymau y rheswm mewn perthynas heb *fod* yn ddymunol, "yna y mae gweithred y ewyllys yn cael ei phenderfynu yn groes iddynt." (tudal. 13.)

## Adran III.

### "YN NGHYLCH YSTYR Y TERMAU ANGENRHEIDRWYDD, ANMHOSIBLRWYDD, ANALLUOGRWYDD, &c., AC YN NGHYLCH DAMWEINIAETH."

Ar ol rhoddi ei ddarnodiad o ddewisiad neu ewyllysiad, ac egluro achosydd yr unrhyw, cymer Edwards i fyny natur y cysylltiad sydd rhwng yr achosydd a'r effaith: noder, cymhelliad ac ewyllysiad. A ydyw y cysylltiad hwn yn gysylltiad angenrheidiol?

Mewn trefn i benderfynu y pwnc hwn, ac egluro ei olygiad am dano, â yn mlaen i ymdrin gydag ystyr y "termau" a gynnwysir yn y penawd uchod. Y mae yr ymdriniaeth yma yn cymeryd yr adran hon i fyny i gyd.

Gwna Edwards ddau fath o angenrheidrwydd: 1. Angenrheidrwydd yn yr ystyr isel a chyffredin o'r gair; 2. Angenrheidrwydd fel ei deallir mewn athroniaeth ac uchanianiaeth.

1. Mewn *ymddyddan cyffredin*, "defnyddir *angenrheidrwydd* fel *term* berthynasol; a pherthyna i ryw wrthwynebiad tybiedig a wneir i fodolaeth peth, yr hwn wrthwynebiad a orchfygir, neu sydd i brofi ei hun yn annigonol i'w rwystro neu i'w gyfnewid. Dyna sydd yn angenrheidiol, yn ystyr wreiddiol a phriodol y gair, yr hyn sydd neu a fydd, er pob gwrthwynebiad a ellir dybied. Dweyd fod peth yn angenrheidiol, sydd yr un peth a dweyd fod yn anmhosibl iddo beidio bod. Ond y mae y gair *anmhosibl*, mae yn amlwg, yn derm perthyn-

asol, a chyfeiria at allu tybiedig sydd yn cael ei osod ar waith i ddwyn peth o amgylch, yr hwn sydd annigonol i hyny; fel y mae y gair *analluog* yn berthynasol, ac yn golygu gallu, neu ymgais, sydd yn annigonol. Hefyd y mae y gair *anwrthwynebol* yn berthynasol, ac y mae bob amser yn cyfeirio at wrthwynebiad sydd yn cael ei wneud, neu a ellir wneud, i ryw nerth neu allu sydd yn tueddu at effaith, ag sydd yn analluog i wrthsefyll y gallu, neu rwystro yr effaith." (tudal. 14.)

Yna y mae yn gwahan-nodi yr angenrheidrwydd hwn i *gyffredinol* a *neillduol.* "Y mae pethau yn angenrheidiol yn *gyffredinol*, y rhai sydd neu a fydd, er unrhyw wrthwynebiad tybiedig o ba gŵr bynag:" (tudal. 14.) megys, y barna Duw y byd.

"Fod pethau yn angenrheidiol *i ni* y rhai sydd neu a fydd, er pob gwrthwynebiad tybiedig yn yr achos *oddiwrthym ni.*" Dyma angenrheidrwydd *neillduol:* er enghraifft, unrhyw ddygwyddiad nas gallaf fi ei attal. Yn yr ymdriniaeth "yn nghylch rhyddid a gweithrediant moesol," defnyddir y gair yn arbenigol mewn ystyr neillduol, oblegid fel *unigolion* y mae a fynom ni â'r ymdriniaethau hyn.

Yn ol y modd *cyffredin* hyn o ddefnyddio y gair angenrheidrwydd yn yr ystyr *neillduol*, "pan soniwn am unrhyw beth fel yn angenrheidiol *i ni*, y mae gyda chyfeiriad at ryw wrthwynebiad tybiedig o eiddo *ein* hewyllys;" a dywedir fod peth yn angenrheidiol yn yr ystyr yma, pan nas gallwn ei rwystro, er gwneud a *allom.* Felly y dywedir hefyd fod peth yn *anmhosibl i ni* pan nad allwn ei wneud, er ymgais at hyny,—hyny yw, rhoi allan yr ewyllysiad; ac yn *anwrthwynebol i ni*, yr hwn, pan roddom allan ewyllysiad i'w attal, sydd yn gorchfygu y gwrthwynebiad: ac yr ydym yn *analluog* i wneud peth pan fyddo ein "dymuniadau a'n hymegnïon tybiedig yn annigonol,"—a'r effaith heb eu canlyn. Yn ystyr gyffredin ac isel yr ymadroddion hyn, nid ydym yn ystyried ewyllysiad gyda chyfeiriad at ei achosydd ei hun: ond yn ei ystyried fel achosydd ei hunan, gyda chyfeiriad at ei effeithiau: er enghraifft, tybier fod dadl yn cael ei chyfodi, pa un a all rhyw ddyn godi pwysau penodol,—os sicrheir fod ei godi yn *anmhosibl* iddo, nad oes ganddo y *gallu* i'w godi, ac fod y pwysau o *angenrheidrwydd* yn cadw ei sefyllfa,—nid at gynnyrchiad ewyllysiad neu ddewisiad i'w godi y mae y cyfeiriad yn cael ei wneud, ond yn unig at y *cysylltiad* sydd rhwng yr *ewyllysiad* a *chyfodiad y pwysau.* O barth hyn, sylwa Edwards fel hyn, "Ac er defnyddio y geiriau fel termau celfyddyd, mewn ystyr arall, etto, os na fyddwn yn hynod o ochelgar, ni a lithrwn yn ddiarwybod i'r defnyddiad cyffredin o honynt, ac felly cymhwyswn y geiriau mewn ffordd dra anghyson, yr hyn a'n twylla ac a'n dyrysa yn ein hymresymiadau, hyd yn nod pan gymerwn arnom eu defnyddio fel termau celfyddyd." (tudal. 15.) Am hyny rhaid i ni fod yn ofalus i'w gwahaniaethu.

2. Yn y defnyddiad uchanianol ac athronyddol o'r gair, *ymadrodd hollol* (absolute) ydyw angenrheidrwydd, ac nid term *perthynasol*. Ac y mae "yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau lle na thybir, neu na ellir tybied, ewyllys annigonol, ond y mae natur yr amgylchiad tybiedig ei hunan yn cau allan unrhyw wrthwynebiad, ewyllys, neu ymgais." (ibid.) "Fel hyn, defnyddir ef gyda golwg ar fodolaeth Duw cyn creadigaeth y byd, pan nad oedd yr un bôd arall." (tudal. 16.) "Nid yw *angenrheidrwydd athronyddol* mewn gwirionedd yn ddim amgen na'r CYSYLLTIAD CYFLAWN A SEFYDLOG SYDD RHWNG Y PETHAU A ARWYDDOCEIR GAN Y GWRTHDDRYCH A'R PETH A DDYWEDIR AM DANO MEWN GOSODIAD, yr hwn sydd yn datgan fod rhywbeth yn wir." (tudal. 17.)

"Gallai gwrthddrych a'r hyn a ddywedir am dano mewn gosodiad, yr hwn sydd yn datgan bodolaeth unrhyw beth, feddu cysylltiad cyflawn, sefydlog, a sicr, mewn amrywiol ffyrdd."

1. "Gallant feddu cysylltiad cyflawn a pherffaith *yn ac o honynt eu hunain*. * * Felly y mae anfeidroldeb, a phriodoliaethau eraill Duw, yn angenrheidiol. Felly y mae yn angenrheidiol *yn natur y peth ei hun*, fod dau a dau yn bedwar." (tudal. 17.)

2. Y mae gwrthddrych a'r mynegiad mewn gosodiad, sydd yn datgan bodolaeth rhywbeth sydd *eisoes* wedi dyfod o amgylch, yn sefydlog a sicr.

3. "Gallai gwrthddrych a mynegiad mewn gosodiad sydd yn datgan bodolaeth rhywbeth, feddu cysylltiad gwirioneddol a sicr, *mewn ffordd o ganlyniad;*" ac felly gallai bodolaeth y peth fod yn "ganlyniadol angenrheidiol." "Y mae pethau sydd yn *berffaith gysylltiedig* â phethau sydd yn angenrheidiol, yn angenrheidiol eu hunain, trwy angenrheidrwydd o ganlyniad." (tudal. 18.) Dyma yw sicrwydd rhesymegol.

"Ac yma gellid sylwi, fod yr oll sydd ddyfodol, neu a ddechreua fod ar ol hyn, y gellir dweyd eu bod yn angenrheidiol, yn angenrheidiol yn unig yn yr ystyr olaf yma,"—hyny ydyw, "trwy *gysylltiad* â rhywbeth sydd yn angenrheidiol yn ei natur ei hun, neu sydd eisoes yn bod, neu wedi bod. * * *Dyma* yr angenrheidrwydd sydd yn perthyn yn arbenig i ddadleuon yn nghylch gweithrediadau yr ewyllys." (tudal. 19.)

Y mae angenrheidrwydd athronyddol yn *gyffredinol* ac yn *neillduol*. 1. "Gellir dweyd fod bodolaeth peth yn angenrheidiol trwy angenrheidrwydd *cyffredinol*, pan, ac ystyried pob peth, y mae sail i sicrwydd eu bodolaeth." Dyma angenrheidrwydd diammodol yn ystyr fanylaf y gair.

2. Cyfeiria angenrheidrwydd *neillduol* at "sydd yn dygwydd i bersonau neillduol, yn modolaeth pa rai nid oes dim a fyno unrhyw

ewyllys o'r eiddynt hwy, o leiaf ar y pryd; pa rai, pa un bynag a ydynt angenrheidiol ai peidio gyda golwg ar bethau yn gyffredinol, etto ydynt angenrheidiol iddynt hwy, a chyda golwg ar unrhyw ewyllysiad o'r eiddynt ar y pryd, yn gymaint a'u bod yn rhagflaenu pob gweithred o eiddo yr ewyllys yn yr helynt." (tudal. 19.) Y mae yr angenrheidrwydd neillduol hwn yn *hollol* i'r unigolydd, oblegid nad oes gan ei ewyllys ddim i'w wneud ag ef—pa un bynag a yw yn hollol neu beidio, yn ystyr gyffredin, nid yw yn newid dim ar yr achos. Yna y mae ewyllysiad yn angenrheidiol, o herwydd nad oes gan ewyllysiad ddim a wnelo gyda chynnyrchu ewyllysiad.

"Gallai fod yr hyn a ddywedwyd i ddangos ystyr y termau *angenrheidiol* ac *angenrheidrwydd*, yn ddigon hefyd i egluro y termau gwrthwynebol, *anmhosibl* ac *anmhosiblrwydd*. Oblegid nid oes dim gwahaniaeth ond yn unig fod yr olaf yn nacâol a'r cyntaf yn gadarnhaol." (tudal 20.)

### *Anallu ac Analluogrwydd.*

"Sylwyd fod y termau hyn yn cyfeirio, yn y defnydd gwreiddiol a chyffredin o honynt, at ewyllys ac ymgais, fel yn cael eu tybied yn yr amgylchiad." (tudal. 20.) Hyny ydyw, yn cyfeirio at y cysylltiad o eiddo ewyllysiad gydag effeithiau. "Ond fel y defnyddir y geiriau hyn gan athronwyr a duwinyddion, yn enwedig gan ysgrifenwyr mewn dadleuon yn nghylch ewyllys rydd, defnyddir hwynt mewn ystyr cwbl wahanol a llawer eangach, a chymhwysir hwynt at lawer o amgylchiadau lle na ellir tybied ewyllys neu ymgais tuag at ddwyn y peth o amgylch." (ibid.) Er enghraifft, y cysylltiad rhwng ewyllysiadau a'u hachosyddion neu gymhellion: a elwir yn y berthynas yma yn anallu *moesol* neu *uchanianol*.

### *Damwain a Damweiniaeth.*

"Dywedir fod unrhyw beth yn ddamweiniol, neu yn dyfod i fôd trwy ddamwain neu ddygwyddiad, yn ystyr gwreiddiol y cyfryw eiriau, pan y mae ei gysylltiad a'i achosion neu ei ragflaeniaid, yn ol trefn sefydlog pethau, *heb ei ganfod;* ac felly yn beth nad oes genym fodd i'w ragweled. * * Ond mae y gair *damweiniol* yn cael ei ddefnyddio yn helaeth mewn ystyr tra gwahanol; nid am yr hyn na allwn ni ganfod ei gysylltiad â'r gadwen o bethau, fel ag i allu ei ragweled, ond am rywbeth nad oes iddo o gwbl unrhyw sail neu reswm blaenorol, â pha un y mae gan ei fodolaeth unrhyw gysylltiad sefydlog a sicr." (tudal 20.)

Y mae Edwards yn defnyddio damweiniaeth *(contingency)* a siawns *(chance)* fel ymadroddion cyfystyr. Mewn siarad cyffredin, y mae

damweiniaeth a siawns yn cyfeirio at ein gwybodaeth ni—yn golygu nad ydym yn *canfod* un achos. Ond yn ol defnyddiad arall—yn ol defnydd ysgol athronyddol benodol o'r gair—dywed fod y gair damweiniaeth yn cael ei ddefnyddio i ddynodi yn hollol felly nad oes un achos; neu fod rhai dygwyddiadau yn cael eu gosod allan fel yn bodoli nad oes unrhyw achos neu sail i'w bodolaeth. Caiff hyn ystyriaeth yn ei le priodol. Gosod syniadau Edwards gerbron, ac nid eu hadolygu, yr ydwyf yn awr.

## Adran IV.

### "AM Y GWAHANIAETH RHWNG ANGENRHEIDRWYDD AC ANALLU NATURIOL A MOESOL."

Yr ydym yn dychwelyd yn awr at yr holiad:—A ydyw y cysylltiad rhwng cymhelliad ac ewyllysiad yn angenrheidiol? Yn y defnydd isel a chyffredin o'r gair, nid yw y term angenrheidrwydd yn perthyn i'r holiad hwn, oblegid yn yr ystyr hòno fel y gwelsom, cyfeirio y mae at y cysylltiad rhwng ewyllysiad (a'i ystyried fel achos) a'i effeithiau. Tra mai ystyried ewyllysiad fel effaith yn ei berthynas a'i achos, neu ei gymhellydd, yr ydym ni yn yr holiad hwn. Yna os ydyw cysylltiad cymhelliad a'r ewyllysiad yn angenrheidiol, rhaid mai yn ystyr athronyddol ac uchanianol y gair y mae felly. A'r angenrheidrwydd athronyddol hwn a ddeil Edwards sydd yn nodweddu cysylltiad cymhelliad ac ewyllysiad. Y mae yr adran hwn yn dechreu gyda y gwahan-nodiad canlynol o angenrheidrwydd athronyddol: "Y mae yr angenrheidrwydd a eglurwyd genym, sydd yn gynwysedig yn ngysylltiad anffaeledig y pethau a arwyddoceir yn ngwrthddrych a mynegiad gosodiad, fel y mae bodau deallol yn wrthddrychau iddo, yn cael ei wahaniaethu i angenrheidrwydd moesol a naturiol." (tudal. 21.) Yna y mae yn priodoli *angenrheidrwydd (athronyddol) moesol* i ddynodi natur y cysylltiad sydd rhwng cymhelliad ac ewyllysiad: "Ac weithiau wrth angenrheidrwydd moesol y deallir yr angenrheidrwydd hwnw o gysylltiad a *chanlyniad*, sydd yn codi o'r fath *achosion moesol* â nerth tueddiad, neu cymhellion, a'r cysylltiad sydd mewn llawer o amgylchiadau rhwng y rhai hyn a'r fath ewyllysiadau neu weithrediadau sicr. Ac yn yr ystyr *yma* yr wyf fi yn defnyddio yr ymadrodd *angenrheidrwydd moesol* yn y traethawd canlynol." (tudal. 21.) *Angenrheidrwydd (athronyddol) naturiol* fel y mae yn wahaniaethol oddiwrth hwn, a ddefnyddia efe i nodweddu y cysylltiad rhwng achosion naturiol ac ymddangosiad ein bodaeth, fel y cysylltiad rhwng gwrthddrychau allanol a'n hamrywiol deimladau ni, a'r cysylltiad rhwng gwirionedd a'n cydsyniad neu ein crediniaeth ni.

Wrth ddefnyddio y gair *moesol*, nid yw yn bwriadu awgrymu ei fod yn effeithio o gwbl ar hollolrwydd yr angenrheidrwydd a wahan-noda; i'r

gwrthwyneb, dywed y gall "angenrheidrwydd moesol fod mor hollol ag ydyw angenrheidrwydd naturiol. Hyny yw, gall yr effaith fod mor berffaith gysylltiedig â'i achos moesol, ag yw effaith angenrheidiol naturiol â'i achos naturiol." * * "Fel gan hyny y rhaid caniatâu, y gallai fod y fath beth a chysylltiad *sicr a pherffaith* rhwng achosion ac effeithiau moesol; felly hyn yn unig (h.y. cysylltiad sicr a pherffaith) yr wyf fi yn ei alw wrth yr enw *angenrheidrwydd moesol*." (tudal. 22.)

Ac nid yw yn golygu "pan mae arferiad neu gymhelliad moesol mor gryf fel y mae gweithred yr ewyllys yn dilyn yn anffaeledig, nad yw hyny i'w briodoli i *natur pethau*." (tudal. 23). Ond y mae y geiriau, moesol a naturiol, yn gyfleus i ddynodi gwahaniaeth sydd mewn gwirionedd yn bodoli; gwahaniaeth, "sut bynag, nad yw yn gorwedd gymaint yn natur y *cysylltiad* ag yn y ddau derm a *gysylltir*." Yn wir, addefa yn fuan ar ol hyn fod "dewisiad mewn *llawer o amgylchiadau* yn cyfodi oddiar natur mor wirioneddol a dygwyddiadau eraill." Ei syniad yn syml yw hyn—y mae dewisiad yn gorwedd yn nghyfundrefn ac yn nghadwen fawr natur mor wirioneddol ag unrhyw agweddiad arall sydd yn cyfodi oddiwrth ei ragflaenorydd ac yn meddu ei ganlyniadau neu effeithiau; ond yr ydym wedi priodoli natur i ddynodi cadwen achosion ac effeithiau, sydd yn gorwedd oddiallan i ni, ac sydd amlycaf i ni; a chan fod dewisiad "megys yn egwyddor newydd o ysgogiad a gweithrediad" yn gorwedd oddifewn i ni, ac yn fynych yn attal, ac yn cyfnewid cwrs allanol natur, ymddengys ei fod yn hawlio enwad neillduol.

Terfyna Edwards ei nodiadau ar angenrheidrwydd moesol trwy gyfiawnhau ei waith yn darostwng cymhelliad ac ewyllysiad o dan angenrheidrwydd naturiol. "Rhaid sylwi, gyda golwg ar yr hyn a eglurwyd, fel yn cael ei arwyddocâu gan yr enw *angenrheidrwydd moesol*, nad yw y gair angenrheidrwydd yn cael ei ddefnyddio yn ol amcan ac ystyr gwreiddiol y gair; oblegid fel y sylwyd o'r blaen, y mae y termau *angenrheidiol*, *anmhosibl*, *anwrthwynebol*, &c., mewn ymddyddan cyffredin, ac yn eu hystyr mwyaf priodol, bob amser yn berthynasol, gan gyfeirio at ryw wrthwynebiad neu ymgais gwirfoddol tybiedig, sydd yn annigonol. Ond nad yw y fath wrthwynebiad, neu ewyllys, neu ymgais gwrthgyferbyniol, yn dybiadwy mewn angenrheidrwydd moesol; yr hyn sydd yn sicrwydd y tueddiad a'r ewyllys ei hun; yr hyn na chaniatâ y dybiaeth am ewyllys i'w wrthwynebu neu i'w wrthsefyll. Oblegid y mae yn afresymol meddwl am yr un ewyllys yn ei gwrthwynebu ei hun, yn ei gweithred ar y pryd; neu y dewisiad presenol yn wrthwynebol i ac yn gwrthsefyll dewisiad presenol; mor afresymol ag a fyddai siarad am ddau ysgogiad gwrthgyferbyniol, yn yr un corff symudol, ar yr un pryd.—Ac am hyny nid yw yr achos a dybir byth yn caniatâu unrhyw brawf, pa un a all ewyllys a fo yn gwrthwynebu ac yn gwrthsefyll orchfygu yr angenrheidrwydd hwn."(tudal. 24.)

Mae y rhaneb hon yn eglur a llawn. Y mae angenrheidrwydd cyffredin, neu angenrheidrwydd yn ystyr wreiddiol y gair, yn cyfeirio at y cysylltiad rhwng ewyllysiad â'i effeithiau; oblegid y mae gwrthwynebiad i ewyllysio yn dybiadwy yma. Gallaf ddewis neu ewyllysio codi pwysau neillduol; ond mae y creiddgyrch gwrthwynebol i'm hymdrech yn ei gorchfygu, finnau yn cael fod ei godi yn *anmhosibl* i mi, ac erys y pwysau yn ei le yn *angenrheidiol.* Yn ol y defnydd hwn o'r termau hyn, y mae yr *anmhosiblrwydd* a'r *angenrheidrwydd* yn *berthynol* i fy ewyllysiad i; ond yn y cynnyrchiad o ddewisiad ei hun, neu ewyllysiad, neu y syniad o'r mwyaf dymunol, nid oes dim cyfeiriad at ymegnïad gwirfoddol. Nid yw dewisiad yn achos iddo ei hun: nis gellir amgyffred am dano yn ymryson ag ef ei hun yn ei gynnyrchiad ei hun. Nid yw achosydd ewyllysiad yn gorwedd tu fewn i gylch ewyllysiad ei hun; gan hyny, os gwneir unrhyw wrthwynebiad i gynnyrchiad ewyllysiad, nis gallai gael ei wneud gan ewyllysiad. Tybir y meddwl, gyda thueddiadau ac arferion penodol, yn cael ei osod o fewn cyrhaedd dylanwad gwrthddrychau a'u hamgylchiadau, ac fod y dewisiad yn cymeryd lle yn nghyd-berthynas y ddau, fel y syniad o'r mwyaf dymunol. Yn wir, nis gall dewisiad fodoli o flaen ei achosydd, ac felly nis gall fod dewisiad yn y weithred o'i achosyddiaeth. Gan hyny, daw i fod, nid trwy unrhyw angenrheidrwydd perthynol i ymegnïad gwirfoddol, ond trwy angenrheidrwydd athronyddol a hollol achos ac effaith. Y mae mor angenrheidiol a chwymp y gareg a daflwyd i'r awyr; neu waith y dwfr yn rhewi neu yn berwi mewn tymheredd neillduol; neu y weithred o weled, clywed, arogli, archwaethu, a theimlo, pan fo yr ermigau a gwrthddrychau y synwyrau wedi eu dwyn yn nghyd. Mae yn amlwg nad yw y cymhwysiad o'r cyfenw *moesol* at yr angenrheidrwydd mewn ewyllysiad, yn newid dim ar gymeriad y cyfryw angenrheidrwydd. Erys o hyd yn angenrheidrydd athronyddol a hollol, yr un mor sicr a pherffaith ag ydyw angenrheidrwydd naturiol Gwelsom ei fod yn addef hyn yn benodol yn (tudal. 22); yn dweyd yn (tudal. 23) fod y gwahaniaeth rhwng angenrheidrwydd moesol a naturiol yn "wahaniaeth yn y ddau derm a gysylltir," ac nid yn "*natur y cysylltiad.*"

*Anallu naturiol a moesol.*

"Gallai yr hyn a ddywedwyd am angenrheidrwydd naturiol a moesol, wasanaethu er egluro beth a feddylir wrth *anallu* naturiol a moesol. Dywedir ein bod yn *naturiol* yn analluog i wneud peth, pan nad allwn ei wneud os ewyllysiwn, oblegid nad yw yr hyn a elwir fwyaf cyffredin yn *natur* yn ei ganiatâu, neu o herwydd rhyw ddiffyg neu rhwystr sydd ar y ffordd y tu allan i'r ewyllys, naill ai yn nghynneddf y deall, cyfansoddiad

y corff, neu wrthddrychau allanol." (tudal. 24.) Gallwn wneud ymegnïad gwirfoddol i *wybod* rhywbeth, a chael ein hunain yn *analluog*, o herwydd *diffyg* yn y deall. Gallwn wneud ymegnïad gwirfoddol i *wneuthur* rhywbeth trwy offerynoliaeth y llaw, a chael ein hunain yn analluog trwy fod diffyg yn y cyfansoddiad anianyddol; neu gellir golygu fod gwrthddrychau oddiallan yn taflu y fath wrth-rym fel ag i orchfygu ein grym ni. Hyn yw anallu naturiol; dyma y cwbl a olygwn wrtho. Dylid sylwi hefyd nad *anallu athronyddol* neu *uchanianol* ydyw hwn, ac felly nad anallu *hollol* ydyw; ond anallu yn ystyr isel a chyffredin y gair—anallu *perthynasol*, perthynasol i ewyllysiad neu ddewisiad—anallu i wneuthur, er ein bod yn dewis gwneuthur.

Beth yw anallu moesol? "Anallu *moesol* nid yw gynnwysedig yn yr un o'r pethau hyn: ond naill ai yn niffyg tuedd, neu yn nerth tuedd wrthgyferbyniol, neu y diffyg o gymhellion digonol mewn golwg i annog a chynhyrfu gweithred yr ewyllys, neu nerth cymhellion ymddangosiadol i'r gwrthwyneb. Neu gellid crynhoi y ddau beth hyn i un; a gellid dweyd mewn un gair, fod anallu moesol yn gynnwysedig mewn gwrthwynebiad neu ddiffyg tuedd. Oblegid pan y mae person yn analluog i ewyllysio neu ddewis peth, trwy ddiffyg cymhellion, neu nerth cymhellion gwrthgyferbyniol, yr un peth ydyw a phe byddai yn analluog o ddiffyg tuedd, neu nerth tuedd wrthgyferbyniol, yn y fath amgylchiadau, a than ddylanwad y fath olygiadau." (tudal. 24.)

Nid yw anallu yn yr amgylchiad hwn yn cyfeirio at y cysylltiad rhwng ewyllysiad a'i ganlyniadau ac effeithiau; *ond at y cynnyrchiad o ewyllysiad ei hun.* Yn awr, nis gellir priodoli yr anallu er cynnyrchu ewyllysiad, i ewyllysiad ei hun, o herwydd na thybir ei fod etto mewn bodolaeth, ac am nas gellir amgyffred am effaith yn ei gynnyrchu ei hun. Rhaid felly fod yr anallu yn perthyn i achosyddion ewyllysiad, neu i'r cymhelliad. Ond fel y gwelsom, mae cymhelliad yn gorwedd yn *ansawdd y meddwl*, ac yn *natur* ac *amgylchiadau y gwrthddrych;* a bodola dewisiad neu ewyllysiad, pan yn nghyd-berthynas y meddwl â'i wrthddrych, y cynnyrchir y syniad o'r mwyaf dymunol. Yn awr, pa reswm all fod, mewn unrhyw amgylchiad a dybir, nad yw yr ewyllysiad, neu y syniad o'r mwyaf dymunol, yn cael ei gynnyrchu? Hyn yn ddiau, am nad oes yna y fath gyd-berthynas rhwng meddwl a gwrthddrych fel ag i gynnyrchu y syniad neu y dewisiad hwn. Ond yn mha le y gorwedd y diffyg? A siarad yn gyffredin, gallwn ddweyd ei fod yn gorwedd yn y meddwl a'r gwrthddrych—nad ydynt yn gyfaddas i'w gilydd. Nid yw y meddwl mewn ansawdd fel ag i gael dylanwi yn foddhaol arno gan y gwrthddrych; ac ni fedd y gwrthddrych ansoddau o brydferthwch a dymunoldeb i'r meddwl. Ar du y meddwl, mae yna naill ai diffyg tuedd at y gwrthddrych, neu duedd gryfach tuag at rhyw wrthddrych arall: ar du y gwrthddrych, mae diffyg ansoddau dyddorol

a boddhaol i'r *cyflwr penodol* o eiddo y meddwl mewn cwestiwn, neu *addasrwydd mwy* i gyflwr gwahanol o feddwl; a chyfansodda hyn "y diffyg o gymhelliadau digonol mewn golwg i ddarbwyllo a chynhyrfu y weithred o ewyllysio, neu nerth cymhellion ymddangosiadol i'r gwrthwyneb." A gellir darostwng y ddau hyn i un, yr hyn a grybwyllwyd o'r blaen, sef diffyg tuedd ar du y meddwl at y gwrthddrych, a thuedd gryfach tuag at wrthddrych arall; neu fel y mae Edwards yn ei ddatgan, "gwrthwynebiad neu ddiffyg tuedd." Oblegid mae diffyg tuedd at un gwrthddrych yn cynnwys tuedd gryfach at wrthddrych arall, yn dynodi nad ydyw *ansawdd y meddwl* a natur ac amgylchiadau y naill wrthddrych mewn cyd-berthynas; ond fod *ansawdd y meddwl* mewn cyd-berthynas gyda natur ac amgylchiadau y gwrthddrych arall. "Diffyg cymhellion digonol" ydyw y cyntaf, "cymhellion cryfach i'r gwrthwyneb" ydyw yr ail. Y mae anallu moesol yn gorwedd yn hollol o'r tu allan i gylch ewyllysiad; gan hyny, nis gall ewyllysiad ei gynnyrchu neu ei newid, oblegid y tybiai hyny fod effaith yn lluniaru ei achos, a hyny hefyd cyn i'r effaith ei hun dderbyn ei fodolaeth. Anallu moesol sydd anallu *uchanianol:* anmhosiblrwydd perffaith a sefydlog deddfau ac egwyddorion neillduol ydyw sydd yn arwain i ewyllysiadau penodol; a chyferbynir ef gydag *anallu naturiol*, yr hyn sydd anmhosiblrwydd sefydlog ewyllysiad penodol i gynnyrchu effaith neillduol. Felly gallwn ddweyd mai rhyw gysylltiad sicr a sefydlog rhwng deddfau ac egwyddorion penodol gydag ewyllysiadau ydyw *gallu moesol;* a'i fod yn wrthgyferbyniol i *allu naturiol*, yr hwn sydd gysylltiad sefydledig rhwng ewyllysiadau penodol ac effeithiau penodol.

Er ei fod tu hwnt i derfyngylch ewyllysiad, mae anallu moesol yn *anallu gwirioneddol.* Lle bynag y bo, y mae yno anmhosiblrwydd hollol i gynnyrchu ewyllysiadau,—ac wrth gwrs, anmhosiblrwydd hollol i effeithiau penodol gymeryd lle trwy yr ewyllysiad hwnw. Nid yw yr anmhosiblrwydd i ddwfr rewi uwchlaw tymheredd sefydlog, neu ferwi islaw tymheredd sefydlog, yn fwy sicr na'r anmhosiblrwydd i effeithiau gymeryd lle trwy ewyllysiad pan fo yna anallu moesol i'r cyfryw ewyllysiad. Y mae y gwahaniaeth rhwng y ddau yn gorwedd nid yn "natur y cysylltiad," ond "yn y ddau derm a gysylltir."

Dyry Edwards amryw enghreifftiau er egluro anallu moesol.

"Gallai fod gan wraig o anrhydedd mawr a diweirdeb, anallu moesol i'w gwneud ei hun yn butain i'w chaethwas." (tudal. 25). Nid oes dim cyd-berthynas rhwng *ansawdd ei meddwl* hi â'r *weithred* sydd yn ffurfio y gwrthddrych a olygir,—wrth gwrs, nis gall y syniad o'r mwyaf dymunol neu ddewisiad gymeryd lle; a thra yr erys ansawdd ei meddwl hi yr un, a'r weithred ac amgylchiadau y gwrthddrych hefyd yr un, yn ol egwyddor cyfundrefn Edwards, y mae anallu hollol i'r dewisiad, ac wrth gwrs, i ganlyniadau y dewisiad.

"Gallai plentyn o gariad ac ufudd-dod mawr i'w rïeni, fod felly yn analluog i ladd ei dad." Yr achos hwn sydd gyffelyb i'w flaenorydd.

"Gallai dyn trythyll iawn, mewn amgylchiad o gyfleusderau a themtasiynau neillduol, ac yn absenoldeb y cyfryw a'r cyfryw attal-feydd, fod yn analluog i ymattal rhag boddio ei chwant." Yma mae *ansawdd y meddwl* a'r *gwrthddrych* yn ei *natur a'i amgylchiadau* mewn cyd-berthynas,—ac wrth gwrs, mae yma *allu moesol* i'r dewisiad, ac *anallu moesol* i'w ymattal, neu ddewis i'r gwrthwyneb.

"Gallai meddwyn, dan y cyfryw a'r cyfryw amgylchiadau, fod yn analluog i ymattal rhag cymeryd diod gadarn." Cyffelyb i'r diweddaf.

"Gallai dyn tra maleisus fod yn analluog i wneud gweithredoedd o garedigrwydd i elyn, neu ddymuno ei lwyddiant; ïe, gallai rhai fod i'r fath raddau dan lywodraeth tuedd ddrwg, fel ag i fod yn analluog i garu y rhai sydd fwyaf teilwng o'u cariad a'u parch." Y fath yw *ansawdd y meddwl*,—hyny yw, y tueddfryd neu y teimladrwydd,—fel nad yw o gwbl mewn cyd-berthynas â'r ddyledswydd fawr o garu ei gymydog fel ef ei hun,—neu ryw ragoriaeth foesol arall: wrth gwrs, nid yw y syniad o'r mwyaf dymunol yn cael ei gynnyrchu; ac yn y cyfryw ansawdd meddwl mae yna anmhosiblrwydd hollol iddo gael ei gynnyrchu.

"Gallai arferiad gadarn o rinwedd, a gradd fawr o santeiddrwydd, beri anallu moesol i garu drygioni yn gyffredinol." (tudal. 25.) * * "Ar y llaw arall, gallai gradd fawr o ddrygioni parhaus osod dyn dan anallu i garu a dewis santeiddrwydd, a'i wneuthur yn gwbl analluog i garu Bôd anfeidrol santaidd, neu i'w ddewis ac ymlynu wrtho fel ei ddaioni penaf." (ibid.) Cynnyrchir cariad a dewisiad o santeiddrwydd yn angenrheidiol gan gyd-berthynas y meddwl gyda santeiddrwydd; ac mae caru neu ddewis santeiddrwydd yn gwbl *anmhosibl* lle nad yw y fath gyd-berthynas yn bodoli.

Lle mae anallu moesol i ddrygioni yn bodoli, nis gall dim fod yn fwy sicr a sefydlog na'r cyfryw analluogrwydd. Nid oes gan y dyn sydd ddarostyngedig iddo ddim gallu o gwbl i'w newid. Cyn y gallai geisio ei newid, byddai yn rhaid iddo roi allan ewyllysiad i'r pwrpas: ond byddai hyny yn ewyllysiad drwg, a thybir nad oes gan y dyn allu i ewyllysiad drygionus. Lle bynag mae anallu moesol i'r hyn sydd dda yn bod, nis gall dim fod yn fwy sicr a sefydlog na'r cyfryw analluog-rwydd. Nid oes gan y dyn sydd ddarostyngedig iddo ddim gallu o gwbl i'w newid. Pe ceisiai ei newid, rhaid fyddai iddo roi allan ewyllysiad i'r perwyl hyny; ond byddai hwnw yn ewyllysiad daionus, ac mae i'w dybied nad oes gan y dyn ddim gallu i ewyllysiadau daionus.

*Anallu cyffredinol ac arferol, neillduol ac achlysurol.*

Cynnwysir y cyntaf mewn "tueddiad sefydlog a pharhaus, neu ddiffyg

parhaus a chyson, neu ddiffyg rhyw fath neillduol o dueddiad." (tudal. 25.)

A'r ail "yn anallu yr ewyllys neu y galon at ryw weithred arbenig, trwy nerth neu ddiffyg cymhellion presenol, neu o annogaethau yn cael eu dwyn i olwg y deall *ar yr amgylchiad hwn*," (tudal. 26.)

Meddwyn cyson, neu ddyn sobr cyson ar ryw *amgylchiad neillduol* yn meddwi, ydynt enghreifftiau o anallu cyffredinol a neillduol. Yn yr enghraifft gyntaf, mae *ansawdd* meddwl y dyn wedi d'od i gyd-berthynas â'r gwrthddrych, a hyny yn sefydlog ar bob pryd ac o dan bob amgylchiad. Yn yr ail enghraifft, nid yw ansawdd meddwl y dyn mewn cyd-berthynas â'r gwrthddrych, ond yn unig pan bresenolir y gwrthddrych ar achlysuron a than amgylchiadau neillduol. Yn y ddwy enghraifft, sut bynag, mae y dewisiad yn angenrheidiol,—"gan nad yw yn bosibl, mewn unrhyw amgylchiad, i'r ewyllys, ar y pryd, fyned yn erbyn y cymhelliad sydd yn awr, ac ystyried pob peth, yn meddu y fantais fwyaf i'w pherswadio." (tudal. 26.) * * "Nid yw ewyllys ac ymgais yn erbyn, neu yn wahanol i weithredoedd *presenol* yr ewyllys, i'w tybied mewn unrhyw amgylchiad, pa un bynag a fo y gweithredoedd hyny yn achlysurol neu yn gyson; oblegid hyny fyddai tybied fod yr ewyllys, yn bresenol, yn wahanol i'r hyn ydyw yn bresenol." (ibid.)

Haeddai y rhaneb sydd yn canlyn sylw neillduol. Gellid ei chymeryd i fyny o dan y ewestiwn canlynol:—Er nas gall ewyllys weithredu yn groes i weithredoedd presenol yr ewyllys, etto a all gweithredoedd presenol yr ewyllys gael eu galw allan i gynnyrchu gweithredoedd dyfodol o eiddo yr ewyllys, sydd yn groes i weithredoedd presenol arferol neu achlysurol?

"Ond etto, gallai fod ewyllys ac ymgais yn erbyn gweithredoedd *dyfodol* yr ewyllys, neu ewyllysiadau sydd yn debyg o gymeryd lle, a'u golygu o'r pellder. Nid yw yn wrthddywediad tybied y gallai fod gweithredoedd yr ewyllys ar un adeg, yn erbyn gweithredoedd yr ewyllys ar adeg arall; a gallai fod dymuniadau ac ymgeision i rwystro neu i gynhyrfu gweithredoedd dyfodol o eiddo yr ewyllys; ond y mae y fath ddymuniadau ac ymgeision, mewn llawer o amgylchiadau, yn cael eu gwneud yn annigonol neu yn ofer trwy sefydlogrwydd arferiad: pan mae yr achlysur yn dyfod, y mae nerth arferiad yn gorchfygu ac yn dyrysu pob gwrthwynebiad o'r fath." (tudal. 26.)

Cymerwn enghraifft y meddwyn. Y dewisiad neu ewyllysiad i yfed ydyw cyd-berthynas sefydlog ei dueddiad ef â'r ddiod gadarn. Ond gellir tybio i'r tueddiad yma gael effeithio arno gan wrthddrychau eraill yr un modd: megys yr ystyriaeth o les a dedwyddwch ei wraig a'i blant, ei barchusrwydd a'i ddedwyddwch ei hun. Pan fyddo y cwpan o'r golwg, ac yntau wedi cael llewyg o orlenwad a diflasdod arno, gall yr ystyriaethau hyn, ar y pryd, ddeffroi ynddo y syniad o'r

mwyaf dymunol, ei arwain i ochel achlysuron meddwdod, ac i ffurfio penderfyniadau o ddiwygiad; ond pan mae y wanc a'r hiraeth am y ddiod gadarn yn dychwelyd, ac yntau yn d'od eilwaith i gyfleusdra i ymyfed, yna pan ddygir yr ystyriaethau a nodwyd i wrthdarawiad teg gyda'r hen arferion, hwy a orchfygir ganddynt, ac y mae yfed, fel y mwyaf dymunol, yn cario y dydd.

"Ond gallai fod yn hawdd mewn cymhariaeth wneuthur cyfnewidiad, gyda golwg ar y fath weithredoedd dyfodol nad ydynt ond *achlysurol* a *diflanedig;* oblegid gellid yn fynych rwystro neu ochelyd yr achos achlysurol neu ddiflanedig, os ydys yn ei ragweled." (tudal. 26.)

Yn yr amgylchiad o feddwdod achlysurol, er enghraifft, nid rhwng y meddwl a'r ddiod gadarn mae y cyd-berthynas arferol, ond rhwng y meddwl a'r ystyriaeth o anrhydedd, pwyll, a rhinwedd. Ond gallai y ddiod trwy fod ar ryw achlysur yn gysylltiol gyda gwrthddrychau cyd-berthynasol â'r meddwl,—megys llettygarwch, cyfeillgarwch, neu loddestau gwestfâol,—gario y feistrolaeth; ac yn yr amgylchiad hwn, gall y dyn trwy beidio bod dan ddim temtasiwn oddiwrth y ddiod ei hun, a thrwy gael effeithio arno yn rymus gan y syniad o'r mwyaf dymunol, gyda golwg ar wrthddrychau sydd wrthwynebol i feddwdod, gymeryd gofal na chaiff y ddiod gadarn dd'od etto i amgylchiadau a ddyry iddi y fantais achlysurol. Gwnelai mynychiad o feddwdod achlysurol gyfnewidiad mawr yn y teimladrwydd, ac yn y man sefydlai hoffder arferol a pharhaus am y ddiod. "Ar y cyfrif hwn, y mae yr anallu moesol sydd yn dilyn arferion sefydlog, yn arbenig yn derbyn yr enw o *anallu.* Ac yna, fel y gall yr ewyllys o bell ac yn anuniongyrchol ei gwrthsefyll ei hun, a hyny yn ofer, lle y mae arferion cryfion; felly gall rheswm yn bresenol wrthsefyll gweithredoedd yr ewyllys, ac i'w wrthsafiad fod yn annigonol; ac y mae hyny yn cymeryd lle hefyd yn fwy cyffredin pan mae y gweithredoedd yn codi oddiar arferion cryfion." (ibid.)

Yn mhob gweithred o eiddo yr ewyllys, ar y mynyd hwnw mae yr ewyllys yn analluog i weithredu yn wahanol; yn ystyr fanylaf y gair, mae yn ddiau fod y dyn ar fynyd ei weithrediad, yn gorfod gweithredu fel y gwna weithredu; ond gan mai yn ol ansawdd arferol eu meddyliau yr ydym yn gyffredin yn nodweddu dynion, yr ydym yn siarad yn fwy penodol am anallu moesol gyda golwg ar weithredoedd a wybyddir na ddygant ddim cyd-berthynas gyda'r ansawdd arferol yma. Y mae yr ansawdd arferol hwn o eiddo y meddwl, os nad ydyw yn wrthwynebol i reswm, yn gorchfygu rheswm; oblegid nis gall dim, hyd yn nod rheswm ei hun, fod y cymhelliad cryfaf, os na chynnyrcha y syniad o'r mwyaf dymunol; ac nis gall wneud hyny pan mae y tueddfryd neu y teimladrwyddd arall yn wrthwynebol iddo.

*Yr arferiad gyffredin gyda golwg ar yr ymadrodd* DIFFYG GALLU, *neu* ANALLU *i weithredu mewn ffordd benodol.*

"Ond rhaid sylwi gyda golwg ar anallu moesol, yn y naill fath a'r llall o hono, fod y gair *anallu* yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr sydd yn dra gwahanol i'w arwyddocâd gwreiddiol. Nid yw y gair yn arwyddo ond anallu naturiol, yn y defnydd priodol o hono; a chymhwysir ef at y fath amgylchiadau yn unig lle y tybir ewyllys neu dueddiad presenol at y peth, gyda golwg ar yr hwn y dywedir fod y person yn analluog. Ni ellir dweyd yn gywir, yn ol fel y defnyddir iaith, na all dyn maleisus, boed ef mor faleisus ag y bo, attal ei law rhag taro, neu nad yw yn alluog i ddangos caredigrwydd i'w gymydog; neu na all meddwyn, boed ei chwant mor gryf ag y bo, gadw y cwpan oddiwrth ei enau. Yn mhriodoldeb manylaf iaith, y mae peth yn ngallu dyn, os ydyw ganddo yn ei ddewisiad, neu at ei etholiad; ac ni ellir yn gywir dweyd fod dyn yn analluog i wneud peth, pan y gall ei wneud os ewyllysia." (tudal. 27.)

Yn ol y defnydd cyffredin o iaith, ac yn natganiad y syniadau a dderbynir ganddynt yn gyffredinol, mae dynion yn golygu fod rhywbeth yn ngallu person, pan y gellir ei lywodraethu gydag ewyllysiad. Nid oddiwrth gysylltiad ewyllysiad a'i achosydd y mae eu syniad am allu yn cyfodi, ond oddiwrth gysylltiad yr ewyllysiad, fel mae yn achosydd ei hun, gyda ei effeithiau. Fel hyn, pan godir llaw dyn maleisus i daro, mae ganddi ewyllysiad yn rhagflaenorydd; ac os attelir hi rhag taro, mae ganddi ewyllysiad yn rhagflaenorydd yr un modd; fel, yn ol y modd y defnyddir iaith yn gyffredin, mai ganddo ef, fel deilydd ewyllysiad, y mae y gallu i daro neu i beidio taro. Yn awr, megys "y mae yn anmhriodol dweyd na all person gyflawni y gweithredoedd allanol hyny, y rhai sydd yn ymddibynu ar weithred yr ewyllys, a'r rhai a gyflawnid yn hawdd pe byddai gweithred yr ewyllys yn bresenol. Ac os ydyw yn anmhriodol dweyd nad all gyflawni y gweithredoedd allanol gwirfoddol hyny sydd yn ymddibynu ar yr ewyllys, y mae mewn rhyw ystyr yn fwy anmhriodol dweyd ei fod yn analluog i gyflawni gweithredoedd yr ewyllys eu hunain; oblegid y mae yn fwy amlwg yn anwiredd, gyda golwg ar y rhai hyn, na all os ewyllysia; oblegid y mae dweyd felly yn wrthddywediad noeth; dweyd ydyw *na all* ewyllysio, os *ydyw* yn ewyllysio. Ac yn yr amgylchiad hwn, nid yn unig y mae yn wir fod yn hawdd i ddyn wneud peth os ewyllysia, ond yr ewyllysio ei hunan yw y gwneud." (tudal. 27.)

Yn ol hyn, mae yn anmhriodol dweyd, na all dyn wneud peth, pan nad oes dim yn ddiffygiol ond gweithred o ewyllysiad; oblegid yr hyn sydd o fewn ein gallu, mor bell ag y gall fod o fewn ein gallu, ydyw yr hyn sydd o fewn cyrhaedd ein hewyllysiad.

Mae yn fwy anmhriodol etto i ddweyd fod dyn yn analluog i ymarfer gweithrediadau yr ewyllys eu hunain, neu yn analluog i gynnyrchu ewyllysiadau. Dweyd fod gan ddyn allu i gynnyrchu ewyllysiadau, fyddai golygu fod ganddo allu i ewyllysio ewyllysiadau; ond gwnelai hyn un ewyllysiad yn achosydd y llall, yr hyn sydd wrthun. Ond, fel y mae yn wrthun i osod allan yr ewyllys fel achosydd ei hewyllysiadau ei hun, ac wrth gwrs i ddweyd fod gan ddyn allu i gynnyrchu ei ewyllysiadau, rhaid ei fod yn wrthun hefyd i osod dyn allan fel yn *analluog*, mewn rhyw achos neillduol, i gynnyrchu ewyllysiadau, oblegid y golygai hyn ei fod mewn achosion eraill yn *alluog*. Na, y mae yr iaith yn hunanwrthwynebol. Os cynnyrcha dyn ewyllysiadau, rhaid iddo eu cynnyrchu trwy ewyllysiadau; ac os dywedir ei fod yn analluog mewn unrhyw achos i gynnyrchu ewyllysiadau, yna cyfyd yr analluogrwydd hwn oddiar ddiffyg cysylltiad rhwng yr ewyllysiad trwy yr hwn y ceisir cynnyrchu yr ewyllysiad gofynol, a'r ewyllysiad gofynol ei hun. Fel mae dweyd ei fod yn analluog i ewyllysio cystal a dweyd nas gall ewyllysio, *os ewyllysia*—gosodiad a ganiatâ y pwynt yr edryfa ei wadu. "Yr ewyllysio yw y gwneud" a ofynir.

Mabwysiada Edwards yr hyn a eilw yn ystyr "wreiddiol" a "phriodol" gallu, fel ei cymhwysir at weithredyddion dynol, ac a ymddengys fel ei gyfreithlawn a'i wir ystyr, "yn nefnyddiad cyffredin iaith." Yn y defnyddiad hwn o'r gair, y mae gallu, fel y gwelsom, yn cyfeirio yn unig at gysylltiad ewyllysiad gyda ei ganlynyddion, ac nid at ei gysylltiad gyda ei ragflaenyddion, neu gymhellion. Yna, gyda chyfeiriad at y gweithredydd dynol, "nid yw yn gyfiawn priodoli y peidio eyflawni i ddiffyg nerth neu allu," neu i ddiffyg cymhellion, (canys hyn yw ei olygiad yn eglur); "oblegid y peth sydd yn eisieu yw," (hyny ydyw, yn eisieu yn uniongyrchol, ac yn eisieu cyn belled ag y gall y gweithredydd ei hun fod yn wrthddrych sylw gyda golwg arno), "nid bod yn *alluog*," hyny yw, nid meddu y cymhellion gofynol, neu y gallu moesol, "ond bod yn *ewyllysgar*, neu y weithred o ewyllysiad ei hun. I'r act o ewyllysiad, neu i'r ffaith o 'fod yn ewyllysgar,' nid oes yr un gynneddf feddyliol, neu gyfaddasrwydd naturiol, yn eisieu, ond yn unig dueddiad neu ansawdd meddwl addas i'r weithred; ond gyda hyn, nis gall fod dim a wnelo y person gyda golwg ar ei weithrediad, oblegid y mae ganddo yr holl allu a ellir yn gyfreithlawn ei arddelwi iddo, pan y gall wneuthur y weithred, os ewyllysia ei gwneuthur. Mae yn amlwg y dichon fod yna anallu moesol hollol i wneuthur peth—hyny ydyw, y gall y cymhellydd fod yn eisieu sydd yn achosi yr ewyllysiad, yr hyn ydyw rhagflaenorydd uniongyrchol y peth sydd i'w wneuthur; ond etto os ydyw yn wir fod y fath gysylltiad rhwng yr ewyllysiad a'r peth sydd i gael ei wneuthur, fel y gwneir y peth y foment y cymer yr ewyllysiad le; yna, yn ol

Edwards, gellir dweyd fod y dyn yn alluog i'w wneuthur gyda yr unig allu y gellir ei briodoli iddo.

Yr unig ffordd y gallwn ymarfer gallu, ydyw trwy roddi allan ewyllysiadau—trwy ddewis; wrth gwrs, nis gallwn arfer gallu dros y cymhellion hyny, pa rai ydynt eu hunain yn achosyddion ein hewyllysiadau. Nid ydym yn *analluog* i wneud unrhyw beth yn ystyr briodol, wreiddiol, a chyfreithlawn y gair, pan nad ydym o herwydd diffyg cymhelliad, nad ydym yn ddeiliaid yr ewyllysiad gofynol fel rhagflaenorydd y peth sydd i'w wneuthur; ond yr ydym yn *analluog*, yn ol y defnyddiad yma o'r gair, er i'r ewyllysiad gael ei wneud, etto, o herwydd rhyw attalfa, nad yw y peth wedi ei wneuthur. Yr ydym yn ymwybodol o allu neu ddiffyg gallu, yn unig yn y cysylltiad rhwng ein hewyllysiadau gweithredol ni a'u gwrthddrychau.

## Adran V.

### "YN NGHYLCH Y SYNIAD AM RYDDID A GWEITHREDIANT MOESOL."

Beth yw rhyddid? "Ystyr eglur ac amlwg y gair *rhyddid*, mewn ymddyddan cyffredin, ydyw y *gallu*, y *cyfleusdra*, neu *y fantais sydd gan unrhyw un i wneud fel y myno.* Neu mewn geiriau eraill, ei fod yn rhydd oddiwrth unrhyw rwystr neu attalfa ar y ffordd i wneuthur neu ymddwyn mewn unrhyw ystyr fel yr ewyllysia. A'r *gwrthgyferbyniol* i ryddid, wrth ba enw bynag y galwn hyny, ydyw i berson gael ei rwystro neu fod yn analluog i ymddwyn fel y myno, neu gael ei osod dan angenrheidrwydd i wneud yn wahanol." (tudal. 28.) Etto, "Sef mai gallu neu gyfleusdra i un wneud ac ymddwyn fel yr ewyllysio, neu yn ol ei ddewisiad, yw yr oll a olygir wrtho, heb gymeryd i fewn i ystyr y gair ddim o *achos* y dewisiad hwnw; neu ystyried oll pa fodd y daeth y person i feddu y fath ewyllysiad, pa un bynag a benderfynwyd y peth gan ryw ewyllysiad tu fewnol blaenorol, ai a ddygwyddodd heb un achos; pa un bynag a ydoedd o angenrheidrwydd yn gysylltiedig â rhywbeth o'i flaen, ai nid ydoedd felly. Deled y person i afael â'i ddewisiad fel y delo, etto, os ydyw yn alluog, ac nad oes dim ar y ffordd i'w rwystro i fyned ar ol a chyflawni ei ewyllys, mae y dyn yn berffaith rydd, yn ol y syniad cyntefig a chyffredin am ryddid," (tudal. 29.)

Dyma ddarnodiant Edwards o ryddid, ac y mae wedi ei roddi gyda yr eglurder, a'r croywder, ac ar yr un pryd gyda yr helaethder hyny sydd yn peri fod yn anmhosibl camgymeryd ei olygiad.

Nid oes gan ryddid ddim a wnelo gyda y cysylltiad sydd rhwng ewyllysiad a'i achosydd neu gymhelliad. Perthyna rhyddid yn unig

i'r cysylltiad sydd rhwng yr ewyllysiad a'i wrthddrychau. Efe sydd yn rhydd yn ystyr gywir a phriodol y gair, sef yr hwn pan yn ewyllysio sydd yn cael nad oes yr un attalfa rhwng yr ewyllysiad a'i wrthddrych, —yr hwn a ewyllysia, a'r peth a wnaed. Y mae yn ewyllysio cerdded, a'i aelodau yn ufuddhau iddo; neu siarad, ac y mae ei ddeall a'i dafod yn ufuddhau, yn ffurfio ac yn datgan brawddegau. Pe buasai ei aelodau yn rhwym, ni buasai ef yn rhydd. Pe byddai ei dafod wedi ei rhwymo, neu ei enau wedi ei chloi, ni byddai ef yn rhydd; neu pe byddai ei ddeall wedi ei barlysu neu ei afreoleiddio, neu rywbeth yn attal yr ewyllysiad rhag cario effaith, nid yw yn briodol dweyd fod dyn yn rhydd.

*Am ba beth y gall y briodoledd o ryddid gael ei dal?*

Oddiwrth y darnodiant a roddwyd ar y pwnc, mae Edwards yn sylwi fel hyn, "Yna y mae yn canlyn na all, yn mhriodoldeb iaith, na rhyddid na'i wrthgyferbynydd, yn fanwl, gael ei briodoli i unrhyw fôd neu beth, ond yr hyn y mae iddo y fath gynneddf, gallu, neu feddiant, ag a elwir ewyllys. Oblegid yr hyn nid oes ganddo *ewyllys*, nis gall feddu unrhyw *allu* neu *gyfleusdra* i wneuthur *yn ol ei ewyllys*, ac nis gall fod dan angenrheidrwydd i weithredu yn *groes i'w ewyllys*, na'i lesteirio rhag gweithredu yn foddhaol iddi. A chan hyny, nid yw siarad am ryddid, neu yr hyn sydd yn wrthgyferbyniol, fel yn perthyn *i'r ewyllys ei hunan*, yn siarad synwyr da, os barnwn am synwyr a ffolineb yn ol arwyddocâd gwreiddiol a phriodol geiriau. Oblegid nid yw yr ewyllys ei hunan yn weithredydd *sydd yn meddu ewyllys;* nid oes gan y gallu i ddewis ei hunan, allu i ddewis. Yr hyn sydd yn meddu y gallu o ewyllysiad ydyw y dyn, neu yr enaid, ac nid gallu yr ewyllysiad ei hun. A'r hwn sydd yn meddu rhyddid i weithredu yn ol ei ewyllys, yw y gweithredydd sydd yn meddu yr ewyllys, ac nid yr ewyllys a fedda." (tudal. 28.)

Priodoledd gweithredydd yw rhyddid, o herwydd mai y gweithredydd ydyw yr hanfod neu y bôd ysbrydol sydd yn ddeilydd y gallu neu y cyfaddasrwydd i ddewis, ac mae ei ryddid yn gynnwysedig fel y gwelsom yn nghysylltiad diattalfa yr ewyllysiadau a gynnyrchir ynddo gyda gwrthddrychau yr ewyllysiadau hyny. Gan hyny, mae *ewyllys rydd* yn ymadrodd gwrthodedig. *Rhydd-weithredydd* ydyw yr ymadrodd priodol, hyny yw, gweithredydd yn meddu y gallu i ddewis a dewisiad yr hwn sydd yn cyrhaedd effeithiau.

*Gweithredydd moesol.*

"*Gweithredydd moesol* ydyw bôd sydd yn alluog o'r gweithredoedd hyny sydd yn meddu ansawdd *foesol*, ac a ellir yn briodol eu galw yn

dda neu yn ddrwg mewn ystyr foesol, rhinweddol neu ddrygionus, canmoladwy neu feius." (tudal. 30.)

Yn mha beth y gorwedd gallu gweithredoedd sydd yn meddu ansawdd foesol?

"I weithrediant moesol perthyna *cynneddf foesol*, neu deimlad o dda a drwg moesol, neu o'r fath beth a theilyngdod neu werth, o ganmoliaeth a bai, gwobr a chosb; a gallu yr hwn a fedd gweithredydd o gael dylanwadu arno yn ei weithredoedd gan ddarbwylliadau neu gymhellion moesol, y rhai a ddygir gerbron y deall a'r rheswm, i'w ennill i ymarweddu yn foddhaol i'w gynneddf foesol." (tudal. 30.)

Bôd ydyw gweithredydd moesol a all gyflawni gweithredoedd moesol, neu weithredoedd darostyngedig i ganmoliaeth a bai. Gallai yr un weithred gael ei chyflawni gan ddyn neu gan anifail—ond y dyn yn unig a fydd yn euog: paham mae y dyn yn euog? O herwydd fod ganddo ef synwyr moesol neu ddirnadaeth trwy yr hwn y gwahaniaetha rhwng drwg a da; tra nad oes gan yr anifail y fath allu. Gan fod dyn yn meddu y gallu hwn i wahaniaethu daioni a drygedd gweithredoedd, gall gweithredoedd a'u hansoddau moesol fod yn y fath gyd-berthynas ag ef fel ag i gynnyrchu y syniad o'r mwyaf dymunol neu ddewisiad. Neu gallwn ddweyd yn gyffredinol, fod gweithrediant moesol yn gynnwysedig yn y meddianniad o reswm a chydwybod i wahaniaethu rhwng da a drwg, yn nghyda chyfaddasrwydd i gael y da a'r drwg i'r fath gyd-berthynas â'r meddwl fel ag i ffurfio cymhellion a chynnyrchu ewyllysiadau. Gallwn ddarnodi dyn o chwaeth yn y celfau cain mewn ffordd cyffelyb. Fel hyn,—gweithredydd ydyw dyn o chwaeth sydd yn meddu gallu i wahaniaethu rhwng y prydferth a'r anferth, a meddwl yr hwn sydd yn y fath gyd-berthynas â'r prydferth fel y mae y syniad o'r mwyaf dymunol neu ddewisiad yn cael ei gynnyrchu. Yr unig wahaniaeth rhwng y ddau ydyw hyn: fod y syniad o'r mwyaf dymunol yn cael ei gynnyrchu bob amser yn yr olaf gan brydferthwch a ganfyddir; tra nad ydyw y da a ganfyddir yn cynnyrchu y syniad hwn bob amser yn y cyntaf: yn y gwrthwyneb, cynnyrchir y syniad o'r mwyaf dymunol yn aml gan y drwg mewn gwrthwynebiad i benderfyniadau rheswm a chydwybod.

Yn awr, wele fi wedi gorphen gosod Cyfundrefn Edwards gerbron, braidd yn hollol yn ei eiriau ef ei hun, fel mae yn y *Rhan Gyntaf* o'i waith. Y sylwadau a'r egluriadau a daflwyd i mewn a wasanaethant, gobeithiaf, er ei wneud yn fwy perffaith ddealledig. Cyrhaeddir yr amcan hwn yn llawnach etto trwy osod gerbron (ar sail yr ymchwiliad a'r adroddeb rhagflaenol) grynodeb o'i gyfundrefn feddylegol, annibynol ar y drefn a ddilynasom eisoes, ac heb wneuthur nemawr o ddyfynebion o'i waith, yr hyn, debygid, a wnaed genym eisoes yn llawn ddigon helaeth.

# CRYNODEB O GYFUNDREFN FEDDYLEGOL EDWARDS

I. Y mae dwy brif gynneddf o eiddo y meddwl. 1. Y ddeallol—a elwir rheswm neu ddealltwriaeth. 2. Y weithgar a'r teimlad—a elwir ewyllys neu serchiadau.

II. Perthynas y ddwy hyn a'u gilydd. Y mae y gyntaf yn rhagflaenu yr ail yn eu trefn o weithredu. Y mae y gyntaf yn dirnad ac yn adnabod gwrthddrychau yn eu hansoddau, amgylchiadau, a pherthynasau. Yr ail yn profi cyffroadau a nwydau, neu ddymuniadau a dewisiadau, gyda golwg ar y gwrthddrychau a ganfyddir.

III. Mae y ddirnadaeth yn rheidiol. Pan mae y deall a'i wrthddrychau wedi eu dwyn at eu gilydd, cymer dirnadaeth le, yn ol deddfau gosodedig y dealltwriaeth.

IV. Mae gweithrediadau yr ewyllys neu y serchiadau yn rheidiol. Pan mae y gynneddf hon o'n bodaeth a'i gwrthddrychau yn cael eu dwyn at eu gilydd, y mae ewyllysiad neu ddewisiad, cyffroadau neu ddymuniadau yn cymeryd lle, yn ol natur a deddfau gosodedig y gynneddf hon.

Mae y gwrthddrychau a'r gynneddf hon yn gyd-berthynasol. Yn ei pherthynas â'r gwrthddrych, gellir galw y gynneddf hon yn ddeilydd. Pan fyddo y deilydd a'r gwrthddrych yn gyfaddas i'w gilydd, hyny yw, yn ddymunol, cynnyrchir teimladau a alwn ni yn hyfryd; pan na byddont yn gyfaddas i'w gilydd, hyny yw, yn annymunol, y mae teimladau anhyfryd neu boenus yn cymeryd lle. Mae pob gwrthddrych yn ei berthynas â'r deilydd yn ddymunol neu annymunol, ac yn cynnyrchu yn gyffredin, yn ol hyny, deimladau hyfryd neu boenus.

Yn mherffeithrwydd a chydgordiad ein bodaeth, y mae y cyfatebiad hwn yn gyffredinol; hyny yw, yr hyn a wybyddir i fod yn ddymunol a deimlir i fod yn hyfryd;—a'r hyn a wybyddir i fod yn annymunol a deimlir i fod yn boenus. Ond yn llygredigaeth ein natur, y mae yn chwithig i hyn gyda golwg ar wrthddrychau moesol. Er y gwybyddir fod y da yn ddymunol, hyny yw, yn addas i ni, etto efe a deimlir i fod yn boenus. Tra mae y drwg yr hwn a wybyddir i fod yn anghyfaddas, yn cael ei deimlo yn hyfryd. Dylid sylwi yn y fan hyn, fod hyfryd a dymunol yn cael eu defnyddio gan Edwards ac eraill fel termau cyfystyr. Y mae y gwahaniaethiad a wnaethum yma yn gyfleus o leiaf i ddysgrifio yr un gwrthddrychau fel y'u presenolir i'r dealltwriaeth a'r ewyllys.

V. Y cynnyrchir cyffroadau a theimladau, ewyllysiadau a dewisiadau, yn nghyd-berthynas y deilydd, hyny yw, yr ewyllys, a'r gwrthddrych. Wrth roddi achosion y teimladau hyn, gallwn gyfeirio at natur yr

ewyllys, yr hon sydd yn gyfryw, fel ag i dderbyn teimladau "fel ar fel," tra yn mhresenoldeb gwrthddrychau "fel ar fel:" neu gallwn gyfeirio at y gwrthddrychau, a dweyd fod eu natur a'u hamgylchiadau hwy y fath fel ag i gynnyrchu teimiadau "fel ar fel" yn yr ewyllys: neu gallwn gyfeirio at y naill a'r llall ar unwaith, a dweyd fod y teimladau yn cyfodi oddiar gyflwr y meddwl, ac oddiwrth natur ac amgylchiadau y gwrthddrych.

VI. Fod cynhyrfiadau yr ewyllys yn sefyll yn gysylltiedig gyda chyfnewidiadau neu effeithiau yn rhanau eraill ein bodaeth, fel rhagflaenyddion sefydledig. Yn gyntaf, safant yn gysylltiedig fel hyn gyda gweithrediad cyhyrol—megys cerdded, siarad, taraw, gwrthwynebu, &c. Yn ail, safant yn gysylltiedig fel hyn gyda gweithrediadau meddyliol—megys sefydlu sylw ar ryw wrthddrych o ymchwiliad a myfyrdod, neu ar ryw feddylddrych o eiddo y ddychymyg neu y cof.

VII. Fod gan gynhyrfiadau yr ewyllys, pan yn gysylltiedig fel hyn gydag effeithiau yn rhanau eraill ein bodaeth, nodwedd neillduol a tharawgar. Sef hyn: fod yr effaith a ystyrir yn cymeryd lle ar yr eiliad yr ymddengys y mwyaf dymunol—y daioni ymddangosiadol mwyaf; yr hyn a olyga, yn ol fel y defnyddir yr ymadroddion hyn gan Edwards, fod yr effaith yn cymeryd lle yr eiliad y cynnyrchir y teimlad mwyaf hyfryd,—y syniad mwyaf angherddol o'r dymunol. Fel hyn, pan fyddo cerdded yn ymddangos y mwyaf hyfryd, yr ydym yn cerdded; pan fyddo siarad felly, siaradwn; neu fyfyrio ar wrthddrych neillduol, yr ydym yn myfyrio ar y gwrthddrych hwnw. Y cyfryw ydyw cyfansoddiad a deddf ein bodaeth. Mae y rhanau gwahanol yn chwareu yn unedig. Rhaid i'r ddirnadaeth alw y gwrthddrychau i fyny, ac mae cynhyrfiadau yr ewyllys yn canlyn yn uniongyrchol. Ar y pethau mwyaf dymunol y gorphwysa y meddwl, a chyda golwg ar y pethau hyny yn neillduol mae y ddirnadaeth yn cymeryd lle; ac fel yr effeithia gwrthddrychau ar yr ewyllys y mae holl weithrediadau ein bodaeth yn d'od allan.

VIII. Gellir egluro yn hawdd dermau ac ymadroddion amrywiol sydd mewn arferiad gyffredin gyda y gyfundrefn hon:—*Dewisiad* sydd syniad neu ymdeimlad o'r mwyaf hyfryd a dymunol. Cyfeiria at y *weithred* o *ddethol*. *Ewyllysiad* sydd enw arall am y teimlad hwn o eiddo yr ewyllys, ac a arferir yn fwyaf neillduol gyda golwg ar effeithiau neu gyfnewidiadau sydd yn canlyn y teimlad. *Dymuniad* sydd ddewisiad cynnyddol. Dewisiad ydyw y dymuniad cryfaf ar y pryd. *Cyffroad* sydd deimlad, hyfryd neu boenus, yn ol ansawdd y gwrthddrych, ond sydd heb addfedu yn ddymuniad. Y teimlad sydyn cyntaf a gyfyd oddiwrth wrthddrych a bresenolwyd ydyw; a chyda golwg ar rai gwrthddrychau penodol, mae yn mynegu yr holl fwynhad posibl gyda golwg arnynt,—er enghraifft, y cyffroad o arddunedd gyn-

nyrchir gan wrthddrych nas gall ddal yr un berthynas arall â ni. Ond y pryd hyny gall mai arddunedd y gwrthddrych ydyw y cymhellydd sydd yn achosi y dewisiad o syllu arno; hyny yw, mae yn cysylltu y weithred hon o ystyried gyda y syniad o'r mwyaf dymunol.

*Nwyd* sydd gyffroad cydfynedol a dymuniad gyda golwg ar berthynasau eraill i'r gwrthddrych. Fel hyn, gall yr ymdeimlad o'r prydferth a gynnyrchwyd gan flodeuyn fod yn gydfynedol a dymuniad i'w feddiannu: ac os daw y dymuniad hwn y dymuniad cryfaf ar y pryd, yna medda nwyd y nodwedd sydd yn ei wneuthur yn ddewisiad, a chymer rhyw effeithiau cyfatebol le mewn trefn i berchenogi y gwrthddrych,—megys cerdded ato, estyn allan y llaw, &c.

*Penderfyniad yr ewyllys* ydyw cynnyrchydd neu achosydd dewisiad. Defnyddir yr ymadrodd gyda golwg ar ddewisiad uniongyrchol a neillduol, mewn gwrthwynebiad i bob dewisiad arall.

Yr *ewyllys ei hun* ydyw y cyfaddasrwydd i gael effeithio arni gan gyffroad, nwyd, a dymuniad,—a chyda y ffurf hyny o deimlad a alwn ni yn syniad o'r mwyaf dymunol neu ddewisiad, a'r hwn sydd yn gysylltiedig gydag effeithiau neu ganlyniadau fel eu rhagflaenorydd sefydledig.

Y *cymhellydd* ydyw achosydd dewisiad, ac mae yn amrywiog. Mae yn gorwedd yn natur a chyfaddasiadau yr ewyllys, ac yn natur ac amgylchiadau y gwrthddrych a ddewisir.

IX. Gall y rheswm a'r ewyllys fod yn wrthwynebol i'w gilydd; hyny ydyw, gall yr hyn a orchymynir gan y rheswm fod yn annymunol i'r ewyllys, ac wrth gwrs ni all rheswm gael ufudd-dod mewn amgylchiad felly. Pan fyddo gorchymynion rheswm yn cynnyrchu y syniad o'r mwyaf dymunol, a'r pryd hyny yn unig, y gall gael ufudd-dod.

X. Mae y termau angenrheidrwydd a rhyddid yn wrthwynebol i'w gilydd gyda golwg ar yr ewyllys. Priodoledd y dyn—yr enaid dynol—ydyw rhyddid. Mae dyn yn rhydd pan fo ei ewyllysiadau a'i ddewisiadau yn ddiattalfa,—pan, wrth ddewis cerdded, y cerddo, &c. Mae y dyn heb fod yn rhydd, neu dan angenrheidrwydd, pan fyddo ei ewyllysiadau a'i ddewisiadau yn cael eu hattal,—pan, ar ei waith yn dewis cerdded, y caiff fod ei aelodau yn rhwym neu yn ddiffrwyth. Y pryd hyny, mae yn *anmhosibl* iddo gerdded,—y pryd hyny nid oes ganddo *ryddid* i gerdded,—a'r pryd hyny mae dan *angenrheidrwydd* o aros yn yr un lle.

Mae angenrheidrwydd mewn unrhyw ystyr arall yn angenrheidrwydd *uchanianol* ac *athronyddol*, ac yn cael ei gymhwyso tu allan i gylch yr ewyllys; megys angenrheidrwydd gwirionedd—angenrheidrwydd bodaeth—ac angenrheidrwydd cysylltiad achos ac effaith. Yna,

Y *cysylltiad* rhwng ewyllysiadau neu ddewisiadau, neu y syniad o'r mwyaf dymunol a'r cymhellydd neu yr achosydd, sydd *angenrheidiol*

gydag angenrheidrwydd athronyddol. Mae angenrheidrwydd ewyllysiadau gyda golwg ar gymhellion yn cael ei alw hefyd yn angenrheidrwydd *moesol.* Defnyddir y gair *moesol,* nid gyda golwg ar *natur* y cysylltiad, ond mewn cyfeiriad at y *termau* a gysylltir. Trwy hyn y gwahaniaethir ewyllysiadau a berthynant i fodau moesol a chyfrifol oddiwrth weithrediadau eraill a elwir genym yn gyffredin yn *naturiol.*

XI. Gweithredydd ydyw yr hyn sydd yn cynnyrchu effeithiau. Gweithredydd *naturiol* ydyw yr hyn a gynnyrcha effeithiau *heb* ewyllysiad. Gweithredydd *moesol* ydyw person a gynnyrcha effeithiau trwy ewyllysiadau, ac yn nglŷn â hyny a fedd ddirnadaeth ddeallol o'r ewyllysiadau a'u heffeithiau, fel yn dda neu yn ddrwg; yn nghydag ymdeimlad o haeddiant, neu o ganmoliaeth a beiusrwydd ar gyfrif y cyfryw ewyllysiadau a'u heffeithiau.

Mae *anifeiliaid* neu fodau heb fod yn gyfrifol yn weithredyddion sydd ganddynt ewyllysiadau, ond yn amddifad o reswm i ddirnad da a drwg, ac yn ganlynol heb ymdeimlad o haeddiant o fath yn y byd; a chan na allant ddirnad da a drwg, nis gellir eu gwneuthur yn ddeiliaid darbwyllion a chymhelliadau moesol.

XII. Cyfyd cyfrifoldeb moesol yn nghyntaf oddiar y meddianniad o reswm; yn ail, oddiwrth y cyfaddasrwydd i wneud dewisiad; yn drydydd, oddiwrth allu naturiol. Bodola gallu naturiol pan fyddo yr effaith neu y weithred y gorchymynir ei chyflawni yn meddu cysylltiad sefydlog gydag ewyllysiad neu ddewisiad. Fel hyn, yr ydym yn dweyd fod gan ddyn allu naturiol i gerdded, os gall gerdded pan yr ewyllysia wneud. Y gwahaniaeth rhwng gallu naturiol a rhyddid yw hyn:—dynoda y cyntaf gysylltiad sefydlog rhwng ewyllysiadau ac effeithiau: a'r olaf absenoldeb pob attalfa, neu bob gallu gwrthwynebol rhwng yr ewyllysiadau ac effeithiau.

Yna mae dyn yn *naturiol analluog* i wneuthur rhywbeth pan na byddo cysylltiad sefydlog rhwng ei ewyllysiad â'r peth hwnw. Mae dyn yn naturiol analluog i wthio mynydd oddiar ei sedd. Nid oes ganddo *ryddid* i symud ei fraich pan fo ei fraich yn rhwym.

Anallu *moesol* sydd anallu uchanianol neu athronyddol. Mae anallu athronyddol yn y cyffredin yn cyfeirio at yr anmhosiblrwydd i ryw effaith gymeryd lle o herwydd y diffyg o achos, neu o achos digonol i'w gynnyrchu. Fel hyn, y mae yna anmhosiblrwydd athronyddol i draws-newid metel; neu adfer gwywiant henaint i hoywder a grym ieuenctyd, o herwydd nad oes genym achos trwy yr hwn y gall y fath effeithiau gael eu cynnyrchu. Mae yna anallu athronyddol hefyd i dyllu craig can' tunnell o bwysau gyda dellten binwydd, neu ei chodi gyda llaw un dyn, a hyny o herwydd nad oes genym achos digonol. Perthyna *anallu moesol* i'r cysylltiad rhwng cymhellion ac ewyllysiadau, mewn cyferbyniad i allu *naturiol,* yr hwn sydd yn perthyn i'r

cysylltiad rhwng ewyllysiadau a'r gweithredoedd canlynol iddynt; ond nid yw y gair moesol, fel y gwelsom eisoes, yn nodweddu *natur* y *cysylltiad,*—ond yn unig yn datgan *ansawdd* y *termau a gysylltir.* Gan hyny, yr anmhosiblrwydd o ryw ewyllysiad neu ddewisiad penodol o herwydd y diffyg o gymhelliad neu achosydd, neu o gymhelliad digonol, ydyw anallu *moesol,* fel anallu athronyddol. Fel hyn, y mae yna anallu athronyddol moesol i Paul wadu Iesu Grist, oblegid fod yn amlwg nad oes yna yr un cymhelliad neu achosydd i gynnyrchu ewyllysiad i'r fath weithred. Mae yna anallu athronyddol moesol i ddyn werthu etifeddiaeth am hanner can' doler a hithau yn werth hanner can' mil o ddoleri, oblegid nad ydyw y cymhellydd yn ddigonol i gynnyrchu ewyllysiad i'r fath weithred.

Y mae angenrheidrwydd ac anallu athronyddol yn hollol *(absolute)* gyda golwg arnom ni, o herwydd eu bod tu hwnt i gylch ein hewyllysiad.

XIII. Da-haeddiant neu rinwedd, drwg-haeddiant neu euogrwydd, ydynt gymhwysiadwy at ewyllysiadau yn unig. Nid yw hyn, mae yn wir, wedi ei ddwyn allan yn y rhan o waith Edwards y buom yn ei ystyried. Ceir ei ymdriniaeth ef ar hyn yn Rhan IV., adran I. A chan ei fod yn angenrheidiol er cael golwg gyflawn ar ei gyfundrefn, dygwn y pwnc i mewn yma.

Y mae Edwards yn sylwi yn y rhan hon, "Os nad yw hanfod rhinweddolrwydd neu gymeradwyaeth, a drygioni neu fai, yn gorwedd yn natur tueddiadau a gweithrediadau y meddwl, y rhai y dywedir mai hwynt yw ein rhinwedd neu ein bai, ond yn eu hachos, yna y mae yn sicr nad yw yn gorwedd yn un lle o gwbl. Fel hyn, er enghraifft, os nad yw drygioni *gweithred ddrwg o eiddo yr ewyllys,* yn gorwedd yn natur y weithred, ond yn ei hachos; fel nad yw ei bod o natur ddrwg yn gwneuthur y peth o gwbl yn fai arnom ni, os na chyfyd oddiar ryw benderfyniad beius o'r eiddom, fel ei achos, neu rywbeth ynom sydd yn fai i ni," &c. (Edwards ar yr Ewyllys, tudal. 201, 202.) Mae yn amlwg fod yr ymadroddion "tueddiad meddwl," "gweithrediadau y meddwl," a "gweithrediadau yr ewyllys," yn golygu yr un peth; hyny ydyw, golygant ewyllysiad neu ddewisiad, a gwahaniaethir hwynt oddiwrth eu hachosydd neu gymhelliad. Y cwestiwn ydyw, nid pa un ai pur ai anmhur ydyw yr achosydd neu gymhelliad, ond pa un a ydyw ein rhinweddolrwydd neu ein beiusrwydd *ni* yn gorwedd yn achosydd ein hewyllysiad, ynte yn yr ewyllysiad ei hun. Canlyniad eglur meddyleg Edwards ydyw, fel mae efe ei hun yn y ddyfyneb grybwylledig yn datgan, fod rhinweddolrwydd a beiusrwydd yn gorwedd yn yr ewyllysiad ei hun. Neillduolrwydd ein personoliaeth neu ein gweithrediant ni ydyw ewyllysiad. Yn a thrwy ein hewyllysiad yr ydym ni yn ymwybodol o fod yn gwneuthur neu yn ymattal rhag

gwneuthur, ac mewn canlyniad gyda golwg ar ein hewyllysiadau yr ydym ni yn derbyn canmoliaeth am wneuthur da, a bai am wneuthur drwg. Os ydyw yr ewyllysiadau hyn yn gydffurfiol â chydwybod, ac â chyfraith Duw, y maent yn dda; os nad ydynt, y maent yn ddrwg, a bernir ninnau yn ol hyny. Mae y cwestiynau *uchanianol*, megys pa fodd y cafodd yr ewyllysiad ei gynnyrchu, a beth yw cymeriad yr achosydd, a ydyw yr achosydd yn deilwng neu yn feius, yn bynciau sydd tu hwnt i gylch ein hewyllysiadau, ein gweithredoedd, ein personoliaeth, a'n cyfrifoldeb ni. Yr oll a berthyna i ni yw hyn:—A ydym ni yn gwneuthur *da?* a ydym ni yn gwneuthur *drwg?* Beth yw *natur* ein *hewyllysiadau?*

Ac nid ydyw y *cysylltiad angenrheidiol* rhwng y cymhellion a'n hewyllysiadau, yn dinystrio beiusrwydd neu deilyngdod ein hewyllysiadau. Yr ydym ni yn feius neu yn deilwng yn ol cymeriad yr ewyllysiadau ynddynt eu hunain, yn cael eu hystyried a'u barnu yn ngwyneb rheol iawnder, ar wahan i'r ystyriaeth pa fodd y daeth yr ewyllysiadau hyn i fodolaeth. Mae yr ymofyniad olaf yn bwnc hollol athronyddol neu uchanianol, ac nid o rywogaeth foesol, neu y natur hyny o bynciau sydd yn perthyn i weithrediant moesol, cyfrifoldeb, a dyledswydd.

Ac felly hefyd yr ydym ni yn feius neu yn deilwng am wneuthur neu beidio gwneuthur gweithredoedd allanol, yn unig mor bell ag y mae y gweithredoedd hyn yn naturiol gysylltiedig gydag ewyllysiadau, fel canlynyddion gyda eu rhagflaenyddion gosodedig. Os ydyw y weithred y fath fel y dylid ei gwneuthur, yr ydym ninnau yn gyfrifol am y gwneuthuriad o honi, os gwyddom y gwneir hi ar ein hewyllysiad ni; er nad oes ar yr eiliad hòno ddim y fath gyd-berthynas rhwng y y weithred a'r ewyllys, fel ag i ffurfio y cymhelliad neu yr achosydd, ar fodolaeth yr hwn y mae y weithred o ewyllysio yn dibynu. Y mae yr ymofyniad athronyddol neu uchanianol o barth cyd-berthynas cyflwr yr ewyllys a rhyw weithred, neu o barth y diffyg o'r fath gyd-berthynas, yn hollol estronol i'r cwestiwn o ddyledswydd a chyfrifoldeb. Nid yw y cwestiwn hwn yn perthyn ond yn unig i'r ewyllysiad a'i gysylltiad gyda ei ganlynyddion.

Nid yw hyn yn gwrthdaro oll a'r syniad cyffredin fod ein gweithredoedd i gael eu barnu wrth ein cymhellion; oblegid nid yw y syniad hwn yn golygu ewyllysiadau yn eu perthynas a'u hachos, ond yn cyfeirio at weithredoedd allanol yn eu perthynas a'r ewyllysiadau sydd yn eu cynnyrchu. Gall y gweithredoedd allanol hyn fod yn dda ynddynt eu hunain, ond gallant beidio bod yr hyn a ewyllysiwyd; gallai fod rhyw allu arall wedi dyfod i mewn rhwng yr ewyllysiad a'i wrthddrych, ac wedi newid amgylchiadau y gwrthddrych, fel ag i ddwyn o amgylch ddygwyddiad gwahanol i'r hyn a ewyllysiwyd neu a fwriadwyd; er hyny, gan ei fod mewn cysylltiad a'r gweithredydd, gellir ei

briodoli i'r ewyllys wedi y cwbl: neu gall y weithred uniongyrchol a ymddengys yn dda, fod yn gyfran o gynllun neu ddolen mewn cadwyn o ewyllysiadau yn meddwl y gweithredydd, gweithrediad olaf neu ganlyniad yr hwn sydd ddrwg. Dywediad cyffredin, gan hyny, gyda golwg ar weithred allanol ydyw, y rhaid i ni wybod beth yw bwriad y gweithredydd cyn y mae yn briodol i ni ddatgan ein barn arno; yr hyn sydd yr un peth a dywedyd y mynwn wybod beth mewn gwirionedd yw ei ewyllysiad, neu beth yw ei gymhellydd—hyny yw, nid yr achosydd sydd yn cynnyrchu ei ewyllysiad, ond yr ewyllysiad sydd yn ymgyrhaedd at effeithiau, a'r cymhellydd a'r achos o'r cyfryw effeithiau;—yr hyn, etto, sydd yr un peth a dywedyd, y rhaid gwybod, cyn ffurfio barn am ei ymddygiad, pa effeithiau yr oedd mewn gwirionedd yn eu bwriadu, neu eu hewyllysio, hyny yw, beth ydyw yr hyn sydd mewn gwirionedd yn gysylltiedig yn ei feddwl gyda y syniad o'r mwyaf dymunol.

XIV. Mae pob peth sydd mewn bod, yn bodoli naill ai o hono ei hun, neu yn cael ei achosi gan rywbeth tu allan iddo ei hun. Mae yr hyn sydd yn bod o hono ei hun, wrth gwrs, yn bodoli o angenrheidrwydd. Ond rhaid fod yr hyn a achosir gan rywbeth tu allan iddo ei hun yn bodoli yn angenrheidiol yr un modd, yn gymaint ag fod achosion yn angenrheidiol gysylltiedig gyda eu heffeithiau. Nid ydyw hyd yn nod ewyllysiad yn cael ei ryddhau oddiwrth ddeddf achosiaeth: i'r gwrthwyneb, haerir "fod yr ewyllys bob amser, ac yn mhob gweithred neillduol, o angenrheidrwydd yn cael ei phenderfynu gan y cymhelliad cryfaf." (Edwards ar yr Ewyllys tudal. 166.) "Y mae i bob gweithred o eiddo yr ewyllys achos, neu nid oes. Os oes iddi achos, yna, yn ol yr hyn a brofwyd eisoes, nid ydyw yn ddamweiniol, ond angenrheidiol; gan fod yr effaith o angenrheidrwydd yn ddibynol ar, ac yn ganlynol i'w hachos, beth bynag a fyddo yr achos hwnw." (tudal. 130, 131.) (Gwel hefyd Adran X., tudal. 88.) Ac yn gymaint ag fod y cysylltiad rhwng ewyllysiad a'i ganlynyddion yn rhag-osodedig, ac na wneir ef gan yr ewyllysiad ei hun, ymddengys fod y gyfundrefn yn arddatgan ei hun yn gorff o reidrwydd digymysg. Yr unig adran achubol sydd ganddi yw lle yr honir fod rhyddid yn bod yn y berthynas rhwng ewyllysiad a chanlynyddion, pan fyddo y berthynas naturiol gyfansoddedig yn ddiattalfa, neu heb gael ei gorchfygu gan allu cryfach. Ond nid yw hyn yn cael ei hawlio fel rhyddid cyferbyniol i reidrwydd, ond un hollol gydgordiol ag ef, gan na wneir cyfeiriad o gwbl yn y defnydd a wneir o'r gair *rhyddid* at achosydd dewisiad. Nid yw ond gair sydd mewn defnyddiad *gyffredin (vulgar)* yn unig, ac nid yn ol yr arferiad athronyddol a phriodol o hono. Nid yw yn cyfleu dim mewn perthynas i *natur arosol* dyn, ond am ffaith gyfnewidiol ei gyflwr allanol. (tudal. 39.) Gan hyny, y mae Edwards mor bell

oddiwrth ymwrthod a'r athrawiaeth o reidrwydd, fel mae yn amcanu ei hamddiffyn yn ngwyneb moesoldeb a chrefydd. (tudal. 17.)

*Edwards a Locke.*

Eu cyfundrefn sydd un: yn yr egwyddor nid oes dim gwahaniaeth rhyngddynt. Mae Edwards yn gosod yr ewyllys allan fel yn cael ei phenderfynu yn rheidiol—felly mae Locke. Dyry Edwards ryddid yr ewyllys yn nghysylltiad ddiattalfa ewyllysiad gyda ei chanlynyddion gosodedig—felly hefyd y gwna Locke.

Yn unig gwahaniaethant yn y *modd* o ddadblygu penderfyniad rheidiol yr ewyllys. Yn ol Locke, dymuniad sydd ynddo ei hun yn agweddiad angenrheidiol o eiddo ein bodaeth a gynnyrchir gan ei gydberthynas a gwrthddrychau; ac ewyllysiad sydd ganlynydd angenrheidiol dymuniad pan gyffroir ef i radd a bâr y syniad mwyaf angherddol o anesmwythder ar y pryd. "Yr anesmwythder presenol mwyaf ydyw ysbardyn gweithrediad a deimlir yn barhaus, a chan mwyaf, sydd yn penderfynu yr ewyllys yn ei dewisiad o'r weithred nesaf." (Llyfr II., pen. 21, adran 40.) Yn ol Edwards, nid yw dymuniad yn wahaniaethol oddiwrth ewyllys fel cynneddf, a'r dymuniad cryfaf ar unrhyw fynyd, ydyw ewyllysiad y mynyd hwnw.

Mae trychwaliad Edwards yn fwy manwl a chywrain na'r eiddo Locke, a'r dadblygiad drwyddo yn fwy cywir i egwyddor fawr y gyfundrefn—penderfyniad rheidiol. Ymddengys Locke, wrth wahaniaethu yr ewyllys oddiwrth y dymuniad, fel ar fin disgyn i gynllun arall o feddyleg, a'r cynllun hwnw yn ddinystriol i egwyddor ei gyfundrefn.

# II.

## CANLYNIADAU

CYFREITHLAWN

## CYFUNDREFN EDWARDS.

## II.

# CANLYNIADAU CYFREITHLAWN CYFUNDREFN EDWARDS.

Yr wyf yn gwybod y dylai y canlyniadau hyn gael eu rhesymu allan gyda'r gofal a'r eglurder mwyaf. Ni ddylai nwyd na rhagfarn gael dylanwadu dim ar y rhesymiad. Rhaid iddo fod yn bur a manwl resymegol,—a'r cyfryw yr ymegnïaf i'w wneuthur. Dechreuaf gyda'r casgliadau a dynwyd oddiwrth y gyfundrefn *gan Edwards ei hun.*

I. Nad oes dim gallu hunan-benderfynol ewyllys, ac wrth gwrs ddim rhyddid cynnwysedig mewn gallu hunan-benderfynol.

Gallu tybiedig ydyw gallu hunan-benderfynol yr ewyllys, sydd gan yr ewyllys i benderfynu ei hewyllysiadau ei hun.

Ond yn ol Edwards, cynneddf y dewisiad ydyw ewyllys, neu y cyfaddasrwydd i ddymuniad, cyffroad, neu deimlad; a'r dymuniad cryfaf, neu y syniad o'r mwyaf dymunol ar y pryd, ydyw ewyllysiad; a chyfyd oddiwrth gyflwr y meddwl, neu yr ewyllys, neu y teimladrwydd ei hun, yn eu cyd-berthynas â natur ac amgylchiadau y gwrthddrych.

Yn awr, os ydyw yr ewyllys yn penderfynu ei hun, fe fyddai yn penderfynu ei chyflwr ei hun, gyda golwg ar wrthddrychau. Ond mae penderfynu yn weithredu, ac felly bod i'r ewyllys benderfynu ydyw fod i'r ewyllys weithredu; a bod i'r ewyllys benderfynu ei hun, ydyw fod iddi benderfynu ei hun gyda gweithred. Ond y mae gweithred yr ewyllys yn ewyllysiad; gan hyny, pe b'ai yr ewyllys yn penderfynu ei hun, byddai raid iddi grëu ewyllysiad gydag ewyllysiad. Ond yna, mae genym i gyfrif am yr ewyllysiad rhagflaenol hwn, ac nis gellir cyfrif am dano ond yn unig yn yr un ffordd. Felly byddai genym gyfres anfeidrol, neu yn fwy priodol, gyfres annherfynol o ewyllysiadau, heb yr un ewyllysiad cyntaf; mewn canlyniad ni chawn yr un hunan-benderfynydd ar ol y cwbl, o herwydd nas gallwn gyrhaedd at yr un hunan-benderfynydd cyntaf, ac felly y mae y meddylddrych o hunan-benderfyniad yn d'od yn hunan-ddinystriol. Hefyd, nyni a gawn effeithiau heb achos, oblegid nid ydyw y gyfres, yn ol natur yr amgylchiad, byth yn terfynu mewn un achos cyntaf yr hwn sydd yn

achos cyntaf *trwyddo ei hun*. Fel hyn, nid yw ewyllysiadau ond damweiniol, i ddefnyddio y gair yn gyfystyr a siawns, negedydd achos.

Yn awr, ni all neb ammheu nad yw hyn yn gasgliad cyfreithlawn. Os ydyw meddyleg Edwards yn gywir, ac os ydyw hunan-benderfyniad yn cynnwys ewyllysiad i ewyllysio, neu ddewisiad i ddewis, yna mae gallu hunan-benderfynol y gwrthuni mwyaf yn bosibl.

II. Mae yn gasgliad eglur oddiwrth hyn hefyd, y gall Duw ymarfer llywodraeth berffaith dros ei greaduriaid rhesymol, neu weinyddu yn berffaith lywodraeth foesol gynnwysedig o ddylanwad cymhellion.

I bob math o gyflwr meddwl, gall ef gyfaddasu cymhellion gyda golwg ar benderfyniadau a fydd eisieu. A phan fyddo person yn mhell oddiwrth y cymhellion addas i gyflwr ei feddwl, gall Rhagluniaeth Hollalluog drefnu dygwyddiadau fel ag i'w ddwyn yn agos at y cymhellion hyny.

Pe byddai cyflwr y meddwl y fath fel na allai dim cymhellion gael eu gwneud yn effeithiol arno gyda golwg ar ryw benderfyniad neillduol, mae yn hawdd tybio y gall efe yr hwn a wnaeth enaid dyn, ddwyn dylanwad uniongyrchol i orphwys ar gyflwr y meddwl, ac achosi iddo ateb i'r cymhellion sydd ger ei fron. Pa un a oes yna gymhellion addas i bob cyflwr o eiddo y meddwl, gyda golwg ar bob penderfyniad yn bosibl a ofynir gan y Deddfroddwr Hollalluog, fel ag i wneud dylanwad uniongyrchol ar yr ewyllys yn ddiangenrhaid, sydd ofyniad na elwir arnaf yma i'w ateb. Ond yn y naill amgylchiad neu y llall, yr arglwyddiaeth ddwyfol, berffaith a hollol, sydd yn rhag-benderfynu ac yn dwyn o amgylch bob dygwyddiad yn y byd moesol yn gystal ag yn y byd naturiol; ac y mae etholedigaeth nifer benodol i fywyd tragwyddol, a'r gwneuthuriad o'r etholedigaeth hon yn sicr, yn ganlyniadau eglur ac angenrheidiol y gyfundrefn hon. A chan fod Duw yn fôd holl-ddoeth a da, gallwn deimlo yn sicr mewn cysylltiad â'r gyfundrefn hon, pa ddrwg bynag a ymddengys yn ngweithiad allan ei gynllun mawr, y dengys y cwblhad mawreddog yn y diwedd fod pob peth wedi bod yn cydweithio er daioni.

III. Mae yn amlwg gasgladwy oddiwrth y gyfundrefn hon fod bodau moesol yn arfer dylanwad y naill dros y llall trwy bresenoliad cymhellion. Ac fel hyn y gall egnïon gael eu gwneuthur er niwaid neu er lles cymdeithas.

IV. Os ydyw, fel y dadleua Edwards, yr ymdeimlad o gyfrifoldeb, yr ymwybodaeth o euogrwydd neu uniondeb, ac yn ganlynol y dysgwyliad o gosb neu wobr, yn cysylltu eu hunain gyda natur y ffaith noeth o ewyllysiad yn unig,—hyny ydyw, os ydyw hyn yn arddangosiad cywir a chyflawn o ymwybodaeth o barth y pwnc yma, yna ar y ffaith noeth o ewyllysiad yn cael ei hystyried yn unig ynddi ei hun, ac yn hollol annibynol ar ei hachosion, y gall cwrs-weithrediadau cyfiawnder fyned allan.

Fel hyn gallwn edrych ar y gyfundrefn yn ei pherthynas â Duw ac â dyn.

Yn ei pherthynas â Duw. Mae yn ei wneuthur ef yn oruchaf a hollol—yn rhagweled, yn rhag-benderfynu, ac yn dwyn o amgylch bob peth yn ol doethineb anfeidrol, a thrwy rym anfeidrol ewyllys.

Yn ei pherthynas â dyn. Mae yn ei gau ef i fyny i'r ystyriaeth o'r ffaith noeth o ewyllysiad, a'i chysylltiad fel rhagflaenydd gosodedig a sefydlog gydag effeithiau penodol. Y mae yn rhydd i gyflawni yr effeithiau hyn, o herwydd y gall eu cynnyrchu os ewyllysia. Y mae yn rhydd i ymattal, o herwydd y gall ymattal os ewyllysia. Haerir i fod yn farn gyffredin dynion, ac wrth gwrs yn ffaith gyffredinol o eiddo ymwybodaeth, fod person yn gyflawn gyfrifol am wneuthuriad rhywbeth y dylid ei wneuthur, os nad oes dim yn eisieu tuag at ei wneuthur ond ewyllysiad: ei fod yn euog a chosbadwy am wneud unrhyw ddrwg, oblegid iddo gael ei wneuthur trwy ei ewyllysiad ef: ei fod yn gannoladwy ac i gael ei wobrwyo am wneuthur rhyw ddaioni, o herwydd iddo gael ei wneuthur trwy ei ewyllysiad ef. Ofer yw iddo geisio esgusodi ei hun rhag gwneuthur da gyda'r ddadl o *anallu moesol;* anallu *uchanianol* ydyw hwnw, yr hwn sydd tu allan i gylch ewyllysiad. Gall ef ei wneuthur os ewyllysia—a chan hyny medda yr holl allu a ofynir yn yr amgylchiad. Nid oes dim yn eisieu yn uniongyrchol ond ewyllysgarwch, ac i hyn y perthyn ei holl gyfrifoldeb; ni all wneuthur dim, na dylanwadu ar ddim, oddieithr trwy ewyllysio; ac mewn canlyniad y mae yr hyn sydd yn rhagflaenu ewyllysio yn estronol i'w ystyriaeth, ac yn anmhosibl i'w yngais.

Yn ofer y ceisia esgusodi ei hun am wneuthur drwg ar y tir o *reidrwydd* moesol. Rheidrwydd *uchanianol* ydyw y *rheidrwydd moesol* hwn, ac y mae uwchlaw cylch ewyllysiad. Gallasai ymattal rhag gwneuthur drwg, pe buasai wedi cael yr ewyllys. Beth bynag arall allasai fod yn ddiffygiol, nid oedd dim yn fyr ar hyn yr oedd a fynai y gweithredydd, ac am yr hyn y mae efe dan unrhyw gyfrifolder tuag at wrthwynebu drwg yn llwyddiannus, ond yn unig yr ewyllysiad. Wrth ei ewyllysiadau yn unig y mae efe i gael ei brofi. Ni allwn feddwl am yr un llys cyfiawnder, dynol na dwyfol, a allai ganiatâu y ddadl—"ni wnaethum y da oblegid nad oedd genyf yr ewyllys i'w wneuthur," neu "myfi a wnes y drwg o herwydd fod genyf yr ewyllys i'w gyflawni." "Dyma yw eich euogrwydd," fyddai atebiad y barnwr, "sef nad oedd genych ewyllys i wneuthur y da—ac fod genych ewyllys i wneuthur y drwg."

---

Rhaid i ni yn awr gymeryd i fyny ddosbarth gwahanol o gasgliadau rhesymegol cyfundrefn Edwards. Y cyfryw ydynt fel nad ydyw cefnogwyr y gyfundrefn hon sydd am gynnal i fyny fuddiannau

mawrion moesoldeb a chrefydd yn dewis eu tynu oddiwrthi eu hunain, a dadleuant yn egnïol rhag i neb arall wneud hyny chwaith. Ond os ydynt yn gasgliadau rhesymegol, mae dadlu felly yn erbyn yn waith ofer. Nid wyf fi yn ymwybodol o unrhyw awydd i'w *gwthio* ar y gyfundrefn, ac yr wyf yn credu yn y modd cadarnaf eu bod yn rhesymegol. Bydded i'r darllenydd farnu drosto ei hun, ond barned yn *feddylgar* a *diduedd*.

I. Mae cyfundrefn Edwards yn arwain i reidrwydd hollol a diammodol, yn neillduol ac yn gyffredinol.

1. Rheidrwydd neillduol—hollol reidrwydd gyda golwg ar yr unigolydd.

Caniateir yn y gyfundrefn fod cysylltiad y cymhellydd a'r ewyllysiad yn rheidiol gyda rheidrwydd hollol, oblegid ei fod yn rhagflaenu ac felly heb fod yn nghyrhaedd yr ewyllysiad. Felly hefyd mae cyflwr y meddwl, a natur ac amgylchiadau y gwrthddrych gyda golwg ar y cyflwr hwn, er ffurfio cyd-berthynas, yn yr hyn y gorwedd y cymhellydd, oll yn dibynu ar achos sydd tu hwnt i gyrhaedd ewyllysiad. Fel na all yr ewyllysiad wneuthur ei gymhellydd, felly ni all wneuthur chwaith achos ei gymhellydd, ac felly yn ol ac yn ol, trwy wrthfynediad achosion, at yr achos cyntaf. Yna mae yr holl res o achosion sydd yn rhagflaenol i'r ewyllysiad yn cael eu dynodi gan reidrwydd hollol; a chan fod yr ewyllysiad ei hun, fel y mae yn effaith y cymhellydd, yn rheidiol hefyd gyda rheidrwydd hollol, yr unig le sydd yn aros i ryddid fod, os ydyw rhyddid yn bosibl, ydyw yn y cysylltiad sydd rhwng ewyllysiad ac effeithiau mewnol ac allanol. A dyma yr unig le y mae y gyfundrefn yn ei hawlio i ryddid. Ond pa weddnod newydd sydd yn ymddangos yn y berthynas hon? A oes yma rywbeth amgen na rhagflaenyddion a chanlynyddion sefydlog? Yr wyf yn ewyllysio cerdded, ac yr wyf yn cerdded; yn ewyllysio siarad, ac yr wyf yn siarad; yr wyf yn ewyllysio eistedd i lawr, ac yr wyf yn gwneud hyny. Rhagflaenydd sefydledig ydyw yr ewyllysiad i'r ysgogiadau cyhyrol hyn. Yr un fath, pan wyf yn ewyllysio myfyrio ar ryw bwnc, yr wyf yn myfyrio ar y pwnc hwnw. Nid yw yr ewyllysiad o ddethol pwnc penodol, a'r ewyllysiad o roddi sylw iddo, ond rhagflaenyddion gosodedig i'r gweithrediad meddyliol a alwn ni yn fyfyrdod. Nid oes genym yma ond yn unig enghraifft arall o achos ac effaith, a'u perthynas a'u gilydd mor hollol a rheidiol ag unrhyw berthynas arall o eiddo achos ac effaith. Nid yw yr offeriant cywrain trwy yr hwn y mae dewisiad neu y syniad o'r mwyaf dymunol yn cynnyrchu ysgogiad cyhyrol, wedi cael ei drefnu gan unrhyw ddewisiad o eiddo y dyn unigol. Iddo ef mae y cysylltiad yn rhag-osodedig, a'i achos yn gorwedd tu allan i gylch ewyllysiad. Mae y cyfansoddiad meddwl sydd yn cysylltu ewyllysiad gyda myfyrdod hefyd yn rhag-osodedig, ac o'r tu allan i

gylch ewyllysiad. Fel y mae yr ewyllysiad ei hun yn ddynodol gyda rheidrwydd hollol yn ei berthynas â'r dyn unigol, felly hefyd y mae canlynyddion neu effeithiau gosodedig ewyllysiad yn ddynodol gyda hollol reidrwydd yn eu perthynas âg ef.

Y mae yn wir, yn ddiau, y gall y cysylltiad rhwng ewyllysiad a'i wrthddrychau gael ei aflonyddu gan alluoedd yn d'od rhyngddynt, neu ei orthrechu gan alluoedd uwchraddol, ond y mae hyn yn gyffredin i achos ac effaith, fel nad yw yn ffurfio unrhyw nodwedd neillduol; gallu llai yn cael ei aflonyddu neu ei orthrechu gan un mwy ydyw. Hefyd, nid yw attaliad neu orthrechiad gallu yn profi ei ryddid pan fyddo yn ddiattalfa; gall fod ei ysgogiad yn cael ei wneuthur yn rheidiol gan allu rhagflaenol. A dyma y gwir yn gymhwys gyda golwg ar ewyllysiad yn y gyfundrefn hon. Ni allai yr ewyllysiad feddu bodolaeth heb gymhellydd, a phan fyddo y cymhellydd yn bresenol ni all beidio bodoli, ac nid cynt yr ymddengys yr ewyllysiad, nad yw ei effeithiau yn canlyn, oddieithr eu bod yn cael eu hattal. Os yn cael eu hattal, yna mae genym ddwy res o achosion yn d'od i wrthdarawiad, ac y mae yr un rheidrwydd ac a'u dygodd yn nghyd, yn rhoddi yr oruchafiaeth i'r naill neu y llall.

Ymddengys i mi fod yn anmhosibl osgoi y casgliad fod rheidrwydd, hollol a diammodol, mor bell o'r hyn lleiaf ag y mae a fyno y dyn ei hun ag ef, yn teyrnasu yn mherthynas ewyllysiad a'i effeithiau, os ydyw yr ewyllysiad ei hun yn fodolaeth angenrheidiol. Mae yr oll sydd yn rhagflaenu ewyllysiad yn rheidiol: mae ewyllysiad ei hun yn rheidiol. Mae yr oll sydd yn dilyn ewyllysiad yn rheidiol. Nid ydyw dynoliaeth amgen na dolen yn y gadwen anocheladwy.

2. Rheidrwydd cyffredinol—rheidrwydd hollol gyda golwg ar bob bôd ac achos, ac yn gymhwysiadwy at bob dygwyddiad.

Dygwyddiad wedi ei brofi i fod yn rheidiol yn ei berthynas a'r unigolydd—a yw y dygwyddiad hwnw yn rheidiol yr un modd yn holl gylch ei berthynasau? Gadawer i'r dygwyddiad hwnw fod yn ewyllysiad rhyw berson unigol; yn ei berthynas â'r person hwnw, mae yn rheidiol. Yn awr, rhaid tybio ei fod mewn cadwen o ganlynyddion a rhagflaenorion, yn meddu cysylltiad gydag achos cyntaf. Yn awr, gadewch i ni gymeryd unrhyw ragflaenydd a chanlyniedydd yn y gadwen, a gellir profi fod y rhagflaenydd a'r canlyniedydd hwnw, yn eu lle a'u perthynasau neillduol, yn rheidiol, yn yr un ffordd ag y profwyd fod ewyllysiad yn rheidiol, yn ei le a'i berthynasau neillduol; hyny ydyw, os rhoddir y rhagflaenydd dan amgylchiadau neillduol, y mae y canlynydd yn rhwym o ddilyn. Ond y mae y rhagflaenydd wedi ei gydio gyda rheidrwydd cyffelyb wrth ragflaenydd arall, i'r hwn mae yn ganlyniedydd; ac y mae y canlyniedydd wedi ei gydio gyda yr un fath reidrwydd wrth ganlyniedydd arall, i'r hwn y mae yn rhagflaenorydd;

ac fel hyn mae y gadwen oll yn rheidiol, oddiwrth yr ewyllysiad rheidiol a dybir, i fyny at yr achos cyntaf. Gan hyny yr ydym yn dyfod o'r diwedd i ystyried y cysylltiad rhwng y canlyniedydd cyntaf a'r rhagflaenorydd, neu yr achos cyntaf. A yw hwn yn gysylltiad rheidiol? Os golygir mai ewyllysiad ydyw y rhagflaenydd hwnw, yna y mae y cysylltiad yn rheidiol. Os Duw a ewyllysiodd y rhagflaenydd cyntaf, yna yr oedd yn hollol reidiol fod i'r canlyniedydd hwn ymddangos. Ond ni all mai yr ewyllysiad ei hun ydyw y rhagflaenydd neu yr achos cyntaf, am y rheswm y rhaid i ewyllysiad neu ddewisiad gael penderfynydd neu ragflaenydd iddo ei hun. Beth yw y rhaflaenydd hwn? Y cymhellydd:—oblegid cynnwysai hunan-benderfyniad yn yr ystyr i'r ewyllys benderfynu ei hun, yr un afresymoldeb (yn ol y gyfundrefn hon) yn ei berthynas â Duw ag yr haerir ei fod yn ei berthynas â dyn: yn gymaint ag yr arddangosir ef fel afresymoldeb yn ei natur ei nun—penderfynu ewyllysiad gydag ewyllysiad, mewn olgiliad diddiwedd. Gan hyny, fel y mae y cymhellydd yn penderfynu yr ewyllysiad yn y meddwl dwyfol, beth yw natur y cysylltiad rhwng yr ewyllysiad a'r cymhellydd? Nis gall fod yn ddim ond cysylltiad rheidiol; oblegid nid oes dim i beri iddo fod yn wahanol i hyny, oddieithr yr ewyllys ddwyfol. Ond ni ellir tybio fod yr ewyllys ddwyfol yn peri hyn, o herwydd ein bod eisoes wedi cymeryd y cymhellydd yn sail ac achos gweithrediad yr ewyllys ddwyfol. Y rheidrwydd a berthyn i ewyllysiad fel y cyfryw, yn ol natur yr amgylchiad, raid fod gan hyny yn perthyn i'r ewyllysiad dwyfol. Ni ellir meddwl yn ddiau fod unrhyw gymhellion yn dylanwi ar yr ewyllys ddwyfol, oddieithr y rhai a dynir oddiwrth ei wybodaeth, ei ddoethineb, a'i ddaioni anfeidrol ef ei hun; ond etto y mae y cysylltiad rhwng y cymhellion hyn a'r ewyllysiadau dwyfol yn gysylltiad o reidrwydd hollol. Mae Edwards yn datgan yn groyw—"Os yw ewyllys Duw yn cael ei phenderfynu yn gyson a sicr yn mhob peth gan *oruchaf* ddoethineb, yna mae yn mhob peth yn cael ei phenderfynu o angenrheidrwydd at yr hyn sydd fwyaf doeth." (tudal. 247.) Fod y cydfyd yn cael ei lywodraethu gan ddoethineb anfeidrol sydd feddwl gogoneddus a boddhaol, a meddwl y dadleuir yn helaeth drosto gan gefnogwyr y gyfundrefn hon; ond etto llywodraeth rheidrwydd ydyw. Dichon y gellir golygu hon fel y llywodraeth fwyaf rhagorol, ac os ydyw yn cael ei golygu felly, gall fod yn ddigon teg i ddadleu drosti. Ond na fydded i ni grwydro oddiwrth y cwestiwn, a thrwy ei dangos allan fel llywodraeth doethineb, anghofio mai llywodraeth rheidrwydd ydyw, a hyny yn hollol. Gan hyny, mae yr ewyllysiad, gyda yr hwn y cychwynasom, wedi ei olrhain o'r diwedd at ddoethineb reidiol ac anfeidrol fel ei achos cyntaf a therfynol; oblegid yma mae yr achos effeithiol a'r cymhellydd yn wir yn un.

II. Mae yn canlyn hefyd oddiwrth y gyfundrefn hon fod pob ewyllysiad a dygwyddiad yn rheidiol, ac hefyd eu bod o angenrheidrwydd y rhai goreu yn bosibl yn eu lle a'u perthynasau.

Mae holl gyfundrefn pethau wedi cael ei tharddiad mewn doethineb anfeidrol a rheidiol. Mae achos terfynol ac effeithiol pob ewyllysiad a dygwyddiad mewn doethineb anfeidrol a rheidiol. Y mae yr oll a fu, yr oll sydd, a'r oll a all fod, yn gysylltiedig trwy reidrwydd hollol gyda yr unrhyw ffynnonell fawr. Fe fyddai yn eithafnod ynfydrwydd i dybio y byddai yn bosibl i unrhyw beth fod yn wahanol i'r peth ydyw, neu i dybio y gallai rhyw newidiad wneuthur unrhyw beth yn well nag y mae; oblegid mae yr oll sydd yn bod, yn bod trwy hollol reidrwydd,—ac y mae yr oll sydd, y peth ac yn y lle y darfu anfeidrol ddoethineb eu gwneuthur a threfnu iddynt fod.

III. Os ydyw yr hyn a alwn ni yn ddrwg, yn ddrwg mewn gwirionedd, rhaid ei fod yn ddrwg rheidiol, ac yn ddrwg sydd a'i darddiad mewn doethineb anfeidrol. Ofer yw dywedyd mai dyn yw y gweithredydd, yn ystyr gyffredin y gair; mai efe ydyw yr awdwr, oblegid mai ei eiddo ef ydyw yr ewyllysiadau neillduol. Mae yr holl ewyllysiadau hyn yn rheidiol hollol, ac o angenrheidrwydd yn cael eu cario yn ol i ffynnonell fawr pob bodaeth a dygwyddiad. Yna,

IV. Ni all fod y creadur dyn yn feiadwy. Pob ewyllysiad a gymer le ynddo ef, a gymer le trwy hollol reidrwydd,—ac ni ellir tybio iddo fod yn wahanol i'r hyn ydyw. Yn awr, nid y wybodaeth rhwng da a drwg, a'r argyhoeddiad a feddir y *dylid* gwneud y da, ydynt sail beiusrwydd, ond y meddiant o allu i wneuthur y da, ac i ymattal rhag y drwg. Ond os ydyw pob ewyllysiad yn cael ei sefydlu gan reidrwydd hollol, yna ni ellir tybio fod yr unigolydd yn meddu gallu i wneuthur yn wahanol i'r hyn yn weithredol a wnaeth, na thybio, ychwaith, ac ystyried pob peth, y gallasai unrhyw ewyllysiad arall fod ar yr eiliad ac yn y berthynas hòno. Mae yr ewyllysiad wedi ei sefydlu, a'i sefydlu gan reidiol ac anfeidrol ddoethineb. Ni allwn osgoi yr anhawsder hwn trwy chwareu o hyd ar gyfnewidiad geiriau fel hyn—"Efe a all os ewyllysia,"—"Gallasai pe mynasai,"—"Nid oes dim yn eisieu ond ewyllys," &c., &c. Na fydded i ni dwyllo ein hunain, a cheisio attal meddwl ac osgoi casgliadau gyda y geiriau hyn, "Efe a all os ewyllysia." Ond ni all os na ewyllysia. Mae yr ewyllysiad yn eisieu—a thra y bydd hwnw yn eisieu, ni ddichon yr effaith a ofynir gymeryd lle. A sut y mae yr ewyllysiad neu y rhagflaenydd newydd hwn i'w gael? Ni fedr y dyn gyfnewid y naill ewyllysiad am un arall. Tybir nad yw y gallu moesol neu uchanianol ganddo,—ac etto dyma yr unig allu a ddichon gynnyrchu yr ewyllysiad newydd. Mae yn hynod o ddyeithr fod y gallu ar yr hwn y mae ewyllysiad yn dibynu yn hollol, yn cael ei osod o'r neilldu trwy gael ei alw yn *uchanianol*, a'r dyn yn

cael ei feio am weithred o achos canlyniedydd ei ewyllysiad, pan mai canlyniedydd rheidiol y gallu moesol hwn ydyw yr ewyllysiad ei hun!! Yn ei ewyllysiad yn unig mae y dyn. Mae yr ewyllysiad yn dda neu yn ddrwg ynddo ei hun. Nid oes dim a fyno y dyn ag achos ei ewyllysiad, oblegid ei fod uwchlaw ewyllysiad. Gall os ewyllysia. Mae hyn yn ddigon i'r dyn! Ond nid yw yn ddigon i'w wneud yn feiadwy, pan mae ei ewyllysio neu beidio yn dibynu ar ragflaenydd sydd o'i gyrhaedd, ac nid hyny yn unig, pan y mae y rhagflaenydd ei hun wedi ei sefydlu gan reidrwydd yn y natur ddwyfol ei hun.

Nid ydwyf yn awr yn dadlu yn erbyn yr athroniaeth. Gall fod yr athroniaeth yn gywir; gall fod yn bur dda; ond pa un bynag am hyny, rhaid i ni gymeryd ei chanlyniadau gyda hi; a hyn ydyw yr oll ydwyf fi yn ei geisio yn awr.

V. Canlyniad arall i'r gyfundrefn hon ydyw, na all dim fod yn ddrwg ynddo ei hun. Os doethineb a daioni anfeidrol ydynt y ffurf uchaf o berffeithrwydd moesol, fel yn wir y mae eu henwau yn arwyddo, yna rhaid fod eu holl ganlyniadau angenrheidiol yn cyfranogi o'u natur. Fel egwyddorion, ni all doethineb a daioni anfeidrol amdoi dim ond rhanau o honynt eu hunain. Byddai yn ddinystr i bob rhesymeg i wadu hyn. Diddymai bob casgliad rhesymegol a dynwyd erioed. Os dywedir fod anfeidrol ddoethineb wedi cyhoeddi deddf sydd yn darnodi yn eglur beth sydd yn hanfodol dda, ac fod yn ffaith mai ewyllysiadau sydd yn troseddu y ddeddf hon, etto ni all hyn effeithio ar yr hyn a ddywedwyd uchod. Dadblygiad rheidiol doethineb anfeidrol ydoedd cyhoeddiad y ddeddf; a dadblygiad yr un natur ydyw yr ewyllysiad sydd yn ei throseddu. Os ymddengys hyn yn anghyson, ni allwn ni oddiwrtho. Oddiwrth y gyfundrefn y cafodd ei dynu, a'r gyfundrefn yn unig sydd gyfrifol am ei chasgliadau. Os dywedir yma, fod pob cyfundrefn yn ddarostyngedig i'r un anhawsder, am y rheswm y rhaid fod gan ddrwg achos santaidd (os oes ganddo achos), yn gymaint na allai fodoli cyn iddo ddechreu bodoli,—yr wyf yn ateb y byddai hyn yn wir os ydyw drwg yn ddadblygiad *rheidiol* achos santaidd. Ond mwy ar hyn etto.

VI. Mae cyfundrefn Edwards yn gyfundrefn o *Utiliteriaeth.* Gan fod pob ewyllysiad yn syniad o'r mwyaf dymunol, ac yn cyfodi o gydberthynas y gwrthddrych a'r teimladrwydd, mae yn canlyn fod pob cymhellydd a phob gweithred yn d'od dan, ac nis gall lai na dyfod dan y meddylddrych o foddineb neu fwynhad. Yn ol y gyfundrefn hon, ni ddichon dim gwrthdarawiad fod rhwng egwyddor a theimlad, canys nid oes gan egwyddor yr un gallu i benderfynu yr ewyllys, ond trwy ddyfod yn deimlad o'r mwyaf dymunol. Yn gyffredinol, nid yw cyfiawnder, gwirionedd, a chymwynasgarwch, yn caffael llywodraeth ond yn unig trwy ymuno gyda dymuniad, a dyfod felly o dan delerau

cynnyrchiad y mwynhad uchaf. Gan hyny, pan ufuddheir i gyfiawnder, gwirionedd, a chymwynasgarwch, nid fel y cyfryw yr ufuddheir iddynt, ond yn hytrach fel y maent ar y pryd y pethau mwyaf dymunol: felly hefyd o'r tu arall, nid fel y cyfryw yr ufuddheir i anghyfiawnder, twyll, a maleisrwydd, ond fel y maent hwythau ar y pryd y pethau dymunolaf. Yn ngwyneb y briodoledd yma o eiddo y mwyaf dymunol, fel mae yn ansawdd pob cymhellydd, ac yn egwyddor gyffredinol penderfyniadau yr ewyllys, y mae gwahaniaethau moesol cynhwynol yn diflanu ymaith. Mae yn wir y gallwn *ddamcaniaethu* o barth y gwahaniaethau hyn,—gallwn ddweyd fod yn eglur fod cyfiawnder yn dda ynddo ei hun, ac anghyfiawnder yn ddrwg ynddo ei hun; ond nid oes gan y farn hon effeithiolrwydd *ymarferol* ond yn unig fel y mae yn un o'r termau a gymer ffurf y mwyaf dymunol. Ond nyni a welsom fod y mwyaf dymunol yn dibynu ar gyflwr y teimladrwydd yn ei gyd-berthynas a'i wrthddrych,—cyflwr a chyd-berthynas sydd yn rhagflaenol i weithrediad; a chan hyny ei bod yn ddeddf reidiol ein bodaeth, fod iddi gael ei phenderfynu gan y daioni ymddangosiadol mwyaf, neu y mwyaf dymunol. Os felly, Utiliteriaeth ydyw deddf gweithrediad, nid yn unig mewn pwynt o ffaith, ond hefyd mewn pwynt o reidrwydd. Nid oes yr un ddeddf arall o dan yr hon y mae yn ddychymygadwy y dichon i ni weithredu.

VII. Mae yn canlyn oddiwrth y gyfundrefn hon etto, na all yr un unigolydd wneuthur ymegnïad i newid cymeriad arferol ei ewyllysiadau,—ac wrth gwrs, na all wrthsefyll ei nwydau, neu arwain i mewn unrhyw ddysgyblaeth feddyliol na moesol wahanol i'r hon y gosodwyd ef yn weithredol ynddi, neu ymgymeryd ag unrhyw anturiaeth wrthwynebol i'r hon y mae eisoes yn rhwymedig. Gwel Adran IV., tudal. 160.

Os effeithia unrhyw newidiad yn uniongyrchol yn nghymeriad arferol ei ewyllysiadau, rhaid iddo ei wneuthur trwy ewyllysiad; hyny yw, rhaid iddo ewyllysio yn wahanol i'w ewyllys ar y pryd,—rhaid i'w ewyllys wrthwynebu ei hun, yn ei gweithred ei hun: ond y mae hyn yn afresymol, a bydded y gyfundrefn ei hun yn farnydd. Fel, gan hyny, na all yr ewyllys wrthwynebu ei hun, ni ellir caffael ewyllysiad newydd ond yn unig trwy bresenoli cymhellydd newydd; ond y mae hyn yn gyfartal anmhosibl. Tuag at bresenoli cymhellydd newydd, rhaid galw i fyny wrthddrychau ac amgylchiadau newyddion cyfaddas i gyflwr yr ewyllys ar y pryd, yn cyffwrdd â rhyw egwyddorion fuont yn hepian o dan yr ewyllysiadau arferol; neu ynte rhaid i gyflwr y meddwl ei hun gael ei newid yn gyfaddas i'r gwrthddrychau sydd ar y pryd ger ei fron; neu ynte rhaid i gyfnewidiad gymeryd lle yn y gwrthddrych a'r deilydd,—oblegid yn nghyd-berthynas y ddau a'u gilydd y mae y cymhellydd yn gorwedd. Ond mae yn rhaid i'r ewyllysiad a eilw i fyny wrthddrychau ac amgylchiadau newyddion cyfaddas

i ddeffroi rhyw egwyddor o eiddo y meddwl a fu yn hepian,—megys ofn,—feddu cymhellydd ei hun; ond y mae yn rhaid i'r cymhellydd i alw i fyny wrthddrychau ofn rag-fodoli, os ydyw yn bod o gwbl. Os yw yn rhag-fodoli, yna cymer yr ewyllysiad i alw i fyny wrthddrychau ofn le o angenrheidrwydd; ac ni bydd yn gyfnewidiad a effeithiwyd gan y dyn ei hun, tu allan i gyflwr y meddwl a'r gwrthddrychau fydd yn bod yn weithredol. Os na fydd y fath gymhellydd yn rhag-fodoli, yna deuai yn angenrheidiol i bresenoli cymhellydd newydd, tuag at achosi y dewisiad o wrthddrychau ofn; ac yna dychwelai yr anhawsder gwreiddiol,—ac felly yn mlaen yn *ddiddiwedd.*

Os y dyfnbwnc ydyw effeithio cyfnewidiad yn nghyflwr y meddwl gyda golwg ar wrthddrychau sydd ger ei fron, yn y lle cyntaf, ni ellir effeithio hyn trwy weithred uniongyrchol o eiddo yr ewyllys, oblegid gan gyflwr y meddwl y mae gweithred yr ewyllys yn cael ei hachosi, ac felly byddai effaith yn cyfnewid neu yn diddymu ei achos ei hun.

Ac ni ellir gwneud hyn chwaith yn anuniongyrchol. Oblegid ei wneuthur felly, fyddai dwyn dylanwadau i orphwys ar gyflwr y meddwl neu y teimladrwydd; ond gofynai y dewisiad a'r ewyllysiad o'r dylanwadau hyn am gymhellydd—ond byddai yn rhaid i'r cymhellydd tuag at gyfnewid cyflwr y meddwl rag-fodoli yn nghyflwr y meddwl ei hun. Ac felly, mae genym ar un llaw, i ddangos y posiblrwydd o ddarganfod egwyddor yn nghyflwr y meddwl ar yr hon y dygir ei gyfnewidiad o amgylch. Ac etto pe dangosid hyn, nid yw y cyfnewidiad yn gyfnewidiad mewn gwirionedd, ond dadblygiad newydd o gadwen hir achosion ac ewyllysiadau rheidiol. Ac ar y llaw arall, os na ddangosir hyn, rhaid i ni gael cymhellydd i gyfnewid cyflwr y meddwl mewn trefn i gael cyfnewid y cyflwr; ond y mae yn rhaid i'r cymhellydd hwn, os yw yn bod, rag-fodoli yn nghyflwr y meddwl. Os ydyw yn rhag-fodoli, yna nid oes dim cyfnewidiad yn cael ei ofyn; os nad ydyw, yna rhaid i ni chwilio etto am gymhellydd rhagflaenol, ac felly yn ol yn ddiddiwedd. Os y dyfnbwnc ydyw cyfnewid y deilydd a'r gwrthddrych, y mae yr un anhawsderau yn bod mewn helaethrwydd dyblyg.

Yr anhawsder mawr ydyw cael ysgogydd *cyntaf*, pan mae y weithred ei hun o chwilio yn cynnwys ysgogydd cyntaf, pa un y mae telerau y weithred yn ei omedd.

Gan hyny, y mae unrhyw ddysgyblaeth newydd, feddyliol neu foesol, dysgyblaeth wrthwynebol i'r un a ddygir oddiamgylch yn naturiol a rheidiol gan gyflwr presenol y meddwl, yn anmhosibl.

Wrth gwrs, y mae yn anmhosibl ffrwyno tymherau, marwhau, neu ymwadu a ni ein hunain. Y mae yr ewyllysiad presenol yn ol y dymuniad cryfaf—yn wir, y dymuniad cryfaf ydyw ewyllysiad ei hun. "Nid yw yr ewyllys a dymuniad yn rhedeg yn erbyn eu gilydd oll." "Nid yw dyn byth mewn unrhyw amgylchiad, yn ewyllysio dim croes

i'w ddymuniadau, nae yn dymuno dim croes i'w ewyllys." Gan hyny ffrwyno tymher bresenol fyddai yn ewyllysio yn erbyn ewyllys—a fyddai yn ddymuno mewn cyfeiriadau gwrthwynebol ar yr un pryd. Gallai dymuniadau fod yn gymharol gryfach a gwanach, a'r cryfaf a oddiwedda y gwanaf; ond rhaid i'r dymuniad cryfaf orfodi a llywodraethu y dyn; y mae yn anmhosibl iddo wrthwynebu unrhyw rwystr, oblegid mae ei holl allu, ei weithgarwch, a'i ewyllysiad, yn gorwedd yn y dymuniad ei hun.

Ni all ef wneuthur dim ond ewyllysio; ac y mae natur a chyfeiriad ei ewyllysiadau, o'r hyn lleiaf gyda golwg ar unrhyw ymegnïad o'i eiddo ef ei hun, mor anghyfnewidiol a rheidrwydd ei hun.

VIII. Mae yr holl gynghorion a'r annogaethau sydd yn galw ar y dyn i ymddeffroi, i feddwl, cynllunio, a gweithredu, yn anghyson ac afresymol. Yn yr oll o'r cyfryw gynghorion ac annogaethau, gwasgir ar y dyn i ewyllysio neu roddi allan ewyllysiadau, fel pe b'ai yn awdwr ac yn benderfynydd yr ewyllysiadau. Gellid ateb "fod y dyn yn ewyllysio, mai ei ewyllysiadau ef ydyw yr ewyllysiadau." Ond etto nid yw ef yn ewyllysio ond yn oddefol yn unig, ac nid yw yr ewyllysiadau hyn yn eiddo iddo ond yn unig o achos eu bod yn cymeryd lle ar faes ei ymwybodaeth. Yr ydych yn ei gynghori ac yn ei annog i ddeffroi ei hun i weithgarwch; ond beth yw ei wir gyflwr yn ol y gyfundrefn hon? Y cynghorion a'r annogaethau eu hunain sydd yn cynnwys y gallu cymhellol; ac yn hytrach na chynhyrfu ei hun i weithrediad, y mae y dyn yn hollol a rheidiol oddefydd i ddylanwad y cymhellion ydych chwi yn eu gosod ger ei fron. Y mae a fydd iddo ddeffroi a symud neu beidio, yn dibynu ar y cymhellion a bresenolwch chwi, mor wirioneddol a hollol ag ydyw symudiad unrhyw sylwedd materol ar y gallu neu y trosol a gymhwysir ato. A gellir dweyd fod y sylwedd materol, boed bren neu faen, yn cynhyrfu ei hun gyda yr un priodoldeb ag y gellir dywedyd fod dyn yn gwneuthur felly; ac nid yw ewyllysiad y dyn yn eiddo y dyn mewn un ystyr nag ydyw symudiad y sylwedd materol yn eiddo y sylwedd materol yn yr unrhyw ystyr. Yn y naill amgylchiad, y mae y dyn yn dirnad; yn y llall, nid yw y sylwedd materol yn dirnad—ond addefir gan bob plaid fod dirnad yn rheidiol; gan hyny, nid yw y chwanegiad o ddirnadaeth ond yn unig yn lluniaru cymeriad y bôd a symudir, heb newid dim ar natur ei berthynas â'r gallu sydd yn ei symud. Mae genym briodoledd gyfatebol yn y sylwedd materol hefyd, mor bell ag y mae symudiad i'w ystyried. Oblegid megys nas gall cymhelliad symud yr ewyllys oddieithr fod yna ddirnadiad, felly hefyd ni all y trosol a gallu anianyddol symud y sylwedd materol os na bydd yn meddu caledwch, a chydlynedd rhanau. Pe byddai genyf fi ond y ddoethineb i ddarganfod cyd-berthynas briodol gwrthddrych a theimladrwydd yn amgylchiad unigolion neu gynnulleidfaoedd o ddynion, gallwn eu llywodraethu fel y mynwn, gyda rheidrwydd dim llai hollol

na'r rheidrwydd yn ol pa un yr achosir i beiriant weithio pan gymhwysir ato allu yr ager neu y dwfr. Ond ni ellir eu symud os bydd yn foesol analluog. (tudal. 160).

Pan ddygwyf fi gymhellion o flaen meddyliau fy nghydgreaduriaid yn y berthynas briodol, cynnyrchir yr ewyllysiad o angenrheidrwydd; ond na fydded i mi anghofio fy mod i wrth ddwyn y cymhellion hyn gerbron eraill yn rhoddi allan ewyllysiadau, ac felly wrth gwrs fy mod i fy hun yn cael fy symud yn rheidiol gan ryw gymhellydd rhagflaenol. Mae fy nghynghorion a'm hannogaethau yn ganlynyddion rheidiol, yn gystal ag yn rhagflaenorion rheidiol. Rhaid i'r dwfr redeg trwy y ddyfrffos; rhaid i'r olwyn droi o dan rym y ffrwd; rhaid i minnau gynghori a pherswadio pan benderfynir fy meddwl i hyny gan gymhellion. A rhaid i'r meddyliau a gyfarchwyf blygu pan fyddo y cymhellion wedi eu dethol yn briodol.

IX. Pan ufuddheir ac y plygir i orchymynion, rhybuddion, a cheryddon dwyfol, ufuddheir a phlygir iddynt trwy y grym rheidiol a feddant yn mherthynas i gyflwr y meddwl sydd yn cael ei gyfarch â hwynt. Pan na ufuddheir ac na phlygir iddynt, ffaelant o angenrheidrwydd, oblegid anallu moesol ar ran y meddwl a gyferchir; neu mewn geiriau eraill, o herwydd y diffyg o gyd-berthynas briodol rhyngddynt â chyflwr y meddwl a gyferchir; hyny ydyw, nid oes yn yr amgylchiad allu digonol i gynnyrchu yr ewyllysiadau gofynol, ac felly y mae eu bodolaeth yn anmhosiblrwydd hollol.

Mae gorchymynion, rhybuddion, a cheryddon dwyfol yn cynnyrchu ewyllysiadau o ufudd-dod ac ymostyngiad, yn unig fel y maent yn cynnyrchu yn y meddwl y syniad o'r mwyaf dymunol; ac megys na all ewyllys y creadur feddu dim rhan yn nghynnyrchiad y syniad hwn, gan y byddai hyny yn gynnyrchu ewyllysiad trwy ewyllysiad, cynnyrchir ef mewn cyd-berthynas ragflaenol i ewyllysio, ac wrth gwrs gan reidrwydd pendant. Mae hyn mor eglur oddiwrth yr hyn oll a ysgrifenwyd o'r blaen fel y mae ymhelaethu yn y fan hyn yn ddiangenrhaid.

Pan na byddo ufudd-dod ac ymostyngiad yn cymeryd lle, y mae hyny o herwywdd nad yw y gorchymynion y rhybuddion, a'r ceryddon dwyfol yn cynnyrchu y syniad o'r mwyaf dymunol. Ac megys nad all fod gan ewyllys y creadur ddim rhan yn nghynnyrchiad y syniad hwn, gan y byddai hyny yn gynnyrchu ewyllysiad trwy ewyllysiad; a chan mai mewn cyd-berthynas ragflaenol i ewyllys, ac wrth gwrs, mai rheidrwydd pendant sydd yn ei gynnyrchu; felly hefyd ni all ewyllys y creadur feddu dim rhan mewn attal y syniad hwn rhag cymeryd lle. Amlygiadau o gyd-berthynas a'u rhagflaenol wrthddrychau neillduol gyda y meddwl ydyw ewyllysiad o ufudd-dod ac ewyllysiad o anufudd-dod, sydd yn cael eu penderfynu yn rheidiol gan natur y cyd-berthynas hyny.

Yn awr mae yn rhaid fod y Bôd Dwyfol yn gwybod yn fanwl pa

berthynas a ddelir yn rheidiol gan ei orchymynion ef gyda yr amrywiol feddyliau a gyferchir a hwynt, ac mewn canlyniad rhaid ei fod yn gwybod yn mha rai o honynt y cynnyrchir ufudd-dod, ac yn mha rai anufudd-dod. Mae yr effeithiau yn y naill a'r llall yn gyfartal reidiol. Gan hyny, mae gan y gorchymynion o angenrheidrwydd swydd ddyblyg. Pan ddeuant i gysylltiad gydag un math o gyflwr meddwl, cynnyrchant o angenrheidrwydd yr hyn a alwn yn ufudd-dod: pan mewn cysylltiad â math arall o gyflwr meddwl, cynnyrchant o angenrheidrwydd yr hyn a alwn yn wrthryfel: a chan fod yr holl ewyllysiadau wedi eu penderfynu a'u sefydlu gan ddoethineb anfeidrol a rheidiol, a'u bod gan hyny y pethau goreu yn bosibl yn eu hadeg a'u lle, rhaid fod yn canlyn fod gwrthryfel yn gystal ac ufudd-dod yn ganlyniad doeth a dymunol.

Mae y canlyniadau wyf yn eu tynu yn y fan hyn bron yn rhy echryslawn i'w datgan. Ond dangosed yr hwn a all, nad ydynt yn gasgliadau rhesymol oddiwrth y gyfundrefn hon? Yr wyf yn gwasgu y gyfundrefn i'w chanlyniadau,—nid er mwyn taflu unrhyw sarhad ar y dynion mawrion a da a arweiniwyd yn anffodus ar gyfeiliorn gan athroniaeth gau, ond yn hytrach er mwyn dynoethi a phrysuro tranc yr athroniaeth hòno ei hun. Mae wedi bod eisoes yn gysegredig yn rhy hir oblegid y cysylltiad yn mha un y safai gyda dynion da. A gwn y caf fy nghyfiawnhau yn fy ngwaith gonest, ond hyf, o ddinystrio y cysylltiad annaturiol a drwgargoelus hwn.

X. Yn ol y gyfundrefn hon, ni all y teimlad o euogrwydd a chywilydd yn nghydag ofn atdaledigaeth feddu cysylltiad gwirioneddol ac angenrheidiol gydag unrhyw ewyllysiadau, ond rhaid eu golygu fel rhagfarnau a gwallau addysg, oddiwrth ba rai y gwasanaetha athroniaeth i'n gwaredu.

Llafuria Edwards i brofi (Rhan IV., adran I.) fod rhinwedd a drygioni yn gorwedd yn hanfodol yn yr ewyllysiadau eu hunain, ac wrth gwrs mai yr ymwybodaeth o ewyllysiadau drygionus ydyw yr ymwybodaeth o euogrwydd. Yr wyf yn ewyllysio, neu yn rhoddi allan ewyllysiadau. Eiddo fi ydyw yr ewyllysiadau, a chan hyny yr wyf fi yn euog. Mae y rhesymiad hwn yn olygus, ond nid yw yn deg; oblegid, yn ol y gyfundrefn hon, mewn goddefiant llwyr yr ydwyf yn rhoddi allan ewyllysiadau: mae yr ewyllysiadau yn cymeryd lle ar faes fy ymwybodaeth yn rheidiol a thrwy gymhellion rhagflaenol, ac yn eiddo i mi yn unig oblegid mai yn fy meddwl i y cynnyrchir hwynt. Yn gysylltiol â hyn gall fod y ddirnadaeth fod yr ewyllysiadau hyn yn ddrwg; ond os oes yna hefyd argyhoeddiad eu bod yn rheidiol, ac y byddai tybio iddynt fod yn wahanol i'r hyn ydynt yn dybio peth nad oedd yn bosibl iddo fod,—yn gymaint ag fod cyfres o ganlynyddion a rhagflaenorion yn cysylltu yr ewyllysiadau hyn trwy berthynasau hollol reidiol, gydag

achos cyntaf ac angenrheidiol,—yna ni all y teimlad o euogrwydd a chywilydd, a'r farn y dylwn i gael fy nghosbi, feddu dim lle yn y meddwl dynol. Nid yw o unrhyw ddyben dweyd wrthyf fy mod i yn ewyllysio, ac yn ol barn gyffredin dynolryw, rhaid fy mod yn euog pan wyf yn ewyllysio yn ddrygionus,—os ydyw athroniaeth, ar yr un pryd, yn fy nysgu fy mod yn ewyllysio dan reolaeth reidiol ac anwrthwynebol cymhellydd rhagflaenol. Mae barn gyffredin dynolryw yn gyfeiliornad, a rhaid y gwna athroniaeth chwalu yn fuan o fy meddwl y teimlad o euogrwydd a chywilydd, ac o haeddiant moesol, sydd hyd yma yn fy mlino ac yn llenwi fy mynwes â dychryn: a gwelaf y rhaid fod y canlyniad dedwydd hwn yn llawer mwy sicr o ddyfod, pan gymerwyf i ystyriaeth hefyd fod y rheidrwydd sydd yn penderfynu fy ewyllysiadau i yn rheidrwydd sydd yn cyfodi o ddoethineb reidiol ac anfeidrol.

Yr hyn sydd wir o barth euogrwydd ac atdaledigaeth sydd wir hefyd am rinwedd a thaledigaeth y gwobrwy. Os ydwyf yn gwneuthur yr hyn sydd dda, gan fod fy ewyllysiadau yn cael eu penderfynu gan reidrwydd rhagflaenol, ni fuasai yn bosibl i mi wneuthur yn wahanol. Nid yw yn ateb i deleran yr amgylchiad o gwbl, i ddweyd y gallaswn i wneuthur yn wahanol, pe buaswn wedi ewyllysio gwneuthur yn wahanol; oblegid mae yr ewyllysio i wneuthur fel yr wyf yn gwneuthur, yn beth nas gallasai fod yn wahanol. Gan hyny, rhodder i mi mewn unrhyw weithred a elwir yn dda, mawr, rhagorol, &c., yr argyhoeddiad fod y dewisiad o'r weithred hon yn ddewisiad rheidiol, wedi ei ragbenderfynu mewn cadwen faith a didor o ragflaenyddion rheidiol, ac yna nis gall yr ymdeimlad o deilyngdod, a'r farn y dylwn gael fy ngwobrwyo, fod mwyach.

Mae teilyngdod neu annheilyngdod yn cael eu cysylltu yn ein meddyliau gyda'n hewyllysiadau, o dan yr argraff fod y da a gyflawnir yn cael ei gyflawni genym mewn gwrthwynebiad i demtasiwn, a chyda y gallu a'r posiblrwydd i wneuthur drwg. Ond pan y'n hysbysir mai yr holl allu a'r posiblrwydd i ymddygiad gwahanol i'r hyn ydyw ein hymddygiad ar y pryd ydyw hyn,—sef pe buasem ni wedi rhoddi allan ewyllysiadau gwahanol, y buasai yna weithredoedd gwahanol' oddiallan yn nodweddu ein hymddygiad, ond ar yr un pryd fod yr ewyllysiadau eu hunain yn rheidiol, ac nas gallasent fod yn wahanol i'r hyn ydynt, —nis gallwn beidio profi gwrthdroad meddwl. Ar y cyntaf dichon yr arweinir ni i ammheu yr athroniaeth,—neu os tueddir ni gan resymu cywrain, neu awdurdod enwau dynion mawr, i roddi crediniaeth ddiammheuol,—rhaid i'r ymdeimlad o haeddiant ac anhaeddiant naill ai marw ymaith, neu ynte gael ei gynnal trwy ddisgyn ar frys o diriogaethau gwylltion damcaniaeth i diroedd gwastad synwyr cyffredin.

XI. Mae yn canlyn hefyd oddiwrth y gyfundrefn hon, nas gellir

gwahaniaethu rhwng natur ac ysbryd, yn eu gweithrediadau, fel y maent yn achosion neu weithredyddion.

Cydnabyddir yn gyffredinol dri dosbarth o achosion neu weithredyddion naturiol: 1. Y difywyd,—megys dwfr, gwynt, ager, trydan, &c.; 2. Y bywydol, ond dideimlad,—megys bywyd a pherthynasau planhigion; 3. Y bywydol a theimladwy, neu y gallu anifeilaidd.

Daw y rhai hyn oll yn briodol dan yr enwad *naturiol*, oblegid eu bod oll yr un modd yn *rheidiol*. "Beth bynag a gynnwysir yn nghadwen a pheiriannwaith achos ac effaith, ac wrth gwrs sydd reidiol, ac yn meddu ei reidrwydd mewn rhywbeth arall rhagflaenol neu gydfynedol,—dywedir fod hwn yn *naturiol;* a chrynoad a chynllun yr oll o'r fath bethau ydyw *natur*." Yn awr, yn ol egwyddor y gyfundrefn hon, daw ysbryd, fel achosydd neu weithredydd, o dan yr unrhyw enwad: yn ei holl weithrediadau mae yn rheidiol. Yn ei ewyllys yn arbenig y mae dyn yn cael ei gymeryd fel achosydd neu weithredydd, o herwydd mai trwy ei ewyllys y mae yn uniongyrchol yn cynnyrchu effeithiau; ac ar y gyfundrefn hon nid yw yn bosibl gwahaniaethu, mor bell ag y mae cysylltiad rheidiol yn cael ei ystyried, rhwng cadwen o ragflaenorion a chanlynyddion a wnaed i fyny o gymhellion, ewyllysiadau, a chanlyniadau ewyllysiadau, a chadwen o ganlynyddion a rhagflaenorion i ba un y mae y tri dosbarth cyntaf a enwyd o weithredyddion naturiol yn myned i'w chyfansoddi. Mae gan yr holl ddosbarthiadau amrywiol nodweddau neillduol a gwahaniaethol; ond gyda golwg ar ragflaeniad a chanlyniad,—eu perthynas fel achosion neu weithredyddion yn cynnyrchu effeithiau,—nid oes dim gwahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd. Mae dwfr, gwynt, &c., yn ffurfio un rhywogaeth o achosydd; bywyd ermigol yn ffurfio un arall; gallu anifeilaidd un arall; ewyllysiadau deallol un arall: ond y maent oll yn rheidiol, yn hollol reidiol; a chan hyny rhanau cydraddol un gyfundrefn fawr natur ydynt oll. Yr unig wahaniaeth sydd rhyngddynt a'u gilydd ydyw gwahaniaeth *termau*. Nid oes dim gwahaniaeth yn *natur* y berthynas sydd rhwng y termau. Natur y berthynas rhwng yr olwyn ddwfr a'r ffrwd,—y berthynas rhwng bywyd ermigol llysiau a'i ddadblygiad,—y berthynas rhwng nwyd ac ewyllysiad mewn anifeiliaid,—y berthynas rhwng eu hegnïon ac effeithiau materol,—a natur y berthynas rhwng cymhellydd ac ewyllysiad,—sydd un: perthynas achos ac effaith yn cael eu hystyried fel rhagflaenydd a chanlynydd ydyw yn yr oll, heb fod yn ddim mwy na dim llai rheidiol yn y naill na'r llall.

XII. Mae yn canlyn, etto, fod teimladau a gynnyrchir gan wrthddrychau allanol, a phob cyffroad sydd yn dilyn dirnadiad, a holl weithrediadau y dealltwriaeth, pa un bynag ai mewn gwybodaeth gyngreddfol neu mewn rhesymiad, yn weithredoedd mor wirioneddol o'r eiddom ni, ac am ba rai yr ydym mor wirioneddol gyfrifol (os addefir

fod cyfrifoldeb yn bod), ag ydyw gweithrediadau ewyllysiad. Mae teimladau, cyffroadau, dirnadaethau, rhesymiadau, oll tu mewn i ni; gorweddant oll yn ein hymwybodaeth; ni chynnyrchir hwynt gan ein hewyllysiadau, fel ysgogiadau y dwylaw a'r traed; cymerant le trwy eu hachosion eu hunain, yn gymhwys fel y cymer ewyllysiadau le trwy eu hachosion eu hunain. Yr un yn hollol ydyw perthynas y dyn gyda yr oll. Nid efe mewn un ystyr ydyw achos yr un o honynt; nid yw ond y deilydd yn unig: deilydd teimlad, cyffroad, rhesymiaeth, ac ewyllysiad; ac y mae yn ddeilydd yr oll trwy yr un rheidrwydd.

XIII. Nid ydyw cyfundrefn cosb ond yn unig darpariaeth wedi ei chyfaddasu i opiniynau cymdeithas.

Nid oes dim yn ddrwg ynddo ei hun, yn ol cyfundrefn Edwards, fel y dangosasom eisoes. Mae pob peth sydd yn cymeryd lle, yn ei amser, ei le, a'i berthynasau yn gyffredinol, yn gynnyrch angenrheidiol anfeidrol ddoethineb. Ond etto mae yn ffaith fod cymdeithas yn awyddus i attal rhai gweithredoedd,—megys lladrad, godineb, llofruddiaeth, &c.; ac y maent yn awyddu felly yn rheidiol. Yn awr, nid yw cyfundrefn cosb ond yn unig casgliad o gymhellion gyda golwg ar y teimlad o boen a'r cyffroad o ofn, tuag at attal cyflawniad y cyfryw weithredoedd. Lle byddo i'r gweithredoedd hyn gymeryd lle, y peth goreu ydyw iddynt gymeryd lle; ond lle yr attelir hwynt gan ofn cosb, y peth goreu ydyw iddynt gael eu hattal. Pan fyddo y troseddwr yn dyoddef, nid oes ganddo ddim hawl i gwyno, o herwydd y peth goreu ydyw iddo ddyoddef; ac etto, os gwna gwyno, y peth goreu ydyw iddo gwyno. Mae cyfundrefn cosbedigaeth yn dda, fel mae pob peth arall yn dda. Rhaid ystyried cyfundrefn cosbau dwyfol yn yr un goleuni. Yn wir, beth ydyw cosbau dynol, pan y'u hystyrir yn briodol, ond cosbau dwyfol? Cynnwysir hwynt yn nghadwen ragordeiniol a rheidiol bodaeth a dygwyddiadau.

XIV. Yna, y mae yn rhaid i ni gasglu hefyd nas gall fod yna mewn gwirionedd unrhyw drychineb. Dylem ddyoddef dan, a llawenychu yn, y trychinebau a brofwn ar unrhyw bryd, fel pethau sydd yn tarddu o'r un ffynnonell berffaith a rheidiol, sef anfeidrol ddoethineb. Ond fel y mae trychineb neu drallod er hyny o angenrheidrwydd yn cynnyrchu anesmwythder a dyoddefaint, yn nghyda dymuniad am ymwared, gallwn gael caniatâd i obeithio y bydd i ymwared perffaith a dedwyddwch cyflawn ddyfod i'n rhan yn y diwedd, ac y bydd i'r dedwyddwch dyfodol gael ei estyn mewn cyfartaledd i'r dyoddefiadau presenol.

Gallai y rheidiolwr fod yn oreuydd *(optimist)* o radd uchel. Os cyflawna yr hyn a elwir trosedd, ac i adgno ddilyn, ac i gosbedigaeth gael ei gweinyddu arno dan y gyfraith, mae y trosedd yn dda, yr adgno yn dda, y gosbedigaeth yn dda, yr oll yn rheidiol a da, ac yn gweithio

allan, fel y gobeithia, yr effaith o ddedwyddwch pur. Ni all dim fod yn ddrwg ynddo ei hun: gall fod yn annymunol; ond dyry hyn hyd yn nod le i'r dymunol. Ac felly hefyd gyda phob blinder: rhaid eu bod yn dda ynddynt eu hunain, er yn annymunol ar y pryd,—a thebyg yw y parotoant y ffordd i'r dymunol, yn debyg fel y mae newyn a syched, pa rai ydynt anhyfryd ar y pryd, yn arwain y ffordd i'r mwynhad o fwyta ac yfed. Mae yr oll o reidrwydd, ac yn tarddu yn y pen draw o anfeidrol ddoethineb.

XV. Fel y mae yr oll yn bod o reidrwydd, ac yn tarddu o ddoethineb anfeidrol ac angenrheidiol, yna ni all fod mewn gwirionedd ddim ffolineb mewn ymddygiad, neu gyfeiliornad mewn rhesymiad neu gredo, mwy nag y gall fod trosedd neu drychineb, o'u hystyried fel drygau ynddynt eu hunain. Y mae pob gweithred a alwn ni yn ffolineb yn weithred reidiol, o ran ei hamser, ei lle, a'i pherthynasau yn gyffredinol, ac yn ganlyniad rheidiol yr anfeidrol ddoethineb; ond y mae yn anmhosibl i ganlyniad rheidiol anfeidrol ddoethineb fod yn groes i anfeidrol ddoethineb; felly mae yr hyn a alwn ni yn ffolineb, pan ystyrir ef yn athronyddol, yn peidio bod yn ffolineb.

Mewn unrhyw weithred o resymiad pur, ymddengys y perthynasau yn rheidiol, ac y mae cydsyniad y meddwl yn rheidiol. Caniateir hyn gan yr holl bleidiau. Ond rhaid caniatâu, pan ddywedir fod dynion yn rhesymu yn dwyllodrus, ac yn rhoddi eu cydsyniad i gasgliadau gau, fod y perthynasau yn ymddangos iddynt hwy yn rheidiol; ac, yn ol y gyfundrefn hon, ymddangosant felly iddynt o angenrheidrwydd, nis gallant ymddangos yn wahanol: ac y mae cydsyniad y meddwl hefyd yn rheidiol.

I eraill, byddai y rhesymiad yn dwyll-resymiad, o herwydd ei fod yn ymddangos felly iddynt o angenrheidrwydd; ond i'r person yr ymddengys yn wahanol, iddo ef y mae yn wahanol mewn gwirionedd, ac yn rhesymiad da a safadwy.

Etto: gan fod yr holl resymiadau a'r crediniaethau gwahanol hyn yn tarddu yn rheidiol o'r un ffynnonell, rhaid iddynt oll fod yn gywir wirioneddol lle yr ymddangosant yn gywir, ac oll yn gau mewn gwirionedd lle yr ymddangosant yn gau. Mae yn canlyn, oddiwrth hyn, na all neb fod mewn gwirionedd mewn sefyllfa gau oddieithr y rhagrithiwr a'r twyll-ddadleuydd, sydd yn hòni eu bod yn credu ac yn bod yr hyn nad ydynt, ac yn twyll-resymu yn fwriadol, gan osod i lawr y casgliadau gau fel pe byddent wirioneddau. Yr wyf yn dywedyd y byddai y rhai hyn yn eithriad yn y canlyniad, oni b'ai fod y gyfundrefn hon yn ein gorfodi i ddal na all hyd yn nod y rhagrithiwr a'r twyll-ddadleuydd gymeryd sefyllfa gau, yn gymaint ag fod eu sefyllfa yn un reidiol, wedi ei rhagbenderfynu yn ei chysylltiad angenrheidiol gyda'r ddoethineb reidiol gyntaf.

XVI. Canlyniad arall y gyfundrefn hon ydyw tyngedfen,—neu, efallai, i siarad yn fwy priodol, y mae y gyfundrefn ei hun yn gyfundrefn o dyngedfen.

Mae yn wir fod hyn wedi cael ei sefydlu eisoes mewn sylwedd. Ond ni wnaed defnydd o'r gair. Ond yma yr ydwyf yn cyhuddo y gyfundrefn hon gyda y canlyniad dychrynllyd hwn yn ffurfiol ac uniongyrchol.

Tyngedfen ydyw negedydd hollol rhyddid. Mae y gyfundrefn hon yn dyngedfen, oblegid ei bod yn cau allan bob rhyddid yn hollol.

Nid oes yr un rhyddid yn cael dadleu drosto, yn y gyfundrefn hon, gyda golwg ar ddyn, ond rhyddid anianyddol: noder, pan ewyllysio, y bydd i'r effaith ganlyn,—sef pan ewyllysio gerdded, y mae yn cerdded, &c. "Rhyddid, fel yr eglurais o'r blaen, ydyw y gallu, y cyfleusdra, neu y fantais sydd gan unrhyw un i wneud fel y myno, neu i ymddwyn fel y gwelo yn dda, heb ystyried pa fodd y daeth y gweled yn dda hwn i fod yr hyn ydyw."

Yn y lle cyntaf, nid yw hwn yn rhyddid uwch nag sydd gan yr anifeiliaid. Mae ganddynt hwythau allu, cyfleusdra, neu fantais i wneud fel y mynont. Gwna effeithiau ganlyn eu hewyllysiadau hwy trwy ddeddf mor sicr ag y gwna effeithiau ganlyn ewyllysiadau dynion.

Yn yr ail le, nid yw hyn yn amgen rhyddid nag y mae y caethion yn ei feddu. Mae y caethion bob amser yn gwneud fel y mynont. Os y fflangell, neu ofn y fflangell fydd y cymhellydd, etto, yn eu hamgylchiad hwy fel yn yr eiddo yr anifeiliaid dan amgylchiadau cyffelyb, yr ewyllysiad sydd yn cymeryd lle ydyw y mwyaf dymunol ar y pryd. Mae y caethwas a'r anifail yn gwneud yr hyn sydd fwyaf dymunol iddynt, neu yn gwneud fel y mynont, pan y mae y naill yn tynu yr aradr a'r llall yn ei ddal. Na, mae yn anmhosibl i unrhyw anifail, rhesymol neu afresymol, i weithredu heb fod yn gwneuthur yr hyn sydd fwyaf dymunol iddynt ar y pryd. Mae ewyllysiad bob amser yn ol fel y mae y daioni ymddangosiadol mwyaf, neu yn ol y syniad o'r mwyaf hyfryd neu ddymunol.

Pe byddai i rywun ateb fod caethion ac anifeiliaid yn *agored* i gael eu llyffetheirio, ac fod hyn yn eu gwahan-nodi oddiwrth ddyn rhydd, yr wyf finnau yn gwrthateb fod pob bôd yn agored i attalfeydd amrywiol; ni all neb o honom wneuthur llawer o bethau a ymddangosant ynddynt eu hunain yn ddymunol, ac a fuasent yn wrthddrychau dewisiad pe gwybuasid fod yna gysylltiad sefydlog rhyngddynt a'n hewyllys. Cyfyngir arnom yn ein gweithredoedd gan alluoedd natur o'n hamgylch; ni allwn ddymchwelyd mynyddoedd, neu lywodraethu y gwynt. Cyfyngir arnom gan natur ein bodaeth anianyddol. Cyfyngir arnom gan ein diffyg o gyfoeth, gwybodaeth, a dylanwad. Yn yr holl ystyron hyn, gallwn ni, mor briodol a'r caethwas, gael ein golygu fel wedi ein

hamddifadu o ryddid. Nid yw o unrhyw ddyben dweyd, gan nad ydym ni byth yn ewyllysio yr hyn a wyddom sydd anmhosibl ac anymarferadwy, felly gyda golwg ar y cyfryw wrthddrychau, nad yw rhyddid neu y diffyg o ryddid i gael ei ddatgan; oblegid gwna yr un peth fod yn gymhwysiadwy at y caethwas sydd mewn llyffethair; nid yw yntau yn ewyllysio cerdded neu redeg pan y gwyr fod hyny yn anmhosibl. Ond gyda golwg arno ef yn gystal a phob bôd arall, mae yn dal yn wir, yn ol y gyfundrefn hon, pa un bynag ai gweithredu ai ymattal a wna, fod ei ewyllysiadau yn ol fel y mae y mwyaf dymunol.

Gan hyny, mae pob creadur, sydd yn gweithredu trwy ewyllysiad, i gael eu cyfrif yn rhydd.

Yn y trydydd lle, mae y rhyddid a ddelir yma yn perthyn yn gyfartal i bob enghraifft o ragflaenydd a chanlynydd gosodedig.

Y rhyddid a dybir sydd yn gorwedd yn y cysylltiad rhwng ewyllysiad ac effeithiau, sydd ryddid a orwedd yn nghysylltiad rhagflaenydd a chanlynydd gosodedig, ac sydd berffaith yn ol fel y mae y cysylltiad hwn yn rheidiol a diattalfa. Gan hyny, yn y ffurf fwyaf hollol o reidrwydd y mae y ffurf uchaf o ryddid i'w gael. Fel hyn, daw rhyddid yr un peth a gallu: lle y mae gallu, yno mae rhyddid; a lle mae gallu fwyaf, hyny yw, lle mae yn gorchfygu yr anhawsderau mwyaf, ac y gweithia yn anwrthwynebol yn mlaen at ei effeithiau, yno mae y radd fwyaf o ryddid. Duw ydyw y mwyaf rhydd o bob bôd, o herwydd nas gall dim wrthsefyll ei ewyllys. Mae ei ewyllysiadau bob amser yn rhagflaenorion effeithiau.

Ond amlwg yw nad ydym yn newid y berthynas, pan yn cyfnewid y termau. Os yn rhagflaeniad gosodedig ewyllysiad i'r effeithiau mae rhyddid yn gorwedd, ac os ydyw rhyddid yn cael ei fesur gan reidrwydd y berthynas, yna pan fyddo y rhagflaenydd wedi ei newid, a'r berthynas yn aros yr un, mae rhyddid o hyd yn bresenol. Er enghraifft: pan fyddo ewyllysiad i symud y fraich yn cael ei ddilyn gan symudiad y fraich, mae yna ryddid; yn awr doder trydan yn lle yr ewyllysiad, a chymer yr effaith le yr un mor sicr; ac megys mai gwneud fel y mynom ydyw rhyddid, "heb gymeryd i ystyriaeth pa fodd y daeth y dymuniad hwn y peth ydyw;" hyny ydyw, heb gymeryd y cymhellydd i'r cyfrif: felly yr un modd y gellir dweyd mai rhyddid yw gwneud yn ol y cynhyrfiad trydanol, "heb ystyried pa fodd" y daeth y cyfryw gynhyrfiad "i fod y peth ydyw."

Pe cymerem unrhyw enghraifft arall o ragflaenydd sefydlog a chanlyniad, byddai y rhesymiad yr un. Er enghraifft, yr olwyn ddwfr yn ei pherthynas â maen y felin: pan fyddo yr olwyn yn troi, mae y maen yn ysgogi. Yn yr amgylchiad yma, gall rhyddid gael ei ddarnodi fel hyn, y maen melin yn ysgogi yn ol chwyrnelliad yr olwyn, "heb ystyried pa fodd" y daeth y chwyrnelliad yna o eiddo yr olwyn

"i fod fel y mae." Yn amgylchiad rhyddid dynol, darnodir rhyddid, yn wneud yn ol ein hewyllysiadau, heb ystyried pa fodd y mae yr ewyllysiad "yn dyfod fel y mae;" gwneuthur "yn ol dewisiad, heb gymeryd i ystyr y gair ddim o achos y cyfryw ddewisiad." (tudal. 39.)

Os dywedir ein bod yn cael y dyn i'r hwn y priodolir rhyddid, yn amgylchiad ewyllysiad; tra yn achos yr olwyn a'r maen melin, nad oes genym ddim ag y mae yn briodol dal fod rhyddid ganddo; yr wyf yn ateb, y rhaid dal rhyddid (a'i fod yn cael ei ddal gyda phriodoldeb), i'r hyn y mae mewn gwirionedd yn perthyn; ac yna megys y tybir fod rhyddid yn perthyn i'r sylwedd ysbrydol, dyn; ac fod y sylwedd ysbrydol hwn yn cael ei ddatgan yn rhydd, o herwydd fod ewyllysiad yn cymeryd lle ynddo, ac yn cael ei ddilyn gyda chanlyniadau:—felly yn yr un modd, gall sylwedd materol yr olwyn gael ei ddatgan yn rhydd, oblegid fod ysgogiad yn perthyn iddo, sydd yn cael ei ddilyn gan ganlyniadau. Fel y mae pob bôd sydd yn meddu ewyllysiad yn rhydd, felly hefyd mae pob peth sydd yn meddu ysgogiad yn rhydd yr un modd:—yn mhob amgylchiad o achos ac effaith, yr ydym yn cyfarfod a rhyddid.

Ond ni all ewyllysiad fod yn nodweddiad rhyddid, os ydyw ewyllysiad ei hun yn cael ei lywodraethu gan reidrwydd; ond etto mae y gyfundrefn hon sydd yn dal fod rhyddid, lle bynag y mae ewyllysiad diattalfa, yn gwneuthur ewyllysiad yn benderfyniad rheidiol. Yn y ffaith o ewyllysiad diattalfa, dyry ryddid i bob creadur sydd yn meddu ewyllysiad; ac etto, yn y ffaith o benderfyniad rheidiol yr ewyllys mae yn dinystrio y posiblrwydd o ryddid. Ac hyd yn nod yn y lle mae yn dal fod rhyddid, nid oes yr un briod-ddull newydd i'w nodweddu megys rhyddid. Mae y cysylltiad rhwng ewyllysiad a'i ganlyniadau, yn gysylltiad mor reidiol a hollol ag ydyw y cysylltiad rhwng y cymhellydd a'r ewyllysiad, neu rhwng unrhyw ragflaenydd a'i ganlyniad. Y bydd i fy mraich symud pan roddwyf allan ewyllysiad i'r cyfryw berwyl, sydd gymhwys mor reidiol, a chymhwys mor anamgyffredadwy hefyd, ag ydyw i'r dwfr rewi mewn gradd benodol o dymheredd; pan fyddo yr ewyllysiad yn ddiattalfa, nid oes genym ond yn unig enghraifft arall o reidrwydd,—gallu llai yn cael ei orchfygu gan un mwy.

Gan hyny, nid yw y rhyddid y mae y gyfundrefn hon yn ei ddal yn y ffaith o ewyllysiad a'i gysylltiad diattalfa gyda ei ganlyniadau, ond ymhoniad gwag—enw yn unig. Rhan ydyw o'r rheidrwydd cyffredinol yn cael ei wahan-nodi a'i enwi yn fympwyol.

Megys nad oes rhyddid yn aros yn yr ewyllysiad dynol, felly nis gall fod rhyddid yn yr ewyllysiad dwyfol chwaith. Mae yr un mor anmhosibl i ddibyniaeth rheidiol ewyllysiad ar gymhellydd, a chanlyniad rheidiol effeithiau ar ewyllysiad, gael eu gwahanu oddiwrth y meddwl dwyfol

ag oddiwrth yr eiddom ninnau. Athrawiaeth ydyw, yr hon os ydyw yn wir, a gynnwysir yn yr amgyffrediad cyffredinol o feddwl. Mae yn perthyn i feddwl a'i hystyried yn rhywogaethol. Mae cynnyrchiad ewyllysiad gydag ewyllysiad yn wrthun ynddo ei hun—nis gall fod yn ddim ond gwrthuni. Os ydyw penderfyniad yr ewyllys gan y cymhelliad cryfaf yn wirionedd, y mae yn wirionedd yn gyffredinol: ar egwyddor y gyfundrefn hon, mae yn cynnwys holl achos a phosiblrwydd ewyllysiad. Dalir fod holl ryddid Duw yn cael ei gynnwys yn hyn, gwneud fel y myno, neu mewn geiriau eraill, fod yr hyn a ewyllysio yn cael ei gyflawni, a'i gyflawni o angenrheidrwydd; y mae yr hyn a fyno efe wedi cael ei sefydlu hefyd yn rheidrwydd ei natur ef ei hun. Gan hyny, nid yw ei ryddid ef, yn ol darnodiad y gyfundrefn hon ei hun, yn gwahaniaethu dim oddiwrth reidrwydd.

Os ydyw ysgogiadau meddwl yn rheidiol, nid oes eisieu yr un ddadl i brofi fod pob bôd a dygwyddiad yn rheidiol. Yr ydym fel hyn wedi ein rhwymo i fyny mewn rheidrwydd cyffredinol. Beth bynag sydd, sydd, ac ni all fod yn wahanol, ac ni allai fod yn wahanol. Megys gan hyny nad oes dim rhyddid mewn bod, yr ydym wedi ein darostwng i'r unig dir arall sydd yn bod, sef tyngedfen.

Nid yw Edwards yn ceisio ymryddhau yn hollol oddiwrth y cyhuddiad o dyngedfen. (Rhan IV., adran VI., tudal. 239.) Gyda golwg ar y Stoiciaid, mae yn sylwi:—"Ymddengys y gwahaniaethent yn eu plith eu hunain; ac y mae yn debyg fod athrawiaeth *tyngedfen*, fel y delid hi gan y rhan fwyaf o honynt, mewn rhai ystyriaethau yn gyfeiliornus. Ond beth bynag oedd eu hathrawiaeth, os daliai neb o honynt y fath dyngedfen ag sydd yn groes i ryddid, fel yn gynnwysedig mewn *gwneuthur o honom fel y mynom*, yr wyf fi yn gwadu yn hollol y fath dyngedfen." (tudal. 240.) Mae ef yn gwrthwynebu tyngedfen yn unig pan fyddai iddi wadu fod ein gweithredoedd yn gysylltiedig gyda ein pleser, neu ein syniad o'r mwyaf dymunol, hyny yw, ein hewyllysiad. Ond yr ydym wedi profi yn llawn fod y cysylltiad hwn mor reidiol ag ydyw y cysylltiad sydd rhwng yr ewyllysiad a'i gymhellydd. Gan hyny, nid yw y darn-geliad yma, yn ei achub rhag tyngedfeniaeth.

Yn yr adran canlynol, (Adran VII.), arddengys fod rhyddid ac arglwyddiaeth Duw fel yn gynnwysedig mewn gallu "i wneuthur beth bynag a fyno." Gan hyny, nid yw ei syniad am y rhyddid dwyfol ond yr un peth a'r hyn a briodola i ddyn. Fod yr ewyllysiadau dwyfol yn cael eu penderfynu yn rheidiol, a hòna yn fynych, ac yn wir a'i harddengys fel rhagoriaeth mawr y natur ddwyfol, o herwydd fod y rheidrwydd penderfyniad hwn yn gorwedd yn noethineb a pherffeithrwydd anfeidrol ei natur.

Os rheidrwydd sydd yn llywodraethu pob bôd a dygwyddiad, mae yn siriol gwybod mai rheidrwydd ydyw sydd dan y ffurfiau o ddoeth-

ineb a haelfrydedd anfeidrol. Ond etto y mae yn aros o hyd mai rheidrwydd sydd yn llywodraethu. Os "nad ydyw yn unrhyw anfantais neu ddianrhydedd i fôd weithredu yn rheidiol yn y modd mwyaf rhagorol a dedwydd oddiar berffeithrwydd angenrheidiol ei natur ei hun," etto gadewch i ni gofio *mai yn rheidiol y mae yn gweithredu.* Rhaid i dyngedfen gael rhyw ansawdd neu ffurf; rhaid iddi fod yr hyn a alwn yn ddrwg neu dda; ond wrth benderfynu ei hansawdd, nid ydym yn dinystrio ei natur. Yn awr, os galwn y dyngedfen hon o natur daioni a doethineb, tragwyddol ac anfeidrol, yr ydym yn ei gosod allan dan ffurfiau prydferth, caruaidd, a gogoneddus yn wir, ond tyngedfen ydyw wedi y cwbl,—ac fel y cyfryw mae yn llywodraethu yr ewyllysiadau dwyfol; a thrwy yr ewyllysiadau dwyfol, holl ganlynyddion ac effeithiau yr ewyllysiadau hyn;—y cydfyd o fodau a phethau a benderfynir gan dyngedfen;—a holl ewyllysiadau engyl neu ddynion a benderfynir gan dyngedfen—gan y dyngedfen hon sydd mor brydferth, caruaidd, a gogoneddus. Yn awr pe byddai yr oll sydd yn *tarddu* fel hyn oddiwrth dyngedfen yn brydferth, caruaidd, a gogoneddus, ni byddai i'r ddamcaniaeth ein brawychu. Ond mae fod anffurfedd, trosedd, a thrychineb yn cael lle ynddi fel dadblygiadau y cyfryw dyngedfen, yn peri anesmwythder i ni. Gall cefnogwyr y gyfundrefn hon, efallai, gysuro eu hunain gyda yr ymberswadiad nad ydyw anffurfedd, trosedd, a thrychineb yn enwau ar sylweddau, ond yn hytrach ar syniadau terfynol dynolryw. Mae genym enghraifft i'r pwynt yn Charles Bonnet, am yr hwn y sylwa Dugald Stewart "ei fod yn ddysgybl dysgedig a duwiol iawn i Leibnitz." Ac meddai Bonnet—"Fel hyn mae yr un gadwen yn cynnwys y byd anianyddol a moesol, yn rhwymo y mynedol wrth y presenol, y presenol wrth y dyfodol, a'r dyfodol wrth dragwyddoldeb. Fod y ddoethineb a ordeiniodd fodolaeth y gadwen hon, yn ddiammheuol wedi ewyllysio yr eiddo pob dolen o ba rai y mae yn gyfansoddedig. Mae Caligula yn un o'r dolenau hyn; ac mae y ddolen hon o haiarn. Marcus Aurelius sydd ddolen arall; yr hon sydd ddolen aur. Mae y naill a'r llall yn rhanau angenrheidiol o'r cyfangorff, yr hwn ni allai beidio bodoli. A fydd i Dduw fod y ddigofus yn yr olwg ar y ddolen haiarn? Y fath wrthuni! Mae Duw yn parchu y ddolen yma yn ol ei gwerth priodol. Efe a'i gwel hi yn ei hachos, ac mae yn cymeradwyo y cyfryw achos, canys y mae yn dda. Mae Duw yn edrych ar anghenfilod moesol fel yr edrych ar anghenfilod anianyddol. Gwyn fyd y ddolen aur! Mwy gwynfydedig fyth ydyw os gwyr mai *ffortunus yn unig* ydyw. Cyrhaeddodd y gradd uchaf o berffeithrwydd moesol, ac etto nid yw yn falch, gan wybod ei bod yr hyn ydyw, am fod hyny yn ganlyniad angenrheidiol y lle y rhaid iddi ei gymeryd yn y gadwen. Yr efengyl ydyw yr esboniad arallegol ar y gyfundrefn hon; ceir crynodeb o honi yn nghyffelybiaeth

y crochenydd." Gallasai chwanegu, "dedwydd yw y ddolen haiarn, os gwyr nad ydyw yn euog, ond ar y gwaethaf *yn ddim mwy nag anffortunus;* ac nid yn anffortunus mewn gwirionedd, oblegid dal lle rheidiol yn y gadwen y mae, yr hon yn yr oll o honi ac yn ei rhanau, sydd yn gynnyrch anfeidrol ddoethineb."

Os oes eisieu rhywbeth yn ychwaneg mewn trefn i sefydlu y canlyniad hwn o eiddo y gyfundrefn sydd dan ein hystyriaeth, myfi a alwn sylw at yr ymofyniad, pa un a oes yna yn aros unrhyw ddamcaniaeth am weithrediad oddieithr tyngedfen, ar ol gwrthod ewyllys rydd a hunan-benderfynol? Ewyllys rydd a hunan-benderfynol sydd ewyllys a achosa ei hewyllysiadau a'i dewisiadau ei hun—gallu hunan-ymwybodol, hunan-symudol, a hunan-gyfeiriedig, yr hwn ar fynyd ei ddewisiad, neu ei symudiad tuag at wrthddrych neillduol, sydd yn ymwybodol o allu i ddewis, neu i symud tuag at wrthddrych gwrthwynebol. Yn awr, pa syniad croes i'r dyb hon sydd genym amgen nag ewyllys heb fod yn penderfynu ei hun,—heb fod yn achosydd ei hewyllysiadau ei hun,—gallu heb fod yn ysgogi ac yn cyfeirio ei hunan,—ac heb fod yn ymwybodol tra yn gwneuthur dewisiad, o allu i wneuthur dewisiad gwahanol? A beth ydyw y syniad hwn ond un sydd yn dal ewyllys sydd a'i hewyllysiadau yn cael eu penderfynu gan ryw allu sydd ragflaenol iddi ei hun, nid yn ddamweiniol a rhydd, ond yn rheidiol. Gan mai yr ewyllys ydyw yr unig allu i ba un y mae hunan-benderfyniad damweiniol a rhydd yn cael ei hawlio, os profir nad ydyw yr ewyllys yn ei feddu, yna nid oes y fath allu mewn bodolaeth. Gan hyny, caiff holl ddamcaniaeth gweithrediad ac achosedigaeth ei datgan fel y canlyn:

1. Cysylltiad hollol a rheidiol cymhellion ac ewyllysiadau. 2. Cysylltiad hollol a rheidiol ewyllysiadau ac effeithiau. 3. Cysylltiad hollol a rheidiol yr holl ganlynyddion gyda rhagflaenorion mewn natur. 4. Cysylltiad hollol a rheidiol pob peth sydd mewn bod gydag egwyddor neu achos cyntaf a rheidiol. 5. Penderfyniad rheidiol yr egwyddor neu yr achos hwn.

Os gwadir ewyllys rydd a hunan-benderfynol, y ddamcaniaeth hon ydyw y cwbl sydd yn aros wedi hyny. Os dywedir fod rhyddid yn gorwedd yn 2il benawd y ddamcaniaeth, nid ydyw ond dynodiad mympwyol yn unig, o herwydd y caniateir fod *natur* y berthynas yr un; nid *damweiniol* a *rhydd* ydyw, ond rheidiol. Ac ni ellir dal fod rhyddid yn aros yn y 5ed; o herwydd yn y lle cyntaf, y rhaid i'r arddangosiad tybiedig a wneir o afresymoldeb ewyllys rydd a hunanbenderfynol, trwy gyfres anfeidrol o ewyllysiadau, gael ei gymhwyso at yr achos mawr cyntaf hwn, a ystyrir yn Dduw. Ac yn yr ail le, rhaid i'r athrawiaeth o benderfyniad rheidiol y cymhelliad fod yn gymhwysiadol yma hefyd, gan fod Duw eisieu cymhellion gystal a ninnau.

Gosodir y penderfyniad yma allan fel yn cyfodi oddiar natur meddwl neu ysbryd. Yn awr, nid yw y ddamcaniaeth hon a ddygir yn mlaen mewn gwrthwynebiad i ewyllys hunan-benderfynol, ond negedydd amlwg rhyddid fel y mae yn gyferbyniol i reidrwydd. A dyma yr oll a ellir olygu wrth dyngedfen. Fel hyn mae rhyddid yn dyfod yn syniad hunan-wrthwynebol, a thyngedfen yn unig sydd wirionedd a sylwedd.

XVII. Ymddengys hefyd fod Holldduwiaeth yn gasgliad rhesymegol teg oddiwrth y gyfundrefn hon.

Yn ol y gyfundrefn hon, Duw ydyw yr unig a'r cyffredinol weithredydd sydd mewn bod—yr unig achos effeithiol. 1. Ei ewyllysiad ef ydyw yr act greadigol, trwy yr hon y mae pob bodau a phethau yn bodoli. Cyn belled a hyn caniateir yn gyffredinol mai Duw sydd oll yn oll. "Ynddo ef yr ydym yn byw, symud, a bod." 2. Efe a gyfansoddodd ac a reoleiddiodd alluoedd gweithgar holl gyfundrefn natur. Ei genadon ef ydyw y gwyntoedd. Y tân fflamllyd sydd was iddo. Sut bynag y syniwn am y galluoedd hyn, pa un bynag ai fel gwir alluoedd yn gweithio dan ddeddfau rheidiol, neu fel amlygiadau uniongyrchol o ymegnïad dwyfol, yn y naill amgylchiad a'r llall mae yn briodol tadogi eu holl ysgogiadau i Dduw. Mae yr ysgogiadau hyn wedi eu hordeinio gan ei ddoethineb, ac yn cael eu heffeithio yn uniongyrchol neu anuniongyrchol gan ei ewyllys. Pob effaith a gynnyrchwn ni yn y byd materol, a gynnyrchir genym trwy offerynoliaeth. Ein breichiau, dwylaw, &c., ydynt ein hofferynau cyntaf ni. Yr oll a wnawn trwy ddefnydd gwirfoddol o'r rhai hyn, a briodolwn i ni ein hunain. Yn awr, os cynnyddwn yr offerynoliaeth trwy ychwanegu bwyall, rhaw, neu forthwyl, etto y mae yr effaith fyth yn cael ei briodoli i ni ein hunain. Pa un bynag a wnaf fi y weithred yn uniongyrchol a'm llaw, neu ag offeryn a ddaliaf yn fy llaw, neu trwy gyfrwng cadwen o beiriannwaith sydd dan fy llywodraeth, os ydyw y weithred wedi cael ei golygu a'i chyflawni yn fwriadol genyf yn y ffordd yma, mae y weithred yn eiddof fi. Ac nid yn unig y mae y weithred olaf sydd yn y gyfres yn eiddof fi, ond y mae yr holl ysgogiadau cyfryngol a gynnyrchwyd fel cadwen reidiol y rhagflaenorion a'r canlynyddion trwy ba rai y cwblhawyd y weithred olaf, yn eiddof fi hefyd.

Yr wyf yn defnyddio galluoedd ac offerynau cymhwysder a nerth pa rai a ddysgais trwy brofiad, ond nad oes genyf un llaw yn eu gwneuthuriad. Maent wedi eu darparu ar fy nghyfer, ac nid wyf fi yn gwneud dim ond eu defnyddio. Ond pan mae Duw yn gweithio gyda'r pethau hyn, mae efe yn defnyddio yr hyn a grëwyd gan ei ddoethineb a'i allu ei hun; a chan hyny, rhaid i bob effaith a gynnyrchir trwyddynt, yn ol ei fwriad ef a thrwy ei ewyllysiad, megys o'r hyn lleiaf y gallu cyntaf yn y gyfres, gael ei briodoli iddo,—ei alw ei waith ef. Efe sydd

yn peri i'r haul godi a machludo. "Efe sydd yn peri i'r gwellt dyfu i'r anifeiliaid, a llysiau i wasanaeth dyn." "Y mae yn dyfrhau y mynyddoedd o'i ystafelloedd." Nid barddoniaeth yn unig ydyw hyn. Y mae yn wirionedd.

Yn awr y mae y gyfundrefn dan sylw yn myned un cam yn mhellach; y mae yn gwneuthur ewyllysiadau dynol yn gymaint o wrthddrychau y tragwyddol fwriad, ac mor wirioneddol yn effeithiau y dwyfol ewyllysiad, ag ydyw codiad yr haul, fflachiad y fellten, terfysg y dyfroedd, neu weithrediad y goleuni yr hwn sydd yn taenu ei hunan fel dilledyn dros y greadigaeth. Mae pob ewyllysiad o eiddo meddwl crëedig yn weithred mor wirioneddol o eiddo Duw, ag ydyw unrhyw effaith mewn natur. Gwelsom fel y mae pob ewyllysiad yn cael ei gysylltu wrth ei gymhelliad; pa fodd mae y cymhelliad yn gorwedd mewn rhag-gyfansoddiad; pa fodd mae cyfres y rhagflaenorion a'r canlynyddion yn rhedeg yn ol ac o angenrheidrwydd yn cysylltu ei hun wrth y ddoethineb anfeidrol. Gweithred Duw ei hun ydyw ei ewyllysiad; a'i weithred ef ei hun ydyw yr effaith uniongyrchol a gynnyrchir gan ei ewyllysiad. Bydded yr effaith yna yn greadigaeth dyn: mae y dyn yn ei holl alluoedd a'i gyfaddasiadau yn waith Duw; mae y gwrthddrychau o'i amgylch yn waith Duw; mae cyd-berthynas y gwrthddrychau gyda y teimladrwydd yn waith Duw; a'r ewyllysiad sydd yn cymeryd lle yn rheidiol fel effaith y cyfryw gyd-berthynas yn waith Duw. Mae ewyllysiad y dyn mor gaeth briodol i Dduw ag ydyw y ddyrnod a roddwyf fi â bwyall yn briodol i minnau. Yr hyn sydd wir am y dyn cyntaf, a raid fod yn gyfartal wir am ddyn yn mhen mil o genedlaethau, o herwydd mae yr holl ddolenau cyfryngol wedi eu hordeinio gan Dduw o dan reidrwydd anocheladwy. Gan hyny, Duw mewn gwirionedd ydyw yr unig weithredydd—yr unig achos effeithiol. Mae pob bôd a pheth, pob ysgogiad ac ewyllysiad, yn cael eu darostwng yn hollol i ewyllysiadau dwyfol. Duw ydyw awdwr pob bôd a pheth, ysgogiad ac ewyllysiad, ac yn gymaint o awdwr unrhyw un o'r rhai hyn ag o unrhyw beth arall, ac yn awdwr yr oll yn yr un ffordd ac yn yr un ystyr. Doder ewyllys hunan-benderfynol o'r neilldu, ac nid oes sefyllfan rhwng ewyllysiad ddynol a'r dwyfol ewyllysiad. Ewyllysiad ddwyfol ydyw y ddynol, yn cael ei hamlygu mewn cadwen faith, ond cysylltiol a rheidiol o ragflaenorion a chanlynyddion. Ni allaf fi weled un ddiangfa rhag hyn, fel canlyniad rheidiol a chyfreithlawn penderfyniad rheidiol yr ewyllys. A beth yw y fath ganlyniad ond Holldduwiaeth? Duw ydyw y dealltwriaeth cyffredinol a holl-dreiddiol—a'r unig allu. Mae pob symudiad o eiddo natur yn rheidiol; pob ysgogiad o eiddo meddwl yn rheidiol; oblegid eu bod yn cael eu hachosi a'u penderfynu yn rheidiol gan yr ewyllysiad dwyfol. Nid oes yr un bywyd ond yr eiddo ef, yr un meddwl ond yr eiddo ef, na'r un achosydd ond yr eiddo ef. Efe ydyw enaid y byd.

Ni osododd Spinosa erioed ei hun allan fel Atheist. ac yn ol y dysgrifiad canlynol o hono a ymddengys yn fwy tebyg i un yn dal Holldduwiaeth. "Daliai ef mai Duw ydyw *achos* pob peth: ond ei fod yn gweithredu, nid oddiar ddewisiad, ond trwy reidrwydd; ac mewn canlyniad, mai efe ydyw awdwr anwirfoddol pob da a drwg, rhinwedd a bai, a arddangosir mewn bywyd dynol." (Dugald Stewart, cyf. vi., tudal. 276, nodiad.)

Sylwa Cousin, hefyd, fod Spinosa yn haeddu y cyhuddiad o Holldduwiaeth yn hytrach nag Atheistiaeth. Yr ydoedd ei Holldduwiaeth wedi ei thynu yn deg oddiwrth yr athrawiaeth o benderfyniad rheidiol yr ewyllys, yr hon a bleidid ganddo.

XVIII. Modd bynag, ystyrir Spinosa yn gyffredin yn Atheist. "Ni ammheuir," medd Stewart, "gan y rhai sydd yn amgyffred rhediad ei ymresymiadau, nad ydyw Atheistiaeth a Spinosaeth yr un a'r unrhyw o ran tuedd ymarferol."

Y canlynol ydyw golygiad Cousin am ei gyfundrefn. Gwahaniaetha yn ymddangosiadol oddiwrth y flaenorol mewn rhai ystyriaethau, ond tuedda mewn gwirionedd i'r un casgliadau.

"Yn hytrach na chyhuddo Spinosa o Atheistiaeth, dylid edliw cyfeiliornad iddo sydd yn gorwedd mewn cyfeiriad arall. Mae Spinosa yn cychwyn oddiwrth fôd perffaith ac anfeidrol cyfundrefn Descartes, ac yn arbrofi yn rhwydd mai y cyfryw fôd yn unig sydd yn fôd ynddo ei hun; nad ydyw bôd meidrol, anmherffaith, a pherthynasol, ond yn cyfranogi o fodaeth, heb ei feddu, ynddo ei hun: fod bôd ynddo ei hun yn un angenrheidiol: nad oes ond un sylwedd: ac nad oes gan bob peth arall ddim ond bodolaeth ymddangosiadol: fod galw sylweddau meidrol yn ymddangosiadau, yn haeru ac yn wadu, ar yr un pryd; yn gymaint ag nad oes ond un sylwedd sydd yn meddu bodaeth ynddo ei hun, ac mai cyfranogi o fodolaeth heb ei feddu ynddo ei hun y mae y bôd meidrol, yna mae sylwedd meidrol yn cynnwys dau syniad gwrthwynebol. Fel hyn, yn athroniaeth Spinosa, nid yw dyn a natur ond ymddangosiadau pur; priodoleddau yn unig i'r un sylwedd hollol hwnw, ond priodoleddau sydd yn gyd-dragwyddol a'u sylwedd: oblegid megys nas gall ymddangosiad fodoli ar wahan i sylwedd, yr anmherffaith heb y perffaith, y meidrol heb yr anfeidrol, ac fel y mae dyn a natur yn tybio Duw; felly hefyd, ni all y sylwedd fodoli heb ymddangosiad, y perffaith heb yr anmherffaith, yr anfeidrol heb y meidrol, ac y tybia y meddylddrych o Dduw fodolaeth dyn a natur. Y mae cyfeiliornad y gyfundrefn hon yn gorwedd yn yr amlygrwydd gormodol a ddyry i berthynas ymddangosiad i fodaeth, a phriodoledd i sylwedd, rhagor perthynas effaith i achos. Pan mae dyn wedi cael ei osod allan, nid fel achos, gwirfoddol a rhydd, ond fel dymuniad rheidiol a dilywodraeth, ac fel meddwl anmherffaith a meidrol; ni all Duw, neu

gynllun goruchaf dynoliaeth, fod yn ddim ond sylwedd, ac nid yn achos —bôd perffaith, anfeidrol, a rheidiol—sylwedd anghyfnewidiol y cydfyd, ac nid ei hachos cynnyrchiol a chreadigol. Mewn Cartesiaeth, mae y syniad o sylwedd yn cymeryd lle mwy amlwg na'r eiddo achos; a'r amlygrwydd hwn i'r syniad o sylwedd, wedi ei wthio yn mhellach fyth, sydd yn cyfansoddi Spinosaeth." (Hanes Athroniaeth, cyf. I., tudal. 466.)

Yr amlygrwydd gormodol hwn i'r syniad o sylwedd a phriodoledd, rhagor yr eiddo achos ac effaith, yr hyn a ddynoda Cousin fel drwg mawr cyfundrefn Spinosa, ydyw drwg pob cyfundrefn sydd yn cynnwys yr egwyddor o benderfyniad rheidiol yr ewyllys. Y canlyniad cyntaf ydyw Holldduwiaeth; a'r ail yw Atheistiaeth. Ymdrechaf egluro. Pan y gwadir hunan-benderfyniad i'r ewyllys, darostyngir hi i ddymuniad yn unig, a'i holl weithrediadau yn rheidiol oddiwrth ei chyd-berthynas rag-gyfansoddedig gyda gwrthddrychau, yna mae mewn gwirionedd yn peidio bod yn achos. Mae yn dyfod yn offeryn gallu rhagflaenol, nid yw yn ddim gallu ynddo ei hun, creadigol neu gynnyrchiol. A'r rhesymiad a ddefnyddir gyda golwg ar ewyllys ddynol, sydd gymhwysiadwy hefyd yn ei holl rym at yr ewyllys ddwyfol, fel y dangoswyd eisoes yn helaeth. Gan hyny, mae yr ewyllys ddwyfol yn peidio bod yn achos, ac yn dyfod yn offeryn gallu rhagflaenol yn unig. Y ddoethineb anfeidrol ac angenrheidiol ydyw y cyfryw allu rhagflaenol; ond mae doethineb anfeidrol ac angenrheidiol yn dragwyddol ac anghyfnewidiol; yr hyn ydyw yn awr, ydoedd erioed; pa dueddion neu egnïon bynag a fedd yn awr, yr oeddynt ganddi erioed; a chan hyny, pa ewyllysiadau bynag a gynnyrcha yn rheidiol yn awr, a gynnyrchid yn rheidiol ganddi bob amser. Os edrychwn ar ewyllysiad, mewn un cyfeiriad, fel rhagflaenydd uniongyrchol ac angenrheidiol creadigaeth; ac mewn cyfeiriad arall, yn ganlynydd angenrheidiol ac uniongyrchol doethineb anfeidrol, dragwyddol, ac angenrheidiol; yna rhaid fod y cyfryw ewyllysiad yn bodoli erioed, ac mewn canlyniad, fod creadigaeth, effaith angenrheidiol yr ewyllys, yn bodoli erioed. Fel hyn, anfeidrol ddoethineb ydyw y sylwedd, oblegid dyma fodolaeth ynddi ei hun, heb yr un rhagflaenydd iddi yn amgyffredadwy; ac nid ydyw y greadigaeth, cynnwysedig o ddyn a natur, (anmherffaith a meidrol, sydd yn unig yn cyfranogi bodolaeth, ac nid yn meddu bodolaeth ynddynt eu hunain), yn sylweddau, ond ymddangosiadau. Ond beth yw perthynas yr ymddangosiadau gyda'r sylwedd? Nid yr eiddo effaith gydag achos;—mae y berthynas hon yn llithro o'r golwg yn hollol, y mynyd y paid yr ewyllys a bod yn achos. Perthynas ymddangosiadau i fodaeth yn unig ydyw, yn cael eu hystyried fel amlygiadau angenrheidiol ac anwahanol bodaeth; perthynas priodoleddau i sylwedd, yn cael eu

hystyried fel priodoleddau angenrheidiol ac anwahanol sylwedd. Ni allwn feddwl am sylwedd heb briodoleddau neu ymddangosiadau, neu am briodoleddau neu ymddangosiadau heb sylwedd, maent hwy gan hyny yn gyd-dragwyddol yn y berthynas hon. Yna pwy yw Duw? Sylwedd a'i briodoleddau; bodaeth a'i hymddangosiadau. Mewn geiriau eraill, y cydfyd yw Duw. Dyma yw Spinosaeth; dyma yw Holldduwiaeth; ac y mae yn ganlyniad cyfreithlawn cyntaf y dyb o ewyllys gaeth a rheidiol.

Yr ail ganlyniad ydyw Atheistiaeth. Yn y gwadiad o'r ewyllys fel achos *per se*,—wrth ddarostwng ei holl ewyllysiadau i ymddangosiadau angenrheidiol y sylwedd tragwyddol,—yr ydym yn dinystrio personoliaeth: nid oes genym ddim ond y cydfyd yn aros. Yn awr, gallwn alw y cydfyd yn Dduw; ond gyda yr un priodoldeb y galwn Dduw yn gydfyd. Y difodiad yma ar bersonoliaeth,—suddo Duw i sylwedd rheidiol a'i briodoleddau fel hyn,—ydyw y ewbl a olygwn wrth Atheistiaeth. Mae y meddwl o hyd yr un, pa un bynag ai tynged, Holldduwiaeth, ai Atheistiaeth yr enwn ef.

Mae y sylw canlynol o eiddo Dugald Stewart, yn dangos ei fod ef wedi d'od i'r un penderfyniad a finnau: "Beth bynag allasai fod athrawiaethau rhai o'r hen Atheistiaid yn nghylch rhydd weithrediant dyn, ni wadir nad ydyw cyfundrefnau Atheistiaeth a rheidrwydd bob amser hyd yma yn gysylltiol a'u gilydd yn hanes athroniaeth ddiweddar. Nid am fy mod mewn un modd am gael fy neall yn dweyd y rhaid i bob rheidiolwr *ipso facto* fod yn Atheist, neu fy mod yn tybio fod ymlyniad dyn wrth y sect flaenaf yn brawf fod ganddo y gogwyddiad lleiaf yn ffafr yr olaf; ond yn unig fod pob Atheist diweddar y clywais am dano yn rheidiolwr. Ni allaf ymattal rhag chwanegu, mai y rheidiolwyr mwyaf cyson a ymddangosasant etto, ydyw y rhai sydd wedi canlyn eu hegwyddorion allan nes terfynu mewn Spinosaeth,—athrawiaeth sydd yn gwahaniaethu mwy mewn geiriau nag mewn gwirionedd oddiwrth Atheistiaeth." (Cyf. vi., tudal. 470.)

Cudworth, yn ei waith a elwir "*The true Intellectual System of the Universe*," a ddengys yn eglur y cysylltiad sydd rhwng tyngedfen ag Atheistiaeth. Ymddengys y gwaith hwn wedi tyfu allan o ymgymeriad arall o'r eiddo, oedd yn golygu yn arbenigol y pwnc o ryddid a rheidrwydd, a'i berthynas gyda moesoldeb a chrefydd. Mae y rhaneb yn y rhagdraeth, yn mha un yr hysbysa ni o'i gynllun gwreiddiol, yn ddatganiad llawn iawn o'i syniad. "Yn mlaenaf, yr wyf yn cydnabod," meddai, "pan sicrheais y wasg, nad oeddwn yn bwriadu ond yn unig gyhoeddi traethawd yn nghylch rhyddid a rheidrwydd, neu i siarad yn fwy eglur, yn erbyn rheidrwydd tyngedfenol gweithredoedd a dygwyddiadau; pa rai, ar ba dir neu egwyddor bynag y dalir hwynt, a wasanaethant ddyben Atheistiaeth, a duriant dan sylfeini Cristonog-

aeth, a phob crefydd, gan eu bod yn cymeryd ymaith bob euogrwydd a bai, cosb a gwobr, ac yn gwneuthur dydd barn yn ynfyd-beth." Y syniad hwn am duedd yr athrawiaeth o ewyllys reidiol ydyw blaguryn ei waith. Darfu y cysylltiad a sefydlwyd yn ei feddwl rhwng yr athrawiaeth hon ac Atheistiaeth, ei arwain yn naturiol at ei esboniad a'i ddadymchweliad meistrolgar a llafurfawr o'r olaf.

Gellid cyfeirio at ddadleuon amryw Atheistiaid, er egluro y cysylltiad sydd rhwng rheidrwydd ac Atheistiaeth. Ond ni chaf fi gyfeirio yma ond at un person felly, yr hwn oedd yn hynod ar gyfrif ei athrylith farddonol a'i graffder athronyddol. Yr ydwyf yn golygu y diweddar *Percy Bysshe Shelley.* Proffesai ef Atheistiaeth yn agored a digywilydd. Yn ei "*Queen Mab,*" ceir y llinell ganlynol: "Nid oes yr un Duw." Mewn nodiad ar y llinell hon sylwa: "Dylid deall y negedydd hwn yn cyfeirio yn unig at Dduw creadigol. Mae y dyb o ysbryd holldreiddiol, cyd-dragwyddol â'r cyd-fyd, yn aros yn ddisigl." Y dyb olaf hon ydyw Holldduwiaeth. Mae Holldduwiaeth mewn gwirionedd yn negedydd Duw creadigol,—yn hunaniaethiad, neu o'r hyn lleiaf yn gydfodoliad angenrheidiol a thragwyddol Duw a'r cydfyd. Mae Shelley wedi datgan hyn yn eglur mewn rhaneb arall:

> "Spirit of nature! all-sufficing power,
> Necessity! thou mother of the world!"

Mewn nodiad ar y llinellau hyn, mae Shelley wedi rhesymu yr athrawiaeth o benderfyniad rheidiol yr ewyllys trwy gymhelliad, gyda chraffder a gallu nemawr islaw i'r eiddo Collins neu Edwards. Mae yn wir ei fod yn rhoddi cymhwysiad gwahanol i'r athrawiaeth, ond un perffaith gyfreithlawn serch hyny. Mae Collins ac Edwards, a'r holl dduwinyddion rheidiol, yn llafurio o dan anhawsderau anorfod, wrth geisio sylfaenu crefydd ar yr athrawiaeth hon, ac yn gallu trefnu diangfa iddynt eu hunain yn unig o dan darth o gyfrwysdra. Ond y mae y bardd Shelley, wrth feiddio bod yn berffaith gyson, yn berffaith eglur. Mae ef yn ymwthio yn mlaen yn ddiofn oddiwrth reidrwydd at Holldduwiaeth, ac oddiyno at Atheistiaeth a diddymiad pob gwahaniaethau moesol. "Dysgir ni," sylwa, "gan athrawiaeth rheidrwydd, nad oes na da na drwg yn y cydfyd, mewn un modd, ond fel y mae y dygwyddiadau (i ba rai yr ydym yn cymhwyso y cyfryw gyfenwau) yn dwyn perthynas a'n modd neillduol ni ein hunain o fodoli. Yn llai fyth na chyda y dyb o fodolaeth Duw, y mae athrawiaeth rheidrwydd yn gyson gyda y grediniaeth mewn cyflwr dyfodol o gosb."

Yr ydwyf yn y fan hyn yn terfynu fy nghasgliadau oddiwrth y gyfundrefn hon. Os ydyw y casgliadau hyn yn gyfreithlawn, fel yr wyf fi yn credu yn ddiammheuol eu bod, yna, i'r dosbarth lluosocaf o ddarllenwyr, y mae athrawiaeth rheidrwydd wedi ei dymchwelyd: y

mae wedi ei dymchwelyd gan ei chanlyniadau hi ei hun, a medda fy rhesymiadau innau y grym o *reductio ad absurdum.* Os ydyw ewyllys hunan-benderfynol yn afresymol, etto nis gall fod mor afresymol a'r athrawiaethau wrthwynebol, os ydyw yr olaf yn cynnwys y canlyniadau a nodwyd uchod. O'r hyn lleiaf, y mae doethineb ymarferol yn hawlio yr athrawiaeth hòno sydd yn gadael Duw i'r byd, a natur foesol a chyfrifol i ddyn.

Cyfyd gofyniad yn bur naturiol yn y fan yma: Pa fodd y gallwn gyfrif am y ffaith fod cynnifer o ddynion doethion a da wedi bod yn dadlu dros ewyllys reidiol, fel pe buasent yn dadlu dros seiliau pwysicaf moesoldeb a chrefydd? Er enghraifft, cymerer Edwards ei hun, fel dyn o feddwl cryf ac o dduwioldeb ddiammheuol. Yn yr oll o'i draethawd, dadleua gydag ysbryd a dullwedd dyn yn gwrthwynebu cyfeiliornad mawr fel yn gysylltiedig gydag ewyllys hunan-benderfynol. Beth all fod yn gryfach na'r iaith ganlynol: "Yr wyf yn golygu fod y syniad am ryddid, sydd yn gynnwysedig mewn *ewyllys rydd a hunan-benderfynol,* fel yn angenrheidiol i foesyddiaeth tueddiadau a gweithredoedd dyn, o'r bron yn niweidiol annirnadwy; ac fod y gwirionedd gwrthwynebol yn un o wirioneddau pwysicaf athroniaeth foesol a gafodd ei drafod erioed, ac fod gwybod am dano o'r pwys mwyaf." Mae y gofyniad yn hollol deg, ac ymdrechaf finnau i'w ateb.

1. Mae anmhosiblrwydd ewyllys hunan-benderfynol ar y dybiaeth ei fod yn feddylddrych gwrthebol ynddo ei hun, a'i fod yn arwain i'r canlyniad o ddal bodolaeth effeithiau heb achosion, yn cymeryd gafael cryf yn meddyliau y cyfryw bersonau. Yr wyf yn credu fod hyn, ac yn gobeithio gallu profi yn nghorff y traethawd hwn, fod hyn yn gyfeiliornad athronyddol;—ond nid ydyw yn beth newydd i ddynion mawr a da syrthio i gyfeiliornadau athronyddol.

Megys, gan hyny, y tybiant fod rhyddid cynnwysedig mewn ewyllys hunan-benderfynol, neu *ryddid annhueddgarwch,* fel y galwyd ef, wedi cael ei ffrwydro, ymdrechant ddodi yn ei le *ryddid gwirfoddolrwydd,* neu ryddid sydd yn gorwedd yn nghysylltiad diattalfa ewyllysiad a'r canlynyddion.

Mae Hobbes wedi darnodi ac yn egluro y rhyddid hwn mewn dull cliriach na neb o'i gefnogwyr: "Golygwyf," meddai, "mai y darnodiad cywir o ryddid ydyw hyn,—absenoldeb pob attalfa i weithrediad, nad ydynt yn cael eu cynnwys yn natur ac ansawdd gynwynol y gweithredydd. Er enghraifft, dywedir fod y dwfr yn *rhydd,* neu yn meddu rhyddid i ddisgyn ar *hyd* gwely yr afon, pan nad oes yr un attalfa ar ei ffordd yn y cyfeiriad hyny; nid ar *draws,* oblegid y mae y ceulanau yn attalfeydd: ac er na ddichon dwfr esgyn i fyny, etto nid yw dynion byth yn dweyd ei fod mewn eisieu *rhyddid* i esgyn, ond y *gynneddf* neu y *gallu,* oblegid yn natur y dwfr, ac ynddo yn gynwynol, y mae

yr attalfa. Felly hefyd y dywedwn, fod yr hwn sydd yn rhwym, mewn angen *rhyddid*, o herwydd nad yw yr attalfa ynddo ef, ond yn ei ddwylaw; tra nad ydym yn dywedyd felly am yr hwn sydd afiach neu gloff, oblegid fod yr attalfa ynddo ef ei hun,"—hyny ydyw, mae ef yn ddiffygiol o'r gallu neu y gynneddf i ymsymud:—mae hyn yn cyfansoddi *anallu* naturiol. Ewyllysiad yn gweithredu ar offerynau anianyddol, neu ar gynneddfau meddyliol, ydyw rhyddid, a hyny yn ol deddf sefydledig rhagflaenyddion, ac heb gyfarfod ag unrhyw attalfa, neu allu anorchfygol i'r gwrthwyneb. Y rhagflaenydd sefydledig ei hun ydyw gallu naturiol. Gan hyny, dichon gallu naturiol fod heb ryddid; ond ni ellir dal fod rhyddid heb allu naturiol. Mae y naill a'r llall yn angenrheidiol i gyfansoddi cyfrifolder. Ewyllysiad adnabyddus fel rhagflaenydd effeithiau penodol ydyw gallu naturiol. Y rhagflaenydd hwn yn bod heb attalfa neu rwystr ydyw rhyddid. Gan mai dyma yr unig ryddid posibl sydd yn aros (fel y tybiant), a chan na fynant gael eu hystyried yn dyngedfenwyr, ymhelaethant lawer ar hyn: nid yn unig fel yr holl ryddid sydd yn bod, ond fel y syniad cyflawn a boddhaol am ryddid.

Wrth seilio cyfrifoldeb a chanmoliaeth a beiusrwydd ar y rhyddid hwn, gwneir appeliad at syniadau, teimladau, ac ymarferion cyffredin dynion. Mae pob dyn yn golygu ei hunan yn rhydd pan y gallo wneud fel y myno,—pan, os myn gerdded, y cerddo,—os myn eistedd i lawr, y gallo eistedd i lawr, &c. Pe byddai i ddyn, mewn llys gwladol, bleidio fel esgusawd ei fod wedi cyflawni y trosedd am ei fod wedi mynu neu ewyllysio ei wneuthur, atebai y barnwr—"dyma yw eich euogrwydd, sef eich bod wedi mynu neu ewyllysio ei gyflawni: ie, y mynu neu yr ewyllysio ei wneuthur ydoedd y gwneuthuriad o hono." Yn awr mae hyn oll yn gywir. Gyda pharodrwydd yr wyf yn addef ein bod yn rhydd pan y byddom yn gwneud fel y mynom, a'n bod yn euog pan, wrth wneud fel y mynom, y byddom yn cyflawni trosedd.

Wel, felly, gofynir i ni, onid ydyw y rhyddid hwn yn ddigonol i gyfansoddi cyfrifoldeb? Ac fel hyn tybir fod yr holl anhawsder wedi ei gyfarfod. Byddai y rhesymiad yn un pur deg, cyn belled ag y mae yn myned, pe defnyddid ef yn erbyn tyngedfenwyr, ond nid yw yn werth dim pan ddefnyddir ef yn erbyn y rhai sydd yn dal gallu hunanbenderfynol o eiddo yr ewyllys. Mae y dosbarth olaf hyn yn derbyn y syniadau, teimladau, ac ymarferion cyffredin dynion, a nodwyd, fel ffeithiau yn dynodi rhyddid, o herwydd nid ydynt hwy yn codi yr un ddadl yn erbyn rhyddid dynol. Y gwir bwnc mewn dadl yw, sut yr ydym i gyfrif am y ffeithiau hyn? Mae cefnogwyr y gallu hunanbenderfynol yn cyfrif am danynt trwy eu cyfeirio at ewyllys hunanbenderfynol. Yr ydym yn dywedyd fod dyn yn rhydd pan wnelo fel y myno neu yn ol ei ewyllysiadau, ac fod ganddo ymdeimlad o ryddid

yn ei ewyllysiadau, o herwydd ei fod yn penderfynu ei ewyllysiadau ei hun; ac fod dyn yn euog am drosedd, os cyflawnwyd hi trwy ei ewyllysiad, oblegid mai efe ei hun a benderfynodd y cyfryw ewyllysiad, a'i fod ar y pryd yn ymwybodol o allu i benderfynu ewyllysiad gwahanol. Ac yr ydym yn dal hefyd fod dyn yn rhydd, nid yn unig pan wnelo yr hyn a fyno, neu mewn geiriau eraill, pan wnelo ewyllysiad heb unrhyw attalfa rhyngddo a'i wrthddrych,—mae yn rhydd, os gwna ewyllysiad heb gynnyrchu effeithiau trwyddo: ewyllysiad ei hun ydyw act rhyddid. Ond pa fodd y mae y rhai a wadant allu hunan-benderfynol yr ewyllys yn cyfrif am y ffeithiau hyn? Dywedant hwy fod yr ewyllysiad yn cael ei achosi gan gymhelliad rhagflaenol iddo, ond ar yr un pryd, yn gymaint ag fod y dyn yn teimlo ei hun yn rhydd ac yn cael ei gyfrif felly yn gyffredin, y rhaid ei fod yn rhydd; canys nid yw rhyddid yn cynnwys dim mwy na "gallu a chyfleusdra i wneud ac ymddwyn fel y myno, neu yn ol ei ddewisiad, heb gymeryd i fewn i ystyr y gair ddim o'r *achos* o'r cyfryw ddewisiad, neu ystyried oll pa fodd y daeth y person i'r fath ewyllysiad,"—hyny ydyw, mae y dyn yn rhydd, ac yn teimlo ei hun felly, pan fyddo yn gwneud fel y myno, o herwydd dyma y cwbl a olygir wrth ryddid.

Ond tybier i'r wrthddadl gael ei chodi, fod y darnodiad yma o ryddid yn honiadol, mympwyol, ac anfoddhaol; ac nad ydyw y teimlad neu yr ymwybodaeth o ryddid yn y weithred o ewyllysio, na syniadau ac ymarferion cyffredin dynion gyda golwg ar weithrediad gwirfoddol, yn cael cyfrif am danynt yn ddigonol,—ac yna fod pleidwyr ewyllysiad rheidiol yn d'od yn ol at y ddadl gyntaf, sef yr anmhosiblrwydd o unrhyw ddarnodiad arall,—a dal, yn gymaint ag fod y teimlad yma o ryddid yn bodoli, ac fod syniadau ac ymarferion dynion yn cyfateb iddo, y rhaid i ni gredu ein bod yn rhyddion pan fyddo ewyllysiad yn ddiattalfa yn ei gysylltiad gyda chanlynyddion, a'n bod ni yn feius neu yn deilwng, yn ol cymeriad dealledig ein hewyllysiadau,—er na all beidio bod yn wir fod yr ewyllysiadau eu hunain yn rheidiol. Ar un llaw, gorfodir hwy gan eu hathroniaeth i wadu ewyllys hunan-benderfynol. Ar y llaw arall, gorfodir hwy, gan eu synwyr moesol a'u hargyhoeddiadau crefyddol, i ddal i fyny wahaniaethau a chyfrifoldeb moesol. Mewn trefn i wneuthur hyn, rhaid i ryddid *bychan* gael ei ddiogelu; mewn canlyniad i ymgais gael ei wneud i gymmodi rhyddid a rheidrwydd, trwy gyfeirio y cyntaf yn hollol at gysylltiad yr ewyllysiad a'i ganlynyddion, a'r ail yn hollol at y cysylltiad rhwng yr ewyllysiad a'i ragflaenyddion neu y cymhellion. Anianyddol yw rhyddid; rheidrwydd sydd uchanianol. Perthyna y cyntaf i ddyn; mae yr ail uwchlaw cylch ei weithrediad ef, ac heb fod yn perthyn dim iddo. Yn y fath sefyllfa ddyrys, efallai na ellid dyfeisio gwell neu gyfrwysach cynlluu i ddadrys pethau; ond ei fod yn hollol afresymegol, ac nad ydyw yn ffurfio diangfa

oddiwrth reidrwydd hollol a chyffredinol, a brofwyd eisoes yn ehelaeth.

2. Mae yr athronwyr a'r duwinyddion am ba rai yr ydym yn siarad, yn golygu pan dybir fod ewyllysiadau yn cymeryd lle ar wahan i benderfyniad rheidiol y cymhellion, eu bod yn bodoli yn ddamweiniol ac heb achos. Ond byddai rhoddi i fyny ddibyniad rheidiol a chyffredinol ymddangosiadau ar achosion, yn gosod dygwyddiadau tuhwnt i'r llywodraeth ddwyfol: ïe, mwy,—dinystriai y ddadl fawr *a posteriori* dros fodolaeth Duw. Wrth gwrs, byddai yn ddinystr pob moesoldeb a chrefydd.

3. Mae yr athrawiaeth o ragwybodaeth Duw, yn neillduol, yn cael pwyso llawer arni fel yn anghydsafol gydag ewyllysiadau rhydd a damweiniol. Haerir fod rhagwybodaeth Duw yn gwneuthur pob dygwyddiad yn sicr a rheidiol. Gan hyny mae ewyllysiadau yn rheidiol; ac i gario y rhesymiad allan, dylid chwanegu hefyd fod y cysylltiad rhwng ewyllysiadau a'u canlynyddion yn gyfartal reidiol. Mae Duw yn rhagweled canlynydd ewyllysiad yn gystal a'r ewyllysiad ei hun. Modd bynag, mae y ddamcaniaeth yn ofalus i ddiogelu yr *enw* o ryddid, o herwydd ei bod yn dychrynu rhag yr enwad sydd yn perthyn iddi yn briodol.

4. Trwy benderfyniad rheidiol y diogelir penarglwyddiaeth Duw a chysondeb ei lywodraeth. Mae ei ewyllysiadau yn cael eu penderfynu gan ei anfeidrol ddoethineb. Rhaid i'r byd, gan hyny, gael ei lywodraethu mewn gwirionedd a chyfiawnder.

Fel hyn, mae yr athronwyr a'r duwinyddion hyn yn gosod yr athrawiaeth o ewyllys hunan-benderfynol gerbron eu meddyliau eu hunain fel peth afresymol ynddo ei hun, ac yn cynnwys, os caniateir ei bod yn gywir, y canlyniadau mwyaf erchyll a niweidiol, tra y mae yr athrawiaeth a bleidiant hwy yn cael ei golygu yn unig yn ei hagweddau mwyaf ffafriol, ac heb gael ei gweithio allan i'w chanlyniadau cyfreithlawn. Os cymhellir y canlyniadau hyn gan arall, ceisir eu hosgoi trwy grynhoi sylw at y ffaith o ewyllysiad a'r teimlad o ryddid sydd yn cydfyned ag ef: er enghraifft, os dirgymhellir tyngedfen fel un o ganlyniadau rheidrwydd, yr ateb parod a gynnygir bob amser ydyw—"Nid oes y fath reidrwydd yn cael ei ddal fel ag i ddinystrio y rhyddid sydd yn gynnwysedig mewn gwneuthur fel y mynir;" neu os dywedir fod dinystrio cyfrifoldeb yn ganlyniad arall y gyfundrefn, yr atebiad yw—"Mae dyn bob amser yn cael ei ddal yn ddeiliad cyfiawn clod neu fai pan fo yn gweithredu yn wirfoddol." Diammheu fod y fath ymresymiad yn cael ei wneud gyda theimlad mor gywir ag ydynt o ddifrifol. Mae y buddiannau sydd mewn perygl yn aruthrol o bwysig. A thybir yr ânt oll i dranc os nad ydyw cyfundrefn rheidrwydd yn gywir. Nid rhyfedd, gan hyny, eu bod, oddiar barch a chariad at foesoldeb a chrefydd, yn amcanu trwy bob rhesymiad dichonadwy i attegu yr athroniaeth a dybir sydd yn gorwedd wrth eu seiliau, ac yn

edrych heibio i ganlyniadau mor ddinystriol, gan berswadio eu hunain nad ydyw y fath ganlyniadau yn ddim ond twyll-ddadleuon chwareus anffyddiaeth.

Mae yn ffaith ryfeddol yn hanes athroniaeth, fod athroniaeth tyngedfen, holldduwiaeth, ac atheistiaeth, yn cael eu cymeryd fel gwir athroniaeth crefydd. Mae dynion da wedi camsynied yr athroniaeth, ac wedi llwyddo i'w dwyn i gymdeithasiad gyda gwirionedd a chyfiawnder. Ac mae dynion drwg ac athronwyr cyfeiliornus wedi ei chofleidio gyda deall glir o'i hegwyddorion, a darfu y naill a'r llall ymresymu allan yn deg, a chydnabod yn ddiofn ei chanlyniadau erchyll.

Pe tybier am eiliad mai y darnodiad a roddir gan y duwinyddion y cyfeiriwyd atynt uchod, ydyw yr unig ddarnodiad posibl o ryddid, rhaid mewn canlyniad y byddai y dull a dderbynir yn fwyaf cyffredin o bregethu gwirioneddau ac argymhell dyledswyddau crefydd yn anghyson a gwrthebol.

Y mae dosbarth o dduwinyddion i'w cael yn yr eglwys, pa rai, er na fwriadant hollol wadu rhyddid dynol, etto a wadant bob gallu ar du y dyn i gydffurfio gyda y cyfarwyddiadau dwyfol. Nid yw gwahaniaeth rhywogaethol rhwng anallu a'r diffyg o ryddid yn ddiffynadwy, ac yn sicr o unrhyw bwys, pan, megys yn yr amgylchiad yma, mae yr anallu y dadleuir drosto yn drwyadl a hollol.

Mae y duwinyddion hyn wedi gweled yn eglur, os ydyw ewyllysiad yn cael ei benderfynu yn rheidiol gan gymhelliad, ac os ydyw cymhelliad yn gorwedd yn nghyd-berthynas dymuniad a'r gwrthddrych, yna, mewn bôd hollol ddirywiedig, neu fôd o ddymuniadau gwreiddiol lygredig, ni all fod mewn person felly allu o gwbl i weithredoedd da: mae y weithred fel y mae yr ewyllysiad, a'r ewyllysiad fel y mae y dymuniad cryfaf neu y syniad o'r mwyaf dymunol.

Gan hyny mae y duwinyddion hyn yn priodoli dychweliad dyn yn hollol i ddwyfol ddylanwad. Ni ddichon y dyn newid ei galon ei hun, na defnyddio unrhyw foddion i'r cyfryw berwyl; oblegid y cynnwysai hyn ewyllysiad i'r hwn, yn ol y dybiaeth yma, nid oes ganddo allu.

Yn awr, tra y mae y dosbarth hwn yn gosod dynion allan fel yn analluog i garu ac ufuddhau gwirioneddau crefydd, maent ar yr un pryd yn ymgymeryd gyda mawr sel ag egluro y gwirioneddau hyn gerbron eu meddyliau, ac yn gwasgu arnynt y ddyledswydd o ufuddhau. Ond beth yw amcan y cyfryw bregethu? Efallai fod rhywun yn ateb, "Yr wyf yn gwybod na all dyn benderfynu ei hun i ufudd-dod, ond trwy bregethu iddo, yr wyf yn presenoli cymhellion iddo a allant ddylanwadu arno." Ond wrth wadu ei allu i wneud daioni, yr ydych yn gwadu y posiblrwydd i'w ysgogi gyda chymhellion wedi eu tynu oddiwrth wirionedd a rhwymedigaeth grefyddol. Yr ydych yn tybio nad ydyw ei galon mewn cyd-berthynas gyda gwirionedd a dyledswydd;

gan hyny, mwyaf oll y pregethwch wirionedd a dyledswydd, mwyaf angerddol oll ydyw y teimlad o'r annymunol a ddeffrowch ynddo. Megys pan bresenolwch wrthddrychau i feddwl dyn sydd mewn cyd-berthynas a'i deimladau, egluraf ac amlaf oll y'u presenolir genych, mwyaf oll y symudwch yn mlaen tuag at gynnyrchu ynddo y syniad o'r mwyaf dymunol neu ddewisiad; felly pan bresenolwch wrthddrychau iddo nad ydynt mewn cyd-berthynas a'i deimladau, egluraf ac amlaf oll y daliwch hwynt ger ei fron, mwyaf oll y symudwch yn mlaen er cynnyrchu y syniad o'r mwyaf annymunol, neu wrthodiad pendant.

Os honir, mewn atebiad i hyn, mai presenoliad gwirionedd sydd yn ffurfio yr achlysur neu y teler ar ba un y mae y dwyfol ddylanwad yn gweithredu er adenedigaeth y galon, yna yr wyf yn gofyn, paham yr ydych yn argymhell y dyn i edifarhau, a chredu, a charu Duw, ac i gyflawni dyledswyddau crefyddol, yn edliw iddo ei bechod, pan y gwyddoch ei fod yn hollol analluog i symud, i'r mesur lleiaf, tuag at yr un o'r cyfryw deimladau a gweithredoedd, ac yn hollol analluog i beidio a phechod, hyd nes y byddo y dwyfol ddylanwad mewn gweithrediad, yr hwn sydd yn dwyn ei galon i gyd-berthynas gyda chrefydd, ac i wneuthur yn bosibl iddo roddi allan ewyllysiadau duwioldeb a dyledswydd? Nis gellir golygu y fath beth mewn unrhyw oleu i fod amgenach na choeg-chwareuaeth ddifrifol, i edliw a chymhell a pherswadio, fel pe byddai yn ddyledswydd ar y dyn i wneuthur rhyw ymegnïad pan yr ydych yn argyhoeddedig ar y pryd fod y cyfryw ymegnïad yn anmhosibl iddo. Nis gall yn sier ffurfio unrhyw achlysur i ddwyfol gyfryngiaeth ar ei ran, oddieithr y byddai mewn tosturi at ynfydrwydd dynol. Os ydych yn dywedyd fod y fath gwrs yn tycio yn nychweliad dynion, etto yr ydym dan orfodaeth i gredu fod eich athroniaeth yn gyfeiliornus, ac fod eich llafur ymarferol yn tycio, o herwydd ei fod yn anghyson a hi, ac yn perthyn mewn gwirionedd i ryw gyfundrefn arall nad ydych chwi yn gwybod am dani, yr hon nad ydych yn ei deall ac yn ei gwadu.

Y mae anallu hollol i wneuthur daioni yn peri fod dyn yn ddeilydd goddefol y dylanwadau a ddefnyddir tuag at ei aileni, ac nad ellir ei ystyried yn actio dim yn ei effeithiad mwy nag y mae yn y cwrs-weithrediad o dreuliad ei ymborth, neu yn ngweithrediad meddyginiaethol y cyfferi ar ryw ran afiach o gyfansoddiad ei gorff. Os cymhellwch arno wneuthur ymegnïad tuag at ei adenedigaeth, yr ydych yn gwasgu arno i roddi allan ewyllysiadau pa rai, yn ol yr athroniaeth yma, nad ydynt mewn un modd yn bosibl iddo hyd nes y byddo ei adenedigaeth wedi cael ei effeithio, neu o leiaf wedi cael ei ddechreu.

Myfi a af un cam yn mhellach gyda y rhesymiad hwn:—ar y dybiaeth o hollol anallu, nid yn unig gwneir y dyn yn ddeilydd goddefol dylanwadau ei adenedigaeth, ond y mae yn analluog o adenedigaeth,

neu duedd tuag at adenedigaeth, oddiwrth unrhyw ddylanwadau sydd yn gorwedd yn unig mewn cymhellion, a gynnyrchwyd trwy drefnu gwrthddrychau gerbron y meddwl. Mae cymhelliad, yn ol y darnodiad a arddangoswyd yn yr adroddeb o gyfundrefn Edwards, yn gorwedd yn natur ac amgylchiadau y gwrthddrych fel y saif mewn cyd-berthynas gyda chyflwr y meddwl. Yn awr, mae cyflwr y meddwl, tra yn ddiailanedig, yn ol dysgrifiad y gyfundrefn hon ei hun, yn gyflwr hollol wrthwynebus i'r gwrthddrych o grefydd. Gan hyny, nid oes un trefniad dychymygadwy o wirionedd crefyddol, na'r un cynghor a pherswadiad crefyddol yn bod, a allai yn bosibl ddyfod i'r fath berthynas a'r cyfryw gyflwr meddwl fel ag i ffurfio y cymhellydd i ddewisiad neu ewyllysiad crefyddol. Mae yn berffaith eglur, cyn y gallai y fath berthynas gymeryd lle, fod yn rhaid i'r cyflwr meddwl ei hun gael ei newid. Ond megys y byddai raid i drefniad gwirionedd crefyddol a grym cynghorion crefyddol ffaelu cynnyrchu yr ewyllysiadau gofynol, ar gyfrif cyflwr y meddwl, felly hefyd ni all y cyflwr meddwl gael ei newid gan bresenoliad y cyfryw wirionedd a grym y cyfryw berswadiad. Mae y meddwl a'r gwrthddrych mewn gwrthwynebiad pendant i'w gilydd, ac y mae y gwrthdarawiad yn dyfod yn fwy llym bob tro y ceisir i'w dwyn y naill at y llall. Y mae yn canlyn, gan hyny, fod pregethu gwirionedd a dyledswydd i'r diailanedig, mor bell oddiwrth effeithio ei droedigaeth, fel nad yw ond yn unig yn gwasanaethu i alw allan yn fwy egnïol y penderfyniad rheidiol, i beidio ufuddhau. Nid yw hyd yn nod y goleuni sydd yn ei ddeall, fel y mae yn rhoddi syniad cliriach iddo am y gwrthddrychau annymunol, ond yn unig yn cynnyddu ei annhueddrwydd.

Ac ni allwn sefyll yn y canlyniad hwn gydag offerynoliaeth ddynol. Rhaid ei fod yn gyfartal wir, os ydyw y gyfryngiaeth ddwyfol yn gorwedd yn y presenoliad o wirionedd a'r perswadiadau i ddyledswydd, (ond yn unig fod y rhai hyn yn cael eu rhoddi gyda goleuni a grym dengwaith mwy), y bydd raid iddi hithau ffaelu effeithio adenedigaeth, neu gynnyrchu unrhyw duedd at adenedigaeth. Nid yw y galon mewn dim cyd-berthynas â'r rhai hyn,—ei syniad o'r annymunol,—a chan hyny ni wna ond peri i egni ei gwrthodiad fod yn ddengwaith mwy angerddol a phenderfynol.

Os bydd i rywun nodi fod gobaith ac ofn yn deimladau, y rhai y gellir effeithio arnynt hyd yn nod yn y dyn diailanedig, mae sefyllfa pethau yn gyfartal anhawdd. Nid oes ynddo obaith y gellid effeithio arno, sydd yn cynnwys dymuniad am egwyddorion a mwyniannau crefyddol; oblegid ni all hyn fod yn perthyn i natur lygredig; ac nad oes ynddo ofn i'w gyffroi sydd yn cynnwys parch i'r dwyfol burdeb, a chasineb at bechod. Ni allai yr ofn gyfeirio ond yn unig at berygl a dyoddefaint; na'r gobaith ond at ymwared a diogelwch, yn annibynol

ar ansoddau moesol. Gallai cyffroad y nwydau hyn ddeffroi sylw, a chymhell i ufudd-dod allanol, a ffurfio buchedd pur weddus, ond ni all effeithio dim pureiddiad calon.

Mae yna ddosbarth arall o dduwinyddion, i ba un y mae Edwards yn perthyn, sydd yn ymdrechu osgoi yr anhawsderau sydd yn nglŷn âg anallu hollol, trwy wneuthur gwahaniaeth rhwng gallu moesol a gallu naturiol:—mae dyn, meddant, yn foesol analluog i wneud daioni, ond yn naturiol alluog, ac felly gellir ei wneuthur ar dir cyfiawn yn ddeilydd gorchymyn, appeliad, bygythiad, a chynghor. Nis gallaf feddwl nad ydyw gwegi y gwahaniaethiad yma eisoes wedi ei wneud yn amlwg. Modd bynag, gallai y byddai yn burion, yn gymaint ag fod y fath bwys yn cael ei roddi arno, i roddi ystyriaeth fèr iddo yn y cysylltiad neillduol hwn.

Fel y gwelsom, anallu moesol ydyw yr anmhosiblrwydd o ewyllysiad penodol, o herwydd nad oes yna ddim cymhellion neu achosion i'w gynnyrchu. Yn syml, nid yw ond anmhosiblrwydd effaith yn niffyg achos: pan yr ydym yn son am achos ac effaith moesol, yn ol Edwards, nid ydym yn son am ddim gwahanol i achos ac effaith naturiol, oddieithr yn ansawdd y termau—perthynas y termau sydd yr un. Gan hyny, mae anmhosiblrwydd ewyllysiad penodol, pan y mae y cymhelliad priodol yn eisieu, yn gyfartal i'r anmhosiblrwydd i'r dwfr rewi dan wres haul canol-ddydd haf.*

Mae anallu naturiol, fel y'i darnodir gan y gyfundrefn hon, yn gorwedd yn y cysylltiad rhwng yr ewyllysiad (a'i ystyried fel rhagflaenydd) a'r effaith a ofynir. Fel hyn, yr wyf yn naturiol analluog i gerdded, pan, er i mi roddi allan yr ewyllysiad, y byddo fy aelodau, o herwydd gwendid neu afiechyd, yn gwrthod ufuddhau. Unrhyw ddiffyg yn y galluoedd neu yr offerynau dibynol am weithrediad ar ewyllysiad, neu unrhyw attalfa na ddichon ewyllysiad ei orchfygu, a gyfansoddant anallu naturiol. † Yn ol y gyfundrefn hon, nid wyf yn

---

* "Y mae yn hynod fod pleidwyr rheidrwydd wedi mabwysiadu gwahaniaethiad a ddefnyddir i ddybenion eraill, gan ei ddirdynu i'w gwasanaeth; yr wyf yn golygu rheidrwydd naturiol a moesol. Dywedant fod rheidrwydd naturiol neu anianyddol yn difodi rhyddid; ond nad ydyw rheidrwydd moesol yn gwneud hyny; ar yr un pryd maent yn egluro rheidrwydd moesol fel ag i'w wneuthur mewn gwirionedd yn anianyddol neu naturiol. Hyny ydyw rheidrwydd anianyddol yr hwn sydd effaith anorchfygol deddf natur, ac nid ydyw yn llai naturiol, neu yn llai anorfod, os ydyw oddiwrth ddeddfau ysbryd nag a fuasai pe oddiwrth ddeddfau defnydd."—(*Witherspoon's Lectures on Divinity, Lect.* xiii.)

† Mae anallu naturiol, a'r diffyg o ryddid, yn cael eu gwneud yr un yn y driniaeth hon; oblegid y mae y diffyg o gynneddf naturiol i gyflawni gweithred, a bodolaeth gallu attaliol neu wrthwynebol, sydd yn cymeryd oddiwrth y gynneddf a dybir sydd yn bod, *ryddid* gweithrediad, yn meddu yr un berthynas gyda chyfrifoldeb.

cael fy nal yn gyfrifol am unrhyw beth yr hwn trwy anallu naturiol, ni ellir ei gyflawni, er i'r ewyllysiad gael ei wneuthur. Ond yn awr tybier nad oes yna yr un diffyg yn y galluoedd neu yr offerynau dibynol am weithrediad ar ewyllysiad, na'r un attalfa na ddichon ewyllysiad ei orchfygu, fel nad oes ond yn unig ond eisieu ewyllysiad mewn trefn i gael yr effaith, ac yna y mae y gallu naturiol yn gyflawn:—yr wyf yn ewyllysio cerdded, ac yr wyf yn cerdded.

Yn awr dalir fod dyn yn hollol gyfrifol am wneuthuriad unrhyw beth, ac y gellir yn deg wasgu arno i'w gyflawni pan mai ewyllysiad ydyw yr oll sydd ofynol tuag at ei wneuthur—er y gallai fod yna anallu moesol i'r ewyllysiad ei hun.

Ymddengys i mi nad all dim fod yn fwy afresymol na'r gwahaniaethiad hwn. Os ydyw rhyddid yn hanfodol i gyfrifoldeb, ni all fod rhyddid, fel y dangosasom yn eglur, yn gorwedd yn y cysylltiad rhwng ewyllysiad a'i effeithiau, mwy nag yn y cysylltiad rhwng ewyllysiad a'i gymhellion. Mae y naill yn gymhwys mor angenrheidiol a'r llall. Os caniateir ei fod yn afresymol yn y dosbarth cyntaf o dduwinyddion i wasgu ar ddynion wneud daioni pryd y golygir hwy yn hollol analluog i wneuthur daioni, mae yn gyfartal felly pan y golygir hwy heb ddim ond gallu naturiol yn unig i wneud daioni,—o herwydd nid yw y gallu naturiol hwn o unrhyw les heb allu moesol i gyfateb iddo. Os cymer yr ewyllysiad le, nid oes yna yn ddiau ddim i attal y gweithrediad; ïe, "yr ewyllysiad ydyw y gwneuthuriad o hono;" ond ni all yr ewyllysiad fel effaith gymeryd lle heb achos; ac mae cydnabod anallu moesol, yn gydnabyddiaeth nad oes yna yr un achos yn bod tuag at gynnyrchu yr ewyllysiad gofynol.

Nid ydyw sefyllfa dynion fel y gosodir hi allan gan yr ail ddosbarth o dduwinyddion, yn wahanol mewn gwirionedd oddiwrth eu sefyllfa fel y'i gosodir allan gan y dosbarth cyntaf. Y mae yr anallu yn anallu hollol yn y naill a'r llall. Yn yr anmhosiblrwydd hollol o iawn-ewyllysiad, mae anmhosiblrwydd hollol unrhyw weithred dda.

Pan y gwadwn ryddid, trwy wadu gallu hunan-benderfynol, nid ydyw y darnodiadau hyn mewn trefn i wneud allan fath o ryddid a gallu *quasi*, yn ddim ond twyll golygus a ffolineb celfydd.

Yr ydych yn dweyd wrth y dyn, mae yn wir, y gall os ewyllysia; a phan yr etyb yntau, fod yr ewyllysiad gofynol, ar eich egwyddorion chwi eich hunain, yn anmhosibl, yr ydych yn ei gyfeirio at syniadau cyffredin dynolryw. Yn ol y rhai hyn, dywedwch fod dyn yn euog am beidio gwneud daioni, yn gymaint ag nad oes dim yn eisieu tuag at wneuthur daioni ond ewyllysiad—ac yn euog pan y gwna ddrwg, oblegid ei fod yn ewyllysio gwneuthur drwg. Yn ol y syniadau cyffredin hyn hefyd, gall dyn ar dir teg gael ei berswadio i wneuthur da, pan nad oes dim yn eisieu ond ewyllys i wneud daioni. Ond a

ydym yn cael y gwahaniaethiad hwn rhwng gallu naturiol a moesol yn syniadau cyffredin dynion? Pan na bydd dim yn ofynol tuag at gyflawniad gweithred ond ewyllysiad, a ydyw dynion yn golygu unrhyw anallu? Ai nid ydynt yn teimlo fod gan yr ewyllysiad anmhosiblrwydd uchanianol yn gystal ag fod gan ganlynydd yr ewyllysiad bosiblrwydd anianyddol? Ai nid oes genym o leiaf ryw sail i ammheu fod syniadau cyffredin dynion yn nghylch athroniaeth cyfrifoldeb, a seiliau edliwiad a pherswadiad, yn rhywbeth pur wahanol i gyfundrefn yr ewyllysiad rheidiol?

Y mae y dosbarth olaf yma o dduwinyddion, yn gystal a'r cyntaf, yn tynu holl rym eu pregethu oddiwrth athroniaeth, ar yr hon maent dan orfodaeth i weithredu, ond a wadant yn y modd ffyrnicaf. Bydded iddynt gario allan eu hegwyddorion, ac ni bydd lle pregethu yn aros mwyach.

Ni ddichon pregethu gynnyrchu effeithiau da ond yn unig trwy gynnyrchu ewyllysiadau da; ac ni ellir cynnyrchu ewyllysiadau da ond yn unig trwy gymhellion da; ond ni ddichon cymhellion fodoli o dan bregethu ond yn unig pan fyddo y pynciau a bregethir mewn cydberthynas gyda chyflwr meddwl y gwrandawyr. Ond ar egwyddorion y gyfundrefn hon ei hun, cymerir yn ganiatâol na ddichon y cyfryw gyd-berthynas fod, canys mae y galon yn hollol lygredig.

Gallai fod gwasgu ar ddyn heb ei aileni roddi allan ewyllysiadau gyda golwg ar ei adenedigaeth, yn cydsefyll gyda gallu hunan-benderfynol o eiddo yr ewyllys, ond mae yn hollol anghydsafol gyda y gyfundrefn hon. Nid ydyw ond gwasgu *arno ef* i wneuthur peth na all; ac yn wir peth na ddichon pob perswadiad ei wneud *ynddo* fel deilydd goddefol yn unig. Ei sicrhau fod y peth yn hollol hawdd, o herwydd na ofynir dim oddiwrtho ef ond yn unig yr ewyllysio, sydd yr un peth a phe sicrheid ef fod y peth yn hawdd, oblegid y bydd y peth wedi ei gyflawni pan y bydd ef wedi ei wneuthur. Gallai y dyn ateb, y byddai y peth yn hawdd yn wir pe buasai ynof fi y cymhelliad angenrheidiol er cynnyrchu yr ewyllysiad; ond gan nad ydyw, mae yr ewyllysiad yn anmhosibl. Ac megys nas gallaf fi roddi allan yr ewyllysiad heb y cymhelliad, nis gallaf chwaith ffurfio y cymhelliad sydd i gynnyrchu yr ewyllysiad—gan y byddai hyny yn cynnwys i'r effaith gynnyrchu ei achos ei hun. A'r hyn nad allaf wneuthur i mi fy hun, yr wyf yn ofni na ellwch chwi, nac yn wir angel o'r nef, lwyddo i'w wneuthur i mi. Gallwch drefnu gwirioneddau, dyledswyddau, a rhagolygon crefydd o flaen fy meddwl, ond ni allant hwy gymeryd y cymeriad o gymhellion i ddylanwi ar fy ewyllys, oblegid nad ydynt yn foddhaol i deimladau fy nghalon. Yr ydych yn wir yn amcanu yn dda; ond ai nid ydych yn gweled, ar eich egwyddorion chwi eich hun, y rhaid i'ch holl sel a'ch hyawdledd o angenrheidrwydd gael effaith gwahanol arnaf

i'r hyn yr ydych yn ei fwriadu? Gan nad ydyw fy serchiadau i mewn cyd-berthynas â'r pynciau hyn, mwyaf gymhellwch arnaf, angerddolaf oll y cyfyd fy nheimlad i o'r annymunol, neu fy ngwrthodiad pendant; ac y mae hyn oll, fy nghyfeillion anwyl, yn cymeryd lle trwy reidrwydd yr hwn sydd yn ein dal ni oll fel ein gilydd mewn cadwen anorchfygol a byth-barhaol.

Y mae yn amlwg fod yn anmhosibl osgoi y casgliad hwn, ac etto ddal yr athroniaeth. Nyni a welsom eisoes, fod pob ymgais o'r natur yma, a wneir trwy appelio at syniadau cyffredin dynolryw, yn hunan-wrthebol. Ni wna y tro i wthio athroniaeth yn mlaen i sylw hyd nes y deuir i anhawsder a dyryswch, ac yna i neidio o'r neilldu a benthyca rhesymau oddiwrth gyfundrefn arall yr hon a dybir i fod wedi cael ei dymchwelyd. Nid oes yr un rheidrwydd mwy hollol ac arglwyddiaethol na rheidrwydd rhesymegol.*

Egwyddorion sylfaenol cyfundrefn Edwards yn yr adranau a ystyriwyd genym, ac oddiwrth ba rai y tynwyd y canlyniadau uchod, ydynt y tair canlynol:

1. Mae yr ewyllys yn cael ei phenderfynu bob amser gan y cymhelliad cryfaf.

2. "Y mwyaf dymunol" bob amser ydyw y cymhelliad cryfaf.

3. Mae yr ewyllys yn cael ei phenderfynu yn rheidiol.

Myfi a derfynaf y rhan hon o'r traethawd presenol gydag archwiliad byr i'r rhesymau gyda pha rai yr ymdrecha sefydlu y pwyntiau hyn.

Y rhesymiad gyda pha un yr amcenir sefydlu y pwynt cyntaf, ydyw y rhesymiad cyffredin gyda golwg ar achos ac effaith. Effaith ydyw ewyllysiad, a rhaid iddo gael achos. Ei achos ydyw y cymhelliad sydd

---

* Mae yn deg hysbysu yma, fod y gwahaniaeth rhwng anallu moesol a naturiol yn cael ei wneud gan amryw dduwinyddion enwog, heb fwriadu unrhyw beth mor ofer a'r hyn a ddynoethwyd uchod. Nid ymddengys eu bod yn golygu wrth anallu moesol unrhyw beth a bâr mewn gwirionedd i'r gweithrediadau gofynol, fod yn anmhosibl; ond y fath attalfa ag sydd yn gorwedd mewn serchiadau llygredig, attalfa y gellir ei symud trwy hunan-benderfyniad i arfer y moddion a'r cymhwysiadau a ddarparwyd ac a addawyd yn raslawn. Wrth allu naturiol y golygant y meddianniad o'r holl gynneddfau naturiol angenrheidiol er cyflawni y gweithrediadau a ofynir. Yn eu harddangosiadau o allu naturiol, cariant yn mlaen mewn dull rhydd a phoblogaidd, yn hytrach nag mewn dull caeth ac athronyddol. Edrychant ar allu naturiol fel ffaith, gwadiad o'r hyn sydd yn cynnwys gwrthuni dychrynllyd, ond ni roddant yr un cyfrif meddylegol am dani. Cymeraf fi y gorchwyl yma arnaf fy hun mewn cyfrol sydd i ddilyn. Ymdrechaf nodi allan yn hono y cysylltiad rhwng y teimladrwydd a'r ewyllys, yn eu cyflwr pur a llygredig,—ac egluro beth yw y cynneddfau naturiol hyn, pa rai yn ol ystyr gymhwys y duwinyddion hyn, sydd yn ffurfio sail edliwiad a pherswadiad, ac yn cyfansoddi cyfrifoldeb.

yn gorwedd yn nghyd-berthynas y meddwl a'i wrthddrych. Pan fyddo amryw achosion anianyddol yn ymryson a'u gilydd, yr hwn sydd yn gorchfygu ac yn cynnyrchu ei effeithiau priodol ei hun, ac yn gwahardd y lleill, a elwir genym y cryfaf. Felly hefyd, lle y byddo amryw achosion neu gymhellion moesol mewn ymrysonfa a'u gilydd, yr achos sydd yn gorchfygu a elwir y cryfaf. Pan fyddo achos anianyddol heb fod yn cael ei wrthwynebu gan allu arall, wrth gwrs y mae yn cynnyrchu ei effeithiau; ac mewn amgylchiad felly, nid ydym yn dywedyd mai yr achos *cryfaf* sydd yn cynnyrchu yr effaith, o herwydd nad oes cymhariaeth yn bod. Felly hefyd mae amgylchiadau yn mha rai nid oes ond un achos neu gymhellydd moesol yn bresenol, pryd, gan nad oes yno gymhariaeth, na allwn ddweyd fod yr ewyllysiad yn cael ei benderfynu gan y cymhelliad *cryfaf:* gall gwneuthur rhywbeth fod yn hollol ddymunol, a pheidio ei wneuthur fod yn hollol annymunol: yn y cyfryw amgylchiad dros ei wneuthur yn unig mae y cymhelliad. Ond lle bynag y byddo yr amgylchiad yn cynnwys cymhariaeth o achosion neu o gymhellion, rhaid ei fod yn wir fod yr effaith sydd yn weithredol yn cymeryd lle, yn cael ei gynnyrchu gan yr achos neu y cymhelliad cryfaf. Mae yn wir nad ydyw hyn yn ddim ond tybosodiad, megys pe dywedem—bydded i'r achosydd neu gymhelliad gynnyrcha effeithiau gael ei alw y cryfaf. Gellid ei osod allan hefyd fel *petitio principii*, neu resymu mewn cylch,—gan nad yw y prawf fod yr ewyllys yn cael ei phenderfynu gan y cymhelliad cryfaf yn ddim ond y ffaith ei bod wedi cael ei phenderfynu. Gellid ei osod i lawr fel hyn: Penderfynir yr ewyllys gan y cymhelliad cryfaf. Sut y gwyddoch chwi hyn? O herwydd fod yr ewyllys wedi cael ei phenderfynu. Sut mae hyn yn profi hyny? Oblegid mai yr hyn a'i penderfynodd raid fod y cryfaf.*

Mae Edwards yn tybio hefyd mai cymhelliad ydyw achos ewyllysiad. Wrth resymu yn erbyn ewyllys hunan-benderfynol, y mae yn ymdrechu yn anuniongyrchol amddiffyn y dybiaeth hon. Os nad

* Nid yw y ddadl fawr fod dynion yn cael eu penderfynu gan y cymhelliad cryfaf, ond mwysiaith noeth, neu yr hyn a eilw rhesymwyr yn *fegio y cwestiwn*. Nid yw yn bosibl hyd yn nod i gynnyrchu unrhyw brawf mai dyna y cryfaf, oddigerth y ffaith ei fod wedi tycio. Nid ydyw y cryfaf ynddo ei hun, ac nid ymddengys ei fod y cryfaf yn mhob ystyr i'r gweithredydd; ond meddech chwi ymddengys mai efe ydyw y cryfaf yn y cyfamser. Paham? O herwydd eich bod wedi cael eich penderfynu ganddo. Ow! chwi addawsoch brofi fy mod i yn cael fy mhenderfynu gan y *cymhelliad cryfaf*, a'r cwbl a wnaethoch oedd dangos fod genyf *gymhelliad* pan y gweithredais. Ond beth a'ch penderfynodd chwi ynte? A ddichon unrhyw effaith fodoli heb achos? Yr wyf yn ateb—a thybio fod fy ngallu hunan-benderfynol yn bod, mae yn achos mor wirioneddol i'w effaith priodol a gwahaniaethol, ag ydyw eich rheidrwydd moesol chwi: felly y mae y pwnc yn d'od i'r pen, ac heb fod ond yr un a'r unrhyw beth ar y naill ochr ac ar y llall."—*(Witherspoon's Lectures, Lect* xiii.)

ydyw yr ewyllys yn achosi ei hewyllysiadau ei hun, yna mae yn canlyn mai cymhelliad ydyw eu hachos. Y mae y ddadl yn erbyn ewyllys hunan-benderfynol i gael ei chymeryd i fyny yn awr.

2. *Y mwyaf dymunol bob amser ydyw y cymhelliad cryfaf.* Mae Edwards yn dal fod y cymhelliad sydd bob amser yn tycio i achosi ewyllysiad, yn meddu y neillduolrwydd yma,—y mae y mwyaf boddhaol neu ddymunol ar y pryd, ac nad ydyw ewyllysiad ei hun yn ddim ond y syniad o'r mwyaf dymunol. Pe na byddai yna ddim ond un cymhelliad gerbron y meddwl, gan na byddai yn yr amgylchiad hwnw ddim cymhariaeth, nyni a dybiem na ddywedai ond yn unig fod yr ewyllys yn cael ei phenderfynu gan *y dymunol*.

Ond pa fodd yr ydym ni i wybod pa un a ydyw cymhelliad pob ewyllysiad yn meddu y neillduolrwydd hwn o ddymunoldeb, neu o'r dymunoldeb mwyaf, fel y gallai yr amgylchiad fod? Ni allwn ei wybod ond yn unig trwy ymgynghori gyda ein hymwybodaeth. Os cawn, pa bryd bynag yr ydym yn ewyllysio, fod y syniad o'r mwyaf dymunol wedi ei hunaniaethu gyda yr ewyllysiad, ac nad ydym yn ymwybodol o allu i ewyllysio ond dan yr ammod yma o ewyllysio yr hyn sydd fwyaf dymunol i ni, yna yn sier ni all fod mwyach un ammheuaeth ar y pwnc. Y mae tystiolaeth ymwybodaeth yn derfynol. Ond ai hyn ydyw tystiolaeth ymwybodaeth, a raid i ni ei ystyried etto.

A ydyw Edwards yn appelio at ymwybodaeth?

Y mae,—ond heb hysbysu hyny yn ffurfiol. Mae y rhaneb ganlynol yn appêl at ymwybodaeth, ac yn cynnwys holl feddwl Edwards ar y mater hwn: "Prin y mae dim yn ddatganiad eglurach a mwy cyffredinol o eiddo synwyr a phrofiad dynolryw nag, pan mae dynion yn gweithredu yn wirfoddol, ac yn gwneud yr hyn a fynont, eu bod y pryd hyny yn gwneud yr hyn sydd yn ymddangos *iddynt hwy yn fwyaf dymunol;* a byddai dweyd yn amgen yn gymaint a haeru, nad ydyw dynion yn dewis yr hyn sydd yn ymddangos yn fwyaf cyfaddas iddynt, neu yr hyn sydd yn ymddangos yn fwyaf boddhaol ganddynt; neu nad ydynt yn dewis yr hyn a ddewisant." (tudal. 25, 76.) Mae cymhellion yn gwahaniaethu yn fawr, a'u hystyried yn gynwynol. Rhai yn gyson â rheswm a chydwybod; a rhai yn groes i reswm a chydwybod. Rhai yn dda; a rhai yn ddrwg. Ond beth bynag all fod eu priodoleddau cynwynol, meddant oll y neillduolrwydd o ddymunoldeb pan yr achosant ewyllysiad; ac wrth y neillduolrwydd hwn y mesurir eu nerth. Ond mae yr appêl a wneir i attegu hyn, yn cael ei wneuthur mewn ffordd sydd yn begio y gwir bwynt mewn dadl. Oni wna pawb addef "pan fyddo dynion yn gweithredu yn wirfoddol, ac yn gwneud yr hyn a fynont, eu bod yn gwneud yr hyn a ymddengys iddynt yn fwyaf dymunol, a'r hyn sydd fwyaf boddhaol ganddynt." Gwnant.

Onid ydyw yn wrthebiad amlwg i ddweyd fod dynion "yn gwneud yr hyn a fynont," ac etto "yn gwneud yr hyn nad yw foddhaol ganddynt," yn ol y defnyddiad cyffredin o'r geiriau hyn? Ydyw yn ddiau.

Ond y pwnc mewn dadl yw, pa un a ydyw dynion, wrth weithredu yn wirfoddol, bob amser yn gwneud yr hyn a fynont: ac etto dyma y pwnc a gymer Edwards yn ganiatâol. Cymer ef felly yma, a thrwy gorff ei holl draethawd. Nyni a welsom ei fod, yn ei feddyleg, yn gwneud yr ewyllys yr un peth a'r dymuniad neu y serchiadau:—yna y dymuniad neu y teimlad cryfaf ydyw yr ewyllysiad, a rhaid i'r gwrthddrych sydd yn symud y *dymuniad* wrth gwrs ymddangos yn *ddymunol*, neu foddhaol, neu hyfryd; oblegid yr un ystyr sydd iddynt. Os ydyw dynion bob amser yn ewyllysio yr hyn a ddymunont fwyaf, ac yn dymuno yr hyn maent yn ei ewyllysio, yna wrth gwrs pan weithredant yn wirfoddol, gwnant yr hyn a fynont; a phan maent yn gwneud yr hyn a fynont, gwnant yr hyn sydd gyfaddasaf iddynt, ac yn fwyaf boddhaol ganddynt.

Mae Edwards yn chwareu ar y geiriau cyfystyr hyn mewn modd golygus iawn, a rhaid i ni ddweyd, y mae yn twyllo ei hun yn gystal ag eraill. Y pwynt mawr—pa un a ydyw yr ewyllys a'r dymuniad yr un peth,—pa un a ydyw ewyllysiad fel y mae y mwyaf dymunol,—a gymerir i fyny ganddo ef yn y dechreuad fel ffaith ddiammheuol, ac y mae yn glynu wrthi fel y cyfryw i'r diwedd; ond nid yw gymaint ag unwaith yn gwneud cynnyg i roddi dadansoddiad ymwybodaeth gyda golwg arni, yn ddigonol a boddhaol. *His psychology is an assumption.*

3. Penderfynir yr ewyllys yn rheidiol.

Pa fodd mae Edwards yn profi hyn? Yn gyntaf. Ar y cysylltiad cyffredinol rhwng achos ac effaith. Mae achosion o angenrheidrwydd yn cynnyrchu effeithiau, os na attalir ac y gorchfygir hwynt gan alluoedd gwrthwynebol; ond lle mae amryw achosion yn gweithredu yn groes, mae y cryfaf o angenrheidrwydd yn tycio, ac yn cynnyrchu ei heffeithiau priodol.

Yn awr, deil Edwards fod natur y cysylltiad rhwng cymhellion ac ewyllysiadau yr unrhyw a'r eiddo unrhyw achosion ac effeithiau eraill. Yn y termau yn unig mae y gwahaniaeth; a phan y geilw y rheidrwydd sydd yn nodweddu y cysylltiad rhwng ewyllysiad a chymhellydd yn "rheidrwydd moesol," nid at y cysylltiad ei hun y cyfeiria, ond yn unig at y termau a gysylltir. Yn y rhesymiad yma, mae yn eglur ei fod yn cymeryd yn ganiatâol fod cysylltiad achos ac effaith yn gyffredinol, yn gysylltiad rheidiol; hyny ydyw, fod pob achosaeth yn rheidiol. Y mae achosydd damweiniol a hunan-benderfynol yn cael

ei nodweddu fel afresymoldeb yn ei gyfundrefn ef. Gan hyny gesyd ei hunan yn agored i holl ganlyniadau rheidrwydd cyffredinol a hollol.

Yn ail. Ymdrecha hefyd i brofi rheidrwydd ewyllysiad trwy ffordd o ddynesiant *(approximation.)* Mae yn caniatâu yn y fan hyn. er mwyn dadl, y gallai yr ewyllys wrthwynebu y cymhelliad cryfaf mewn amgylchiad; ond etto dadleua ei fod yn dybiadwy y gallai nerth y cymhelliad gael ei gynnyddu tu hwnt i nerth yr ewyllys i wrthwynebu, ac wrth y cyfryw bwynt, yn ol deddf gyffredinol achosaeth, fod yn rhaid golygu penderfyniad yr ewyllys yn rheidiol. "Pa allu bynag," meddai, "a dybir fod gan ddynion i orchfygu anhawsderau, etto nid yw y gallu yn anfeidrol." Os ydyw gallu y dyn yn feidrol, gellid tybio fod yr eiddo y cymhelliad yn anfeidrol: yna byddai gwrthwynebiad y dyn yn y diwedd yn cael ei orchfygu o angenrheidrwydd. Ymddengys y rhesymiad yn olygus ar y cyntaf; ond tybiwyf y gwna ychydig ystyriaeth ddangos ei fod yn dwyllodrus. Nid yw Edwards yn penderfynu nerth cymhellion trwy chwilio eu hansoddau cynwynol, ond yn unig trwy sylw ar raddau eu dymunoldeb. Ond yn ol ei arddangosiad ef ei hun, perthynasol ydyw dymunoldeb,—perthynasol i'r ewyllys neu y teimladrwydd. Byddai cymhelliad o nerth anfeidrol yn gymhelliad o anfeidrol ddymunoldeb, ac ni ellid ei gwybod felly ond yn unig mewn ymdeimlad anfeidrol o ddymunoldeb yn y dyn. Mae yr un peth wrth gwrs yn dal yn wir am unrhyw gymhellion llai nag anfeidrol: ac yn gyffredinol, beth bynag fyddo graddau nerth y cymhelliad, rhaid fod yn y dyn deimlad o angerddolrwydd cyfatebol. Yn awr, os oes yn yr ewyllys allu i wrthsefyll unrhyw gymhelliad, sydd yn tueddu yn gryf i'w phenderfynu, rhaid i'r gallu gwrthsafol hwn fod yn gynnwysedig mewn syniad o ddymunoldeb gwrthwynebol i'r cymhelliad arall, yr hwn hefyd sydd syniad o ddymunoldeb: a'r pwnc yn syml yw, pa un o'r ddau wnaiff gario y dydd a dyfod yn syniad o'r mwyaf dymunol. Mae yn amlwg os bydd i'r cyntaf gael ei gynnyddu mewn nerth, y gellir tybio i'r ail gael ei gynnyddu hefyd; os gall y cyntaf fyned yn anfeidrol, gall yr ail fyned yn anfeidrol hefyd: ac yna, y gellir tybio i'r gallu gwrthsafol bob amser gyfarfod nerth y cymhelliad sydd i gael ei wrthsefyll, ac na chaiff pwynt o benderfyniad rheidiol byth ei gyrhaedd.

Os dewisa Edwards ein taflu ar nerth cymhellion o'u hystyried ynddynt eu hunain, yna y mae yr ateb yn barod. Y mae yna gymhellion o nerth anfeidrol, o'u hystyried fel hyn, pa rai y mae dynion yn eu gwrthsefyll yn wastadol: er enghraifft, y cymhelliad sydd yn gwasgu arnynt i ufuddhau a charu Duw, ac i geisio iachawdwriaeth eu heneidiau.

# III.

## ARCHWILIAD Y DADLEUON

YN ERBYN

## EWYLLYS HUNAN-BENDERFYNOL.

# III.

## ARCHWILIAD Y DADLEUON YN ERBYN EWYLLYS DDAMWEINIOL A HUNAN-BENDERFYNOL.

MAE dadl fawr a chyntaf Edwards yn erbyn ewyllys hunan-benderfynol yn y Rhan II., Adran I., o'i waith, ac yn rhedeg fel y canlyn:

Mae yr ewyllys,—neu yr enaid, neu ddyn, gyda chynneddf ewyllysiad, yn effeithio pob peth sydd o fewn ei gallu fel achos, trwy weithrediadau o ddewisiad. "Mae yr ewyllys yn penderfynu pa ffordd y symuda y dwylaw a'r traed, trwy weithred o ddewisiad: ac nid oes yr un ffordd arall i'r ewyllys benderfynu, cyfarwyddo, neu orchymyn dim oll." Yna, os ydyw yr ewyllys yn penderfynu ei hun, gwna hyny trwy weithred o ddewisiad; "ac os ydyw ei hunan ganddi dan ei gorchymyn, ac os penderfyna ei hun yn ei holl weithredoedd, y mae yn sicr yn ei wneud yr un ffordd ag y penderfyna bethau eraill sydd dan ei gorchymyn." Ond os penderfyna yr ewyllys ei dewisiad trwy ei dewisiad, yna wrth gwrs y mae genym gyfres anfeidrol o ddewisiadau, neu mae genym ddewisiad cyntaf yr hwn na chafodd ei benderfynu trwy ddewisiad,—"yr hyn a'n dwg yn uniongyrchol i wrthddywediad; oblegid y mae yn tybio gweithred o eiddo yr ewyllys sydd o flaen y weithred gyntaf yn yr holl gyfres sydd yn cyfarwyddo ac yn penderfynu y gweddill; neu ynte rhaid i ni ddyfod o'r diwedd at weithred o eiddo yr ewyllys sydd yn penderfynu y gweithrediadau canlynol, yn yr hon nid yw yr ewyllys yn hunan-benderfynol, ac felly nad yw yn weithred rydd, yn ol y syniad hwn am ryddid." (tudal. 33, 36.)

Mae y rhesymiad hwn, a'r oll sydd yn canlyn yn yr ymgais i gyfarfod osgoadau amrywiol (fel y'u gelwir gan Edwards) pleidwyr ewyllys hunan-benderfynol, yn dibynu yn benaf ar y dybiaeth fod yn rhaid i'r ewyllys, os ydyw yn penderfynu ei hun, benderfynu ei hun trwy weithred o ddewisiad; hyny ydyw, yn gymaint ag fod y gweithrediadau hyn o eiddo yr ewyllys, neu yr enaid, o'i ystyried yn ei allu o ewyllysio, neu yn ei weithgarwch personol, trwy ba un y mae effeithiau yn cael eu cynnyrchu allan o'r gweithgarwch neu yr ewyllys ei

hun, yn cael eu cynnyrchu trwy weithrediadau o ddewisiad, er enghraifft, cerdded a siarad, cyfodi i fyny ac eistedd i lawr; gan hyny, os gwna yr enaid, yn y gallu o ewyllysio, achosi ewyllysiadau, rhaid iddo eu hachosi trwy ewyllysiadau. Rhaid i'r weithred achosol, trwy yr hon y pâr yr enaid ewyllysiadau, fod ei hun yn ewyllysiad. Nid yw Edwards yn cynnyg attegu y dybiaeth hon, ond yn cymeryd yn ganiatâol ei bod o gadernid diammheuol. Os ydyw y dybiaeth hon yn meddu cadernid diammheuol, yna mae ei sefyllfa ef yn anorchfygadwy; canys ni all dim fod yn fwy amlwg ynfyd na thybio fod yr ewyllys yn penderfynu ewyllysiadau trwy ewyllysiadau, mewn cyfres annherfynol.

Cyn cyfarfod y dybiaeth hon yn uniongyrchol, yr wyf yn sylwi, os ydyw yn gadarn, y mae yn farwol i bob achosaeth. Mae ewyllys yn achos; ewyllysiad yn effaith. Yr wyf fi yn dal mai yr ewyllys ydyw unig a digonol achos ewyllysiad. Etyb Edwards: os yr ewyllys ydyw achos ewyllysiad, yna, tuag at ei achosi, rhaid iddi roddi allan weithred achosol; ond unig weithred yr ewyllys ydyw ewyllysiad ei hun: yna os ydyw yn achosi ei hewyllysiadau ei hun, rhaid iddi eu hachosi trwy ewyllysiadau.

Yn awr cymerer achos arall: rhaid fod yna rhyw effaith yr hwn yn ol golygiadau cyffredin dynion sydd yn sefyll yn gysylltiedig uniongyrchol ag ef fel ei effaith. Gelwir yr effaith yn ymddangosiad, neu yr hyn y mae yr achos yn amlygu ei hunan trwyddo. Ond sut y mae yr achos yn cynnyrchu yr ymddangosiad? Trwy weithred achosol:—ond rhaid i'r weithred achosol yma, yn ol rhesymiad Edwards, fod ei hunan yn effaith neu ymddangosiad. Yna daw yr effaith yma rhwng yr achos, a'r hyn a ystyrid ar y cyntaf i fod yr effaith uniongyrchol: ond mae yn rhaid i'r effaith mewn cwestiwn gael ei achosi yr un modd gan weithred achosol; a rhaid i'r weithred achosol hòno, gan ei bod yn effaith, gael gweithred achosol arall o'i blaen hithau; ac felly yn mlaen yn ddiderfyn. Gan hyny, cawn yma gyfres anfeidrol o actau achosol—afresymoldeb o'r un rhywogaeth ag ydyw cyfres anfeidrol o ewyllysiadau.

Y mae yn canlyn oddiwrth hyn, na ddichon fod achos o gwbl. Gan, yn ol y rhesymiad yma, fod cyfres anfeidrol o actau achosol, heb unrhyw gyntaf, yn ganlyniad tybio i achos achosi ei actau ei hun, rhaid ei fod gan hyny yn canlyn, nad ydyw achos yn achosi ei actau ei hun, ond y rhaid eu bod yn cael eu hachosi gan ryw achos allan o'r achos. Ond rhaid i'r achos allan o'r achos sydd yn achosi yr actau achosol mewn cwestiwn, achosi yr actau achosol hyn yn yr achos arall trwy act achosol o'r eiddo ei hun:—ond mae yr un anhawsderau yn dygwydd gyda golwg ar yr ail achos ag sydd yn perthyn i'r cyntaf: ni all achosi ei weithrediadau ei hun, a rhaid iddynt gan hyny gael eu hachosi gan ryw achos tu allan iddo ei hunan; ac felly yn mlaen yn annherfynol. Cawn yma etto afresymoldeb cyfres anfeidrol o actau achosol; ac hefyd,

afresymoldeb cyfres anfeidrol o achosion heb achos cyntaf. Neu ynte, rhaid i ni ddyfod at achos cyntaf sydd yn achosi ei actau ei hun, heb act o achosaeth; ond y mae hyn yn annhosibl, yn ol rhesymiad Edwards. Megys, gan hyny, na all fod achos yn achosi ei actau ei hun, ac yn gymaint fod y gwadiad o hyn yn arwain i'r afresymolderau a grybwyllwyd, nyni a wthir i'r casgliad, nad oes achos o gwbl. Rhaid i bob achos naill ai achosi ei actau ei hun, neu fod i'w actau gael eu hachosi allan o hono ei hun. Nid yw y naill na'r llall o'r pethau hyn yn bosibl; gan hyny, nid oes yr un achos.

Cymerer yr ewyllys ei hun fel eglurhadaeth ar y canlyniad olaf hwn. Mae yr ewyllys yn achos; yr ewyllysiad yn effaith. Ond nid ydyw yr ewyllys yn achosi ei hewyllysiad ei hun; achosir yr ewyllysiad gan y cymhellydd. Ond rhaid i'r cymhellydd, fel achos, roddi allan act achosol yn y cynnyrchiad o ewyllysiad. Os ydyw y cymhellydd yn penderfynu yr ewyllys, yna rhaid fod yna act o eiddo y cymhellydd i benderfynu yr ewyllys. Y mae penderfynu, achosi, yn wneuthur, yn weithredu. Ond beth sydd yn penderfynu gweithred y cymhellydd sydd yn penderfynu gweithred yr ewyllys neu ewyllysiad? Os ydyw yn penderfynu neu yn achosi ei gweithred ei hun, yna rhaid iddi wneuthur hyn trwy weithred flaenorol, yn ol egwyddorion y rhesymiad yma; a hòno drachefn trwy weithred flaenorol, ac felly yn mlaen yn ddiderfyn.

Cymerer unrhyw achos arall a rhaid i'r rhesymiad fod yr un.

Gallai gael ei ddweyd mewn atebiad i'r uchod, fod ewyllysiad yn effaith hollol neillduol. Mae yn cynnwys detholiad neu benderfyniad mewn un cyfeiriad yn hytrach na'r llall, ac felly wrth olrhain ei achos yr ydym yn chwilio nid yn unig am yr egni sydd yn peri ei fodolaeth, ond hefyd am yr achos o'i benderfyniad neillduol mewn un cyfeiriad yn hytrach na'r un arall. "Nid y cwestiwn yw yn gymaint, pa fodd y mae ysbryd wedi ei gynnysgaeddu â gweithgarwch yn dyfod i *weithredu*, ond paham y dyry allan *gyfryw* weithred, ac nid un arall; neu paham y gweithreda gyda phenderfyniad neillduol? Os gweithgarwch natur ydyw yr achos paham y gwna ysbryd (enaid dyn, er enghraifft) weithredu, ac nid gorwedd yn llonydd; etto nid hyny yn unig ydyw yr achos paham y mae ei weithrediad yn cael ei gyfyngu, ei gyfeirio, a'i benderfynu fel hyn ac fel hyn."

Mae pob ymddangosiad neu effaith yn neillduol a therfynol. Rhaid iddo o angenrheidrwydd fod yn un peth ac nid y llall, fod mewn un lle ac nid mewn lle arall, ac yn meddu nodweddau neillduol ac nid eraill; a gellir tybio fod yr achos sydd yn penderfynu yr ymddangosiad yn penderfynu hefyd ei holl briodoleddau. Er enghraifft, rhaid fod achos ysgogiad neillduol wrth gynnyrchu yr ysgogiad yn rhoddi iddo hefyd gyfeiriad neillduol.

Rhaid i ewyllysiad gael gwrthddrych; mae rhywbeth yn cael ei

ewyllysio neu ei ddewis; gan hyny mae penderfyniad a chyfeiriad neillduol yn anwahanadwy oddiwrth bob ewyllysiad, a rhaid i'r achos sydd mewn gwirionedd yn rhoddi bodolaeth iddo, o angenrheidrwydd roddi cymeriad iddo, yn nghyda chyfeiriad a phenderfyniad neillduol.

Detholiad ydyw priodoledd yr achos, ac mae yn ateb i benderfyniad a chyfeiriad neillduol yn yr effaith. Megys na ddichon ymddangosiad neu effaith ddyfod i fodolaeth heb benderfyniad neillduol, felly ni ddichon achos roddi bodolaeth i ymddangosiad, neu effaith, heb ddetholiad. Rhaid fod yna o angenrheidrwydd un gwrthddrych yn cael ei ddethol yn hytrach na'r llall. Fel hyn, os teflir tân i ganol defnyddiau amrywiol, mae yn dethol yr hylosgion, ac yn cynnyrchu ymddangosiad yn ol hyny. Mae yn dethol ac yn rhoddi penderfyniad neillduol. Ni allwn amgyffred am achos heb ddetholiad, nag am effaith heb benderfyniad neillduol. Ond yn mha beth y mae detholiad yn gorwedd? Yn natur yr achos mewn cyd-berthynas â gwrthddrychau penodol. Mae y tân mewn cyd-berthynas â gwrthddrychau penodol, ac yn ganlynol yn arddangos ymddangosiad gyda golwg arnynt hwy yn unig. Mewn fferylliaeth, o dan y teitl cystlynau, nyni a gawn arddangosiadau rhyfeddol o ddetholiad a phenderfyniad neillduol. Yn awr, mae cymhelliad, yn ol Edwards, yn gorwedd yn nghyd-berthynas natur yr ewyllys, neu ddymuniad, gyda gwrthddrychau penodol; ac effaith y cyfryw gyd-berthynas ydyw ewyllysiad. Y detholiad a wneir gan ewyllys, sydd yn cyfodi o'i natur, sydd, yn ol egwyddor Edwards, yn gyffelyb i'r detholiad a wneir gan unrhyw achos arall; ac mewn canlyniad i hyn, fod penderfyniad neillduol neu gyfeiriad yr ewyllysiad, yn gyffelyb i'r hyn a ymddengys yn mhob effaith arall. Yn amgylchiad yr ewyllys, pa effaith bynag a gynnyrchir, a gynnyrchir o angenrheidrwydd, trwy rag-gyfansoddiad a thueddiad ewyllys a gwrthddrychau, yn gymhwys fel yn amgylchiad unrhyw achos arall.

Oddiwrth hyn ymddengys yn ddigon amlwg, nad oes ar egwyddorion Edwards y fath wahaniaeth rhwng ewyllysiad ac unrhyw effaith arall, fel ag i darianu ei resymiadau gyda golwg ar ewyllys hunanbenderfynol, rhag y canlyniadau a dynwyd oddiwrthynt uchod. Nid yw gwahaniaethiad achosion terfynol ac effeithiol yn gorwedd yn ei gyfundrefn. Y cymhellydd ydyw yr hyn sydd yn cynnyrchu y syniad o'r mwyaf dymunol, ac yn ei gynnyrchu o angenrheidrwydd, ac yn fynych mewn gwrthwynebiad i reswm a chydwybod; a'r cyfryw syniad o'r mwyaf dymunol ydyw dewisiad neu ewyllysiad. I'r gyfundrefn wrthwynebol y perthyn gwneuthur y gwahaniaethiad yma yn ei holl eglurder a'i rym—lle mae yr ewyllys effeithiol yn cael ei gwahan-nodi, oddiwrth berswadiadau a deniadau nwyd a dymuniad, yn nghyda deddfau rheswm a chydwybod.

Mor bell a hyn, bu fy nadl yn erbyn tybiaeth Edwards—sef fod gwneud yr ewyllys yn achos ei hewyllysiadau ei hun, yn wneuthur iddi achosi ei hewyllysiadau trwy weithred o ewyllysiad,—yn anuniongyrchol. Os cafodd y ddadl anuniongyrchol hon ei hwylio yn deg a chyfreithlawn, mae yn debygol na bydd ond ychydig yn cael eu tueddu i wadu fod y dybiaeth wedi ei dadymchwel gan ei chanlyniadau. Yn chwanegol at yr uchod, ar bwnc mor bwysig, ni ystyrir y byddai dadl uniongyrchol yn ddiangenrhaid.

Mae ewyllys hunan-benderfynol yn golygu yn syml ewyllys yn achosi ei hewyllysiadau ei hun; ac yn ganlynol, yn eu penderfynu ac yn eu cyfeirio. Ewyllys, yn ei pherthynas ag ewyllysiad, sydd gymhwys yr hyn ydyw unrhyw achos yn ei berthynas a'i effaith. Ewyllys yn achosi ewyllysiadau, sydd yn eu hachosi yn gymhwys fel y gwna unrhyw achos achosi ei effeithiau. Nid oes dim yn cyfryngu rhwng yr achos a'r effaith; rhwng ewyllys ac ewyllysiad. I achos gynnyrchu ymddangosiad trwy ymddangosiad, sydd afresymolder amlwg. Nid ydym yn cynnwys y cyfryw afresymolder wrth wneuthur yr ewyllys yn hunan-benderfynydd. Mae Edwards yn cymeryd yn ganiatâol ein bod, ac yn ei dybio fel pe buasai yn ddiammheuol.

Penderfyna yr ewyllys, sylwa yn nghyntaf, ein holl weithrediadau allanol trwy ewyllysiadau, megys ysgogiadau y dwylaw a'r traed. Yn nesaf, haera yn gyffredinol, fod yr oll a benderfynir gan yr ewyllys, yn cael ei benderfynu ganddi yn y ffordd hon; ac yna casgla, os ydyw yn penderfynu ei hewyllysiadau ei hun, y rhaid iddynt ddyfod dan y rheol gyffredin, a chael eu penderfynu trwy ewyllysiadau.

Mae y cyntaf yn cael ei gydnabod. Am yr ail, yr hwn sydd yn cynnwys yr olaf, nid yw yn cael ei brofi ganddo, ac yr wyf fi yn gwadu ei fod yn ddiammheuol.

Yn y lle cyntaf, ni ellir yn gyfreithlawn ei gymeryd fel yn canlyn oddiwrth y cyntaf. Nid yw perthynas yr ewyllys i ganlynyddion ei hewyllysiadau, o angenrheidrwydd, yr unrhyw a'i pherthynas i'w hewyllysiadau. Cyfnewidiadau neu agweddau yn natur oddiallan, neu yn rhanau bodaeth tu allan i'r ewyllys, ydyw canlynyddion ewyllysiadau; ond agweddau ar yr ewyllys ei hun ydyw ewyllysiadau. Yn awr, os na all agweddau natur oddiallan gan yr ewyllys gael eu heffeithio ond yn unig trwy yr agweddiad hwnw o honi ei hun a elwir ewyllysiad, pa fodd yr ymddengys y rhaid i'r agweddiad hwn o honi ei hun, os effeithir ef ganddi ei hun, gael ei effeithio trwy ymagweddiad blaenorol o honi ei hun? Yr ydym yn dysgu oddiwrth brofiad, fod gan ewyllysiadau ganlynyddion yn natur oddiallan, neu mewn rhanau o'n bodaeth tu allan i'r ewyllys; ond nid yw y profiad hwn yn dysgu dim gyda golwg ar gynnyrchiad ewyllysiadau. Mae gweithrediadau yr ewyllys yn ewyllysiadau, ac mae holl weithrediadau yr ewyllys

yn ewyllysiadau; ond nid yw hyn yn golygu dim mwy na fod holl weithrediadau yr ewyllys yn weithrediadau yr ewyllys, oblegid nid yw ewyllysiad yn golygu dim ond hyn—gweithred o eiddo yr ewyllys. Ond ai nid oes gan weithred o eiddo yr ewyllys achos? Oes, ac yr ydych wedi rhoddi yr achos, yn yr iaith a ddefnyddiwyd y fynyd yma. Dyna ydyw, gweithred yr ewyllys—yr ewyllys ydyw yr achos. Ond pa fodd y mae yr ewyllys yn achosi ei gweithrediadau ei hun? Nid wyf yn gwybod, ac nid wyf yn gwybod chwaith sut y mae unrhyw achos yn egnïo ei hun, yn y cynnyrchiad o'i ymddangosiad priodol; y ffeithiau yn unig a wn i. Y mae y cysylltiad rhwng ewyllysiad a'i ganlynyddion, yn gymhwys mor ryfeddol ac annongladwy ag ydyw y cysylltiad rhwng ewyllys a'i hewyllysiadau. Pa fodd mae ewyllysiad yn codi y fraich neu yn symud y troed? Pa fodd mae y tân yn llosgi, neu yr haul yn codi y llanw? A pha fodd y mae ewyllys yn achosi ewyllysiadau? Ni wn i; ond os ydwyf yn gwybod fod y cyfryw yn ffeithiau, mae yn ddigon i mi.

Rhaid i ewyllysiadau gael achos; ond, medda Edwards, ni all ewyllys fod yn achos iddynt, gan yr arweinia hyn i'r afresymolder o achosi ewyllysiadau trwy ewyllysiadau. Ond nid ydym ni yn gallu gweled yr arweinia i'r cyfryw afresymolder.

Nid yw yn angenrheidiol i ni i egluro sut y mae achos yn gweithredu. Os ydyw yr ewyllys yn cynnyrchu effeithiau yn natur oddiallan trwy ei gweithrediadau ei hun, mae yn anmhosibl cysylltu wrth hyn fel canlyniad, wedi ei sefydlu gan brofiad na rhesymeg, fod yr ewyllys wrth gael ei derbyn fel achos ei gweithrediadau ei hun, yn dyfod felly yn unig trwy *ewyllysio* ei gweithrediadau ei hun. Mae yn eglur nad ydyw ond tybiaeth sydd heb ei sefydlu, ac un na ellir ei sefydlu chwaith. Heblaw hyn, trwy wadu mai yr ewyllys ydyw achos ei gweithrediadau ei hun, a rhoddi achos arall iddynt yn ei lle, sef y cymhelliad, nid yw Edwards yn osgoi yr anhawsder mae yn ei greu; o herwydd fel y dangosais eisoes, fod yr un anhawsder yn perthyn i gymhelliad, ac i bob achos posibl. Mae pob achos yn cynnyrchu effeithiau trwy egnïad neu weithredu; ond beth yw achos ei weithrediad? Byddai tybio iddo fod yn achosydd ei weithrediadau ei hun, yn cynnwys yr holl afresymolderau a briodolir gan Edwards i hunanbenderfyniad. Ond

*Yn yr ail le*,—gadewch i ni edrych ar gysylltiad achos a'i ymddangosiad ychydig yn fanylach. Beth yw achos? Dyma ydyw,—yr hyn sydd yn sylfaen bodolaeth bosibl a gweithredol ymddangosiad. Sut y mae achos yn cael ei adwaen? Trwy yr ymddangosiad. A ydyw achos yn weledig? Nag ydyw: beth bynag sydd weledig sydd ymddangosiadol. Yr ydym yn sylwi ar ymddangosiadau, a thrwy ddeddf o eiddo ein dealltwriaeth yr ydym yn eu priodoli i achos. Ond pa

fodd yr ydym yn golygu achos fel yn cynnyrchu ymddangosiad? Trwy *nisus*, ymdrech, neu egnïad. A ydyw yr egnïad hwn ei hun yn ymddangosiad? Ydyw, pan fyddo yn ganfyddadwy. A ydyw bob amser yn ganfyddadwy? Nag ydyw. Nid ydym yn canfod egnïad at-dyniad; nid ydym yn canfod ond ffeithiau at-dyniad yn unig. *Nisus* gwres i losgi ni chanfyddwn; ffeithiau cydlosgiad yn unig a ganfyddwn. Yn mha le gan hyny yr ydym yn canfod y *nisus* hwn? Yn unig yn yr ewyllys. Mewn gwirionedd, ewyllysiad ydyw *nisus* neu egnïad yr achos hyny a alwn yn ewyllys. Nid wyf yn awyddus i ragolygu olrheiniadau dilynol, ond yr wyf yn cael fy nghymhell yma i ofyn i bob un ystyried tystiolaeth ei ymwybodaeth gyda golwg ar y pwnc hwn. Pan yr wyf yn dewis gwneuthur unrhyw beth yr wyf yn gwneuthur ymegnïad—*nisus* i'w gyflawni; yr wyf yn gwneuthur ymegnïad i godi fy mraich, ac yn ei chodi. Yr ymegnïad hwn ydyw yr ewyllysiad yn syml. Yr wyf yn gwneuthur ymegnïad i godi pwysau a fy llaw,—yr ymegnïad hwn yn syml ydyw yr ewyllysiad i'w gyfodi,—ac yn uniongyrchol o flaen y cyfryw ymegnïad, nid wyf yn cael dim ond fy ewyllys, neu mewn gwirionedd dim ond fy hunan. Yr ymegnïad—y *nisus*—yr ewyllysiad yma—neu beth bynag y galwn ef,—sydd yn yr ewyllys ei hun, ac mae yn dyfod yn ymddangosiad i ni, o herwydd ein bod yn achosion sydd yn ein hadnabod ein hunain. Yr hyn a ganfyddwn gyda golwg ar bob achos, oddieithr ein hunain, (pa un bynag a ydynt yn ymwybodol neu beidio,) ydyw canlynyddion yr ymegnïad, ac nid yr ymegnïad ei hun. Fel hyn mewn dynion eraill, nid yr ewyllysiad neu y *nisus* sydd yn eu hewyllys a ganfyddwn, ond yr ymddangosiadau sydd yn ffurfio canlynyddion y cyfryw *nisus*. Ac mewn achosion anianyddol, nid *nisus* y cyfryw achosion a ganfyddir genym, ond yr ymddangosiadau sydd yn ffurfio canlynyddion y *nisus* yma yn unig. Ond pan ddychwelo pob un ato ei hun, mae pethau yn hollol wahanol. Mae yn treiddio ei hun—yn adnabod ei hun. Efe ei hun ydyw yr achos—efe ei hun sydd yn cyfansoddi y *nisus*, ac y mae yn ymwybodol o hono: ac iddo ef mae yr ymegnïad yma yn d'od yn effaith—yn ymddangosiad, yr ymddangosiad cyntaf, trwy yr hwn y mae yn datguddio ei hun, ond ymddangosiad trwy yr hwn y mae yn datguddio ei hun yn unig iddo ei hun. Trwy ganlynyddion yr ymegnïad hwn—yr effeithiau a gynnyrchir yn y byd gweledig oddiallan—y mae yn datguddio ei hun i eraill.

Weithiau y mae y *nisus* neu ewyllysiad yn treulio ei hunan yn yr ewyllys, ac heb roddi dim ymddangosiad allanol. Gallaf fi wneuthur ymdrech i godi fy mraich, ond gallai fod fy mraich wedi ei rhwymo neu ei diffrwytho, ac mewn canlyniad mae yr ymdrech yn ofer, ac ni wybuwyd am dani oddiallan. Mor egnïol ydyw yr ymdrechion a wneir gan yr ewyllys pan fyddis dan ddirwasgiad yr hunllef! Yr

ydym yn gwingo er gwrthsefyll rhyw rym dychrynllyd—yn ymgais i ddianc o safn rhyw berygl—ond yr oll yn ofer.

Mae yn bosibl i mi i wneuthur ymegnïad i symud mynydd: gallaf osod fy llaw yn erbyn ei ochr, a gwthio, ac ymdrechu: a rhoddi allan y *nisus* neu yr ewyllysiad mwyaf egnïol a allaf wneuthur, ond heblaw dirdyniad fy nghyhyrau yn unig, nid oes yr un amlygiad allanol o egni fy ewyllys yn cael ei wneud: yr wyf yn cael fy ngwrthsefyll gan rym mwy na mi fy hun.

Yna, y symudiad mwyaf gwreiddiol o eiddo pob achos yw y *nisus* yma yn mynwes yr achos ei hun; ac mewn dyn yr un modd, fel mae yn achos, y symudiad mwyaf gwreiddiol ydyw y *nisus* yma, yr hwn ynddo ef a alwn yn ewyllys. Gwadu y cyfryw *nisus* fyddai gwadu egni, gweithgarwch, ac effeithiolrwydd achos. Nid yw y *nisus* yma yn caniatâu unrhyw ragflaenydd, ymddangosiad, neu symudiad; y mae yn sylwedd yr achos; ei fynediad cyntaf allan i effeithiau. Mae symudiad cyntaf neu *nisus* achos yn syniad mor angenrheidiol ag ydyw achos cyntaf ei hun. Nid oes yr un syniad i'w osod mewn gwrthwynebiad i hyn, ond fod pob achos yn cael penderfynu ei symudiad cyntaf gan ryw achos tu allan iddo ei hun—syniad sydd yn rhedeg yn ol mewn ol-giliad diderfyn heb gyrhaedd at achos cyntaf, a'r hwn yn wir sydd yn ddiddymiad ar bob achos.

Gan hyny, mae tybiaeth Edwards, sef os ydyw ewyllys yn penderfynu ei hewyllysiadau ei hun, fod yn rhaid iddi eu penderfynu trwy weithred o ewyllysiad, yn hollol ddiadnerth oddiwrth ffeithiau ymwybodaeth, a rhesymeg iachus—tra mae holl afresymolderau cyfres anfeidrol o actau achosol yn cydio eu hunain wrth ei ddamcaniaeth ef, ac yn ei dinystrio gyda yr arfau â pha rai yr ymosodid ar y gyfundrefn gyferbyniol.

*Yn y trydydd lle*,—mae Edwards mewn effaith yn caniatâu gallu hunan-benderfynol yr ewyllys.

Darnoda yr ewyllys fel y dymuniad, y serchiadau, neu y teimladrwydd. Nid oes unrhyw weithgarwch personal tu allan i'r serchiadau neu y teimladrwydd. Mae ewyllysiad fel y mae y dymunolaf, a syniad o'r mwyaf dymunol ydyw. Ond beth ydyw achos ewyllysiad? Deil ef na ddichon mai yr ewyllys ydyw, gan gymeryd yn ganiatâol fod gwneuthur yr ewyllys yn achos ei hewyllysiadau ei hun, yn cynnwys yr afresymolder o ewyllysio ewyllysiadau, neu ddewis dewisiadau; ond ar yr un pryd efe a ddeil mai yr achos ydyw cyflwr y serchiadau neu ewyllys, mewn cyd-berthynas â natur ac amgylchiadau gwrthddrychau. Ond mae pob achosion naturiol mewn cyd-berthynas gyda gwrthddrychau penodol—megys, er enghraifft, mae gwres mewn cyd-berthynas â hylosgion; hyny yw, nid yw yr achosion naturiol hyn yn gweithredu ond yn unig o dan yr ammod o gyfarfod gyda gwrthddrychau wedi eu cyfansoddi yn y fath fodd fel ag i fod yn addas i gael

gweithredu arnynt ganddynt. Felly yr un modd, yn ol arddangosiad Edwards, y gallwn ddweyd mai achos ewyllysiad ydyw natur a chyflwr y serchiadau neu yr ewyllys, yn gweithredu dan yr ammod o fod gwrthddrychau mewn cyd-berthynas ag ef. Ni all y syniad o'r mwyaf dymunol neu ddewisiad gael ei ddeffroi, oddieithr i wrthddrych gael ei bresenoli yr hwn a ymddengys y mwyaf dymunol; ond etto mae iddo ymddangos y mwyaf dymunol, ac iddo ddeffroi y syniad o'r mwyaf dymunol, yn dibynu nid yn unig ar "yr hyn a ymddengys *yn* y gwrthddrych a olygir, ond hefyd yn *null* y golygiad, ac yn *nghyflwr ac amgylchiadau* y meddwl sydd yn golygu." Yn awr, "*cyflwr* ac *amgylchiadau* y meddwl sydd yn golygu, a *dull* y golygiad," yn syml ydyw y meddwl yn gweithredu oddiar ei natur gynhenid, ac o dan ei delerau priodol, ac y mae yn arddangosiad sydd yn ateb i bob achos naturiol adnabyddus i ni: gan hyny, gellir golygu y cyflwr meddwl, yn cynnwys wrth gwrs ei natur gynhenid, yn achos ewyllysiad gyda yr un priodoldeb (yn ol egwyddorion Edwards), ag ydyw natur a chyflwr gwres yn achos hylosgiad; ond wrth "gyflwr y meddwl" y golyga Edwards, mae yn amlwg, gyflwr yr ewyllys, neu y serchiadau. Mae yn canlyn, gan hyny, ei fod ef yn gwneuthur cyflwr yr ewyllys neu y serchiadau yn achos ewyllysiad; ond gan nad yw cyflwr yr ewyllys neu y serchiadau yn golygu dim mwy gyda golwg ar ewyllys nag y mae cyflwr unrhyw achos arall yn ei olygu gyda golwg ar y cyfryw achos,—ac megys nad ydyw cyflwr achos, yn cynnwys wrth gwrs ei natur neu ei gyfansoddiad gynhenid, yn golygu dim mwy na'i gymeriad a'i ansoddau yn cael ei ystyried fel achos,—gan hyny mae ef mewn effaith ac mewn gwirionedd yn gwneuthur yr ewyllys yn achos ei hewyllysiadau ei hun, yn gymaint ag y mae unrhyw achos naturiol yn achosydd ei amrywiol ganlynyddion.

Darfu Edwards, wrth drafod a dirgymhell yr afresymolder o benderfynu ewyllysiad trwy ewyllysiad, edrych heibio yr ystyriaeth, fod yn rhaid i symudiad neu weithrediad cyntaf achos gael ei benderfynu gan yr achos ei hun, ac fod gwadu hyn, mewn ffaith yn wadu achos. Os nad oes gan achos ynddo ei hun *nisus* i gynnyrchu ymddangosiadau, yna, yn mha beth mae yr achos? Anghofiodd hefyd ei fod trwy roddi cyflwr yr ewyllys fel achos neu gymhellydd ewyllysiad, yn rhoddi mewn gwirionedd i'r ewyllys allu hunan-benderfynol, ac mae yn caniatâu y gwir bwynt y llafuria i'w ddymchwelyd.

Wedi y cwbl, nid y pwnc mewn dadl rhyngom ni ac Edwards ydyw gallu hunan-benderfynol yr ewyllys. Os ydyw ewyllys yn achos, rhaid ei bod yn hunan-benderfynol; canys mae pob achos yn hunan-benderfynol, neu, mewn geiriau eraill, mae yn ei natur gynhenid yn weithgar, ac yn sylfaen ymddangosiadau.

Ond y gwir bwnc mewn dadl yw hyn: *A ydyw yr ewyllys yn cael ei phenderfynu yn rheidiol, ai peidio?*

Gallai natur gynhenid achos gael ei gyfansoddi a'i sefydlu yn y fath fodd, fel y byddai i'r *nisus* trwy yr hwn y penderfyna ei hunan i gynnyrchu ymddangosiadau, gymeryd lle yn ol deddfau rheidiol a digyfnewid. Credwn fod hyn yn wir gyda golwg ar bob achosion anianyddol. Mae gwres, trydan, galvaniaeth, dymgyrchiad, at-dyniad, nerthoedd gallofyddol yn gyffredinol, a'r galluoedd sydd ar waith mewn cystlynau fferyllol, yn cynnyrchu eu hymddangosiadau yn ol deddfau sefydlog, (a chyda golwg ar y galluoedd eu hunain) a rheidiol. Ni allwn feddwl fod yn bosibl i'r galluoedd hyn gynnyrchu unrhyw ymddangosiadau eraill, o dan yr amgylchiadau, amgen na'r rhai maent yn eu cynnyrchu ar y pryd. Pan mae marworyn tanllyd yn cael ei daflu i ganol pentwr o bylor sych, *rhaid* i ffrwydriad gymeryd lle.

Yn awr, a ydyw yn wir fod yn rhaid i'r achos a alwn ewyllys, yr un modd, o dan yr amgylchiadau, gynnyrchu o angenrheidrwydd ymddangosiadau fel ar fel? A raid i'w *nisus*, ei hegnïad hunan-benderfynol, neu ei hewyllysiad, ddilyn deddf unffurf ac anocheladwy? Etyb Edwards, rhaid. Nid yw yr ewyllys ond y teimladrwydd, ac mae natur gynhenid yr ewyllys wedi ei sefydlu, fel y mae ei syniad o'r mwyaf dymunol, (yr hyn ydyw ei *nisus* mwyaf gwreiddiol neu ei hewyllysiad), yn dilyn deddfau rheidiol penodol,—rheidiol o barth iddo ei hun. Pe gwybyddem ni gyflwr rhyw ewyllys, yn nghyda'i chyd-berthynas i bob math o wrthddrych, gallem wybod, gyda y sicrwydd mwyaf, beth a fyddai ei hewyllysiad ar adeg benodol, ac o dan amgylchiadau penodol. Nid yw rheidrwydd moesol a rheidrwydd naturiol yn gwahaniaethu dim ond yn unig yn y termau,—ac nid yn natur y cysylltiad sydd rhwng y termau. Mae ewyllysiad mor reidiol ag ydyw ymddangosiad anianyddol.

Yn awr, os ydyw yr ewyllys a'r serchiadau neu y teimladrwydd yn un, yna, fel ffaith feddylegol yn unig, rhaid i ni ganiatâu fod ewyllysiad yn rheidiol; oblegid nid oes dim yn fwy amlwg na fod y dymuniadau a'r serchiadau o angenrheidrwydd yn canlyn cyd-berthynas y teimladrwydd a'i wrthddrychau. Ond os gallwn wahaniaethu yn ein hymwybodaeth, yr ewyllys oddiwrth y teimladrwydd,—os gallwn wahaniaethu ewyllysiad oddiwrth y dymuniad cryfaf neu yr ymdeimlad o'r mwyaf dymunol,—yna ni bydd yn canlyn, oblegid fod y naill yn rheidiol, fod y llall yn rheidiol yr un modd, os nad ydyw yn ffaith amlwg o eiddo ymwybodaeth fod cysylltiad rheidiol rhyngddynt. Ymchwilir i mewn i hyn mewn rhan arall o'n hymgymeriad. Yr hyn y mae a fynom ni yn benaf ag ef yn awr, ydyw dadl Edwards yn erbyn y syniad o ewyllys heb fod yn cael ei phenderfynu yn rheidiol. Hyn a eilw ef yn benderfyniad damweiniol yr ewyllys. Yr ydym yn mab-

wysiadu y gair damweiniol *(contingent);* mae yn bwysig er nodi allan wahaniaethiad.

Mae Edwards, yn ei ddadl yn erbyn penderfyniad damweiniol, yn camgymeryd ac yn cardota y pwnc mewn dadl.

1. Mae yn camgymeryd y cwestiwn. Ymdrinir â damweiniaeth fel pe byddai yr un peth a siawns neu ddim achos. "Dywedir fod unrhyw beth yn ddamweiniol, neu yn dyfod i fod trwy ddamwain neu ddygwyddiad, yn ystyr wreiddiol y cyfryw eiriau, pan mae ei gysylltiad a'i achosion neu ei ragflaeniaid, yn ol trefn sefydledig pethau, *heb ei ganfod;* ac felly yn beth nad oes genym fodd i'w ragweled. Ac yn enwedig, dywedir fod peth yn ddamweiniol, neu yn ddygwyddiadol, gyda golwg arnom ni, pan y daw i fôd heb ein rhagwybodaeth, ac yn annibynol ar ein hamcan a'n bwriad. Ond y mae y gair *damweiniol* yn cael ei ddefnyddio yn helaeth mewn ystyr tra gwahanol; nid am yr hyn na allwn ni ganfod ei gysylltiad â'r gadwen o bethau, fel ag i allu ei ragweled, ond am rywbeth nad oes iddo o gwbl unrhyw sail neu reswm blaenorol, â pha un y mae gan ei fodolaeth unrhyw gysylltiad sefydlog a sicr." (tudal. 20.)

Fel hyn, yn ol Edwards, nid yn unig mae *damweiniol* yn cael ei ddefnyddio yn yr un ystyr a siawns a damwain, yn ol meddwl cyffredin a chynnefin y geiriau hyn, ond defnyddir ef hefyd yn ddifrifol, i arddangos pethau, nad oes ganddynt sail neu reswm, neu achos i'w bodolaeth; ac o dan y golygiad olaf hwn, y mae efe yn ei wrthwynebu pan y cymhwysir y gair at benderfyniad yr ewyllys. Yn Rhan II., Adran III., y mae yn ymdrin yn helaeth â'r cwestiwn—"pa un a all unrhyw ddygwyddiad, ac yn neillduol ewyllysiad, gymeryd lle heb achos i'w bodolaeth;" ac yn Adran IV.,—"pa un a all ewyllysiad gyfodi heb achosydd, trwy weithgarwch natur yr enaid."

Os, wrth alw ewyllysiadau yn ddamweiniol,—os, wrth osod allan benderfyniad yr ewyllys fel yn ddamweiniol, y bwriadwn arddangos dosbarth o ymddangosiadau heb "unrhyw sail neu reswm blaenorol, gyda pha un y mae gan eu bodolaeth unrhyw gysylltiad sefydlog a sicr,"—fel yn bodoli heb unrhyw achos o gwbl, ac mewn canlyniad yn bodoli trwy siawns, neu mewn gwirionedd yn hunan-fodol, ac felly heb ofyn am unrhyw sail flaenorol i'w bodolaeth,—ymddengys i mi na byddai eisieu unrhyw ddadl faith er dynoethi afresymolder ein sefyllfa. Fod gan "bob ymddangosiad ei achos" sydd yn ddiammheuol yn un o'r gwirioneddau cyntaf hyny nad ydynt yn gofyn nac yn goddef prawf, oblegid maent yn rhagflaenu pob prawf, ac y mae yn rhaid eu hedryfu fel sylfaen pob prawf.

Ond wrth ewyllys ddamweiniol, nid wyf fi yn golygu ewyllys nad ydyw yn achos. Wrth ewyllysiadau damweiniol, nid wyf yn golygu ewyllysiadau sydd yn bod heb achos. Wrth ewyllys ddamweiniol, yr

wyf yn golygu ewyllys heb fod yn rheidiol, ond yr hyn sydd mewn gwirionedd yn *ewyllys rydd*. Wrth ewyllysiadau damweiniol, golygwyf ewyllysiadau sydd yn perthyn i ewyllys ddamweiniol a rhydd. Yr wyf yn golygu damweiniaeth nid mewn gwrthwynebiad i achos, ond i reidrwydd. Tybier fod genym syniad clir am reidrwydd, yna beth bynag nad yw yn rheidiol, a alwn yn ddamweiniol.

Yn awr, mae dadl yn erbyn damweiniaeth ewyllys ar y dybiaeth ein bod yn defnyddio y gair i osod allan ewyllysiadau fel pe yn bodoli heb achos, yn un anmherthynasol, gan nad ydym yn golygu y fath beth.

Ond mae dadl i geisio profi fod damweiniaeth yr un peth a siawns, neu fod heb achos, yn ddadl deg; ond etto dylid cofio fod y cyfryw ddadl yn myned mewn gwirionedd i brofi nad oes dim ond rheidrwydd yn bosibl,—oblegid yr ydym yn golygu wrth ddamweiniaeth yr hyn sydd wrthwynebol i reidrwydd.

Gan hyny rhaid i'r ddadl droi ar y ddau bwynt yma: Yn mlaenaf, a ydyw damweiniaeth yn syniad posibl, neu ynte a ydyw yn afresymol a gwrthebol ynddo ei hun? Dyma y cwestiwn penaf; oblegid os penderfynir fod damweiniaeth yn syniad afresymol a gwrthebol, yna yr ydym wedi ein cau i fyny i reidrwydd cyffredinol a hollol, ac nid oes lle yn aros i wneud ymchwiliad o barth ewyllys ddamweiniol. Ond os penderfynir ei fod yn syniad posibl a rhesymol, yna yr *ail* bwynt a fydd, penderfynu pa un ai damweiniol ai rheidiol yw yr ewyllys.

Y pwynt cyntaf yn unig a gaiff ei drafod genyf yn y lle hyn Perthyna yr ail yn briodol i'r ymchwiliad feddylegol sydd i fod ar ol hyn. Ond yr wyf yn myned yn mlaen i sylwi, yn ail, fod Edwards, yn ei ddadl yn erbyn ewyllys ddamweiniol, mewn gwirionedd yn cardota y pwnc mewn dadl. Yn y lle cyntaf, mae yn gosod yr ewyllys allan fel pe yn cael ei pheuderfynu yn rheidiol. Dygir hyn allan mewn dadl uniongyrchol a phendant a gynnwysir yn rhan gyntaf ei draethawd. Yma gwneir rheidrwydd yn gyffredinol a hollol. Yna, yn yr ail le, pan y daw i drafod damweiniaeth yn benigol, cymer yn ganiatâol ei fod yn golygu peth heb achos, ac fod rheidrwydd yn anwahanadwy oddiwrth y meddylddrych o achos. Yn awr, y mae hyn yn amlwg yn gardota y cwestiwn, yn gystal a'i gamgymeryd; oblegid pan ydym ni yn ymofyn pa un a oes rhywbeth yn ddamweiniol, hyny yw, rhywbeth gwrthwynebol i reidrwydd, mae efe yn *cychwyn* ei ddadl trwy ddal fod pob achos yn rheidiol, ac fod damweiniaeth yn cynnwys peth heb achos. Os ydyw pob achos yn rheidiol, a damweiniaeth yn golygu peth heb achos, pa ddyben ymofyn yn ngylch damweiniaeth; oblegid mae wedi ei benderfynu eisoes na ddichon damweiniaeth fod. Y gwir bwyntiau y cyrchwn ni ar eu hol, fel y gwelsom, ydynt y ddau hyn: pa un a ydyw damweiniaeth yn bosibl ai peidio; a pha un a oes yna rhyw achos, er enghraifft, yr ewyllys, sydd yn ddamweiniol.

Os ydyw Edwards wedi camgymeryd a begio y cwestiwn yn nghylch ewyllys ddameiniol, fel y tybiwyf yr ymddengys yn amlwg, yna wrth gwrs nid yw efe wedi penderfynu dim yn rhesymegol gyda golwg ar y pwnc.

Ond pa un bynag am hyny, gallwn ni fyned yn mlaen yn awr i ymofyn a ydyw damweiniaeth yn syniad posibl a rhesymol, ai ynte a ydyw yn un afresymol a gwrthebol.

Mae rheidrwydd a damweiniaeth yn ddau feddylddrych gwrthwynebol i'w gilydd. O leiaf ni allant gyd-fodoli yn yr un gwrthddrych. Yr hyn sydd reidiol ni ddichon fod yn ddamweiniol ar yr un pryd, ac i'r gwrthwyneb. Pa un a ydyw damweiniaeth yn syniad posibl ac yn meddu lle gyda golwg ar ryw wrthddrych, a erys i gael ei benderfynu.

Gadewch geisio cael darnodiad o'r meddylddrychau gwrthwynebol hyn: dechreuwn gyda rheidrwydd, oblegid fod y meddylddrych yma yn rhesymol ac yn goddef cymhwysiad gweithredol sydd ddiammheuol. Yr unig bwynt mewn dadl gyda golwg arno ydyw, pa un a ydyw yn gyffredinol, yn cymeryd i mewn bob bôd, achos, a dygwyddiad.

Beth yw rheidrwydd? Mae Edwards yn darnodi rheidrwydd dan ddau bwynt o olygiad:—

1. Yn cael ei olygu yn ei berthynas a'r ewyllys.
2. Yn cael ei olygu yn anmherthynol i'r ewyllys.

Mae y cyntaf yn tybio fod gwrthwynebiad ewyllys yn bosibl, ond yn annigonol;—er enghraifft: mae yn bosibl i mi osod fy llaw mewn gwrthwynebiad i ryferthwy llifeiriol, ond mae fy ngwrthwynebiad yn annigonol, ac mae rhuthr y rhyferthwy gyda golwg arnaf fi yn *rheidiol*.

Nid yw yr ail yn cymeryd ewyllys i ystyriaeth o gwbl, ac mae yn gymhwysiadwy at wrthddrychau lle nad yw gwrthwynebiad ewyllys yn dybiadwy; er enghraifft, rheidrwydd rhesymegol, mae *a* yn *b*, ac mae *c* yn *a*, gan hyny mae *c* yn *b*: rheidrwydd mesuronol, $2 \times 2 = 4$, canolbwynt cylch sydd bwynt cyfartal bell oddiwrth bob pwynt yn yr amgylchedd: rheidrwydd uchanianol, megys bodolaeth achos cyntaf, amser, a lle. Mae Edwards yn cynnwys yr ail fath yma o reidrwydd o dan yr enwad cyffredinol o reidrwydd uchanianol neu athronyddol. Mae yr ail fath yma o reidrwydd yn hollol, yn ddiammheuol felly. Mae yn anmhosibl dirnad am y gwrthddrychau hyn eu bod yn wahanol i'r peth ydynt. Nis gallwn ddirnad bob heb le; heb amser; neu fod $2 \times 2 = 5$, ac felly am y rhelyw.

Mae yn gwahan-nodi rheidrwydd o dan y naill olygiad a'r llall i reidrwydd neillduol a chyffredinol.

Rheidrwydd perthynasol, neillduol, sydd reidrwydd gyda golwg ar yr ewyllys unigol; cyffredinol felly, gyda golwg ar bob ewyllys.

Rheidrwydd uchanianol, neillduol, sydd reidrwydd anmherthynol i'r ewyllys unigol; cyffredinol, sydd anmherthynol i bob ewyllys.

Mae rheidrwydd perthynasol yn perthyn i'r ewyllys yn y cysylltiad rhwng ewyllysiadau a'u canlynyddion. Pan mae ewyllysiad unigolydd yn cymeryd lle, heb y canlynydd yr amcanwyd ato, oblegid fod gallu mwy yn ei erbyn, yna mae canlynydd y gallu mwy hwn yn rheidiol trwy reidrwydd perthynasol neillduol. Pan fyddo y gallu mwy yn fwy na phob ewyllys dybiadwy, yna cymer ei ganlynyddion le trwy reidrwydd perthynasol cyffredinol. Mae yn amlwg, pan yn son am bob ewyllys dybiadwy, na chynnwysir ewyllys Duw, gan nad all fod unrhyw allu mwy na'r ewyllysiad dwyfol.

Mae rheidrwydd uchanianol, pan yn neillduol, yn cau allan wrthwynebiad ewyllys unigol. O dan hyn y dwg Edwards y cysylltiad rhwng cymhelliad ac ewyllysiad. Dadleua fod gwrthwynebiad ewyllys yn cael ei gau allan o'r cysylltiad hwn, oblegid na all ewyllys weithredu ond yn unig trwy ewyllysiad, ac mae achos ewyllysiad ydyw cymhelliad. Mae ewyllysiad yn rheidiol trwy reidrwydd uchanianol neillduol, o herwydd na all ewyllys yr unigolydd fod mewn gwrthwynebiad iddo; ond nid trwy reidrwydd uchanianol cyffredinol, oblegid y gall ewyllysiau eraill fod mewn gwrthwynebiad iddo.

Mae rheidrwydd uchanianol, pan yn gyffredinol, yn cau allan wrthwynebiad pob ewyllys—hyd yn nod yr ewyllys anfeidrol. Fod $2 \times 2 = 4$—mai pwynt cyfartal bell oddiwrth bob pwynt yn yr amgylchedd ydyw canolbwynt cylch—fod amser a lle yn bod—ydynt oll yn wir a sylweddol, yn annibynol ar bob ewyllys. Nid ewyllys sydd wedi eu cyfansoddi, ac ni all eu dinystrio chwaith. Cynnwysai wrthddywediad i dybio eu bod yn wahanol i'r hyn ydynt. Yn ol Edwards, hefyd, mae yr ewyllysiadau dwyfol yn rheidiol trwy reidrwydd uchanianol cyffredinol, o herwydd, yn gymaint ag fod yr ewyllysiadau hyn yn cael eu hachosi gan gymhellion, ac fod yn rhaid i'r ewyllys anfeidrol, yn gystal ag ewyllys feidrol, weithredu trwy ewyllysiadau, y mae gwrthwynebiad o eiddo yr ewyllys anfeidrol ei hun yn cael ei gau allan yn y cynnyrchiad o ewyllysiadau anfeidrol.

Yn awr, beth yw y meddylddrych syml am reidrwydd a gynnwysir yn y ddau olygiad hyn, yn nghyda'u gwahaniaethiad dyblyg? *Rheidrwydd ydyw yr hyn sydd a'r hyn na ddichon yn bosibl beidio bod, neu fod yn wahanol i'r hyn ydyw.*

1. Dygwyddiad rheidiol trwy reidrwydd perthynasol neillduol, ydyw dygwyddiad sydd ac na ddichon yn bosibl beidio bod neu fod yn wahanol trwy rinwedd gwrthwynebiad ewyllys unigol.

2. Dygwyddiad rheidiol trwy reidrwydd perthynasol cyffredinol, ydyw dygwyddiad na ddichon yn bosibl beidio bod neu fod yn wahanol trwy rinwedd gwrthwynebiad pob ewyllys feidrol. Yn yr amgylchiadau hyn, mae gwrthwynebiad ewyllys wrth gwrs yn dybiadwy.

3. Mae dygwyddiad yn rheidiol trwy reidrwydd uchanianol neillduol,

pan y mae, ac na chaniatâ unrhyw wrthwynebiad posibl yr ewyllys unigol.

4. Mae dygwyddiad yn rheidiol trwy reidrwydd uchanianol cyffredinol, pan y mae, ac na all ganiatâu gwrthwynebiad hyd yn nod oddiwrth yr ewyllys anfeidrol.

Mae hyn oll, yn nhrychwaliad diweddaf cyfundrefn Edwards, yn dyfod yn rheidrwydd hollol. Mae yr ewyllys anfeidrol yn cael ei phenderfynu yn rheidiol trwy reidrwydd uchanianol cyffredinol. Mae pob dygwyddiad yn cael eu penderfynu yn rheidiol gan yr ewyllys anfeidrol. Yna, mae pob dygwyddiad yn cael eu penderfynu yn rheidiol trwy reidrwydd uchanianol cyffredinol. Nid ydyw rheidrwydd neillduol a pherthynasol ond rheidrwydd hollol a chyffredinol yn cael ei olygu mewn person a perthynas neillduol:—nid yw y termau ond yn unig yn nodweddu dull ein golygiad. Mae gwrthwynebiad yr ewyllys neillduol yn cael ei rhag-benderfynu gan yr ewyllys anfeidrol, yr hon sydd yn cynnwys pob peth, yn hollol reidiol i derfyn eithaf ei rym; ac y mae y grym gwrthwynebol sydd yn trechu gwrthwynebiad yr ewyllys unigol, yn cynnyrchu ei effeithiau yn rheidiol, nid yn unig gyda golwg ar yr ewyllys unigol, ond hefyd gyda golwg ar yr ewyllys anfeidrol yr hon sydd yn ei rhag-benderfynu yn rheidiol.

Ar ol sefydlu fel hyn ar ddarnodiad o reidrwydd, a hyny hefyd ar dir Edwards ei hun, y mae genym yn nesaf i ymofyn, beth ydyw y meddylddrych croes i ddameiniaeth, a pha un a oes ganddo le ai peidio fel syniad rhesymol?

Rheidrwydd ydyw yr hyn sydd, a'r hyn na all yn bosibl beidio bod, neu fod yn wahanol i'r hyn ydyw. Damweiniaeth ynte, fel y meddylddrych gwrthgyferbyniol iddo, raid fod *yr hyn sydd, neu a all fod, a'r hyn a allasai beidio bod, neu fod yn wahanol i'r hyn ydyw.* Yn awr, ni ddichon damweiniaeth feddu lle gyda golwg ar unrhyw beth sydd yn annibynol ar ewyllys;—amser a lle;—gwirioneddau mesuronol ac uchanianol, er enghraifft, sef fod pob cyfongl yn gyfarfal, fod pob effaith yn tybio achos, ni ddichon y cyfryw bethau fod yn ddamweiniol, oblegid eu bod yn wir a sylweddol ynddynt eu hunain. Nid ydynt yn cyfodi oddiwrth ewyllys, ac ni ellir dychymygu y gallai ewyllys eu cyfnewid, oblegid na ellir dirnad eu bod yn alluog i dderbyn cyfnewidiad o unrhyw ffynnonell. Os oes gan y meddylddrych o ddamweiniaeth le fel meddylddrych rhesymol, rhaid ei fod felly gyda golwg ar achosion, bôd, ac ymddangosiadau, sydd yn dibynu ar ewyllys. Effaith yr ewyllysiad dwyfol ydyw yr holl greadigaeth. "A Duw a ddywedodd, bydded goleuni, a goleuni a fu:" ac fel hyn y daeth yr holl greadigaeth i fod.

Yn awr gwna pawb gydnabod, nad ydyw y greadigaeth yn ymddangos yn rheidiol fel yr ymddengys fod amser a lle, a gwirioneddau cyngreddfol

a chasgliadau rhesymegol y meddwl. Ni allwn ddirnad am y pethau olaf hyn fel heb fodoli, neu yn peidio bodoli; ond gallwn ddirnad am y greadigaeth felly. Mae bod heb le yn syniad anmhosibl; ond mae bod heb gorff, neu le gwag, yn syniad dichonadwy; ac megys y gellir diddymu bodolaeth corff yn ein meddwl, felly hefyd gall ffurfiau a pherthynasau neillduol corff gael eu lluniaru mewn meddwl, yn ddiderfyn, o wahanol i'w ffurfiau gweithredol. Yn awr, os mynwn ddweyd mewn un gair y gwahaniaeth yma rhwng lle a chorff, neu y gwahaniaeth yn gyffredinol sydd rhwng yr hyn a fodola yn annibynol ar ewyllys, a'r hyn a fodola fel effaith ewyllys yn unig, galwn y cyntaf yn rheidiol; yr ail, yn ddamweiniol. Ni allwn ddirnad am y cyntaf i fod yn wahanol i'r hyn ydyw. Ond gallwn ddirnad hyny am yr ail. Yr hyn sydd wir am y greadigaeth o'u hystyried fel casgliad o fodau a phethau, sydd wir hefyd am yr holl ddygwyddiadau sydd yn cymeryd lle yn y greadigaeth. Mae yr holl ddygwyddiadau hyn yn uniongyrchol neu anuniongyrchol yn effeithiau ewyllys, ddwyfol neu ddynol. Yn awr gallwn feddwl am y pethau hyn heb fod o gwbl, neu yn bod yn dra gwahanol i'r hyn ydynt;—ac o dan y golygiad hwn galwn hwynt yn ddamweiniol.

Nid ydwyf yn meddwl fod neb a wâd ein bod yn gwneud fel yr ydym newydd osod allan, sef yn gallu dirnad y posiblrwydd i ddygwyddiadau a chreadigaethau ewyllys, naill ai bod heb feddu bodolaeth, neu ynte yn bod yn wahanol i'r hyn ydynt. Mae y syniad hwn yn gyffredin i bob dyn. Beth yw ystyr y cyfryw syniad? Ai dychymyg gwag? Rhaid mai dychymyg ydyw os ydyw cyfundrefn Edwards yn gywir; oblegid yn ol hon nid yw yn bosibl mewn gwirionedd i unrhyw ddygwyddiad o greadigaeth ewyllys fod heb fod o gwbl, na bod yn wahanol i'r hyn ydyw. Mae ewyllys yn cael ei phenderfynu gan gymhellion rhagflaenol iddi ei hun. Ac mae hyn yn gymhwysiadwy at yr ewyllys ddwyfol, yr un modd, yr hon a benderfynir gan ddoethineb reidiol ac anfeidrol. Rhaid, gan hyny, mai dychymyg hollol ydyw y syniad o'r posiblrwydd i'r hyn sydd fod yn wahanol i'r hyn ydyw. Ond er fod y gyfundrefn yn ein gwthio i'r casgliad rhesymegol yma, mae y syniad o hyd yn teyrnasu yn ein meddyliau, ac nid yw yn *ymddangos* i mi yn ddychymygol;—fel y mae canlyniad y gyfundrefn yn dyfod i wrthdarawiad gyda'n barnau naturiol a gwirfoddol. Nid oes ond ychydig o ddynion na ddychrynid hwy gan y dyb fod pob peth a phob dygwyddiad, (hyd yn nod ewyllysiadau gwastadol eu meddyliau), yn rheidiol hollol, mor reidiol a gwireb uchanianol neu wirionedd mesuronol,—yn rheidiol trwy reidrwydd nad yw yn gadael yr un posiblrwydd iddynt fod yn wahanol i'r peth ydynt yn weithredol. Nid oes ond ychydig o gefnogwyr duwinyddol cyfundrefn Edwards na ddychrynid hwy gan y dyb hon. Tybiwyf y gwnai y cyfryw rai yn gyffredin geisio

osgoi y casgliad llydan, trwy ddadleu nad yw y rheidrwydd cyffredinol a osodir allan yma, (gan mai rheidrwydd uchanianol yn unig ydyw), yn effeithio ar ganlynyddion yr ewyllys; fel os gall dyn wneuthur fel y myno, fod ganddo allu a rhyddid naturiol sydd yn ei ryddhau ef oddiwrth gadwen rheidrwydd uchanianol. Yr wyf wedi dangos eisoes mor hollol seithug ydyw y gwahaniaethiad ceisiedig hwn—mor gyflwyr mae rheidrwydd uchanianol yn cynnwys yr hyn a elwir rhyddid a gallu naturiol. Os na cheir rhyw noddfa well na hon i ffoi iddi, yna nid oes genym ddim i'w wneud ond datgan gyda Shelley, "Rheidrwydd, tydi fam y byd!"

Ond er yr holl anewyllysgarwch i osgoi oddiwrth reidrwydd cyffredinol, a ydyw cefnogwyr y gyfundrefn hon yn caniatâu fod rhywbeth gwrthwynebol i reidrwydd? Ond beth yw y rhywbeth hwnw? A ydynt yn dal fod dewisiad yn wrthwynebol i reidrwydd? Ond yn wrthwynebol pa fodd—a yw dewisiad yn ddamweiniol? A ydynt yn caniatâu y posiblrwydd y gallasai unrhyw ddewisiad sydd, beidio a bod, neu fod yn wahanol i'r peth ydyw?

Nid ydym yn ddiau yn gwahan-nodi dewisiad oddiwrth reidrwydd trwy yn unig ei alw yn ddewisiad, neu yn weithred yr ewyllys. Os nad ydyw ewyllys yn rheidiol, carem wybod dan ba ammod y mae yn bod. Mae yn amlwg fod ewyllysiad dan reidrwydd yn ol cyfundrefn Edwards, yn gymhwys fel y mae pob dygwyddiad arall o dan reidrwydd. Ac y mae y cysylltiad rhwng ewyllysiad a'i ganlynyddion yn gymhwys mor reidiol a'r cysylltiad rhwng ewyllysiad a'i gymhellion. Eglurwch, —paham yr ydych yn ymdrechu osgoi casgliad y gyfundrefn hon pan y deuwch at ewyllysiad? Paham yr ydych yn hawlio rhyddid yma? A oes genych *chwithau* farn naturiol a chyngreddfol yn erbyn ewyllys reidiol? Mae yn amlwg tra mae Edwards a'i ganlynwyr yn cofleidio yr athrawiaeth o reidrwydd yn ei hegwyddorion sylfaenol, arswydant rhag ei chymhwyso at ewyllys. I ddechreu sefydlant athrawiaeth rheidrwydd yn gyffredinol a hollol, ac yna hawliant eithriad i'r ewyllys oddiwrth y rheol gyffredin,—nid trwy nodi allan seiliau a natur y cyfryw eithriad yn rhesymegol a meddylegol, ond yn unig trwy appelio at farnau naturiol dynion, eu bod yn ystyried eu hunain yn rhyddion pan y maent yn gwneuthur fel y mynont; ond nid oes yr un darnodiad o ryddid yn cael ei roddi i'w wahan-nodi oddiwrth reidrwydd;—ac nid ydyw y farn naturiol a chyngreddfol yn erbyn rheidrwydd ewyllysiad yn cael ei hegluro na'i dangos fel peth heb fod yn ffug yn unig.

Mae yna feddylddrych gwrthwynebol i reidrwydd, ebe y farn naturiol yma—ac y mae yr ewyllys yn dyfod o dan y meddylddrych gwrthwynebol i reidrwydd. Ond pa beth ydyw y meddylddrych hwn, a pha fodd y daw yr ewyllys dano? Nid yw Edwards a'i ganlynwyr

wedi ateb y gofyniadau hyn—mae eu hymgais i roddi atebiad yn wrthebol ac ofer.

A oes yna rhyw feddylddrych gwrthwynebol i reidrwydd heblaw damweiniaeth, noder—yr hyn sydd neu a all fod, ac a allasai beidio bod, neu fod yn wahanol i'r hyn ydyw? Fod $2 \times 2 = 4$ yn wirionedd na allasai beidio bod, neu fod yn wahanol i'r hyn ydyw. Ond am y llyfr hwn sydd yn fy llaw, gallaf feddwl am y posiblrwydd iddo beidio a bod, neu fod yn wahanol i'r hyn ydyw, heb gynnwys unrhyw wrthddywediad, yn ol y farn naturiol a chyngreddfol hon.

Na allaf feddwl am y gwahaniaeth rhwng da a drwg yn peidio a bod, neu yn bod fel ag i drawsleoli y termau, gan wneud da yn ddrwg, a drwg yn dda. Ond am yr ewyllysiad a roddwyf allan yn awr i hwylio yr ysgrifbin yma ar y papyr, gallaf feddwl am hwn megys heb fod, neu yn bod dan fodd gwahanol, megys yn ewyllysiad i ysgrifenu geiriau gwahanol i'r rhai a ysgrifenwyf yn awr. Nad ydyw y meddylddrych yma o ddamweiniaeth yn ddychymygol a gwag, a ymddengys i mi yn cael ei benderfynu gan y ffaith, fod pob dyn yn ei feddu yn naturiol, ac yn ei groesawu fel y meddylddrych mwyaf rhesymol. Yn wir, mae hyd yn nod y rhai sydd yn dal yr athrawiaeth o reidrwydd, naill ai yn mabwysiadu y meddylddrych hwn gyda golwg ar ewyllys trwy wrthebiad, ac o dan sefyllfa gau, (megys cefnogwyr y gyfundrefn a wrthwynebir genyf er enghraifft), neu yn ymddygiad cyffredin bywyd, yn gweithredu arno. Ymddengys fod holl sefydliadau cymdeithas, pob llywodraeth a chyfraith, pob teimlad o euogrwydd ac edifeirwch, o glod a beiusrwydd, ac iaith ei hunan, yn sylfaenedig arno. Mae y meddylddrych o ddamweiniaeth fel yr eglurwyd uchod, mewn rhyw ffordd neu gilydd yn gysylltiedig wrth ewyllys, a'r holl greadigaethau a'r cyfnewidiadau a effeithir yn cyfodi o *ewyllys.*

Dylai y ffaith fod yr ewyllys yn d'od yn weithredol o dan y meddylddrych o ddamweiniaeth, gael ei dangos yn feddylegol os dangosir hi o gwbl. Rhaid i ymchwiliad i'r perwyl hwn gael ei gadw gan hyny erbyn adeg etto. Yn y lle yma, ni chaf ond yn unig ymofyn, pa fodd y gellir meddwl fod yr ewyllys yn dyfod o dan y meddylddrych o ddamweiniaeth?

Rhaid i ddamweiniaeth unrhyw ymddangosiad neu ddygwyddiad ddibynu ar natur ei achos. Wrth ymddangosiad neu ddygwyddiad damweiniol y deallwn yr hyn y gellir meddwl am dano megys heb fod erioed, neu yn bod yn wahanol i'r hyn ydyw; ond yn mha le y gorwedd y posiblrwydd iddo beidio a bod o gwbl, neu fod yn wahanol i'r hyn ydyw? Ni ddichon fod y posiblrwydd hwn yn gorwedd ynddo ei hun, o herwydd ni all effaith benderfynu dim gyda golwg ar ei fodolaeth. Ac ni all fod yn gorwedd chwaith mewn unrhyw beth nad yw yn achos iddo, oblegid ni all hyn benderfynu dim gyda golwg ar ei fodolaeth. Gan hyny, yr achos sydd yn rhoddi iddo ei fodolaeth, a bodolaeth dan

ei ffurf neillduol 'yn unig, a all gynnwys y posiblrwydd iddo beidio meddu bodolaeth o gwbl, neu fod yn bodoli dan ffurf wahanol i'r hyn ydyw. Ond beth ydyw natur y cyfryw achos? Achos ydyw, yr hwn wrth benderfynu dygwyddiad neillduol, sydd ar y pryd yn meddu gallu i benderfynu dygwyddiad gwahanol. Achos ydyw heb ei gadwyno i unrhyw ddosbarth o effeithiau trwy ei gyd-berthynas â dosbarth penodol o wrthddrychau—fel y mae tân, er enghraifft, wedi ei gadwyno wrth hylosgedd trwy ei gyd-berthynas â dosbarth neillduol o wrthddrychau pa rai a alwn yn hylosgion. Y mae yn achos ag y rhaid iddo feddu y neillduolrwydd hwn mewn gwrthwynebiad i bob achos arall, sef ei fod yn alluog o hono ei hun i gynnyrchu effaith a gynnyrchir ganddo, ac o unrhyw nifer o effeithiau tu fewn i'w allu, y gall gymeryd un o honynt mewn gwrthwynebiad i'r lleill oll; a'i fod ar yr un eiliad ag y mae yn cymeryd un effaith, yn meddu y gallu i gymeryd unrhyw effaith arall. Achos damweiniol ydyw, ac nid rheidiol. Gan hyny, mae damweiniaeth y dygwyddiad yn cyfodi oddiwrth ddamweiniaeth yr achos. Yn awr, mae yn rhaid i bob achos fod neu beidio bod yn achos rheidiol. Achos rheidiol ydyw un nad ellir meddwl am dano yn meddu gallu i weithredu yn wahanol i'w ddadblygiadau ar y pryd—rhaid i'r tân losgi—rhaid i at-dyniad dynu cyrff tuag at ganolbwynt y ddaear. Os oes yna rhyw achos gwahanol i hwn, rhaid mai yr achos damweiniol ddarnodwyd uchod ydyw, canys nid oes yna drydydd syniad. Gan hyny rhaid i ni ddewis rhwng rheidrwydd cyffredinol a hollol, a bodolaeth achosion damweiniol. Os cymerwn reidrwydd cyffredinol a hollol, yna rhaid i ni gymeryd ei holl ganlyniadau hefyd, fel y tynwyd hwynt yn Rhan II. Nid oes yr un ddiangfa ddichonadwy rhag hyn. Megys gan hyny y rhaid i bob achos fod naill ai yn rheidiol neu yn ddamweiniol, yr ydym yn gosod ewyllys dan y meddylddrych o ddamweiniaeth, gan ei golygu fel achos damweiniol—"yn allu i wneuthur, neu i beidio gwneuthur,"* neu yn gynneddf penderfyniad "i wneuthur, neu i beidio gwneuthur rhywbeth a olygwn sydd yn ein gallu."†

Gallwn ymholi yma, yn mha le y gorwedd rheidrwydd achos gwrthwynebol i achos damweiniol? Mae ei reidrwydd yn gorwedd yn ei natur hefyd. Beth yw ei natur? Natur ydyw sydd mewn cyd-berthynas sefydledig gyda gwrthddrychau penodol, fel mae yn anamgyffredadwy y gallai ei ymddangosiad fod yn wahanol i'r hyn y mae sylw maith a sefydlog yn ei osod iddo. Y mae yn anamgyffredadwy y gallai tân beidio llosgi pan y teflir ef i ganol hylosgion; mae yn anamgyffredadwy y gallai dwfr beidio rhewi ar dymheredd rhewllyd. Ond a ydyw hyn yn rheidrwydd *per se*, neu yn rheidrwydd penderfyn-

---

* Cousin † Dr. Reid.

edig? Y mae yn rheidrwydd penderfynedig—wedi ei benderfynu gan yr ewyllys greadigol. Os ydyw y creadur o dan ddeddf rheidrwydd, yna wrth gwrs mae pob achos benderfynir gan ewyllys yn dyfod yn rheidrwydd hollol.

Yr unig reidrwydd *per se* a geir yn y ddoethineb anfeidrol ac angenrheidiol hòno yn mha un y gesyd Edwards y cymhellion sydd yn penderfynu yr ewyllys ddwyfol. Mae pob gwirionedd cyngreddfol a'i gasgliad rhesymegol yn rheidiol *per se*. Ond mae yr ewyllys ddwyfol yn rheidiol trwy reidrwydd penderfynedig yn ol cyfundrefn Edwards,—ac felly am bob ewyllys arall ac am bob achos arall, sydd yn dibynu ar ewyllys—a'r ewyllys ddwyfol ydyw yr ewyllys benderfynedig gyntaf. Rhaid i ni alw i gof, modd bynag, yn ol damcaniaeth Edwards o barth achosaeth, fod achos bob amser yn cael ei benderfynu o'r tu allan iddo ei hun; ac mewn canlyniad nad all fod yr un achos rheidiol *per se;* ac etto ar yr un pryd yn ol y ddamcaniaeth hon, y mae rheidrwydd hollol trwy holl achosaeth.

Yn awr, gadewch i ni ystyried y canlyniad o wneuthur ewyllys yn achos damweiniol. Yn y lle cyntaf, mae yr ewyllys ddwyfol genym fel achos damweiniol cyntaf a goruchaf. Yna yn ganlynol, yn yr ail le, mae pob achos ordeiniedig gan yr ewyllys ddwyfol, (a'u hystyried fel effeithiau), yn ddamweiniol. Gallasent beidio bod. Gallasent ddarfod bodoli. Gallasent fod yn wahanol i'r hyn ydynt. Ond yn y trydydd lle, nid yw yr achosion hyn, a'u golygu fel achosion, oll yn ddamweiniol. Ewyllys yn unig sydd yn ddamweiniol. Mae achosion anianyddol yn rheidiol trwy reidrwydd penderfynol. Maent yn rheidiol fel y'u sefydlwyd gan yr ewyllys ddwyfol. Maent yn rheidiol trwy reidrwydd perthynasol—perthynasol gyda golwg ar yr ewyllys ddwyfol. Rhoddant allan eu *nisus*, a chynnyrchant effeithiau trwy ddeddf sefydlog a digyfnewid, a sefydlwyd gan yr ewyllys ddwyfol. Ond mae ewyllys o natur, (wedi ei gwneuthur yn ol delw), yr ewyllys ddwyfol. Mae yr ewyllys ddwyfol yn allu anfeidrol, ac yn medru gwneuthur pob peth posibl i achos. Mae yr ewyllys grëedig yn allu meidrol, a hi a ddichon wneuthur yr hyn sydd o fewn ei gallu yn unig. Ni chyfyngir ei hewyllysiadau neu ei hegnïon neu ei *nisus* i wneuthur, ond yn unig gan derfynau ei dealltwriaeth. Gall wneud egni, rhoddi ewyllysiad, neu *nisus* i wneuthur unrhyw beth y gallwn feddwl am dano—ond mae y cynnyrchiad gweithredol o effaith tu allan iddi ei hun, yn dibynu ar y cysylltiad offerynol ac anianyddol a sefydlwyd gan yr ewyllys ddwyfol rhyngddi (ewyllys y creadur) a'r byd, o'r tu allan. O'r holl ewyllysiadau neu y *nisus* o fewn ei gallu, ni orfodir hi i'r un o honynt, ond gall gymeryd unrhyw un o honynt, unrhyw adeg; ac ar yr eiliad y mae yn gwneud un ewyllysiad neu *nisus*, medda y gallu i wneuthur unrhyw un arall.

Mae yn amlwg, yn mhellach, fod ewyllys yn achos effeithiol, hanfodol, a chyntaf. Pa achosion eraill bynag a fodolant, a benderfynir ac a sefydlir gan ewyllys, a chan hyny a elwir yn briodol yn achosion eilraddol neu offerynol. Ac megys mai ni ein hunain ydyw ewyllys, rhaid i ni yn mlaen pob dim, gael ein meddylddrych o achos oddiwrthym ein hunain. Ni allwn weled trwy yr achosion naturiol hyn—yn unig ni a ganfyddwn eu hymddangosiadau; ond yr ydym yn adnabod ein hunain yn *nisus* cyntaf achosaeth.

Gan hyny mae rhesymu oddiwrth yr achosion eilraddol hyn atom ein hunain, yn ddiau yn gwrthdroi trefn naturiol pethau ar y pwnc yma. Yn awr beth ydyw sail yr holl ddadwrdd yma yn erbyn damweiniaeth? A ydych yn dywedyd ei fod yn gosod allan ymddangosiadau fel yn bodoli heb achos? Yr ydym yn ei wadu. Yr ydym ni yn gosod damweiniaeth yn wrthwynebol nid i achos, ond i reidrwydd. A ydych chwi yn dywedyd ei fod yn wrthwynebol i'r ymddangosiad o achosaeth anianyddol? Yr ydym yn ateb nad oes genych hawl i resymu oddiwrth achosion anianyddol at yr achos hwn, sef eich hunain. Oblegid yn y cyffredin nid oes genych hawl i resymu oddiwrth ddeddfau a pdriodoleddau defnydd at yr eiddo meddwl. A ydych yn dal fod damweiniaeth yn athrawiaeth afresymol a niweidiol—yna trowch ac edrychwch ar yr athrawiaeth o reidrwydd hollol yn ei holl gysylltiadau a'i chanlyniadau, ac yn mha le y saif mantol afresymolder a drygedd canlyniadau? Ond yr ydym yn gwadu fod yna unrhyw beth afresymol a niweidiol mewn damweiniaeth fel yr eglurwyd ef uchod. Nad ydyw yn niweidiol, ond i'r gwrthwyneb, ei fod yn sylfaen cyfrifoldeb moesol a chrefyddol, a ymddengys yn eglur yn nghwrs ein hymchwiliadau.

Ar ol yr hyn a ddywedwyd eisoes yn y tudalenau blaenorol, tybed nad yw yn angenrheidiol gwneuthur unrhyw atebiad pellach i'r honiad ei fod yn afresymol.

Mae un ffurf dan yr hon y daw yr honiad yma i'r wyneb, modd bynag, yr hwn ar y cyntaf a ymddengys mor olygus fel y maddeuir i mi am barhau yr ymdriniaeth i'r dyben i'w ystyried. Y mae fel y canlyn: Nad ydym, wrth roi damweiniaeth i'r ewyllys, yn cyfrif am fod ewyllysiad yn y naill gyfeiriad yn hytrach na'r llall. Dan y meddylddrych o ddamweiniaeth, dadleuir fod yr ewyllys yn ddifater gyda golwg ar unrhyw ewyllysiad. Pa fodd gan hyny y gallwn ni egluro y ffaith ei bod yn myned allan o'r cyflwr hwn o ddifaterwch i wneud dewisiad neu ewyllysiad?

Mewn atebiad i hyn, yr wyf yn sylwi:—Y mae wedi cael ei wneuthur yn eglur eisoes, fod detholiad a phenderfyniad neillduol yn perthyn i bob achos. Mewn achosion anianyddol, mae y detholiad a'r penderfyniad neillduol hwn yn gorwedd yn nghyd-berthynas natur yr achos gyda gwrthddrychau neillduol; ac y mae y cyfryw ddetholiad a phen-

derfyniad neillduol yn rheidiol trwy reidrwydd benderfynwyd tu allan i'r achos ei hun—hyny yw, penderfynir hwynt gan yr ewyllys greadigol, yr hon a roddes ddechreuad i'r achosion anianyddol ac eilraddol. Yn awr deil Edwards fod detholiad a phenderfyniad neillduol ewyllys yn cymeryd lle yn yr un ffordd. Mae natur yr ewyllys mewn cyd-berthynas â gwrthddrychau penodol, a chan fod y natur hon wedi ei sefydlu gan yr ewyllys greadigol, (yr hon a roddes ddechreuad i'r ewyllys ddibynol ac eilraddol), mae detholiad a phenderfyniad neillduol ewyllys yn rheidiol trwy reidrwydd benderfynwyd tu allan iddi ei hun. Ond i ewyllys reidiol, nid oes genym ddim i'w osod yn wrthgyferbyniol oddieithr ewyllys sydd a'i hewyllysiadau heb fod yn cael eu penderfynu gan gyd-berthynas ei natur hi gyda gwrthddrychau penodol—ewyllys, yn wir, yr hon nad yw ei natur mewn cyd-berthynas gydag unrhyw wrthddrychau, ond ewyllys ddifater: oblegid pe byddai ei natur mewn cyd-berthynas â gwrthddrychau, byddai iddynt ddylanwadu ar ei detholiad a'i phenderfyniad neillduol, ac mewn canlyniad deuai ei gweithrediad yn rheidiol, a hyny hefyd trwy reidrwydd tu allan iddi ei hunan, ac wedi ei benderfynu gan yr ewyllys anfeidrol. Mewn trefn i osgoi rheidrwydd hollol a chyffredinol, gan hyny, rhaid i ni feddwl am ewyllys yn ffurfio ewyllysiadau neillduol a phendant, neu mewn geiriau eraill, yn gwneuthur *nisus* tuag at wrthddrychau neillduol, heb unrhyw gyd-berthynas rhwng ei natur a'r gwrthddrychau. A ydyw hwn yn syniad rhesymol? Nid yw yn syniad posibl, os ydyw yr ewyllys a'r teimladrwydd neu y serchiadau yr un peth—oblegid y gwir ddarnodiant o ewyllys wedi hyn fyddai gallu mewn cyd-berthynas a gwrthddrychau, ac yn cael effeithio arno yn rheidiol ganddynt.

Ond yn awr gadewch i ni feddwl am yr ewyllys fel gallu gweithiol neu achos pur yn unig, yn wahaniaethol oddiwrth y teimladrwydd neu serchiadau—yn achos galluog i gynnyrchu cyfnewidiadau neu effeithiau gyda golwg ar amrywiaeth mawr o wrthddrychau, ac yn ymwybodol ei fod yn alluog i hyn, ond yn ymwybodol hefyd nad ydyw yn cael ei dynu at yr un o honynt, gan unrhyw berthynas reidiol. A ydyw hwn yn syniad rhesymol? Mae yn wir ei fod yn syniad am achos gwahanol i bob achos arall; ac ar y syniad hwn nid oes ond dau *fath* o achosion. Yr anianyddol, pa rai a benderfynir yn rheidiol trwy gyd-berthynas eu natur a gwrthddrychau neillduol, ac ewyllys, yr hon sydd weithgarwch pur nad ydyw yn cael ei phenderfynu felly, a chan hyny nad ydyw yn rheidiol, ond damweiniol.

Yn awr, gallaf gymeryd hwn fel syniad rhesymol, os nad ellir nodi allan ei afresymolder amlwg, neu y gellir profi ei fod yn cynnwys rhyw wrthebiad.

A ydyw y gwrthddadleuydd yn haeru, fel afresymolder dybryd, nad oes yna, ar ol y cwbl, ddim i gyfrif am y penderfyniad neillduol? Yr

wyf yn ateb fod y penderfyniad neillduol yn cael cyfrif am dano yn ansawdd neu briodoledd yr achos. Yn amgylchiad achos anianyddol, rhoddir cyfrif am y penderfyniad neillduol yn ansawdd yr achos, yr hwn ansawdd sydd i fod mewn cyd-berthynas reidiol gyda'r gwrthddrych. Yn amgylchiad ewyllys, rhoddir cyfrif am y penderfyniad neillduol yn ansawdd yr achos, yr hwn ansawdd sydd i feddu y gallu i wneuthur y penderfyniad neillduol heb fod mewn cyd-berthynas reidiol gyda'r gwrthddrych. Achos wedi ei sefydlu, a'i benderfynu, a'i orfodi ydyw achos anianyddol. Achos rhydd a damweiniol yw yr ewyllys. Achos anianyddol sydd achos offerynol achos cyntaf—mae yr ewyllys yn achos cyntaf ei hun. Yr ewyllys anfeidrol ydyw yr achos cyntaf sydd yn preswylio tragwyddoldeb, yn llenwi anfeidroldeb, ac yn ddiderfyn yn ei allu. Yr ewyllys ddynol ydyw yr achos cyntaf sydd yn ymddangos mewn amser, yn gyfyngedig i le, ac yn feidrol yn ei allu; ond y mae yr un mewn math, wedi ei wneuthur ar ddelw yr ewyllys anfeidrol; fel achos cyntaf mae yn hunan-symudol, yn gwneuthur ei *nisus* o hono ei hun; ac o fewn cylch ei weithgarwch, a chyda golwg ar ei wrthddrychau, mae ganddo y gallu i ddethol unrhyw wrthddrych neillduol trwy weithred arglwyddiaethol. Y mae yn achos sydd a'i holl weithrediadau yr hwn, yn gystal ag unrhyw weithred neillduol o'i eiddo, (o'u hystyried fel ymddangosiad yn galw am achos), yn cael cyfrif am danynt ynddo ei hun yn unig. Nid yw hyn yn gwneuthur yr ewyllys grëedig yn annibynol ar yr ewyllys ddigrëedig. Y mae y ffaith noeth mai ewyllys grëedig yw, yn setlo ei dibyniaeth. Mae y gallu a'i creodd hefyd, wedi gosod terfynau iddi, ac yn abl i'w ddiddymu. Mae y gallu a'i creodd, wedi ordeinio a sefydlu yr offerynau, trwy ba rai y mae ewyllysiadau yn cynnyrchu effeithiau. Gallai y dyn wneuthur yr ewyllysiad neu *nisus*, i symud mynydd, ond mae ei fraich yn ffaelu cario yr ewyllysiad allan. Cynnyrchir ei ewyllysiadau yn rhydd o hono ei hun; maent yn ddiattalfa o fewn cylch yr ewyllys roddwyd iddo, ond cyferfydd ar bob tu ag achosion anianyddol sydd yn gryfach nag ef, pa rai, yn offerynol gan yr ewyllys ddwyfol, sydd yn peri i'r ewyllys grëedig adnabod ei gwendid a'i dibyniaeth.

Ond er mai gweithgarwch neu achos damweiniol, arglwyddiaethol, rhydd, a difater fel hyn ydyw yr ewyllys, y mae yn achos sydd wedi ei huno gyda theimladrwydd a rheswm; ac yn ffurfio unoliaeth yr enaid. Ewyllys, rheswm, a theimladrwydd neu y serchiadau, sydd yn cyfansoddi meddwl, neu ysbryd, neu enaid. Er fod yr ewyllys yn arglwyddiaethol a damweiniol, etto nid yw yn canlyn fod yn *rhaid* iddi weithredu heb unrhyw olwg ar reswm neu deimlad.

Y mae genyf etto i wneuthur fy appeliad at ymwybodaeth; nid wyf yn awr ond yn rhoddi cynllun o feddyleg mewn trefn i brofi y posibl-

rwydd o ewyllys ddamweiniol, ac nad oes genym ddim arall i'w osod mewn gwrthgyferbyniad i reidrwydd hollol a chyffredinol.

Yn ol y cynllun hwn, yr ydym yn edrych ar yr ewyllys fel *gweithredydd* yr enaid. Mae yn weithredydd sydd yn meddu bywyd a gallu ynddo ei hun, heb gael ei benderfynu yn rheidiol yn yr un o'i weithrediadau, ond yn allu i wneuthur, neu i beidio gwneuthur. Yr ydym yn edrych ar *reswm* fel y *deddf-roddwr.* Mae yn "ffynnonell a sylwedd" gwirionedd pur, digyfnewid, tragwyddol, ac angenrheidiol. Hwn sydd yn dysgu ac yn gorchymyn yr ewyllys weithredol beth ddylid ei wneuthur. Y teimladrwydd neu y serchiadau, neu y dymuniad, ydyw eisteddle mwynhad: dyma ydyw y cyfaddasrwydd i bleser a phoen. Gwrthddrychau sydd yn dal y berthynas o ddymunol neu annymunol gyda'r teimladrwydd, ydynt mewn cyd-berthynas ag ef; ac yn ol graddau y cyfryw gyd-berthynas, mae y cyffroadau a'r nwydau yn cael eu deffroi.

Yn nesaf, cymerer yr ewyllys fel prif neillduolrwydd personoliaeth, neu yn fanylach, megys personoliaeth ei hun. Wrth bersonoliaeth, golygwyf y myfi, myfi fy hun. Mae y personoliaeth—y myfi—yr ewyllys, (achos hunan-symudol,) yn cyfeirio ei hun trwy weithred o sylw at y rheswm, ac yn derbyn deddfau ei gweithrediad. Mae y dirnadiad o'r deddfau hyn yn cael ei ddilyn gyda yr argyhoeddiad o'u huniondeb, ac ymdeimlad o rwymedigaeth yn eu gwyneb; ar yr un pryd, mae yna ymwybodaeth o allu i ufuddhau neu anufuddhau iddynt.

Etto, bydded i'r ewyllys gael ei thybio yn cyfeirio ei hun mewn gweithred o sylw at y cyffroadau pleserus sydd yn nglŷn â phresenoldeb gwrthddrychau neillduol; a'r cyffroadau poenus sydd yn nglŷn â phresenoldeb gwrthddrychau eraill; ac yna mae y dymuniad am bleser, a'r awydd i osgoi poen, yn d'od yn rheolau gweithrediad. Y mae yma etto yr ymwybodaeth o allu i wrthsefyll neu gydffurfio ag erfyniadau dymuniad. Gall yr ewyllys gyfeirio ei hun at y gwrthddrychau hyny sydd yn cynnyrchu pleser, neu eu gwrthod, a chyfeirio ei hun at y gwrthddrychau hyny na chynnyrchant namyn poen a diflasrwydd.

Gallwn etto dybio dau gyflwr o eiddo y rheswm a'r teimladrwydd gyda golwg ar eu gilydd; cyflwr o gytundeb a chyflwr o anghytundeb. Os bydd y serchiadau yn tueddu at y gwrthddrychau a gymeradwyir gan y rheswm, yna cawn y cyflwr cyntaf. Os bydd y serchiadau yn cael eu gwrthdaro mewn anfoddhad gan y gwrthddrychau gymeradwyir gan y rheswm, yna cawn yr ail gyflwr. Yn y cyflwr cyntaf, mae yr ewyllys, yn boddhau y teimladrwydd, wrth ufuddhau i'r rheswm, ac i'r gwrthwyneb. Yn yr ail, mae yn gwrthwynebu y teimladrwydd, wrth ufuddhau i'r rheswm, ac yn y gwrthwyneb.

Yn awr, pe byddai yr ewyllys yn cael ei llywodraethu bob amser gan y rheswm uchaf, heb y posiblrwydd o wrthwynebiad, byddai yn ewyllys

reidiol; a phe byddai yn cael ei llywodraethu bob amser gan y dymuniad cryfaf, heb bosiblrwydd gwrthwynebiad, byddai yn ewyllys reidiol: yn gymaint felly ag yn nghyfundrefn Edwards, lle y mae y dymuniad cryfaf a'r ewyllysiad yn cael edrych arnynt yr un.

Gan hyny, yr unig ddiangfa rhag rheidrwydd, ydyw y syniad am ewyllys yn ol y darnodiad uchod—gallu ymwybodol, hunan-symudol, yr hwn a all ufuddhau i reswm yn groes i'r teimlad, neu i'r teimlad yn groes i reswm, neu i'r ddau yn eu hundeb cydgordiol; ac yn olaf, gallu yr hwn a ddichon weithredu mewn difaterwch i'r oll, hyny ydyw, gweithredu heb gyfeiriad at reswm na theimlad. Yn awr, pan fyddo yr ewyllys yn ufuddhau i ddeddfau y rheswm, a ofynir, beth ydyw achos y weithred o ufudd-dod? Yr ewyllys ydyw achos gweithred ei hun; mae yn achos *per se*, yn achos ymwybodol a hunan-symudol; ufuddha i reswm trwy ei hegnïad ei hun. Pan ufuddhao yr ewyllys i'r dymuniad cryfaf, a ofynwn, beth ydyw achos yr act o ufudd-dod? Yma etto, yr ewyllys ydyw achos ei hact ei hun. A elwir arnom i esgyn yn uwch? Nyni a ddeuwn o'r diwedd at y cyfryw allu hunan-symudol a damweiniol, neu ynte rhaid i ni ddarostwng pob peth i reidrwydd hollol. Tybier, pan fyddo yr ewyllys yn ufuddhau i'r rheswm, ein bod yn ceisio ei egluro trwy ddweyd, fod ufudd-dod i'r rheswm yn deffroi y dymuniad cryfaf, neu y syniad o'r mwyaf dymunol: yna gallwn ofyn, paham y mae yr ewyllys yn ufuddhau i'r dymuniad cryfaf? ac yna gallwn ymgais ag egluro hyn etto trwy ddweyd, mai ufuddhau i'r dymuniad cryfaf sydd yn ymddangos yn fwyaf rhesymol. Mae yn amlwg y gallem, gyda yr un priodoldeb, gyfrif am ufudd-dod i deimlad, trwy gyfeirio at reswm; a chyfrif am ufudd-dod i reswm trwy gyfeirio at deimlad. Os yw gweithred yr ewyllys sydd yn myned yn nghyfeiriad y rheswm, yn cael ei hachos yn y teimladrwydd; yna gall gweithred yr ewyllys sydd yn myned yn nghyfeiriad y teimladrwydd, gael ei hachos yn y rheswm. Ond nid yw hyn ond symud mewn cylch, heb fod yn myned un cam yn mlaen. Paham yr ufuddha yr ewyllys i'r rheswm? am ei fod y mwyaf dymunol; ond paham yr ufuddha yr ewyllys i'r mwyaf dymunol? oblegid fod ufuddhau i'r mwyaf dymunol yn ymddangos y peth mwyaf rhesymol.

Gellid meddwl am weithrediadau yr ewyllys yn debyg i wirioneddau cyngreddfol a chyntaf. Nid yw gwirioneddau cyntaf yn gofyn am brawf; ni chaniatânt yr un; maent yn ffurfio sail pob prawf. Gweithrediadau yr ewyllys ydynt symudiadau cyntaf achosion cysefin, ac fel y cyfryw ni ofynant ac ni chaniatânt achosion rhagflaenol i egluro eu gweithrediad. Ewyllys ydyw ffynnonell a sail pob achos arall. Eglura bob achos arall, ond ynddi ei hun ni chaniatâ unrhyw eglurhad. Gesyd gerbron y *ffaith* gysefin a holl-gynnwysol o allu. Yn Nuw, mae ewyllys yn anfeidrol, yn achos cyntaf, ac yn anghrëedig; mewn dyn,

mae yn feidrol, yn achos cyntaf, wedi ei chyfansoddi gan weithred greadigol Duw, ond nid yn rheidiol, canys pe yn rheidiol, ni byddai yn ewyllys, ni byddai yn allu yn ol delw y gallu dwyfol; ni byddai ond achos anianyddol neu eilraddol, ac yn cael ei chynnwys yn nghadwen rhagflaenorion a chanlynyddion naturiol.

Mae ewyllys Duw yn egluro creadigaeth fel ffaith sydd yn bod; mae ewyllys dyn yn egluro ei holl ewyllysiadau. Pan yr awn i ymofyn yn nghylch gweddnodau y creadigaeth, yr ydym yn dwyn i mewn y meddylddrych o ddoethineb a daioni anfeidrol. Ond pan yr ydym yn ymofyn *paham* yr ufuddhaodd ewyllys Duw i ddoethineb a daioni anfeidrol, rhaid i ni naill ai arddangos fod ei ewyllys yn cael ei gorfodi gan ddoethineb a daioni anfeidrol, a chymeryd i ganlyn hyn holl ganlyniadau hollol reidrwydd; neu ynte rhaid ymfoddloni i sefyll gyda yr ewyllys ei hun fel achos cyntaf, damweiniol ac nid rheidiol, yr hon, tra yn egluro yr holl effeithiau, nad yw yn gofyn nac yn caniatâu unrhyw eglurhad ei hun.

Pan yr awn i ymofyn yn nghylch gweddnodau ewyllysiad dynol, yr ydym yn dwyn i mewn y meddylddrych o dda a drwg; yr ydym yn edrych ar berthynasau y rheswm a'r teimladrwydd. Ond pan yr ymofynwn *paham* y mae yr ewyllys yn ufuddhau i reswm yn awr, ac i deimlad bryd arall; a phaham i'r teimlad hwn, ac nid y llall, y llall ac nid hwn; rhaid i ni naill ai gosod allan fod yr ewyllys yn cael ei gorfodi, a chymeryd holl ganlyniadau ewyllys reidiol, neu sefyll yma hefyd gyda yr ewyllys ei hun, fel achos cyntaf, nid rheidiol, ond damweiniol, yr hon, wrth egluro ei hewyllysiadau ei hun, nad yw yn gofyn nac yn goddef unrhyw eglurhad ei hun, amgen na'i bod fel ewyllys feidrol a dibynol yn galw am gael ei chyfeirio at yr ewyllys anfeidrol i gyfrif am y ffaith o'i bodolaeth.

Nid yw Edwards, tra yn beichio y pwnc o benderfyniad yr ewyllys gyda chanlyniadau erchyll, yn ei gwaredu oddiwrth yr un anhawsder. Gesyd i lawr, mae yn wir, ddeddf unffurf o benderfyniad; ond y mae yn ymofyniad pellach, yr hwn nid yw yn cymeryd arno ei ateb. Mae penderfyniad yr ewyllys, neu yr ewyllysiad, bob amser, fel y mae y mwyaf dymunol, ac yn syniad o'r mwyaf dymunol. Ond tra y cydnabyddir nad yw yr ewyllys ond un gallu neu gyfaddasrwydd syml, cyfyd oddiwrthi amrywiaeth diderfyn o ewyllysiadau; ac ewyllysiadau ar un adeg hollol groes i ewyllysiadau ar adeg arall. Cyfyd y gofyniad yn awr, pa fodd y mae yr un gallu syml hwn yn dyfod i gynnyrchu ewyllysiadau mor amrywiol? Dywedir mewn atebiad, beth bynag fyddo yr ewyllysiad, ei fod ar y pryd yn syniad o'r mwyaf dymunol: ond mae ei fod bob amser yn syniad o'r mwyaf dymunol, yn cyfeirio yn unig at ei berthynas gyda yr ewyllys ei hun; mae yr ewyllysiad, a'i ystyried ynddo ei hun, ar un adeg yn dda, adeg arall yn ddrwg: ar un

adeg yn rhesymol, adeg arall yn ynfyd. Mae yr ewyllysiad mewn gwirionedd yn amrywio, er, gyda golwg ar yr ewyllys, ei fod bob amser yn rhoddi arno ei hun y gweddnod o'r mwyaf dymunol. Gan hyny, mae y pwnc yn dychwelyd, pa fodd y mae y gallu syml hwn yn penderfynu y fath amrywiaeth o ewyllysiadau, gan eu harddangos bob amser iddo ei hun fel y mwyaf dymunol? Y mae yna dair ffordd i ateb hyn. Yn *mlaenaf*, gallwn dybio fod *cyflwr* yr ewyllys neu y teimladrwydd yn aros heb newid, ac fod y gwahanol ewyllysiadau yn cael effeithio arnynt gan amgylchiadau a chyflyrau gwahanol y gwrthddrychau perthynol iddynt. Yn *ail*, gallwn dybio fod amgylchiadau a chyflyrau y gwrthddrychau yn aros heb newid, ac fod y gwahanol ewyllysiadau i gael effeithio arnynt trwy gyfnewidiadau yn *nghyflwr* y teimladrwydd, neu ewyllys, perthynol i'r gwrthddrychau. Neu yn *drydydd*, gallwn dybio fod cyflwr yr ewyllys, ac amgylchiadau a chyflyrau y gwrthddrychau yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau, ar un ochr neu ar y ddwy, ac felly yn rhoddi bodolaeth i'r *gwahanol* ewyllysiadau. Ond nid ydyw ein cwestiynau oll ar ben etto. Ar y dybiaeth gyntaf, ymgyfyd y gofyniad, pa fodd y mae amgylchiadau a chyflyrau gwahanol y gwrthddrychau yn cael eu dwyn o amgylch? Ar yr ail dybiaeth, pa fodd y mae y cyfnewidiadau yn nghyflwr y teimladrwydd yn cael eu heffeithio? Ar y drydedd dybiaeth, pa fodd y mae y cyfnewidiadau yn y naill a'r llall, ar un ochr, neu ar y ddwy, yn cael eu heffeithio? Pe gellid dywedyd, fod y teimladrwydd yn newid ei hun gyda golwg ar y gwrthddrychau, yna gofynem, paham y mae y teimladrwydd yn dewis ar un adeg, fel y mwyaf dymunol iddo ei hun, yr hyn sydd dda a rhesymol, ac ar adeg arall, yr hyn sydd ddrwg ac ynfyd? Neu pe gellid dywedyd, fod gan y gwrthddrychau allu i newid eu hamgylchiadau a'u cyflyrau eu hunain, yna gofynem hefyd, paham y mae y gwrthddrychau yn trefnu eu hunain fel ag i beri i'r da a'r rhesymol ymddangos i fod y mwyaf dymunol ar un adeg, a'r drwg a'r ynfyd, i fod felly, ar adeg arall?

Y cwestiynau pellaf hyn ydyw y gofyniadau nad ydyw Edwards yn cymeryd arno i'w hateb. Y cymhelliad trwy ba un y cyfrif efe am fodolaeth yr ewyllysiad, a ffurfir o gyd-berthynas cyflwr yr ewyllys, a natur ac amgylchiadau y gwrthddrych. Ond pan fyddo y cyd-berthynas yn gyfryw fel ag i roddi yr ewyllysiad yn nghyfeiriad yr hyn sydd dda a rhesymol, mewn gwrthwynebiad i'r hyn sydd ddrwg ac afresymol—yr ydym yn gofyn *paham* y dyry y cyd-berthynas yr ewyllysiad yn y cyfryw gyfeiriad? Os dywedir fod yr ewyllysiad yn y cyfryw gyfeiriad yn ymddangos y mwyaf dymunol, nid yw yr atebiad ond ailadroddiad o'r gofyniad; oblegid mae y gofyniad yn dyfod yn syml i hyn:—paham y mae y cyd-berthynas y fath fel ag i beri fod y naill yn ddymunol yn hytrach na'r llall? Ni all yr ewyllysiad (yr hwn nid yw

ei hun amgen na'r syniad o'r mwyaf dymunol) gael ei egluro trwy ddal ei fod bob amser fel y mae y mwyaf dymunol. Y pwnc sydd i'w egluro yw, paham mae y meddwl yn cyfnewid ei gyflwr gyda golwg ar y gwrthddrychau? neu paham mae y gwrthddrychau yn cyfnewid eu perthynasau a'r meddwl, fel ag i gynnyrchu y syniad yma o'r mwyaf dymunol mewn un cyfeiriad yn hytrach na'r llall? Mae yr anhawsder yn hollol o'r un natur a'r anhawsder dybir sydd yn bod yn amgylchiad ewyllys ddamweiniol. Mae yr ewyllys yn myned yn *awr* yn nghyfeiriad rheswm, ac yn awr yn nghyfeiriad teimlad,—ond paham? Yr ydym ni yn dweyd, oblegid ei bod, fel ewyllys, yn meddu y gallu i amrywio fel hyn ei symudiad. Y mae y cyfnewidiad yn cael cyfrif am dano yn unig trwy gyfeirio at yr ewyllys.

Yn ol Edwards, dyry cyd-berthynas yr ewyllys a'i gwrthddrychau, ar un adeg y syniad o'r mwyaf dymunol, neu ewyllysiad, yn nghyfeiriad y rheswm; ac ar adeg arall yn nghyfeiriad y teimlad—ond paham? —Paham y mae y rheswm ar un adeg yn ymddangos y mwyaf dymunol,—a phryd arall yr anwesiad o chwant anmhur? Yr wyf yn dewis hwn, ebe Edwards, oblegid ei fod y mwyaf dymunol;—ond sut y gwyddoch ei fod y mwyaf dymunol? O herwydd fy mod yn ei ddewis, neu yn meddu y syniad o'r mwyaf dymunol gyda golwg arno. Mae yn amlwg, gan hyny, y rhaid, (yn ol cyfundrefn Edwards, yn gystal a'r un wrthwynebol iddi), i gyfeiriad neillduol ewyllysiad, a chyfnewidiadau gwastadol ewyllysiad, gael eu cyfeirio yn syml at achos ewyllysiad, heb roddi unrhyw eglurhad arall ar benderfyniadau gwahanol yr achos yma, oddieithr eu cyfeirio at natur yr achos ei hun. Mae yn bosibl, yn wir, i gyfeirio y cyfnewidiadau yn y cyd-berthynas i ryw achos sydd yn llywodraethu cyd-berthynas yr ewyllys a'i gwrthddrychau; ond yna byddai raid i'r gofyniad godi gyda golwg ar y cyfryw achos, paham y mae yn penderfynu y cyd-berthynas mewn un cyfeiriad ar un adeg, ac mewn cyfeiriad arall ar adeg arall? Ac ni ellid ateb y gofyniad hwn ond yn unig trwy ei gyfeirio ato ei hun fel yn meddu y cyfaddasrwydd i'r holl benderfyniadau amrywiol hyn, megys gallu i wneuthur, neu i beidio gwneuthur, a gallu i benderfynu mewn cyfeiriad penodol, neu mewn cyfeiriad gwahanol; neu ynte trwy ei gyfeirio fyth at ryw achos rhagflaenol arall. Yn awr, tybier mai yr ewyllys anfeidrol ydyw rhagflaenorydd olaf hwn: yna y gofyniad fyddai, paham mae yr ewyllys ddwyfol yn penderfynu teimladrwydd, neu ewyllys ei greaduriaid i ddoethineb ar un adeg, ac i ynfydrwydd ar adeg arall? A pha atebiad ellid roddi? A ddywedir ei fod yn ymddangos y mwyaf dymunol iddo? Ond paham yr ymddengys y mwyaf dymunol iddo? Ai o herwydd fod y penderfyniad neillduol y mwyaf rhesymol, y mae yn ymddangos y mwyaf dymunol? Ond paham y mae yn penderfynu bob amser yn ol y mwyaf rhesymol? Ai o herwydd fod penderfynu yn

ol y mwyaf rhesymol, yn ymddangos y mwyaf dymunol? Yn awr, yn gymaint ag (yn ol Edwards) fod yr ewyllysiad a'r syniad o'r mwyaf dymunol yr un; mae dweyd fod Duw yn ewyllysio fel y mae yn ewyllysio, o herwydd ei fod y mwyaf dymunol iddo, yn ddweyd ei fod yn ewyllysio o herwydd ei fod yn ewyllysio; a dweyd ei fod yn ewyllysio fel y mae yn ewyllysio, oblegid ei fod yn ymddangos iddo y mwyaf rhesymol, sydd yn dyfod i'r un peth, oblegid nid yw yn ewyllysio yn ol y mwyaf rhesymol ond yn unig oblegid ei fod y mwyaf dymunol.

Nid yw gosod allan yr ewyllysiadau neu ddewisiadau, (naill ai yn yr ewyllys ddynol neu ddwyfol), fel yn cael eu penderfynu gan gymhellion, yn symud ymaith yr un anhawsder a dybir sydd yn perthyn i hunan-benderfyniad damweiniol.

Gadewch i ni gymharu y ddwy ddamcaniaeth yn fanwl, serch gwneud hyny dan y perygl o beth ail-adroddiad.

Mae hunan-benderfyniad damweiniol yn gosod yr ewyllys allan fel achos sydd yn gwneuthur ei *nisus* neu ewyllysiadau o hono ei hun, ac yn penderfynu eu cyfeiriad o hono ei hun—un adeg yn ufuddhau i reswm, adeg arall i deimlad. Os gofynir paham y penderfyna mewn cyfeiriad neillduol?—os bydd y cyfeiriad yn mha un y penderfyna yr eiddo rheswm?—yna gellir dywedyd, ei fod yn penderfynu yn y cyfeiriad hwn o herwydd ei fod yn rhesymol;—os bydd y cyfeiriad neillduol hwn yr eiddo teimlad, yn wrthwynebol i reswm, yna gellir dweyd ei fod yn penderfynu yn y cyfryw gyfeiriad, o herwydd ei fod yn foddhaol. Ond os gofynir paham y mae yr ewyllys yn myned yn nghyfeiriad rheswm, yn hytrach nag i'r eiddo teimlad, fel y mae y wrthwynebol i reswm?—nid allwn ddweyd ei fod yn *fwy* rhesymol ufuddhau i reswm nag i deimlad; o herwydd rheswm i gyd ydyw un, a theimlad i gyd ydyw y llall, ac wrth gwrs nid allant gael eu cymharu dan y rhesymol; ac ni allant gael eu cymharu chwaith dan y boddhaol,—pan, wrth y boddhaol, yr ydym yn deall, boddhau dymuniad, fel y mae yn wrthwynebol i reswm. Nid yw ufuddhau i reswm oblegid ei fod yn rhesymol, yn ddim chwaneg nag adrodd y ffaith fod yr ewyllys yn ufuddhau i ddymuniad. Mae yr ewyllys yn myned mewn un cyfeiriad yn hytrach na'r llall trwy weithred o hunan-benderfyniad, yr hon ni chaniata, ac yn wir na eilw am unrhyw eglurhad arall, sef fod gan yr ewyllys allu i wneuthur y naill neu y llall, ac yn yr ymarferiad o'r cyfryw allu, mae yn gwneuthur y naill yn hytrach na'r llall.

Mewn cyferbyniad i hyn saif cyfundrefn Edwards; a beth yw y gyfryw gyfundrefn? Fod yr ewyllys yn cael ei phenderfynu gan y cymhelliad cryfaf. A beth yw y cymhelliad cryfaf? Y da ymddangosiadol mwyaf, neu y mwyaf dymunol. Beth sydd yn cyfansoddi y da ymddangosiadol mwyaf, neu y mwyaf dymunol? Cyd-berthynas yr ewyllys neu deimladrwydd a'r gwrthddrych. Ond paham y pâr y cyd-

berthynas i'r naill wrthddrych ymddangos yn fwy dymunol na'r llall; neu i'r un gwrthddrych ymddangos yn ddymunol ar un adeg, ac yn annymunol ar adeg arall? Yn awr, mae y gofyniad hwn yr un peth a'r gofyniad,—paham y mae yr ewyllys yn myned yn nghyfeiriad y naill wrthddrych yn hytrach na'r llall; neu yn myned yn nghyfeiriad gwrthddrych neillduol ar un adeg, ac mewn gwrthwynebiad iddo ar adeg arall? Fod i'r ewyllys benderfynu ei hun tuag at wrthddrych yn ein cyfundrefn ni, sydd yn ateb i'r ewyllys fod yn meddu y syniad o'r mwyaf dymunol tuag at wrthddrych yn nghyfundrefn Edwards. Pe byddai i Edwards geisio rhoddi atebiad heb fyned tu hwnt i'r cymhelliad, ni allai ond yn unig ddweyd fod gan y teimladrwydd y gallu i effeithio arno gan y syniad o'r mwyaf dymunol, neu o'r mwyaf annymunol; a'i fod yn yr ymarferiad o'r cyfryw allu yn cael effeithio arno gan y naill yn hytrach na chan y llall. Ni allai ddweyd fod ufuddhau i reswm yn ymddangos yn fwy dymunol nac ufuddhau i deimlad, mewn gwrthwynebiad i reswm, oblegid nad ydyw ufudd-dod yr ewyllys yn ol y gyfundrefn hon, yn ddim mwy na syniad o'r mwyaf dymunol. Ac ni allai ddweyd chwaith ei fod yn rhesymol i ufuddhau i reswm, canys ni ellir cymharu rheswm gyda ei gyferbynydd, dan y meddylddrych o hono ei hun; a phe gallai ddweyd hyn, nid yw yn dyfod i ddim mwy na hyn, (yn ol ei gyfundrefn ef), fod ufuddhau i'r rhesymol y mwyaf dymunol;—hyny ydyw, fel y mwyaf dymunol yn unig yr ufuddheir i'r rhesymol: ond gan nad ydyw ufudd-dod ewyllys yn ddim mwy na'r syniad o'r mwyaf dymunol, nid yw dweyd yr ufuddheir i'r rhesymol o herwydd ei fod y mwyaf dymunol ond yn unig ddweyd ei fod yn deffroi y syniad o'r mwyaf dymunol; hyny yw, yr ufuddheir iddo, o herwydd yr ufuddheir.

Mae cyfeirio y cymhelliad i'r penderfyniad dwyfol yn gwneuthur ewyllysiad yn rheidiol i'r dyn, ac yn gwneud dim ond taflu yr anhawsder mewn cwestiwn, os ydyw i'w ystyried yn anhawsder hefyd, yn mhellach yn ol.

Os ydyw ewyllys Duw yn penderfynu yn nghyfeiriad y rhesymol oblegid ei fod y mwyaf dymunol, yna gofynwn, paham y mae y mwyaf dymunol? Os yr atebiad fydd, oblegid ei fod y mwyaf rhesymol, yna nid ydym ond yn symud mewn cylch; ond os cymerir y dymunol fel ffaith derfynol, yna yn gymaint nad ydyw ewyllysio yn ddim ond cael y syniad o'r mwyaf dymunol, mae yn canlyn nad yw Duw yn cael y syniad o'r mwyaf dymunol tuag at wrthddrych, ond yn unig o herwydd ei fod y mwyaf dymunol iddo, neu yn deffroi y syniad ynddo; ac fel hyn nid yw y gofyniad paham y gwna Duw ewyllysio mewn un cyfeiriad yn hytrach na'r llall, neu beth yw achos ei benderfyniad, yn cael ei ateb gan Edwards, oddieithr iddo ddweyd gyda ni fod yr ewyllys ynddi ei hun fel gallu i wneuthur neu i beidio gwneuthur, neu i

wneuthur un peth neu ei gyferbynydd, yn eglurhad digonol, a'r unig eglurhad posibl;—neu oddieithr iddo gyfeirio yr ewyllys ddwyfol at achos rhagflaenol, a hwnw drachefn at achos rhagflaenol arall, mewn cyfres annherfynol—ac felly i ddwyn i mewn y cyfeiliornad dyblyg o gyfres annherfynol, a rheidrwydd hollol.

Yn ol y cynllun o feddyleg a roddais uchod, rhaid i bob ewyllysiad dichonadwy, fod naill ai yn nghyfeiriad y rheswm neu y teimladrwydd, neu mewn difaterwch i'r ddau. Os bydd yr ewyllysiad yn nghyfeiriad y rheswm, cymer y gweddnodau o resymol, da, &c. Os yn nghyfeiriad y teimladrwydd, cymer ei gweddnodau oddiwrth y dymuniad yr ufuddheir iddo:—mae yn haelionus, caredig, hynaws, &c.;—neu y mae yn faleisus, cenfigenllyd, hunanol, &c. Beth sydd yn symud yr ewyllys i fyned yn nghyfeiriad y rheswm? Nid oes dim yn ei symud; mae yn achos *per se;* mae yn myned yn y cyfeiriad hwn oblegid fod ganddi allu i fyned yn y cyfryw gyfeiriad. Beth sydd yn symud yr ewyllys i fyned yn nghyfeiriad y teimladrwydd? Nid oes dim yn ei symud; mae yn achos *per se;* mae yn myned yn y cyfeiriad yma o herwydd fod ganddi allu i fyned yn y cyfryw gyfeiriad.

Mae yn y dealltwriaeth neu reswm, fel mae yn unol a'r ewyllys yn nghyfansoddiad y meddwl, argyhoeddiadau rheidiol o'r gwir, y cyfiawn, a'r da. Mae yn y teimladrwydd, fel y mae mewn undeb a'r unrhyw gyfansoddiad, ymdeimladau rheidiol o'r dymunol a'r annymunol gyda golwg ar amrywiol wrthddrychau. Mae yr ewyllys, fel y gallu sydd trwy ei *nisus* yn cynnyrchu cyfnewidiadau neu ymddangosiadau, yn ymwybodol o allu i fyned yn y naill neu y llall o'r cyfeiriadau hyn, neu yn groes i'r ddau. Yn awr, pan wnelo ei hewyllysiad gyda golwg ar y gwir, y cyfiawn, a'r da; pe cynnygiem egluro y cyfryw ewyllysiad trwy ddweyd fod y gwir, y cyfiawn, a'r da, yn effeithio yn ddymunol ar y teimladrwydd, ni byddai yn ddim mwy na dweyd fod yr ewyllysiad yn cael ei wneud tuag at y da, nid fel da, ond yn unig fel y dymunol; ac yna dygem i mewn y ddeddf fod y *nisus* neu ewyllysiad yn cael ei wneuthur bob amser yn nghyfeiriad y dymunol. Ond wedi hyn gallem geisio egluro paham y gwneir y *nisus* bob amser yn nghyfeiriad y dymunol. Ai o ragflaenorydd rheidiol y mae? Yna dyna genym reidrwydd cyffredinol a hollol. Ai oblegid fod myned yn nghyfeiriad y dymunol yn ymddangos y mwyaf rhesymol? Yna byddai yn canlyn fod y *nisus* yn cael ei wneuthur tuag at y dymunol nid fel y dymunol, ond yn unig fel y mwyaf rhesymol; ac yna dygid i mewn y ddeddf fod yr ewyllysiad yn cael ei wneud bob amser yn nghyfeiriad y rhesymol. Ond etto gallem geisio am eglurhad paham y gwneir yr ewyllysiad bob amser yn nghyfeiriad y rhesymol. Ai o ragflaenorydd rheidiol y mae? Yna dyna genym yma yr un modd reidrwydd cyffredinol a hollol. A ydyw oblegid fod myned yn nghyfeiriad y rhesymol

yn ymddangos y mwyaf dymunol? Os felly, dyna ni yn ymddirwyn yn ol mewn cylch i'n safle gyntaf.

Pa fodd y gallwn ddianc oddiwrth yr anhawsderau hyn? A gawn ni fabwysiadu meddyleg Edwards, a gwneuthur yr ewyllys a'r teimladrwydd yr un? Yna gan mai y syniad cryfaf o'r dymunol bob amser ydyw yr ewyllysiad, os ydyw y teimladrwydd yn rheidiol, mae ewyllysiadau yn rheidiol, a dyma ni yn cael ein taflu yn bendramwnwgl i reidrwydd hollol a chyffredinol. Os nad ydyw y teimladrwydd yn rheidiol, yna yr ydym wedi dangos yn llawn uchod, fod genym i gyfrif am ei benderfyniadau amrywiol yn gymhwys fel y tybir y gelwir arnom ni i roddi cyfrif am benderfyniadau amrywiol yr ewyllys pan y golygir hi fel gallu gwahaniaethol oddiwrth yr ewyllys:—cyfarfyddir ni a'r holiadau, paham y gesyd y teimladrwydd y gwrthddrych hwn allan yn fwy dymunol na hwna?—Neu yr arddengys yr un gwrthddrych yn ddymunol ar un adeg, ac yn annymunol ar adeg arall? Neu os darostyngir y penderfyniadau amrywiol hyn i ragflaenorydd rheidiol yn eu cynnwys, yna awn i fyny at yr achos rhagflaenol lle y mae y rheidrwydd hwn yn gorwedd, ac yn ei gwestiyno yn yr un modd.

Ond mae un peth yn aros, a hyny ydyw golygu yr ewyllys fel achos cyntaf, damweiniol mewn gwrthwynebiad i fod yn orfodol—achos yn meddu y gallu ynddo ei hun i beri yr ewyllysiadau amrywiol hyn, ac heb ofyn na chaniatâu unrhyw eglurhad i'w gweithrediadau, neu eu cyfeiriad neillduol, amgen na'i neillduolrwydd a'i hegni ei hun fel ewyllys.

Rhaid i'r pwnc yn nghylch difaterwch yr ewyllys gael ei ystyried yn awr. Ymgyfyd yr ymadrodd *difaterwch* mewn canlyniad i ystyried yr ewyllys yn wahaniaethol oddiwrth y teimladrwydd. Nid dymuniad neu deimlad ydyw—mae yn allu difater i ddymunoldeb neu annymunoldeb gwrthddrychau.

Mae hefyd yn allu gwahaniaethol i reswm; nid argyhoeddiad neu grediniaeth ydyw—mae yn allu difater i'r cywir a'r da, i'r gau a'r drwg, yn yr ystyr nad ydyw yn cael ei benderfynu yn rheidiol, gan y cywir a'r da, neu gan y gau a'r drwg. Y syniad o ewyllys yn ei symledd eithaf sydd syniad o allu pur, hunan-symudol, a hunan-wybodol —yn cynnwys ynddo ei hun y sail a'r posiblrwydd o greadigaeth ac arweddiaeth. Yn Nuw mae yn allu anfeidrol, tragwyddol, a digreëdig; ac mae pob egni yn ei ewyllys ef yn greadigol ac arweddol mewn gwirionedd, yn ol ei hamcan hunan-gyfeiriol. Mewn dyn mae yn ffurfiedig, dibynol, terfynol, a chyfrifol.

Yn awr, mewn cysylltiad uniongyrchol gyda gallu, mae genym y meddylddrych o ddeddf neu reol, o barth yr hyn *ddylai* gallu wneud. Mae y ddeddf neu y rheol hon yn cael ei datguddio yn y rheswm. Mewn dyn pur, (ac yr ydym yn casglu yn Nuw hefyd, fel argyllun

pob bôd ysbrydol), mae teimladrwydd neu gyfaddasrwydd yn bod i gael effeithio yn ddymunol arno, ac i gael ei dynu tuag at y gwrthddrychau gymeradwyir ac a orchymynir gan y rheswm. Os nad yw y cyfryw deimladrwydd yn symud mewn cydgordiad a'r rheswm, mae yn llygredig. Yn awr mae yr ewyllys wedi ei gosod mewn triundod gyda'r ddau allu eraill hyn. Gallwn ei gwahaiaethu, ond nid ei gwahanu oddiwrthynt. Ewyllys heb reswm fyddai yn allu heb lygaid, neu oleuni. A gallu dreng a neillduedig fyddai ewyllys heb deimladrwydd; —yn gymhwys fel y byddai rheswm a theimladrwydd heb ewyllys, yn amddifad o allu neu gyfaddasrwydd i roddi allan wir amlygiadau.

Mae cyfanrwydd a pherffeithrwydd pob un, yn gorwedd yn ei undeb a'r oll; ond etto mae pob un yn ei briodol symudiadau mewn rhyw ystyr yn annibynol ar, ac yn rhydd oddiwrth y lleill. Ni ddichon argyhoeddiadau, crediniaethau, a symudiadau y rheswm gael eu gwneud, na'u dadwneud gan egni yr ewyllys. Ac nid oes gan yr ewyllys lywodraeth uniongyrchol dros y teimladrwydd chwaith. Ac etto fe all yr ewyllys gyffroi a chyfeirio y rheswm a'r teimladrwydd, trwy alw gerbron wrthddrychau ac achlysuron. Nid yw y teimladrwydd yn llywodraethu y rheswm, ac etto mae yn cyflenwi telerau sydd angenrheidiol i'w amlygiadau.

Nid yw y rheswm yn llywodraethu y teimladrwydd, ac etto ni byddai gan yr olaf ddim ymsyniad benodol, ac wrth gwrs gorweddai ei deimladau uchaf yn farw heb y rheswm.

Felly hefyd nid yw y rheswm na'r teimladrwydd yn penderfynu gweithrediadau yr ewyllys. Mae gan yr ewyllys effeithiolrwydd, neu allu i greu neu i arweddu ynddi ei hun—hunan-symudol, hunan-gyfeiriol. Ond etto heb y rheswm a'r teimladrwydd, byddai yr ewyllys heb wrthddrychau, heb gynlluniau, heb reolau,—yn allu ar ei ben ei hun, yn ymwybodol o allu i wneuthur, ond heb wybod beth i'w wneuthur.

Yn chwanegol at yr uchod, medda yr ewyllys y neillduolrwydd uchel a gwahaniaethol hwn: mai hi yn unig sydd yn rhydd—mai hi yn unig sydd yn wrthgyferbyniol i reidrwydd. *Rhaid* i reswm ddirnad, *rhaid* iddo gredu. *Rhaid* i deimladrwydd deimlo pan bresenolir ei wrthddrychau; ond am yr ewyllys, pan fyddo rheswm wedi llewyrchu ei oleuni, a datgan ei orchymynion,—a phan fyddo y teimladrwydd wedi deffroi ei holl nwydau a'i gyffroyddion, ni orfodir hi i ufuddhau. Mae mor ymwybodol o allu i beidio gwneuthur, ac o allu i wneuthur. Gall gael ei galw yn allu arglwyddol a damweiniol; ond nid yw hyn yn golygu ond yn unig ei bod yn allu sydd yn rhoddi (yn hollol) allu ei hegni ei hun, ac yn rhydd.

Mae yn canlyn oddiwrth hyn, y gall yr ewyllys weithredu heb olygu y rheswm na'r teimladrwydd, os ydyw yn bosibl fod gwrthddrych

gweithrediad, heb ddal dim perthynas a'r rheswm na'r teimladrwydd. Mae yn amlwg y rhaid fod gwrthddrych nad yw yn dal dim perthynas felly, yn rhywbeth hynod o ddibwys. Os nad ellid galw i fyny enghraifft er egluro hyn, ni phrofai hyny ddim yn erbyn difaterwch ewyllys; —ni phrofai ddim ond fod holl wrthddrychau gweithrediad sydd yn bod yn awr, yn dal rhyw berthynas gyda rheswm a theimladrwydd. Y mae yna enghraifft, modd bynag, a elwir i fyny yn aml, ac y dadleuir yn ei chylch yn danbaid, sydd yn hawlio peth sylw, (ac a ymddengys i mi), yn cynnyg yr eglurhad gofynol. Bydded iddo gael ei ofyn i un o betrualau *(squares)* bwrdd gwyddbwyll *(chessboard)* gael ei ddethol. Yn y detholiad o un o'r petrualau hyn, a ydyw yr ewyllys yn gweithredu heb olygu y rheswm a'r teimladrwydd, neu beidio? Rhaid i'r rhai sydd yn dal fod yr ewyllys yn cael ei phenderfynu yn rheidiol, wneud allan rhyw gysylltiad rhwng y weithred o ddethol, a'r rheswm a'r teimladrwydd. Hònir fod yna gymhelliad cyffredinol sydd yn penderfynu yr holl gwrs-weithrediad, noder: yr amcan neu y dymuniad i egluro, os yn bosibl, y pwnc mewn dadl. Y cymhelliad yw, profi y gall yr ewyllys weithredu heb gymhelliad.

I hyn yr wyf yn ateb, mai hyn yn ddiau ydyw y cymhellydd i ddygiad y *chessboard* gerbron y llygad, ac i wneuthuriad holl barotoadau y detholiad;—ond yn awr y cwestiwn olaf yw, pa ysgwar a ddetholaf? Fe gaiff yr eglurhadaeth yr un grym pa ysgwar bynag a ddetholir, ac nid oes yr un cymhelliad ellir dynu oddiwrth y rheswm neu y teimladrwydd dros gymeryd un ysgwar yn hytrach na'r llall; o dan yr absenoldeb o'r holl gyfryw gymhellion, a chaniatâu bob tro yr un ymgais i egluro, gallaf amrywio y detholiad driugain a phedwar o weithiau: gan hyny, ymddengys i mi, fod yn y detholiad yma ddifaterwch hollol gyda golwg ar yr ysgwar a ddetholir;—nid oes yna yr un gorchymyn o eiddo rheswm yn cyfeirio at y naill ysgwar yn hytrach na'r llall;—nid oes yna yr un ymserchiad o eiddo y teimladrwydd tuag at un ysgwar yn hytrach na'r llall, fel y mwyaf dymunol,—ac etto mae yr ewyllys yn dewis un o'r petrualau *(squares)*.

Bydd yn briodol, yn y fan hyn, i ystyried y ddadl ganlynol o eiddo Edwards yn erbyn difaterwch ewyllys: "Felly gall dewisiad fod yn uniongyrchol *ar ol* ystâd o ddifaterwch, ond nis gall gyd-hanfodi â hi: nid yw hyd yn nod ei dechreuad mewn ystâd o ddifaterwch. A chan hyny, os hyn yw rhyddid, nid oes yr un weithred o eiddo yr ewyllys, mewn un radd, yn cael ei chyflawni byth mewn ystâd o ryddid, neu mewn amser o ryddid. Y mae ewyllysiad a rhyddid mor bell o fod yn cytuno a'u gilydd, a bod yn hanfodol y naill i'r llall, fel y mae y naill yn groes i'r llall, yn gymaint ag y mae ysgogiad a llonyddwch, goleuni a thywyllwch, neu fywyd a marwolaeth." (Edwards, tudal. 68.)

Mae Edwards yn rhesymu yn ol ei feddyleg ei hun: Os ydyw yr

ewyllys a'r teimladrwydd yr un, ni ellir meddwl yn glir am yr ewyllys mewn ystâd o ddifaterwch, a phe gellid meddwl am dani mewn ystâd o ddifaterwch cyn iddi ymarfer ewyllysiad, yn gymaint ag mai syniad o'r mwyaf dymunol (yn ol y gyfundrefn hon etto) ydyw ewyllysiad, yr eiliad y dechreua ewyllysiad, mae difaterwch yn darfod; ac yna os ydyw rhyddid yn gynnwysedig mewn difaterwch, rhaid i ryddid beidio bodoli pan gymer ewyllysiad le, fel y mae llonyddwch yn peidio a bod gydag ysgogiad.

Ond yn ol y gyfundrefn o feddyleg, a fabwysiadwn ni, a'r hon a brofir i fod yn wir genyf ar ol hyn, nid yw yr ewyllys yr un a'r teimladrwydd, ond yn eglur wahan-nodol oddiwrtho:—cynneddf teimlad ydyw y teimladrwydd: achosyddiaeth yr enaid ydyw yr ewyllys:—mae symudiad o eiddo y teimladrwydd dan yr ansawdd o ddifaterwch, yn hunan-wrthebol; a byddai symudiad o eiddo yr ewyllys (gan mai *nisus* achos yn unig ydyw) o dan y nodwedd o unrhyw serch neu deimlad, yn hunan-wrthebol hefyd; ni byddai ond cymysgu y pethau wahaniaethwyd genym eisoes. Oddiwrth ddarnodiad Edwards o honi, ni ddichon yr ewyllys fod yn ddifater; oddiwrth ein darnodiad ninnau o honi ni all fod yn wahanol i ddifater. Pan mae yn penderfynu yn annibynol ar reswm a theimladrwydd, rhaid iddi wrth gwrs fod yn cadw, yn y gweithrediad, y difaterwch a feddiannai o flaen y gweithrediad; ond nid yw hyn yn llai gwir pan fyddo yn penderfynu yn nghyfeiriad naill ai y rheswm neu y teimladrwydd. Pan fyddo y penderfyniad yn nghyfeiriad y rheswm, mae yna weithrediad o eiddo y rheswm mewn cysylltiad a'r act, ac mae holl ddyddordeb y rheswm wedi ei ddeffroi, ond nid yw yr ewyllys (a'i golygu yn ei symledd hollol) yn gwybod am ddim ond *nisus* y gallu. Pan fyddo y penderfyniad yn nghyfeiriad y teimladrwydd, mae yna gyffroadau a nwydau yn chwareu, ond nid yw yr ewyllys etto yn gwybod am ddim ond *nisus* neu egni y gallu sydd yn ei chario yn y cyfryw gyfeiriad.

Yn unoliaeth yr enaid ceir y galluoedd hyn yn gweithio yn nghyd. Gall fod yn anhawdd eu gwahaniaethu, a gall hyn, mewn cysylltiad a'r ffaith a welir yn wastadol o gyd-berthynas sefydledig rhwng achosion anianyddol a'r sylweddau y gweithredant arnynt, arwain i'r casgliad fod yna gyd-berthynas yr un modd rhwng yr ewyllys a'i gwrthddrychau, gan olygu yr ewyllys fel y teimladrwydd; neu o'r hyn lleiaf fod yna gyd-berthynas sefydledig rhwng yr ewyllys a'r teimladrwydd, fel y mae y gyntaf yn cael ei llywodraethu yn ddieithriad gan yr olaf. Dangosasom o'r blaen, nad ydyw gwneud yr ewyllys a'r teimladrwydd yr un peth, yn ein rhyddhau ni oddiwrth anhawsderau ewyllys hunanbenderfynol a damweiniol, oddieithr i ni ymdaflu i reidrwydd hollol; ac nad ydyw gwneuthur i'r teimladrwydd lywodraethu yr ewyllys, ond yn unig yn trosglwyddo ar y teimladrwydd yr anhawsderau a dybir

sydd yn amgylchynu yr ewyllys. Yn ein hymchwiliadau meddylegol ni ymddengys mor eglur wahaniaethol ydyw y galluoedd hyn oddiwrth eu gilydd, ac hefyd mor eglur annibynol ac arglwyddol ydyw yr ewyllys yn eu canol, yn gymaint a'i bod yn penderfynu yn weithredol ar un adeg, yn groes i'r mwyaf dymunol; ar adeg arall, yn groes i reswm; ac ar adeg arall, yn groes i'r ddau yn nghyd. Yn unoliaeth ein bodaeth, canfyddwn fod ewyllys wedi ei bwriadu i ufuddhau i reswm, ac i fod yn ddarostyngedig i reswm, i symud tu fewn i fwyniannau y teimladrwydd; a gwyddom ein bod yn gweithredu yn *afresymol* ac yn *boenus* pan fyddom yn gweithredu yn wahanol; ond etto yn *afresymol* ac yn *boenus* yr ydym yn gweithredu yn fynych. Ond pan fyddom yn ufuddhau i reswm, er ein bod yn nodweddu yr act oddiwrth ei chyfeiriad, nid yw yr ewyllys yn colli ei symledd ac yn dyfod yn rheswm; a phan y byddom yn ufuddhau i'r teimladrwydd, nid yw yr ewyllys yn d'od yn deimladrwydd—nid yw ewyllys ond achos o hyd, na'i gweithred ond egni neu *nisus* gallu; meddwl, argyhoeddiad, a bwriad, yn unig sydd yn cadw eu lle yn y rheswm; a chyffroad a theimlad yn unig eu lle yn y teimladrwydd.

# IV.

## DADL ODDIWRTH

## Y

## RHAGWYBODAETH DDWYFOL.

# IV.

## DADL ODDIWRTH Y RHAGWYBODAETH DDWYFOL.

MAE dadl Edwards yn erbyn ewyllys hunan-benderfynol ddamweiniol yn aros i'w hystyried.

Cyflwynir y ddadl fel hyn: "Nad yw gweithredoedd ewyllysiadau gweithredyddion moesol yn ddygwyddiadau damweiniol, yn y fath ystyr fel ag i fod heb un angenrheidrwydd, a ymddengys oddiwrth ragwybodaeth sicr Duw o'r fath ddygwyddiadau." (Adran XI., tudal. 98.) Mae Edwards yn neillduo yr adran yma "i dystiolaeth rhagwybodaeth sicr Duw o weithredoedd gwirfoddol gweithredyddion moesol." Yn yr adran ganlynol, (Adran XII., tudal. 116), â yn mlaen yn ffurfiol gyda ei ddadl. Cyn ystyried ei ddadl, gadewch i ni edrych ar ganlyniadau ei sefyllfa.

Mae Duw yn rhagweled pob ewyllysiad: mae fod ef yn eu rhagweled yn peri fod eu bodolaeth yn rheidiol. Pe na byddai eu bodolaeth yn rheidiol, ni allai efe eu rhagweled; neu i'w ddatgan yn fwy cyffredinol fyth, mae rhagwybodaeth yn cyrhaedd at bob dygwyddiad, ac mae rhagwybodaeth yn profi bodolaeth reidiol pob peth y mae yn cyrhaedd ato. Y mae yn canlyn oddiwrth hyn, fod pob dygwyddiad yn bodoli trwy hollol reidrwydd,—pob ymddangosiad anianyddol, pob ewyllysiad, ac ymddangosiad moesol, da a drwg, a'r holl ewyllysiadau dwyfol, oblegid ni all Duw beidio rhagweled ei ewyllysiadau ei hun. Nid yw Edwards yn gosod i lawr yr athrawiaeth o reidrwydd hollol a chyffredinol, yn fwy cryno a chroyw mewn un rhan o'i waith. Yr ydym eisoes yn Rhan II. o'r traethawd, wedi gweithio allan ganlyniadau yr athrawiaeth hon. Os ydym gan hyny wedi ein gosod ar y dewisiad o wadu rhagwybodaeth Duw o ewyllysiadau, neu o gydnabod yr athrawiaeth o reidrwydd, yn ymarferol byddai yn fwy dymunol ac yn ddoethach i gymeryd y cwrs cyntaf yn y dewisiad. "Os gellid profi," medd Dugald Stewart, (Cyf. V., At., Adran VIII.) "yr hyn yn fy mryd i na wnaed etto, fod y rhagwybodaeth o ewyllysiadau gweithredyddion moesol yn anghydsafol gyda rhydd-weithrediant dyn, y casgliad rhesymegol a

fyddai, *nid* yn ffafr cynllun rheidrwydd, ond fod rhai dygwyddiadau yn bod, pa rai y mae y rhagwybodaeth o honynt yn cynnwys anmhosiblrwydd. Gawn ni anturio dal, ei fod tu hwnt i allu Duw i ganiatâu i'r fath gyfres o ddygwyddiadau damweiniol gymeryd lle, gan na byddai ei ragwybodaeth ef ei hun yn cyrhaedd ato? Onid yw y fath osodiad yn tynu oddiwrth hollalluogrwydd Duw, i'r un cyfartaledd ag yr amcana ddyrchafu ei hollwybodaeth?" Os ydyw y rhagwybodaeth ddwyfol yn myned i sefydlu yr athrawiaeth o reidrwydd, nid oes dim yn cael ei adael ag y mae yn werth ymryson am dano; mae pob budd-iant moesol a duwinyddol yn diflanu ymaith. Ond gadewch i ni ystyried dadl Edwards.

Mae y ddadl hon yn gynnwysedig mewn tair rhan; cawn eu hystyr-ied hwy mewn trefn.

I. Gesyd Edwards i lawr, fod dygwyddiad mynedol yn rheidiol, "gan ei fod eisoes wedi gwneud yn sicr o fodolaeth;" ond mae rhag-wybodaeth ddwyfol yn ddygwyddiad felly, a chan hyny mae yn rheid-iol. Mae hyn yr un peth a'r wireb, "beth bynag sydd, sydd." Hòna yn nesaf, fod beth bynag sydd "anwahanadwy gysylltiedig gyda phethau eraill rheidiol, yn rheidiol eu hunain;" ond mae dygwydd-iadau a ragwybyddir yn anffaeledig yn meddu cysylltiad anwahanadwy gyda'r rhagwybodaeth. Yna, mae yr ewyllysiadau a ragwybyddir yn anffaeledig gan Dduw, yn meddu cysylltiad anwahanadwy gyda ei ragwybodaeth, ac felly yn rheidiol.

Mae grym y rhesymiad hwn yn troi ar y cysylltiad rhwng rhag-wybodaeth a'r dygwyddiadau a ragwybyddir. Hònir fod y cysylltiad hwn yn "anwahanadwy," hyny ydyw, mae rhagwybodaeth yn sicr gysylltiedig gyda'r dygwyddiad. Ond nid yw hyn yn dyfod i ddim ond i sicrwydd rhagwybodaeth ddwyfol, nac yn profi dim gyda golwg ar natur y fodolaeth a ragwybyddir. Gallwn ni wybod yn sicr am ddygwyddiad mynedol neu bresenol, ond nid yw ein gwybodaeth ni o'i fodolaeth yn darnodi dim gyda golwg ar y dull yn mha un y daeth i fod. Yr wyf yn edrych allan trwy fy ffenestr, ac yr wyf yn gweled dyn yn cerdded mewn rhyw gyfeiriad penodol: y mae genyf wybodaeth bendant o'r dygwyddiad hwn, ac ni all beidio bod fod y dyn yn cerdded; ond etto nid oes gan fy ngwybodaeth i ei fod yn cerdded unrhyw ddylanwad ar ei gerddediad fel achos neu ragflaenydd rheidiol; ac mae y cwestiwn pa un ai damweiniol neu reidiol yw ei gerddediad ef yn hollol ar wahan, ac yn perthyn i achos y cerdded. Edrychais allan trwy fy ffenestr ddoe, a gwelais ddyn yn cerdded; ac mae y wybodaeth o'r cyfryw ddygwyddiad yn fy ngafael yn awr, fel nad all beidio a bod fod y dyn wedi cerdded ddoe; ond mae hyn etto yn gadael y cwestiwn o barth y modd o fodoli heb ei gyffwrdd:—A ddarfu y dyn gerdded o reidrwydd, ynte dygwyddiad damweiniol ydoedd? Yn awr

gadewch i mi dybio fy hun wedi fy nghynnysgaeddu gyda'r gynneddf o ragwybodaeth, i fesur digonol i wybod y dygwyddiadau gymerant le yfory; yna trwy y gynneddf hon gallaf fi weled dyn yn cerdded yn yr amser elwir yfory, yn gymhwys fel trwy y gynneddf o gôf y gallaf weled dyn yn cerdded yn yr amser elwir doe. Mae y wybodaeth, pa un bynag ai i'r mynedol, y presenol, neu y dyfodol y cyfeiria, fel gwybodaeth gyda golwg arnaf fi, bob amser yn wybodaeth bresenol; ond gall y gwrthddrych a wybyddir fod yn sefyll mewn amrywiol berthynasau o amser, lle, &c. Yn awr gyda golwg ar y dyfodol, mwy na chyda golwg ar y mynedol a'r presenol, nid yw y weithred o wybod o fy nhu i, yn egluro dim o barth modd bodolaeth gwrthddrych y wybodaeth. Sylwa Edwards, "Y mae pob gwybodaeth sicr, pa un bynag ai rhagwybodaeth, ai olwybodaeth, ai cyfwybodaeth, yn profi fod y peth a wybyddir yn awr yn angenrheidiol, trwy ryw fodd neu gilydd; neu yn profi fod yn anmhosibl iddo yn awr fod yn amgen na gwir." (tudal. 124.)

Nid yw Edwards yn gwahaniaethu rhwng y *ffaith* noeth o fodolaeth, a'r rheidrwydd trwy yr hwn y daw rhywbeth i fod. Mae rhagwybodaeth, olwybodaeth, a chyfwybodaeth,—hyny ydyw, y wybodaeth bresenol o ddygwyddiadau dyfodol, mynedol, neu bresenol,—yn profi wrth gwrs ddiffuantrwydd y dygwyddiadau; y byddant, y buont, neu eu bod yn awr: neu i siarad yn fanylach, y wybodaeth o ddygwyddiad, mewn rhyw berthynas o amser, ydyw yr hòniad o'i fodolaeth yn y berthynas hòno; ond nid yw y wybodaeth o'r dygwyddiad yn profi nac yn hòni y rheidrwydd o'i fodolaeth. Pe y wybodaeth o'r dygwyddiad fyddai *achos* y dygwyddiad, neu pe yn *rhywogaethol* y cynnwysai ef yn ei fodolaeth, yna, ar egwyddorion rhesymeg fanwl, byddai y rheidrwydd a hònir am y wybodaeth yn cael ei hòni am y dygwyddiad hefyd.

Fod Duw yn rhagwybod pob ewyllysiad a addefir; mai fel mae efe yn eu rhagwybod, y byddant, a addefir hefyd; ei ragwybodaeth o honynt ydyw y cadarnhad pendant o'u diffuantrwydd mewn amser dyfodol; ond trwy dybiaeth, nid rhagwybodaeth Duw ydyw eu hachos, ac nid yw yn eu cynnwys yn rhywogaethol; maent yn cael eu hachosi gan ewyllysiau yn gweithredu yn y dyfodol. Yna, nid yw fod Duw yn rhagweled pa fodd y gwna ewyllysiau yn gweithredu mewn amser dyfodol, roddi allan neu benderfynu eu hewyllysiadau, yn cymeryd ymaith y damweiniaeth a'r rhyddid sydd yn perthyn i'r ewyllysiau hyn, mwy nag y mae ein gwybodaeth ni pa fodd mae ewyllysiau yn gweithredu yn yr amser presenol, yn cymeryd oddiwrthynt eu damweiniaeth a'u rhyddid. Mae Duw yn ei ragwybodaeth *yn weledydd y dyfodol, mor wirioneddol ag yr ydym ninnau yn weledyddion y presenol.*

Mae rhesymiad Edwards yn fath o ddyrys bwnc, tebyg i'r hyn a ddefnyddir weithiau er ymarfer efrydydd rhesymeg i ddynoethi twyll-ddadleuon: er enghraifft, rhaid i ddyn mewn lle penodol o *reidrwydd*, naill ai aros yn y lle hwnw, neu fyned o'r cyfryw le; gan hyny, pa un bynag ai aros neu fyned ymaith a wna, gweithreda yn rheidiol. Yn awr, mae yn rheidiol, yn ol natur pethau, fod yn rhaid i ddyn fel rhyw gorff arall fod mewn rhyw le, ond etto nid yw yn canlyn oddiwrth hyn, fod ei benderfyniad, pa un ai aros neu fyned ymaith a wnelai, yn benderfyniad rheidiol. Mae ei gyflwr rheidiol fel corff, yn hollol wahaniaethol oddiwrth y cwestiwn o barth rheidrwydd neu ddamweiniaeth ei ewyllysiadau. Ae felly hefyd gyda golwg ar y rhagwybodaeth ddwyfol: mae pob ewyllysiad dynol fel dygwyddiadau sydd yn cymeryd lle mewn amser, yn ddarostyngedig i'r ammod rheidiol o gael eu rhagwybod gan y Bôd hwnw, "sydd yn preswylio tragwyddoldeb;" ond nid yw yr ammod rheidiol hwn a berthyn i'w bodolaeth yn profi nac yn gwrthbrofi rheidrwydd neu ddamweiniaeth eu hachosaeth neillduol.

II. Yr ail osodiad yn nghyfundrefn Edwards ydyw, "Na ellir rhagwybod yn sicr unrhyw ddygwyddiad dyfodol, bodolaeth yr hwn sydd yn ddamweiniol, ac heb un angenrheidrwydd." (tudal. 117.) Ei resymiaeth mewn cyfnerthiad i hyn sydd fel y canlyn: 1. "Mae yn anmhosibl i wrthddrych gael ei ragwybod yn sicr gan unrhyw ddealltwriaeth heb *brawf*." 2. Fod dygwyddiad damweiniol heb brawf. 3. Gan hyny, nid yw dygwyddiad damweiniol yn wrthddrych posibl gwybodaeth. Yr wyf fi yn gwadu y ddau gynsail: Yr hyn a wybyddir trwy *brawf* neu *dystiolaeth* sydd wybodaeth *gyfryngol*,—hyny ydyw, yr ydym yn ei wybod trwy rywbeth sydd yn sefyll yn uniongyrchol rhwng cynneddf gwybodaeth a gwrthddrych y wybodaeth mewn dadl. Mae yr hyn a wybyddir yn *gyngreddfol* yn cael ei wybod heb brawf, a dyma wybodaeth *ddigyfrwng*. Yn y ffordd hon y mae gwirebau neu wirioneddau cyntaf, a holl ffeithiau y synwyrau yn cael eu gwybod. Yn wir mae prawf ei hun yn tybio gwybodaeth ddi-gyfrwng, oblegid rhaid fod y prawf trwy yr hwn y gwybyddir unrhyw beth yn wybodaeth ddigyfrwng ei hun. Gan hyny, i Fôd, gwybodaeth yr hwn sydd yn llenwi olyniant *(duration)*, gall dygwyddiadau dyfodol neu fynedol gael eu gwybod mor ddigyfrwng ac uniongyrchol a dygwyddiadau presenol. O ran hyny, a allwn feddwl am Dduw yn amgen na bôd yn gwybod pobpeth yn ddigyfrwng? Ni ellir meddwl am y Dealltwriaeth Anfeidrol a Thragwyddol dan berthynasau amser a lle, neu yn caffael gwybodaeth trwy *gyfrwng* prawf neu dystiolaeth. Cymaint a hyn ar y cynsail cyntaf. Mae yr ail yn gyfartal anniffynadwy: "*Mae dygwyddiad dyfodol damweiniol heb brawf.*" Cydnabyddwn gydag Edwards nad ydyw yn *hunan-eglur*, gan olygu wrth hyny y prawf a gyfyd o "reidrwydd ei natur," megys er enghraifft,

$2 \times 2 = 4$. Yr hyn sydd hunan-eglur, fel y dangosasom eisoes, nid yw yn gofyn unrhyw brawf neu dystiolaeth, ond a wybyddir yn ddigyfrwng; a gall dygwyddiad damweiniol dyfodol fod yn hunan-eglur fel ffaith gerbron y meddwl dwyfol, yr hwn sydd yn cyrhaedd i'r dyfodiant, er na all fod yn hunan-eglur o "reidrwydd ei natur."

Ond deil Edwards, "nid oes ychwaith unrhyw *brawf* neu amlygrwydd mewn *dim arall*, neu amlygrwydd cysylltiad â rhywbeth arall sydd yn amlwg; canys mae hyn hefyd yn groes i'r dybiaeth. Tybir nad oes yn awr ddim yn bodoli, â pha un y mae bodolaeth dyfodol y dygwyddiad *damweiniol* yn gysylltiedig. Oblegid mae y fath gysylltiad yn dinystrio ei *ddamweiniaeth*, ac yn tybied angenrheidrwydd." (tudal. 118.) Mae yn egluro ei feddwl trwy yr enghraifft ganlynol: "Tybiwch bum' mil saith gant a chwe' deg mlynedd yn ol, nad oedd yr un bôd arall ond y y Bôd Dwyfol,—ac yna mae y byd hwn, neu ryw gorff neu ysbryd neillduol, yn neidio ar unwaith o ddim i fodolaeth, ac yn cymeryd arno ei hun natur a ffurf neillduol—y cwbl mewn *damweiniaeth hollol,*—heb fod dim a fynai Duw, neu unrhyw achos arall a'r mater,—heb un math o sail neu reswm am ei fodolaeth,—neu unrhyw ddibyniaeth ar, neu gysylltiad oll ag unrhyw beth blaenorol;—yr wyf yn dweyd os tybir hyn, nad oedd amlygrwydd (prawf) am y dygwyddiad yna yn mlaen llaw. Nid oedd amlygrwydd o hono i'w weled yn y *peth ei hun;* oblegid y peth ei hun, etto, nid ydoedd; ac nid oedd amlygrwydd o hono i'w weled *mewn dim arall;* oblegid amlygrwydd *mewn* rhywbeth arall, sydd *gysylltiad* â rhywbeth arall; ond y mae y fath gysylltiad yn groes i'r dybiaeth." (tudal. 118, 119.)

Swm y rhesymiad hwn yw hyn: Yn gymaint ag fod dygwyddiad damweiniol yn bodoli "*heb fod a fynai Duw, neu unrhyw achos arall a'r mater,—heb un math o sail neu reswm am ei fodolaeth,—neu unrhyw ddibyniaeth ar neu gysylltiad oll ag unrhyw beth blaenorol,*"— nid oes yna ddim mewn gwirionedd trwy yr hwn y dichon gael ei brofi (amlygu) yn mlaen llaw. Os ydyw Edwards yn iawn yn ei ddarnodiad hwn o ddygwyddiad damweiniol, sef: ei fod yn ddygwyddiad heb unrhyw sail neu reswm am ei fodolaeth, ac "nad oes yn awr ddim yn bodoli â pha un y mae bodolaeth dyfodol y dygwyddiad *damweiniol* yn gysylltiedig," yna rhaid cydnabod fod y rhesymiad hwn yn gloadol. Ond nid wyf yn cydsynio a'r darnodiad: Dywedaf etto, fod damweiniaeth yn wrthgyferbyniol nid i achos, ond i reidrwydd. Gallai y byd fod wedi "neidio i fodolaeth" er's mwy na phum' mil o flynyddau yn ol trwy *ddamweiniaeth hollol*, ac etto fod wedi neidio i fodolaeth ar orchymyn Duw ei hun, ac fod ei fodolaeth wedi cael ei ragweled ganddo o bob tragwyddoldeb. Nid yw y ddamweiniaeth yn dynodi dim ond rhyddid yr ewyllys ddwyfol, yn creu y byd trwy ddewisiad penarglwyddiaethol, ac ar eiliad y creu, yn ymwybodol o allu i attal yr

egni *(nisus)* creadigol,—yn crëu yn ngoleuni ei anfeidrol ddoethineb, ond nid oddiwrth unrhyw orfodaeth neu reidrwydd cymhelliad gaed ynddo. Yn ol y golygiad yma, nid oedd rhagweled creadigaeth yn ddim amgen na rhagweled ei ewyllysiadau ei hun.

Nid yw y tir ar ba un y gellir rhagweled ewyllysiadau dynol, yn llai amlwg a rhesymol. Yn y lle cyntaf, nid yw dygwyddiadau damweiniol dyfodol byth heb achos a sail ddigonol am eu bodolaeth, gan y cymerir yr ewyllys unigol bob amser fel achos a sail ddigonol yr ewyllysiadau unigol. Gan hyny, mae Duw wedi darparu ar gyfer bodolaeth bosibl ewyllysiadau heblaw yr eiddo ei hun, trwy grëu a chyfansoddi ewyllys rydd feidrol. Yn awr, gyda golwg arno ef, nid yw yn ofynol meddwl am *gyfrwng* trwy yr hwn y gall yr holl ewyllysiadau unigol gael eu gwybod neu eu profi i'w feddwl, yn flaenorol i'w bodolaeth weithredol. Beth bynag mae efe yn ei wybod, mae yn ei wybod trwy gyngreddfiad uniongyrchol ac anfeidrol; ni all fod yn ddibynol ar unrhyw *gyfrwng* am ei wybodaeth. Fel y dangosais eisoes, mae priodoli rhagwybodaeth iddo yn ddigonol, mewn trefn i ddwyn pob ewyllysiad damweiniol dyfodol tu fewn i'w wybodaeth sicr ef. Gwyr efe am holl amrywiaeth a therfynau eithaf y posibl, ac yn nghanol y posibl y mae yn rhagweled y gweithredol; ac nid yn unig mae yn rhagweled y dosbarth hyny o'r gweithredol sydd, (fel y mae wedi cael ei arfaethu a'i benderfynu ganddo ei hun), yn berthynasol reidiol, ond hefyd y dosbarth hwnw o'r gweithredol sydd i darddu allan dan y gweddnod o ddamweiniaeth.

Ac yma, dymunwn sylwi, y gorwedd uchafiaeth y rhagwybodaeth ddwyfol ar ragwelediad dynol,—sef yn hyn, fod y cyntaf yn gweled y damweiniol mor eglur a'r rheidiol. Gyda yr olaf mae yn dra gwahanol. Gall rhagwelediad neu gyfrifiaeth ddynol ragweled ysgogiadau y planedau, diffygion yr haul a'r lleuad, ac hyd yn nod wibdeithiau y comedau, oblegid eu bod hwy yn cael eu llywodraethu gan ddeddfau rheidiol; ond nid yw ewyllysiadau yr ewyllys ddynol yn ffurfio pwnc amgen na dyfaliadau *tebygol* yn unig.

Ond os pwnc o ddyfaliadau tebygol, mae ewyllysiadau dynol, fel maent yn ddamweiniol, yn ei ffurfio, rhaid fod, mewn gwrthgyferbyniad i Edwards, rywbeth "sydd yn amlwg," ac yn awr "yn bodoli, â pha un mae bodolaeth ddyfodol y dygwyddiad *damweiniol* yn gysylltiedig.

Mae tri math o sicrwydd. Yn *mlaenaf*, sicrwydd hollol. Dyma y sicrwydd sydd yn gorwedd mewn egwyddorion angenrheidiol a thragwyddol: e.g. $2 \times 2 = 4$; bodolaeth lle; fod pob corff mewn lle; fod gan bob darweliad ei achos; y bôd o Dduw.

Sicrwydd rhesymegol, hyny yw, mae y cysylltiad rhwng cynseiliau â chasgliad, yn hollol felly.

Yn *ail*. Sicrwydd anianyddol. Dyma y sicrwydd sydd yn gorwedd yn y cysylltiad rhwng achosion anianyddol a'u hymddangosiadau neu

effeithiau: e.g. atdyniad, gwres, cystlynau fferyllol yn gyffredinol, galluoedd gallofyddol.

Mae rheswm yn golygu yr achosion hyn fel yn gynhenid weithgar ac unffurf; ac yna, lle bynag y bodola achos anianyddol, dysgwyliwn ei effeithiau priodol.

Yn awr, nid ydym yn galw gweithrediad yr achosion hyn yn *hollol* sicr, o herwydd y dibynant ar ewyllys yn y pen draw,—ewyllys Duw; a gallwn feddwl y medr yr ewyllys a'u hordeiniodd, eu cyfnewid, eu hattal, neu eu diddymu: nid oes ganddynt ddim sicrwydd cynnwynol, —etto, fel achosion roddwyd mewn amser a lle, yr ydym yn edrych arnynt yn gyffredin fel yn anghyfnewidiol. Os cânt eu cyfnewid, neu eu hattal mewn unrhyw amgylchiad, gorfodir ni i gydnabod presenoldeb yr ewyllys a'u hordeiniodd hwy. *Gwyrth* y galwn ni y cyfryw gyfnewidiad neu attaliad; hyny ydyw, peth i synu ato,—rhyfeddod,—oblegid nad edrychid am dano.

Pan, gan hyny, y daliwn fod rhywbeth yn anianyddol sicr, golygwn ei fod yn sicr yn anghyfnewidioldeb achos yn gweithredu mewn amser a lle, ac o dan reidrwydd perthynasol i'r ewyllys ddwyfol; ond etto nid yn *hollol* sicr, o herwydd fod yna y posiblrwydd o wyrth. Ond pan y dywedwn fod rhywbeth yn hollol sicr, golygwn ei fod yn sicr fel y mae yn gynnwysedig mewn egwyddor sydd yn anghyfnewidiadwy yn ei natur, a chan hyny sydd yn annibynol ar ewyllys.

Yn *drydydd*. Sicrwydd moesol, ydyw y sicrwydd sydd yn gorwedd rhwng cysylltiad cymhelliad ac ewyllys. Wrth ewyllys y golygwn achos hunan-wybodol a deallus, neu achos mewn undeb gyda dealltwriaeth. Y mae hefyd, yn yr ystyr lawnaf, yn achos *per se;* hyny yw, mae yn cynnwys ynddo ei hun effeithiolrwydd priodol, ac yn penderfynu ei gyfeiriad ei hun. Wrth *gymhellion* y golygwn y rhesymau yn ol pa rai y gweithreda yr ewyllys. Yn y cyffredin, mae pob gweithgarwch yn myned rhagddo yn ol rheolau, deddfau, neu resymau; oblegid meddant yr un ystyr: ond mewn sylweddau materol yn unig, nid yw y rheol yn cael ei golygu gan y gallu sydd yn actio,—golygir hi yn unig gan y dealltwriaeth a ordeiniodd ac a drefnodd y cyfryw allu. Mewn ysbryd, (i'r gwrthwyneb), mae y gweithgarwch a alwn ni yn ewyllys yn ymwybodol, ac yn gysylltiedig gyda yr amgyffrediad o resymau, neu ddybenion, neu gymhellion gweithrediad. Mae y cymhellion neu y dybenion hyn i weithrediad o ddau fath. Yn *mlaenaf,* y rhai geir yn meddylddrychau y rheswm ymarferol, sydd yn penderfynu beth sydd addas a da. Mae y rhai hyn yn rhesymau o awdurdod oruchaf. Yn *ail*, y rhai geir yn y deall a'r teimladrwydd: e.g. y defnyddiol a'r cyfleus uniongyrchol, a boddhad y teimlad. Mae y rhai hyn yn iawn yn unig pan mewn darostyngiad i'r rhai cyntaf.

Yn awr, mae y rhesymau a'r cymhellion hyn yn oleuni i'r ewyllys,

ac yn gwasanaethu er cyfeirio ei gweithrediadau; ac mae y gydwybod ddynol, (yr hon nad ydyw amgen na'r rheswm), wedi tynu allan reolau penodol i'r ewyllys, sydd yn addas i bob amgylchiad a pherthynas, pa rai a elwir *moeseg (ethics)* neu *y rheolau.*

Nid yw yr ewyllys dan orfodaeth neu reidrwydd i ufuddhau i'r rheolau hyn. Mae yn ymwybodol yn mhob ewyllysiad o allu i wneuthur neu i beidio gwneuthur: ond etto, gan fod yr ewyllys yn ffurfio unoliaeth gyda'r dealltwriaeth, yr ydym yn cymeryd yn ganiatâol yr ufuddha iddynt, oddieithr fod seiliau i gasgliad gwrthwynebol yn ymddangos. Ond yr unig sail o debygrwydd am anufudddod i'r rheolau hyn a orwedd yn yr ystad o bechadurusrwydd,—llygredigaeth y teimladrwydd,—neu y tueddfryd sydd i groesi cydgordiad ac addasrwydd y cyfansoddiad ysbrydol. Gan hyny ni all sicrwydd moesol fod ond yn unig lle mae cydgordiad y fodaeth ysbrydol wedi ei gadw. Er enghraifft: Duw ac angylion da. Yn Nuw mae sicrwydd moesol yn anfeidrol. Mae ei dueddiadau yn anfeidrol bur, a'i ewyllys oddiar barodrwydd yn penderfynu gwneuthur yn iawn; nid yw yn cael ei gorfodi, oblegid yna pallai ei anfeidrol rinweddolrwydd. *Nid* yw sicrwydd moesol yn *hollol,* o herwydd gan fod ewyllys yn allu i wneuthur neu i beidio gwneuthur, mae yna bob amser bosiblrwydd (er y gall nad oes yna ddim tebygolrwydd, ïe, fod yna annhebygolrwydd anfeidrol) i'r ewyllys anufuddhau i ddeddfau rheswm.

Yn amgylchiadau engyl a dynion da, mae y sicrwydd moesol y cyfryw fel ag i beidio cael ei ddilyn gydag unrhyw ofn ymadawiad. Gyda golwg ar y fath ddynion a Joseph, Daniel, Paul, Howard, a Washington, gallwn ddyfalu gyda gradd uchel a boddhaol o sicrwydd moesol, yn nghylch y dull yr ymddygant hwy mewn unrhyw amgylchiadau cynnwysedig o ddylanwad cymhellion. Gwyddom yr ufuddhant i wirionedd, cyfiawnder, a thrugaredd,—hyny ydyw, y dosbarth *cyntaf* o gymhellion; a'r *ail* yn unig mor bell ag y maent yn awdurdodedig gan y cyntaf. Os bydd y dosbarth cyntaf o gymhellion yn cael eu gwrthod, yna ni ellir dyfalu yr ymddygiad dynol ond yn unig yn ol dylanwad yr ail ddosbath.

Modd bynag, mae y cymeriad dynol wedi ei gymysgu a'i gyfansoddi yn amrywiol. Gallem wneuthur graddfa o rifedi annherfynol o raddau, oddiwrth bwynt uchaf rhagoriaeth moesol at y pwynt isaf o ddiraddiad moesol, ac etto gwnai ein rhagfynegiadau am yr ymddygiad ddynol amrywio gyda phob gradd.

Mewn unrhyw amgylchiad neillduol lle y gelwir arnom i resymu oddiwrth gysylltiad y cymhellion gyda yr ewyllys, mae yn amlwg y rhaid i ni benderfynu o barth cymeriad yr unigolydd mor fanwl ag sydd bosibl, mewn trefn i wybod *effaith* debygol y galluoedd moesol gwrthwynebol yr ydym yn debyg o'u canfod.

Yr ydym wedi nodi nad ydyw sicrwydd moesol yn bodoli ond yn unig lle mae cydgordiad y cyfansoddiad moesol wedi ei ddyogelu. Yma gwyddom y caiff y da ufudd-dod. Gellir sylwi yn chwanegol at hyn, y gellir dweyd fod sicrwydd moesol yn bodoli yn amgylchiad y diraddiad moesol dyfnaf, lle y mae yr hyn sydd dda yn cael ei lwyr wrthod. Y rheol yma yw, "beth bynag sydd fwyaf dymunol;" ac mae yr ewyllys wedi ei llyneu i'r syniad o'r mwyaf dymunol. Ond yn yr ystad sydd rhwng y ddau eithafnod yna, y gorwedd maes llydan tebygrwydd. Nid yw yr hyn a elwir yn gyffredin yn wybodaeth o'r natur ddynol, ac a ystyrir o'r pwys mwyaf yn helyntion bywyd, yn wybodaeth o'r natur ddynol fel y dylai fod, ond fel y mae yn ei hamrywiaeth dirfawr o dda a drwg. Cawn y wybodaeth hon oddiwrth sylw a hanes. Yr hyn a ddylai y natur ddynol fod, dysgwn hyny oddiwrth reswm.

Ar bwnc sydd o gymaint pwys, a lle y mae mor ddymunol cael syniadau clir a phenderfynol, nid yw yr anraslonrwydd rheithegol o ail-adroddiad o nemawr bwys, pan fyddo y cyfryw ail-adroddiad yn gwasanaethu ein hamcan mawr. Gan hyny, maddeuir i mi, am alw sylw y darllenydd at bwnc a awgrymwyd o'r blaen, noder, fod yr ewyllys mewn tri-undod gyda rheswm a theimladrwydd, ac yn nghyfansoddiad ein bodaeth, ei bod wedi ei bwriadu i dynu ei rheolau a'i darbwylliadau oddiwrthynt. Rhaid fod gweithredoedd nad ydynt yn nghyfeiriad rheswm na theimladrwydd, yn weithredoedd hynod o ddibwys; a chan hyny, gallwn gasglu fod gweithredoedd o'r dysgrifiad yma, er yn bosibl, etto yn hynod o anghyffredin. Felly, wrth ddyfalu gweithredoedd dyfodol yr ewyllys, gallwn, fel y mesuronydd, fyned heibio y gwahaniaethau gorfychan, a golygu fod holl actau yr ewyllys naill ai yn nghyfeiriad y rheswm, neu y teimladrwydd, neu y ddau mewn cydgordiad. Er fod yr ewyllys yn ymwybodol o allu i wneuthur, allan o gyfeiriad y rheswm a'r teimladrwydd, etto, yn rhinwedd y tri-undod yn yr hwn y bodola, mae yn ymostwng i fuddiannau cyffredin y fodaeth, ac yn ymgynghori ag awdurdod cydwybod, neu foddhad y teimladau. Yn awr mae pob dyn wedi ffurfio iddo ei hun arferion a chymeriad sydd yn fwy neu lai sefydlog. Gwybyddir ei fod wedi darostwng ei hun o ddydd i ddydd, ac mewn amrywiaeth mawr o drafodaethau, i ddeddfau cydwybod; ac yna yr ydym yn casglu ei fod wedi ffurfio iddo ei hun amcan sefydlog i wneuthur yn iawn. Arddangosodd hefyd, ar lawer achlysur, deimladau mawrfrydig, haelionus, a phur; ac yna casglwn fod ei deimladrwydd ef mewn cysondeb a'i gydwybod. Neu yr ydys yn gwybod ei fod yn troseddu deddfau cydwybod o ddydd i ddydd, ac mewn amrywiaeth mawr o oruchwylion; ac yna yr ydym yn casglu ei fod ef wedi ffurfio iddo ei hun amcan sefydlog i wneuthur drwg. Arddangosodd hefyd, ar achlysuron lawer, deimladau

isel, hunanol, a llygredig; ac yna casglwn fod ei deimladrwydd ef mewn gwrthdarawiad a'i gydwybod.

Yn y ddau amgylchiad a dybiwyd, a'r un modd yn mhob achos tybiadwy, mae yna seiliau amlwg oddiar ba rai, mewn unrhyw amgylchiadau, y gallwn ragweled a rhagfynegu ewyllysiadau. Y mae yna rywbeth "sydd yn amlwg ac yn awr yn bodoli â pha un y mae bodolaeth dygwyddiad dyfodol yn gysylltiedig." Ar un llaw nid yw y rhagfynegiadau hyn yn cario dim dylanwad reidiol dros y dygwyddiadau eu hunain, oblegid maent yn gwbl anghysylltiol gydag achosiaeth y dygwyddiadau; ac ar y llaw arall, nid yw yn ofynol golygu fod y dygwyddiadau yn rheidiol, mewn trefn i ddyfod yn wrthddrychau cyfrifiadau tebygrwydd. Pe byddent yn rheidiol, nid tebygol fyddai y cyfrifiadau mwyach:—i'r gwrthwyneb, cymerant bendantrwydd a sicrwydd cyfrifiadau am ddiffygion ar yr haul ac ymddangosiadau sylfaenedig ar ddeddfau rheidiol. Ond ni fall y cyfrifiadau hyn ond amcanu yn unig at sicrwydd *moesol*, o herwydd y gwneir hwynt yn ol penderfyniadau yr ewyllys mewn undeb â rheswm a theimladrwydd; ond etto ewyllys a wyddys sydd yn meddu y gallu i ymadael ar yr un fynyd oddiwrth y llinell o benderfyniad a sefydlodd iddi ei hun. Fel hyn gall y cyfrifiadau a wnawn gyda golwg ar ymddygiad un dyn mewn amgylchiadau penodol, wedi eu seilio ar gywirdeb adnabyddus, a'r dyfaliadau a wnawn gyda golwg ar un arall, wedi ei sylfaenu ar ei anonestrwydd adnabyddus, ein siomi y naill fel y llall, trwy ddirywiad annysgwyliadwy, etto posibl y cyntaf, a diwygiad annysgwyliadwy, ond posibl, yr olaf. Pan yr ydym yn rhesymu oddiwrth effeithiau moesol at achosion moesol, neu oddiwrth achosion moesol at effeithiau moesol, nis gallwn olygu gweithrediad achosion mor bendant ac unffurf o dan yr unrhyw ddeddf o reidrwydd ag sydd yn perthyn i achosion anianyddol, o herwydd mewn achosiaeth foesol yr ewyllys rydd ydyw y penderfynydd effeithiol a diweddaf. Diau ei fod yn wirionedd ein bod yn rhesymu yma gyda gradd uchel o debygolrwydd, gyda thebygolrwydd digonol i reoleiddio amgylchiadau cymdeithas yn ddoeth a chydgordiol; ond nis gallwn resymu o barth ymddygiad dynol, fel y rhesymwn gyda golwg ar ymddangosiad yn y byd anianyddol, oblegid fod yn bosibl i'r ewyllys ddynol i siomi cyfrifiadau sylfaenedig ar ddylanwad cyffredin cymhellion: e. g. nid yw cymhellion yn dal yr un berthynas â'r ewyllys ag a ddeil tân gyda sylwedd hylosg; rhaid i'r tân losgi; gall yr ewyllys benderfynu neu beidio penderfynu yn ngolwg y cymhelliad. Gan hyny, dyma y rheswm paham mae prawf tebygol wedi derbyn yr enw o brawf moesol, mewn siarad cyffredin; gan mai tebygol yn gyffredin ydyw prawf moesol, mae pob prawf tebygol yn cael ei alw yn foesol.

Mae yr ewyllys yn gwahaniaethu oddiwrth achosion anianyddol

trwy ei fod yn achos *per se*, ond er yn achos felly, mae ganddi ddeddfau i gyfeirio ei hewyllysiadau. Mae yn wir y gall droseddu y deddfau hyn a dyfod y ddeddf mwyaf arglwyddol ac anghyson iddi ei hun; ond nid yw y troseddiad hwn o ddeddf a'r penderfyniad mympwyol yma yn cyfodi yn rheidiol o honi fel achos *per se*, ond oddiar gamddefnydd o'i rhyddid. Fel achos sydd mewn undeb gyda deddfau y rheswm, dysgwyliwn iddi fod yn unffurf, ac yn ei symudiadau cyson a pherffaith y mae yn unffurf. Mae achosion anianyddol yn unffurf o herwydd fod Duw wedi eu penderfynu a'u sefydlu yn ol deddfau deilliedig o anfeidrol ddoethineb.

Gall yr ewyllys ddynol hefyd fod yn unffurf trwy ufuddhau i ddeddfau y gydwybod, ond gall yr ymadawiadau oddiwrthynt fod hefyd yn lluosog ac amrywiol.

I grynhoi y sylwadau hyn yn nghyd mewn gosodiadau cyffredinol, sylwn;—

Yn mlaenaf: Y cysylltiad o eiddo ewyllys gyda rheswm a theimladrwydd yn undeb y meddwl neu ysbryd, ydyw y cysylltiad ar ba un y seiliwn ragfynegiadau o barth ewyllysiadau dynol.

Yn ail: Trwy y cyfryw gysylltiad, gwelir fod yr ewyllys wedi ei bwriadu i gael ei rheoleiddio gan wirionedd a chyfiawnder, a chan deimlad mewn darostyngiad iddynt.

Yn drydydd: Yn mhurdeb yr enaid mae yr ewyllys yn cael ei rheoleiddio fel hyn.

Yn bedwerydd: Nid yw y rheoleiddiad yma, modd bynag, yn cymeryd lle trwy lywodraeth reidiol o eiddo rheswm a theimladrwydd dros yr ewyllys, ond trwy hunan-ddarostyngiad yr ewyllys i'w rheolau a'u cymhellion;—dyma sydd yn cyfansoddi rhinweddolrwydd,—a'r ymddygiad gwrthgyferbyniol sydd yn ffurfio drwg-haeddiant.

Yn bummed: Rhaid i'n cyfrifiadau gael eu dwyn yn mlaen yn ol graddau a sefydlogrwydd yr hunan-ddarostyngiad yma i reswm ac iawn deimlad; neu lle nad yw hyn yn bodoli, yn ol gradd a sefydlogrwydd yr arferion o ddrwg-wneuthuriad, mewn hunan-ddarostyngiad i nwydau neillduol yn groes i reswm.

Yn chweched: Bydd ein cyfrifiadau yn fwy neu yn llai sicr yn ol maint a manylwch ein sylwadaeth ni ar ymddygiad dynol.

Yn seithfed: Ni ddichon ein cyfrifiadau byth gael eu dilyn gan sicrwydd *hollol*, o herwydd gan mai damweiniol yw yr ewyllys, medda allu i siomi y cyfrifiadau a sylfaenwyd ar yr unffurfiaeth adnabyddus feithaf.

Yn wythfed: Dilynir ein dysgwyliadau gyda golwg ar benderfyniadau y Duwdod gyda'r sicrwydd moesol uchaf. Yr ydym yn dweyd sicrwydd *moesol*, oblegid nad ydyw yn sicrwydd yn cyfodi o reidrwydd, ac yn yr ystyr yna yn *hollol;* ond sicrwydd yn cyfodi oddiar ewyllys

rydd bôd anfeidrol bur. Fel hyn, pan ddywedir am Dduw ei fod yn anghyfnewidiol, ac y dywedir fod yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog, ni all fod yn golygu nad oes ganddo ef y gallu i gyfnewid neu i benderfynu yn groes i'r gwirionedd; ond fod yna sierwydd moesol anfeidrol yn codi o berffeithrwydd ei natur, na wna efe byth gilio oddiwrth anfeidrol ddoethineb ac uniondeb.

Priodoli unrhyw anghyfnewidioldeb arall i Dduw, fyddai ei ymddifadu o'i ryddid.

Yn nawfed: Na raid tybio fod y rhagwelediad dwyfol o ewyllysiadau dynol yn eu gwneuthur yn rheidiol, mwy na rhagwelediad dynol, yn gymaint nad oes gan y rhagwelediad o honynt ddim cysylltiad rheidiol mewn unrhyw amgylchiad gyda eu hachosaeth. Etto, nid ymddengys ei fod yn hanfodol i'r rhagwelediad dwyfol o ewyllysiadau iddynt fod yn rheidiol. Gwelsom y gall ewyllysiadau damweiniol dyfodol gael eu dyfalu gyda gradd uchel o sierwydd hyd yn nod gan ddynion; ac yn awr a thybio fod yn rhaid i'r Bôd dwyfol gymeryd yr un cwrs, i'w dyfalu trwy *gyfrwng*,—rhaid y bydd terfynau a manyldra ei gyfrifiadau ef mewn cyfartaledd i'w wybodaeth ef, a pha faint yn fyr o wybodaeth sicr a pherffaith o bob ewyllysiad damweiniol dyfodol y gellir tybio i'r meddwl anfeidrol syrthio yn y cyfryw gyfeiriadau?

Yn ddegfed: Ond gallwn beidio tybio fod y meddwl anfeidrol yn cael ei orfodi i gyrchu at gasgliadaeth, neu i ddefnyddio *cyfrwng* er cyrhaedd at unrhyw wybodaeth neillduol. Yn ei briodoledd o ragwybodaeth, y mae efe yn sylweddol bresenol i'r oll o'r posibl a'r gweithredol dyfodol.

III. Y trydydd pwynt a'r diweddaf yn nadl Edwards ydyw a ganlyn: "Y mae tybied nad yw ewyllysiadau dyfodol gweithredyddion moesol yn ddygwyddiadau angenrheidiol; neu yr hyn sydd yr un peth, yn ddygwyddiadau nad ydyw yn anmhosibl iddynt beidio cymeryd lle; ac etto tybied fod Duw yn sicr yn eu rhagwybod, ac yn gwybod pobpeth, yn dybied fod gwybodaeth Duw yn anghyson â hi ei hun. Oblegid dweyd fod Duw yn sicr, ac heb unrhyw ddyfaliad, yn gwybod y bydd i beth yn anffaeledig fod, yr hwn, ar yr un pryd, y gwyr ei fod yn *ddamweiniol*, fel y gall o bosibl beidio bod, sydd dybied ei wybodaeth yn anghyson â hi ei hun; neu fod un peth a wyr yn hollol anghyson a pheth arall a wyr." (tudal. 119.)

Sylwedd y cyfryw resymiad yw hyn. Yn gymaint ag fod dygwyddiad damweiniol dyfodol yn *ansicr* o wir natur a darnodiant, nis gall gael ei alw yn wrthddrych gwybodaeth *sicr*, i unrhyw feddwl, hyd yn nod i'r meddwl dwyfol, heb wrthebiad amlwg. "Yr un peth ydyw a dweyd, y mae yn awr yn gwybod fod gosodiad o wirionedd sicr anffaeledig, yr hwn y gwyr ei fod o wirionedd ansicr damweiniol." (etto.)

Cawn gyfeiliornad yma etto yn cyfodi o ddiffyg gwneud gwahaniaeth

priodol, yr hwn a nodais allan eisoes,—y gwahaniaeth rhwng sierwydd ewyllysiad dyfodol fel ffaith noeth yn bodoli, a'r dull yn mha un y daeth y ffaith hono i fodolaeth.

Y mae y ffaith o ewyllysiad yn dyfod i fodolaeth yn ddamweiniol; hyny yw, trwy allu yr hwn wrth roddi iddi ei bodolaeth, nad yw dan un ddeddf o reidrwydd, ac ar yr eiliad o'i hachosi, sydd yn ymwybodol o allu i attal yr egni achosol. Yn awr, mae pob ewyllysiad a ddaeth i fodolaeth yn y ffordd yma, yn meddu bodolaeth sicr a damweiniol. Y mae yn sicr ddarfod iddynt ddyfod i fodolaeth, oblegid mae hyny yn fater o sylw; ond mae eu bodolaeth yn ddamweiniol hefyd, canys daethant i fôd, nid trwy reidrwydd fel casgliad mesuronol, ond trwy achos damweiniol a rhydd, yr hwn, er yn rhoddi yn weithredol fodolaeth i'r ewyllysiadau hyn, oedd yn meddu y gallu i'w hattal.

Nid yw sicrwydd a damweiniaeth yn groes i'w gilydd, ac yn cau allan y naill gyda golwg ar yr hyn a gymerodd le eisoes. A ydynt felly gyda golwg ar y dyfodol? Yn y lle cyntaf, gallwn resymu ar seiliau tebygol. Mae achosion damweiniol eisoes wedi cynnyrchu ewyllysiadau—gan hyny gallant gynnyrchu ewyllysiadau yn y dyfodol. Maent wedi cynnyrchu ewyllysiadau mewn ufudd-dod i ddeddfau rheswm a theimladrwydd—yna gallant wneuthur felly yn y dyfodol. Gwnaethant hyn yn ol unffurfiaeth hunan-arddodol, maith ac arferol—gan hyny gall y cyfryw unffurfiaeth gael ei pharhau i'r dyfodol.

Gan hyny gall dygwyddiad damweiniol dyfodol feddu gradd uchel o debygolrwydd, ac hyd yn nod sicrwydd moesol.

Ond i fôd wedi ei gynnysgaeddu â rhagwybodaeth, beth sydd yn lluddias gwybodaeth bendant ac anffaeledig o ddygwyddiad damweiniol dyfodol? Ymestyna ei feddwl ef i'r gweithredol yn y dyfodol, mor rwydd ag i'r gweithredol yn y mynedol; ond nid yr hyn sydd yn d'od o amgylch trwy ei benderfyniad a'i egni ef ei hun, ac felly yn rheidiol yn eu perthynas ag ef ei hun fel achos, ydyw y gweithredol dyfodol yn unig, ond hefyd yr hyn sydd yn cymeryd lle trwy egni ewyllysiadau ffurfiedig, damweiniol a rhyddion, megys galluoedd i wneuthur neu i beidio gwneuthur. Nid oes dim yn wrthwynebol, fel y tybiai Edwards, rhwng y rhagwybodaeth ddwyfol anffaeledig, a damweiniaeth y dygwyddiad;—mae y rhagwybodaeth ddwyfol yn anffaeledig yn rhinwedd ei pherffeithrwydd cynnwynol ei hun; ac wrth gwrs ni all fod yna un ammheuaeth na fydd i'r dygwyddiad a ragwelwyd gymeryd lle; ond etto rhagwelir ef fel dygwyddiad a gymer le yn ddamweiniol, ac nid yn rheidiol.

Mae y cyfeiliornad ydym newydd nodi, yn ymddangos drachefn yn y casgliad a dŷn Edwards yn uniongyrchol oddiwrth ei drydydd sefyllfa. "Oddiwrth yr hyn a sylwyd," ebe efe, "mae yn amlwg nad yw *arfaethau* diammodol Duw yn fwy anghyson â rhyddid dynol, ar

gyfrif angenrheidrwydd dygwyddiad, yr hwn sydd yn canlyn o'r cyfryw arfaethau, na rhagwybodaeth ddiammodol Duw." (tudal. 120.) Arfaethau diammodol Duw ydynt benderfyniadau ei ewyllys, a chynnwysant y dygwyddiadau at ba rai y cyfeiriant, fel mae yr achos yn cynnwys yr effaith. I'r gwrthwyneb, nid oes gan ragwybodaeth un achosaeth o barth y dygwyddiadau a ragwybyddir. Nid penderfyniad o eiddo yr ewyllys ddwyfol ydyw, ond ffurf o eiddo y dwyfol ddealltwriaeth. Gan hyny mae arfaethau Duw mewn gweithred a gwirionedd yn gorfodi dygwyddiadau; tra mae rhagwybodaeth Duw yn cyrhaedd at ddygwyddiadau nad ydynt reidiol ond damweiniol,—yn gystal ag at y rhai a rag-benderfynwyd.

Mae Edwards bob amser yn cymysgu damweiniaeth gyda siawns neu ddim achos, ac felly yn ei wneuthur yn beth afresymol hyd yn nod yn y darnodiad o hono. Mae bob amser hefyd yn cymysgu sicrwydd gyda rheidrwydd, ac felly yn ein gwasgu i gymeryd yr olaf yn gyffredinol a hollol, neu daflu ein hunain i ansicrwydd, ammheuaeth, ac annhrefn eithaf.

Rhagwybodaeth sydd briodoledd hanfodol o eiddo y Duwdod. Mae rhagwybodaeth yn gwneuthur y dygwyddiadau a ragwybyddir, yn sicr; ond os yn sicr, rhaid iddynt fod yn rheidiol. Ac ar y llaw arall, os nad ydyw y dygwyddiadau yn sicr, nis gallent gael eu rhagwybod,—canys ni all yr hyn sydd ansicr fod yn wrthddrych gwybodaeth bendant ac anffaeledig; ond os ydynt yn sicr mewn trefn i gael eu rhagwybod, yna rhaid iddynt fod yn rheidiol.

Etto: mae damweiniaeth, wrth gynnwys bod heb achos, yn rhoddi pob dygwyddiad dyfodol dybir i ddyfod o dani, allan o bob cysylltiad gydag unrhyw beth rhagflaenol sydd yn awr yn bodoli, ac mewn canlyniad ni chaniatâ unrhyw sail oddiar ba un y dichon iddynt gael eu dyfalu a'u rhagweled. Mae damweiniaeth, hefyd, fel y mae yn wrthgyferbyniol i reidrwydd, yn dinystrio sicrwydd, ac yn cau allan hyd yn nod y posiblrwydd o ragwybodaeth ddwyfol. Dyma rediad rhesymiad Edwards.

Yn awr, os ydym ni wedi cymmodi damweiniaeth gydag achos a sicrwydd, ac wedi ei wrthgyferbynu i reidrwydd, fel hyn yn gwahanu achos a sicrwydd oddiwrth lywodraeth hollol ac anghyfnewidiol rheidrwydd, yna mae yr holl resymu yma wedi ei droi o'r neilldu yn wirioneddol a chyfreithlawn.

Yn y tragwyddol reswm, a'r teimladrwydd yn gysylltiedig ag ef yn unig y gorwedd rheidrwydd:—damweiniaeth yn unig sydd yn gorwedd yn yr ewyllys. Ond gall gweithrediadau dyfodol ewyllys gael eu dyfalu oddiwrth ei hundeb adnabyddus a, a'i hunan-ddarostyngiad i, y rheswm a'r teimladrwydd.

Mae y cyfrifiadau neu y dyfaliadau hyn yn fwy neu yn llai tebygol,

neu yn sicr yn ol cymeriad adnabyddus y person sydd yn ddeilydd y cyfryw ddyfaliadau.

Am Dduw nid yn unig yr ydym yn dal fod ganddo y gallu i ddyfalu dygwyddiadau damweiniol dyfodol oddiar ryw seiliau adnabyddus, ond fod ganddo hefyd ragwybodaeth bendant a sicr o bob dygwyddiad. Mae efe yn gweled o'r dechreuad pa fodd y gwna achosion ac ewyllysiadau damweiniol weithredu. Mae yn gweled gyda sicrwydd ac anffaeledigrwydd hollol—ac iddo ef mae y dygwyddiadau yn anffaeledig a sicr. Ond etto nid ydynt yn rheidiol, oblegid nad yw yr achosion a'u cynnyrchant yn cael eu penderfynu a'u gorfodi gan unrhyw beth blaenorol. Maent yn achosion damweiniol a rhyddion, ac yn ymwybodol o allu i beidio gwneuthur yr hyn maent yn yr act o'i gwblhau ar y pryd.

Yr wyf yn hollol ddarbwylledig mai diffyg talu sylw i'r gwahaniaeth pwysig sydd rhwng y sicrwydd a gynnwysir yn y dwyfol ragwybodaeth, a'r rheidrwydd a gynnwysir yn y penderfyniad a'r arfaeth ddwyfol, yw ffynnonell fawr rhesymiadau twyllodrus a chasgliadau cyfeiliornus o barth rhagwybodaeth Duw. Pan fyddo Duw yn rhagbenderfynu neu yn arfaethu, mae yn sefydlu y dygwyddiad trwy reidrwydd gyda golwg arno ei hun fel achos anfeidrol ac anwrthwynebol. Nis gall fod yn wahanol i'r modd y'i harfaethwyd, tra fyddo yr arfaeth yn sefyll. Ond pan y byddo yn rhagwybod dygwyddiad, gesyd ger ein bron ffurf o'i anfeidrol ddealltwriaeth yn unig, heb ymarfer yr un ddylanwad achosol, ac mewn canlyniad, orfodol o fath yn y byd. Yr ewyllysiadau yr wyf fi yn ymwybodol o'u hymarfer yn awr, ydynt yn gymhwys y peth ydynt, pa un bynag a ydynt yn cael eu rhagweled neu beidio—ac fel y maent yn awr yn gweithredol fodoli, mae ganddynt sicrwydd: ac etto maent yn ddamweiniol, o herwydd yr wyf yn ymwybodol o allu i beidio eu hymarfer. Y maent, ond gallasant beidio bod. Yn awr, bydded dealltwriaeth Duw mor berffaith, fel ag i ragweled bum' mil o flynyddau yn ol, yr ewyllysiadau roddir allan genyf fi yn awr; mae yn amlwg nad ydyw y cyfryw ragwelediad yn dinystrio damweiniaeth yr ewyllysiadau, ac nad ydyw y ddamweiniaeth yn peri fod y rhagwelediad yn afresymol. Mae y dybiaeth yn rhesymol ac yn bosibl.

Nid yw yn angenrheidiol i ni ystyried y rhelyw o gasgliadau Edwards, gan yr ymddengys yn amlwg fod y rhesymiadau uchod yn gymhwysiadwy atynt hwythau hefyd.

Cyn terfynu y rhan yma o'r traethawd mewn llaw, yr wyf yn ei ystyried yn briodol i osod i lawr rywbeth tebyg i raddfa o sicrwydd. Wrth wneud hyn, gorfodir fi i ail-adrodd rhai pethau. Ond ran hyny, trwy ail-adroddiadau, a thrwy osod yr un pethau mewn sefyllfaoedd newyddion, yn fynych y gallwn gaffael eglurdeb oreu, a llwyddo i wneuthur meddylddrychau athronyddol yn gynnefin.

Yn mlaenaf: Gadewch i ni fanwl ystyried y gwahaniaeth sydd rhwng sierwydd a rheidrwydd. Cyfeiria rheidrwydd at wirioneddau a dygwyddiadau o'u hystyried ynddynt eu hunain. Perthyna sicrwydd i'n hamgyffrediad neu ein hargyhoeddiad ni o honynt. Gan hyny nid sicrwydd ei hun, ond sail sicrwydd ydyw rheidrwydd. I wirioneddau neu fodaeth yn unig mae *sicrwydd hollol* yn perthyn.

Mae gwirioneddau cyngreddfol neu gyntaf, a'r casgliadau rhesymegol dynir oddiwrthynt, yn rheidiol trwy reidrwydd hollol. Ni chaniatànt dybiaethau negyddol, ac y maent yn annibynol ar ewyllys. Mae bodolaeth Duw, amser, a lle, yn rheidiol trwy reidrwydd hollol.

*Rheidrwydd perthynasol* sydd yn perthyn i gasgliadau rhesymegol a dygwyddiadau neu ymddangosiadau. Mae casgliadau rhesymegol bob amser yn rheidiol berthynasol i'r cynseiliau, ond ni allant fod yn rheidiol hollol oddieithr fod y cynseiliau oddiwrth ba rai y cawsant eu tynu yn rheidiol hollol.

Trwy reidrwydd perthynasol yn unig mae pob ymddangosiad a dygwyddiad yn rheidiol; canys wrth ddibynu ar achosion, dibynant oll yn y pen draw ar ewyllys. Gan hyny, a'u hystyried ynddynt eu hunain, damweiniol ydynt; oblegid nid ydyw yr ewyllys sydd yn eu cynnyrchu, naill ai yn uniongyrchol neu trwy ail-achosion, yn rheidiol, ond yn ddamweiniol a rhydd—a chan hyny mae eu hanfodolaeth yn dybiadwy. Ond rheidiol berthynasol i ewyllys ydynt. Mae yr ewyllys ddwyfol, a roddodd enedigaeth i'r crëad, yn anfeidrol; gan hyny, pan roddwyd egni y cyfryw ewyllys allan, creadigaeth oedd yr effaith angenrheidiol. Nid yw y Duwdod dan yr un rheidrwydd i ewyllysio; ond pan y gwna ewyllysio, dywedir fod yr effaith yn canlyn o reidrwydd—gan olygu wrth hyn, fod egni neu *nisus* yr ewyllys ddwyfol yn allu hanfodol, ac nad oes yna yr un gallu arall ddichon ei lluddias i gymeryd effaith.

Nid yw ewyllys grëedig dan yr un rheidrwydd i ewyllysio; ond pan wna ewyllysio neu wneuthur ei *nisus*, mae effeithiau yn canlyn yn rheidiol, yn ol y cysylltiad sefydlwyd gan ewyllys y Duwdod, rhwng egni yr ewyllys grëedig â gwrthddrychau cylchynol. Lle y byddo egni o eiddo yr ewyllys grëedig wedi ei wneud, ac effeithiau heb fod yn canlyn, cyfyd hyn oddiwrth rym rheidiol cryfach gallu gwrthwynebol, a sefydlwyd yr un modd gan y Duwdod; fel pa beth bynag a ganlyn egni ewyllys grëedig, ai ymddangosiad oddiallan, neu y profiad mewnol noeth o allu gwrthwynebol cryfach, canlyna trwy reidrwydd perthynasol i'r ewyllys ddwyfol.

Pan y deuwn i ystyried yr ewyllys yn ei pherthynas a'i hewyllysiadau ei hun, nid oes genym ddim rheidrwydd mwyach, hollol na pherthynasol; mae genym ddamweiniaeth a rhyddid hollol.

Yn awr, dywedasom mai i'n gwybodaeth neu ein hargyhoeddiad o wirioneddau a dygwyddiadau, mae sicrwydd yn perthyn.

Mae rheidrwydd yn un sail i sierwydd, hollol a pherthynasol. Mae genym wybodaeth sier neu argyhoeddiad o'r hyn a ganfyddwn i fod yn rheidiol yn ei natur ei hun, neu o'r hyn nad ydyw negedydd iddo yn dybiadwy; ac fel mae yn seiliedig ar *reidrwydd hollol*, gellir ei alw yn rheidrwydd hollol.

Mae y cysylltiad sefydledig rhwng achosion ac effeithiau, yn sail arall i sierwydd. Achosion ydynt o ddau fath: achosion eyntaf, neu achosion *per se*, neu achosion rhyddion a damweiniol, neu ewyllys: ac achosion anianyddol, pa rai ydynt reidiol trwy reidrwydd perthynasol.

Mae achosion eyntaf o ddwy radd, yr anfeidrol a'r feidrol.

Yn awr, yr ydym yn sier y bydd i ba beth bynag ewyllysia Duw gymeryd lle. Gellir hefyd galw hwn yn sierwydd hollol, o herwydd mae y cysylltiad rhwng ewyllysiadau dwyfol ac effeithiau yn rheidiol hollol. Nid yw yn dybiadwy y bydd i Dduw ewyllys yn ofer, oblegid gwnai hyn wrthddywedyd ei anfeidroldeb addefedig.

Mae y cysylltiad rhwng ewyllysiadau ewyllys grëedig ac effeithiau, a'r cysylltiad rhwng achosion anianyddol ac effeithiau, a thybio fod pob un wrth gwrs yn ei berthynasau a'i amgylchiadau priodol, yn gysylltiad o reidrwydd perthynasol; hyny yw, yn berthynasol gyda golwg ar yr ewyllys ddwyfol. Yn awr, mae sicrwydd ein gwybodaeth neu ein hargyhoeddiad y gwna dygwyddiad gymeryd lle, sydd yn dibynu ar ewyllysiad neu ar achos anianyddol, yn bur wahanol i wybodaeth sier o wirionedd rheidiol, neu yr argyhoeddiad sier y bydd i ddygwyddiad a ewyllysiwyd gán allu anfeidrol, gymeryd lle. Gall yr ewyllys yr hon a sefydlodd y eysylltiad, ar un unrhyw fynyd attal neu newid y cysylltiad. Yr wyf yn credu pan yr ewyllysiwyf symud fy llaw ar y papyr yma, y gwna symud, a thybio wrth gwrs fod yr aelod yn iach ar y pryd; ond mae yn bosibl i Dduw gyfnewid cyfansoddiad fy modaeth yn y fath fodd, fel na byddai gan fy ewyllys ddim mwy o gysylltiad a'm dwylaw nag sydd ganddi yn awr gyda chylchrediad y gwaed. Yr wyf yn credu hefyd y llosgai y papyr yma pe taflwn ef i'r tân; ond mae yn bosibl i Dduw gyfnewid cyfansoddiad y papyr neu y tân yn y fath fodd fel na wnai y tân ei losgi; ac etto mae genyf grediniaeth sier y gwna fy llaw ufuddhau i ewyllysiad, ac y gwna papyr losgi yn y tân. Nid yw y sierwydd hwn yn *sicrwydd hollol*, ond sierwydd *ammodol:* y bydd i ddygwyddiadau barhau fel hyn i gymeryd lle ar yr ammod na bydd i'r ewyllys ddwyfol newid ammod pethau. Gelwir y sierwydd ammodol hwn hefyd yn sierwydd *anianyddol*, oblegid fod y dygwyddiadau a olygir yn cynnwys dygwyddiadau neu ddarwelion y byd anianyddol, neu natur, heblaw ymddangosiadau ymwybodaeth, y rhai ni sylwir arnynt mor gyffredin.

Ond rhaid i ni yn nesaf edrych ar yr ewyllys yn ei pherthynas a'i hewyllysiadau. Yma mae yr oll yn ddamweiniaeth ac yn rhyddid,—nid oes yma ddim rheidrwydd. A oes yna unrhyw sail i wybodaeth sier gyda golwg ar ewyllysiadau dyfodol?

Pe byddai yr ewyllys fel achos *per se,* ar ei phen ei hun, ac heb fod mewn perthynas o fath yn y byd, ni allai fod yna unrhyw sail i unrhyw wybodaeth o gwbl, o barth ewyllysiadau dyfodol. Ond nid yw yr ewyllys ar ei phen ei hun felly. I'r gwrthwyneb, mae yn ffurfio unoliaeth gyda y teimladrwydd a'r rheswm. Datguddia rheswm *beth ddylai gael ei wneuthur,* ar sail gwirionedd rheidiol a digyfnewid. Datguddia y teimladrwydd beth sydd yn fwyaf dymunol neu bleserus, ar dir profiad personol. Yn awr, er y caniateir y gall yr ewyllys weithredu heb dynu rheswm neu gymhellydd gweithrediad oddiwrth y rheswm a'r teimladrwydd, etto mae yr enghreifftiau yn mha rai y gweithreda felly, mor anaml a dibwys, fel y gellid eu taflu allan o'r cyfrif. Gan hyny gallwn gymeryd yn ganiatâol ar dir dyogel, fel deddf gyffredin, fod yr ewyllys yn penderfynu yn ol darbwylliadau a chymhellion dynwyd oddiwrth y rheswm a'r teimladrwydd. Nid yw y ddeddf hon, yn ol ei gwir ddarnodiant, a gwir natur y gwrthddrych i ba un y perthyna, yn ddeddf reidiol—ond deddf ddatguddiedig yn ein hymwybodaeth fel un i'r hon y gwna yr ewyllys, yn yr ymarferiad o'i rhyddid, ddarostwng ei hun. Yn nghydgordiad a pherffeithrwydd ein bodaeth, y mae y rheswm a'r teimladrwydd yn perffaith gytuno. Wrth ufuddhau i'r naill neu y llall, mae yr ewyllys yn ufuddhau i'r ddau. Gyda golwg ar fodau perffaith, gallwn gyfrif gyda sicrwydd o barth i'w hewyllysiadau dan unrhyw amgylchiadau. Beth bynag a orchymynir gan reswm, beth bynag a ymddengys yn atdyniadol i'r teimladrwydd pur, dyna gaiff ufudd-dod a chydymffurfiad.

Ond pa fath sicrwydd yw hwn? Nid sicrwydd hollol, o herwydd y mae yn dybiadwy y gall yr ewyllys sydd yn ufuddhau, beidio ufuddhau, oblegid mae ganddi allu i beidio ufuddhau. Nid sicrwydd *anianyddol* ychwaith, canys nid yw yn perthyn i achos anianyddol, nac i'r cysylltiad rhwng ewyllysiadau a'u heffeithiau, ond i'r cysylltiad rhwng yr ewyllys a'i hewyllysiadau. Ac nis gallwn ei alw ychwaith, a siarad yn fanwl, yn sicrwydd *ammodol;* oblegid nad ydyw yr ewyllys, fel gallu *per se,* o dan ddim ammodau gyda golwg ar gynnyrchiad ei hewyllysiadau. Dweyd y bydd yr ewyllysiadau mewn cydgordiad a'r rheswm a'r teimladrwydd, os bydd i'r ewyllys barhau i ufuddhau i'r rheswm a'r teimladrwydd pur, sydd yn unig yn ddweyd y bydd yr ewyllysiadau yn iawn os dyry y gallu ewyllysiol allan iawn ewyllysiadau. Pa ryw fath sicrwydd ydyw, ynte? Yr wyf yn ateb, ei fod yn sicrwydd hollol arbenig,—sicrwydd seiliedig ar gyflwr perthynasol y rheswm a'r teimladrwydd, a'u hundeb gyda yr ewyllys;

a chan fod gorchymynion rhsewm yn eu perthynas ag ymddygiad wedi derbyn yr enw o ddeddfau *moesol*,* yn unig o herwydd eu bod yn meddu y berthynas yma,—ac fel y mae y teimladrwydd, pan yn cydgordio a'r rheswm, yn cael ei alw am hyny yn foesol bur, oblegid ei fod yn atdynu yr un ymddygiad ag y mae y rheswm yn ei orchymyn,—gall y sicrwydd hwn gyda phriodoldeb gael ei alw yn *sicrwydd moesol*. Modd bynag, nid yw yr enw yn nodi *gradd*. A ydyw y sicrwydd hwn yn meddu graddau? Ydyw. Gyda golwg ar ewyllysiadau Duw, mae genym y gradd uchaf o sicrwydd moesol,—sicrwydd moesol anfeidrol. Mae ganddo ef yn wir, yn ei anfeidrol ewyllys, allu i gynnyrchu unrhyw fath o ewyllysiadau; ond oddiwrth ei anfeidrol ragorolrwydd, cynnwysedig yn y cydgordiad o eiddo yr anfeidrol reswm gyda serchiadau dwyfol yr anfeidrol haelfrydedd, wirionedd, a chyfiawnder, yr ydym yn sicr y bydd ei ewyllysiadau bob amser yn iawn, da, a doeth. Heblaw hyn, sicrhaodd ni o'i benderfyniad sefydlog i bleidio cyfiawnder, gwirionedd, a chariad; a rhoddodd y sicrhâd hwn i ni mewn perffaith wybodaeth o hono ei hun yn holl dragwyddolrwydd ei fodaeth. Na fydded i neb geisio cymysgu y sicrwydd moesol perffaith hyn gyda rheidrwydd, oblegid mae y gwahaniaeth yn amlwg. Pe dywedid fod ewyllys Duw yn cael ei phenderfynu yn rheidiol yn nghyfeiriad gwirionedd, cyfiawnder, a chariad, byddai yn ddywediad gyda golwg ar *ddull* penderfyniad yr ewyllys ddwyfol: noder,—fod y penderfyniad dwyfol yn cymeryd lle, nid mewn damweiniaeth a rhyddid, nid gyda y gallu i wneuthur penderfyniad croes iddo, ond mewn hollol reidrwydd. Ond os dywedir yr â ewyllys Duw, yn *sicr*, yn nghyfeiriad gwirionedd, cyfiawnder, a chariad, golygai y dywediad ein *gwybodaeth* a'n *hargyhoeddiad ni* am gymeriad yr ewyllysiadau dwyfol yn holl dragwyddolrwydd ei fodaeth. Gallwn yn wir fyned rhagom i chwilio am seiliau y cyfryw wybodaeth ac argyhoeddiad; ac os rheidrwydd y penderfyniadau dwyfol fydd sail y cyfryw argyhoeddiad a gwybodaeth, rhaid caniatâu ei fod yn sail ddigonol. Ond a wna rhyw ddyn hòni mai rheidrwydd ydyw *unig* sail sicrwydd, gwybodaeth, ac argyhoeddiad? Os ydyw rheidrwydd yn gyffredinol, yn cymeryd i mewn bob bôd a dygwyddiad, yna wrth gwrs nid oes lle i'r cwestiwn hwn, yn gymaint ag nad oes yr un sail i sicrwydd heblaw rheidrwydd yn dybiadwy. Ond os caniateir, er mwyn rhesymiad, y gallai fod yna seiliau eraill i sicrwydd heblaw rheidrwydd, yna gofynwn pa un a ydyw rhagorolrwydd anfeidrol y rheswm dwyfol a'r teimladrwydd, yn eu cydgordiad perffaith, yn ein cynnysgaeddu â sail i'r grediniaeth fwyaf sicr a boddhaol y gwna yr ewyllys ddwyfol grëu a llunio bodaeth oll a threfnu pob dygwyddiad yn ol doethineb ac union-

* Lladin *moralis*, oddiwrth *mos*,—*i.e.* costwm, neu ymddygiad gyffrediu.

deb anfeidrol. Mewn trefn i gael ymddiried llawn y bydd i Dduw am byth wneuthur yr hyn sydd iawn, a raid i ni wybod fod ei ewyllys yn cael ei hollol orfodi gan ei reswm a'i serchiadau? Allwn ni ddim mwynhau y cyfryw hyder, tra yn caniatâu i'w Fawredd ryddid dewisiad hollol? Oni allwn gredu y gwna Barnydd yr holl ddaear farn, er ei fod trwy ei ewyllys rydd a hollalluog yn meddu y gallu i wneuthur yn wahanol? Ac yn enwedigol, allwn ni ddim credu hyn, pan y mae efe yn ei hollwybodaeth a'i wirionedd, wedi datgan y bydd i'w amcanion am byth fod yn gyfiawn, haelfrydig, a doeth? Onid ymddengys gogoniant a rhagorolrwydd Duw yn hyn,—tra y mae ganddo allu diderfyn, ei fod yn defnyddio y gallu hwnw trwy ei ewyllys rydd, yn unig i weinyddu cyfiawnder, trugaredd, a gras? Ac onid ymddengys rhagoroldeb a rhinweddolrwydd ffydd creadur yn hyn,—tra y gwyddys fod Duw mor alluog ac mor unbenaethol, etto yr ymddiriedir ynddo fel bôd yr hwn na wna byth droseddu unrhyw egwyddor neu deimlad moesol? Tybier fod ewyllys Duw yn cael ei gorfodi yn ei hewyllysiadau doeth a da,—y mae yr haul sydd yn gwasgaru goleuni a gwres, a thrwy eu gweithrediad yn dadblygu ac yn datguddio prydferthwch y greadigaeth, yn ymddangos llawn mor ragorol a theilwng o barch,—ac nid yw y creadur, sydd yn ymarfer parch tuag at Dduw ac yn ymddiried ynddo, yn dal perthynas wahanol ag ef na'r eiddo yr haulflod'yn a'r haul—yr hwn yn ol rheidrwydd ei natur, sydd fyth yn troi ei wyneb i fyny i dderbyn y dylanwadau sydd yn gweini i'w fywyd a'i briodoleddau.

Mae y sicrwydd moesol sydd yn nglŷn âg ewyllysiadau bodau crëedig perffaith yr un mewn math a'r un sydd yn canlyn ewyllysiadau y Duwdod. Sicrwydd ydyw sydd yn seiliedig ar sefyllfa berthynasol y rheswm a'r teimladrwydd, a'u hundeb gyda yr ewyllys. Lle bynag y mae y rheswm a'r teimladrwydd mewn cydgordiad, mae yno sicrwydd moesol. Wrth hyn yr wyf yn golygu, nad oes genym i gyfrif egnïad perthynasol egwyddorion gwrthwynebol, wrth ddyfalu cymeriad ewyllysiadau dyfodol yn y cyfryw amgylchiad:—mae yr oll sydd yn awr yn bodoli yn undeb cyfansoddedig yr enaid, mewn cysylltiad naturiol gydag ewyllysiadau da yn unig. Ond nid yw *gradd* y sicrwydd moesol mewn bodau crëedig, o'i gymharu a'r un sydd yn perthyn i ewyllysiadau y Duwdod, ond yn unig yn ol cyfartaledd y meidrol i'r anfeidrol. Yr ymddiried a roddwn ar gywirdeb bôd da, nid yw yn cyfodi oddiar yr argyhoeddiad fod ei ewyllysiadau yn rheidiol, ond oddiwrth ei arfer adnabyddus o ufuddhau i wirionedd a chyfiawnder; ac nid yw ein syniad am ei rinweddolrwydd ef yn cyfodi oddiar yr anmhosiblrwydd iddo wneuthur drwg, ond oddiwrth ei benderfyniad a'i arferiad adnabyddus o wneuthur da tra yn meddu gallu i wneuthur drwg, a thra dan demtasiynau i wneuthur drwg.

Ni byddai sicrwydd gyda golwg ar ewyllysiadau, pe yn seiliedig ar reidrwydd yr ewyllysiadau, yn gwahaniaethu dim oddiwrth sicrwydd anianyddol. Ond y mae gan sicrwydd moesol y gwahaniaethnod amlwg hwn,—ei fod yn seiliedig ar dueddiadau ac arferion pur ac amlwg yr unigolydd, heb fod yn cynnwys, modd bynag, unrhyw reidrwydd ewyllysiadau.

Gan hyny, nid yw sicrwydd moesol yn ddyhaerol ond am berffeithrwydd moesol yn unig, ac yn ddyhaerol mewn graddau yn ol urddas a rhagorolrwydd y fodaeth.

Ond tybiwn yn awr i ryw annhrefn gymeryd lle yn y teimladrwydd; hyny ydyw, gadewch i ni dybio fod y teimladrwydd, i ryw fesur, yn codi mewn gwrthwynebiad i'r rheswm, fel pan fyddo y rheswm yn gorchymyn mewn un cyfeiriad, fod y teimladrwydd yn rhoddi y syniad o'r mwyaf dymunol mewn cyfeiriad gwrthwynebol,—ac yna rhaid i'n dyfaliadau gyda golwg ar ewyllysiadau dyfodol amrywio yn ol hyny. Yma, nid yw sicrwydd moesol yn bodoli mwyach, oblegid fod ewyllysiadau i gael eu dyfalu yn awr mewn cysylltiad ag egwyddorion gwrthwynebol: ac ni all dyfaliadau bellach ymgodi ond i'r tebygol yn unig, ac mewn gwahanol raddau.

Wrth y *tebygol*, yr ydym yn golygu yr hyn na chyrhaeddodd at sicrwydd, ond yr hyn serch hyny sydd yn meddu seiliau ar ba rai yr hawlia gael ei gredu. Yr ydym yn ei alw yn *debygol* neu *brofadwy*, oblegid fod ganddo brofion a'i fod hefyd etto dan deiliau prawf, hyny yw, mae yn alluog o brawf pellach. Mae yr hyn sydd *sicr*, yn meddu yr holl brawf posibl i'r amgylchiad. Mae gosodiad mesuronol yn sicr ar dir rheidrwydd, ac nid yw yn caniatâu dim prawf uwch na'r hyn *sydd* mewn gwirionedd yn arddangos ei wirionedd.

Mae yr ewyllysiadau dwyfol yn sicr ar dir y dwyfol berffeithderau, ac ni chaniatânt ddim prawf uwch na'r hyn a geir yn y perffeithderau dwyfol.

Mae ewyllysiadau bôd crëedig da yn sicr ar dir purdeb y cyfryw fôd, ac heb ganiatâu unrhyw brawf uwch na'r hyn a geir yn y cyfryw burdeb.

Ond pan y deuwn at fôd o gymeriad cymysg, hyny yw, bôd o reswm, ac o deimladrwydd wedi eu llygru yn hollol neu mewn gwahanol raddau, yna mae genym le nid i sicrwydd, ond i debygolrwydd. Gan nad all ein gwybodaeth o ewyllysiadau dyfodol y cyfryw fôd, gael eu casglu ond yn unig oddiwrth yr hyn sydd yn bod yn awr, dibyna y cyfryw wybodaeth ar ein gwybodaeth o sefyllfa berthynasol bresenol ei reswm a'i deimladrwydd; ond nid yw gwybodaeth berffaith o hyn yn dybiadwy mewn unrhyw amgylchiad,—fel, er y gall ein gwybodaeth weithredol o'r cyfryw berson fod y fath fel ag i'n cynnysgaeddu â phrawf o'r hyn y dichon ei ewyllysiadau fod, etto, yn

gymaint ag y gall ein gwybodaeth o hono gael ei chynnyddu yn ddiderfyn trwy sylwadaeth fanwl ac efrydiaeth, felly cynnyddir y prawf hefyd. Yn ol y darnodiant o debygolrwydd a roddwyd uchod, ni ddichon ein gwybodaeth o ewyllysiadau dyfodol bôd anmherffaith ymgodi ond i wybodaeth debygol yn unig.

Penderfynir cyfeiriad y tebygoliadau gan orbwysedd y da neu y drwg a fydd yn y bôd cymysgedig ei gymeriad a dybir. Os bydd y teimladrwydd yn hollol lygredig, â y tebygolrwydd yn gyffredin yn nghyfeiriad y teimladrwydd llygredig, o herwydd mae yn un ffaith gyffredinol adnabyddus o berthynas i gyflwr o ddirywiad, fod mwyniannau y teimlad yn cael eu dewis o flaen y dyledswyddau a erchir gan y gydwybod. Ond rhaid i sefyllfa y rheswm ei hun gael ei ystyried. Os bydd y rheswm mewn cyflwr uchel o ddadblygiad, a'r argyhoeddiadau o'r hyn sydd iawn mewn canlyniad yn glir ac yn gryfion, fe all tebygolrwydd o ewyllysiadau croes i deimlad fod, pa rai na allant fodoli lle y mae y rheswm heb ei ddadblygu ac yn agored i gyfeiliornadau a rhagfarnau costwm ac ofergoeledd. Mae y gwahaniaeth yn yr hyn a adwaenir yn gyffredin dan y termau "cydwybod oleuedig ac anoleuedig."

Lle nad yw y teimladrwydd wedi hollol lygru, rhaid i'r tebygoliadau ddibynu ar y gradd o lygredigaeth a'r gradd i'r hwn y mae y rheswm wedi neu heb ei ddadblygu.

Gyda chyflwr penodol o eiddo y teimladrwydd a'r rheswm, dibyna cyfeiriad y tebygoliadau lawer iawn hefyd ar y gwrthddrychau a'r amgylchiadau a fyddant mewn cyd-berthynas, neu mewn gwrthwynebiad:—lle y byddo y gwrthddrychau a'r amgylchiadau yn cytuno gyda chyflwr y teimladrwydd a'r rheswm, neu i siarad yn gyffredinol gyda "chyflwr y meddwl," mae yn amlwg y bydd y tebygoliadau yn hawddach i'w penderfynu na phan y byddont yn wrthwynebol "i gyflwr y meddwl."

Y ddeddf ddyry Edwards i lawr fel deddf ewyllysiad yn gyffredinol, noder: "fod yr ewyllysiad fel y mae y da ymddangosiadol mwyaf:" a deall wrth y term "da" fel y gwna ef, yn syml yr hyn sydd yn ein taro yn "ddymunol," sydd yn wir yn rheol gyffredin yn ol yr hon y gall ewyllysiadau cymeriadau dwfn eu dirywiad gael eu dyfalu. Arddengys y ddeddf hon y dyn fel yn cael ei lywodraethu yn hollol gan ei nwydau, ac y mae hyn yn dynodi y ffurf waethaf o gymeriad. Deddf ydyw nad all ymestyn at yr hwn sydd dan oleuni ei reswm yn ymdrechu yn erbyn ei nwydau, ac mewn canlyniad rhaid i'r tebygoliadau yn yr amgylchiad olaf yma gael eu dyfalu mewn ffordd wahanol. Ond gyda golwg ar y cyntaf y mae yn rheol ddigonol.

Golyga tebygolrwydd, yn gystal a sicrwydd, fath a gradd ein gwybodaeth o unrhyw ddygwyddiadau, yn unig, ac nid yr achosion

trwy ba rai mae y dygwyddiadau yn cael eu cynnyrchu; pa un ai rheidiol ai damweiniol ydyw y cyfryw achosion sydd gwestiwn arall.

Un cyfeiliornad mawr wrth resymu o barth cymeriad yr achosion, mewn cysylltiad â dyfaliad tebygoliadau, ydyw y dybiaeth mai neillduolrwydd achosion rheidiol yn unig ydyw unffurfiaeth. Gellid gosod y rhesymiad i lawr yn y cyfresymiad canlynol:

Mewn trefn i ddyfalu unrhyw ddygwyddiadau gyda sicrwydd neu gyda thebygolrwydd, rhaid i ni dybio deddf unffurf o achosaeth; yna mae ein cyfrifiadau yn tybio rheidrwydd achosaeth.

Dyma enghraifft arall o gymhwyso at yr ewyllys egwyddorion a gafwyd ar y cyntaf oddiwrth sylwadaeth ar achosion anianyddol, pa rai mewn gwirionedd sydd yn perthyn i achosion anianyddol yn unig. Gyda golwg ar achosion anianyddol, *mae yn wir* yr ymddengys unffurfiaeth i fod yn nodwedd achosion rheidiol yn unig o herwydd fod achosion anianyddol yn achosion perthynasol reidiol:—ond gyda golwg ar yr ewyllys, *nid yw yn wir* fod unffurfiaeth yn ymddangos i fod yn nodwedd achos rheidiol oblegid nid achos rheidiol ydyw yr ewyllys. Gan hyny, nid yw yr unffurfiaeth (yr hwn yn amgylchiad achosion anianyddol a ymddengys i fod yn nodwedd achos rheidiol), yn cyfodi oddiwrth natur y meddylddrych o achos, ond oddiwrth natur y gwrthddrych neillduol, noder, achos *anianyddol.* Nid yw unffurfiaeth mewn manyldra rhesymegol, yn perthyn i achos o gwbl, ond i ddeddf neu reol. Effeithiolrwydd neu allu syml ydyw achos: darnoda deddf neu reol gyfeiriad, amcanion, a moddau gallu: egluro bodolaeth ymddangosiadau yn unig wna achos: eglura deddf eu perthynasau a'u nodweddion: deddf ydyw meddwl a bwriad y rheswm. Yn awr, gall achos gael ei osod yn y fath sefyllfa fel ag i fod yn analluog i weithredu oddieithr mewn ufudd-dod i ddeddf, a dyma amgylchiad pob achos anianyddol pa rai sydd yn gweithredu yn ol deddf neu fwriad doethineb anfeidrol, ac fel hyn nid yr eiddynt eu hunain ydyw yr unffurfiaeth yr ydym arferol o'i briodoli iddynt, ond perthyna i'r ddeddf yn ol pa un y gweithredant o angenrheidrwydd. Ond mae yr ewyllys yn achos nad yw wedi ei gosod yn y fath sefyllfa fel ag i fod yn analluog i weithredu oddieithr mewn ufudd-dod i ddeddf; gall osod ei hun mewn gwrthwynebiad i, a throseddu deddf, ond etto mae yn achos mewn cysylltiad â deddf, y ddeddf geir yn y rheswm a'r teimladrwydd, yr hon ddeddf wrth gwrs a fedd y neillduolrwydd o unffurfiaeth. Deddf y rheswm a theimladrwydd pur sydd unffurf—deddf iawnder ydyw. Deddf teimladrwydd cwbl lygredig sydd hefyd yn ddeddf unffurf; deddf teimlad neu nwyd ydyw; deddf i wneuthur pa beth bynag sydd fwyaf dymunol i'r teimladrwydd; ac mae pob unigolydd, beth bynag all fod gradd ei

lygredigaeth, yn ffurfio iddo ei hunan rhyw reolau ymddygiad, ac fel mae y meddylddrych noeth o reol yn cymeryd i mewn unffurfiaeth, dysgwyliwn yn mhob dyn fwy neu lai o unffurfiaeth ymddygiad. Nid yw unffurfiaeth achosaeth anianyddol yn ddim ond bwriad y rheswm goruchaf wedi ei ddadblygu yn narwelion natur. Nid yw unffurfiaeth ewyllysiad yn ddim ond bwriad rheswm a theimladrwydd pur, neu lygredig, wedi eu dadblygu yn yr ymddygiad dynol. Fel hyn, gan nad yw yr unffurfiaeth yn nodwedd achos fel y cyfryw, nis gall fod yn nodwedd achos rheidiol. Gan hyny, nid yw unffurfiaeth achosaeth, yn profi dim gyda golwg ar natur yr achos; gall fod, neu gall beidio bod, yn achos rheidiol. Nid oes unrhyw anhawsder mewn meddwl am unffurfiaeth mewn ewyllys rydd ddamweiniol, o herwydd perthyna y cyfryw ewyllys i reolau unffurf, pa rai y dysgwyliwn iddi yn undeb y fodaeth ufuddhau iddynt, ond pa rai hefyd y gwyddom nad ydynt yn gorfodi ufudd-dod. Mewn achosion anianyddol cawn unffurfiaeth achosion gorfodedig. Yn yr ewyllys ceir unffurfiaeth achos deallgar a rhydd. Gallwn feddwl am ryddid perffaith ac etto am drefn berffaith, o herwydd gall yr ewyllys rydd ddarostwng ei hun i oleuni y rheswm. Yn wir, mae holl drefn a chysondeb y cread, er yn tarddu o *feddylddrych* y rheswm, wedi ei gyfansoddi trwy allu yr ewyllys rydd anfeidrol. Trefn a chysonrwydd ydyw nid a orfodwyd ond a ddewiswyd gan allu sydd yn penderfynu ei hun. Nid ydyw ond tybiaeth hollol, yr hon nas gellir ei sefydlu, fod rhyddid yr unrhyw ag annhrefn.

### *Yn nghylch y geiriau, Rhagwybodaeth a Chynwybod.*

Cyffelybiaethol ydyw y geiriau hyn: nid yw *cyn* a *rhag* yn ansoddi *gwybodaeth* yn ei pherthynas â'r meddwl sydd yn meddu y wybodaeth; ond yr amser yn mha un y cymer y wybodaeth le yn ei berthynas a'r amser yn mha un y ceir gwrthddrych y wybodaeth. Mae y gyffelybiaeth yn gynnwysedig mewn rhoddi priodoledd amser y wybodaeth (o'i hystyried yn berthynol i amser gwrthddrych y wybodaeth) i'r act o wybodaeth ei hun. Gan ddeol y gyffelybiaeth er mwyn cyrhaedd eglurdeb mwy, gadewch i ni ddweyd,

Yn mlaenaf: Pob gweithred o wybod sydd weithred bresenol o wybod,—nid oes yna ddim *rhag* wybodaeth nac *ol* wybodaeth.

Yn ail: Gall gwrthddrychau gwybodaeth beidio bod mewn unrhyw berthynas o fath yn y byd i amser a lle, *e. g.* yn wirionedd dansoddol a rheidiol bur, megys $2 \times 2 = 4$; a'r bôd o Dduw. Neu gall gwrthddrychau gwybodaeth fod yn mherthynasau amser a lle, *e. g.* yr holl ymddangosiadau anianyddol.

Yn awr, mae y perthynasau hyn o amser a lle yn amrywiol;—gall

gwrthddrychau gwybodaeth fod mewn amser mynedol, neu amser presenol, neu amser dyfodol; a gallant fod mewn lle agos neu mewn lle pell. A dichon cynneddf gwybodaeth fod o allu i wybod y gwrthddrych yn yr holl berthynasau hyn dan ryw derfynau, neu heb fod dan unrhyw derfynau. Y gynneddf gwybodaeth, fel y mae yn gwybod gwrthddrychau yn holl berthynasau amser a lle, dan derfynau neu ammodau neillduol, ydyw y gynneddf fel y'i rhoddwyd i ddyn. Yr ydym ni yn gwybod gwrthddrychau mewn amser presenol, mynedol, a dyfodol; a gwyddom wrthddrychau yn agos ac yn mhell; ond etto nid yw ein gwybodaeth yn cyrhaedd at bob dygwyddiad yn yr un o'r perthynasau hyn, neu yn yr un o'r perthynasau hyn i'w terfyn eithaf.

Y gynneddf gwybodaeth hon fel y mae yn gwybod pob gwrthddrych yn holl berthynasau amser a lle, heb fod dan unrhyw derfynau, ydyw y gynneddf o dan ei ffurf ddwyfol ac anfeidrol. Dan y ffurf yma y mae yn amgyffred y presenol yn berffaith, a'r mynedol a'r dyfodol yn gymaint felly a'r presenol—ac mae yn cyrhaedd trwy bob lle. Mae gwybodaeth Duw yn DRAGWYDDOL BRESENOL *(eternal now)*—yn YMA HOLL-BRESENOL *(an omnipresent here)*; hyny yw, mae yr oll sydd yn bosibl ac yn weithredol mewn lle ac yn nhragwyddoldeb, yr awr hon yn berffaith adnabyddus iddo. Yn wir ni ddylid siarad am wybodaeth Duw mewn perthynas i amser na lle; mae yn wybodaeth anfeidrol a hollol, o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb yr un; y mae yn anghyfnewidiol o herwydd ei bod yn berffaith; nis gall gael ei chynnyddu na'i lleihau.

Dangosasom o'r blaen nad ydyw perffeithrwydd y wybodaeth yn sefydlu modd achosaeth: mae yr hyn sydd yn d'od o amgylch drwy reidrwydd, a'r hyn sydd yn cymeryd lle yn ddamweiniol, yn gyffelyb adnabyddus i Dduw.

## DIWEDDGLO.

Yma yr wyf yn gorphen fy adolygiad ar Gyfundrefn Edwards, a'i ddadleuon yn erbyn y gyfundrefn wrthwynebol iddi. Yr wyf yn gobeithio nad wyf wedi meddwl neu ysgrifenu yn ofer. Amcenais ddwyn fy adolygiad yn mlaen yn deg ac anrhydeddus, ac oddiar barch goruchaf i'r gwirionedd. Gyda golwg ar arddull, am eglurdeb yn unig y llafuriais, a lle yr oedd ymadrodd cartrefol yn ateb fy nyben oreu, ni phetrusais ei fabwysiadu. Nis gellir dilyn prydferthion cain rheitheg fel y'u deallir yn gyffredin, mewn rhesymiaeth fanwl. Mae yn amlwg fod ysgafn-droedio ar arwynebedd blodeuog gyda darfelydd, tra yr ydym yn mwngloddio yn nyfnderoedd rheswm, yn hollol anmhosibl.

Yr wyf yn anrhydeddu ac yn edmygu y dyn mawr gyda gwaith yr hwn y bum yn ymdrin ar gyfrif ei allu deallol, ac yn ei garu ac yn ei barchu ar gyfrif purdeb a dyrchafedd ei ysbryd, yr hyn sydd yn ei osod yn mhlith yr enwau mwyaf santaidd a fedd yr eglwys Gristionogol. Ond a wnaethum i yn feius wrth beidio cymeryd fy hudo gan ei athrylith, fy ennill na'm gorchymyn gan ei dduwioldeb i gredu ei athroniaeth? Naddo, os ydyw yn athroniaeth gau. Pan mae yn fy arwain at y groes, ac yn siarad wrthyf am iachawdwriaeth, yr wyf yn gwrando arno gyda sylw mud—ac ymddengys fel pe b'ai un o hen bregethwyr oes y merthyron wedi ail-ymddangos. Ond pan y'm cymerir ganddo am dro trwy lwyni yr Academi, yr wyf yn edrych arno mewn cymeriad gwahanol, ac yma nid yw ei lais yn seinio i mi mor felus a'r eiddo Plato.

Dyma ran gyntaf fy ymgymeriad wedi ei gwblhau. Pan y blinaf y cyhoedd y tro nesaf gyda'm nos-fyfyriadau, ymddangosaf nid fel adolygydd, ond mewn gwaith gwreiddiol, yr hwn yn ei dro raid ddyfod yn ddarostyngedig i feirniadaeth athronyddol.

Y DIWEDD.

BLAENAU FFESTINIOG:
ARGRAFFWYD GAN JONES AC EVANS.

LIBRARY
14 JUL 1976
UNIVERSITY OF TORONTO

PLEASE DO [illegible] EMOVE
CARDS OR SLIPS [illegible] POCKET

UNIVERSITY OF [illegible] TO LIBRARY

BJ
1461
E333
T3719
1872
c.1
ROBA